

Canllawiau Uwch 2



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



Dysgu
Learn

Cwrs Uwch 2 – Canllaw i'r Tiwtor

Croeso i'r Cwrs Uwch cenedlaethol – Cwrs Uwch 2, sef yr ail o dair cyfrol ar lefel Uwch. Ceir 25 o unedau a dylai dosbarthiadau sy'n cwrdd am ddwy awr yr wythnos anelu at gwblhau hanner cyntaf y gyfrol o fewn un flwyddyn academaidd a dylai dosbarthiadau dwys anelu at orffen o leiaf Uwch 2, yn dibynnu ar ddwyyster y dosbarth. Hon yw'r lefel gyntaf lle na chyflwynir fersiynau gwahanol ar gyfer y de a'r gogledd.

Cyflwynir thema benodol ym mhob uned trwy gyfrwng darnau darllen, gwrando, gwylio a chyfleoedd sgwrsio. Ceir sylw i waith gramadegol ym mhob uned hefyd.

Yn ogystal â'r unedau yn y gyfrol hon, anfonir pum gwers gyfoes at diwtoriaid yn ystod y flwyddyn – bydd y rhain yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Egwyddorion Cyffredinol

Ceir llawer o gynnwys yn yr unedau ond ni ellir gorbwysleisio neilltuo digon o amser ar gyfer sgwrsio a thrafod. Ni ddylid gwneud yr holl gynnwys thematig ar ffurf darllen, gwylio a gwrando ar draul gwaith llafar, os nad oes amser i gyflawni popeth. Mewn Cwrs Uwch, mae'n bosib iawn y bydd tiwtoriaid eisiau cyflwyno elfennau ychwanegol i'r gwersi ac felly nid oes angen cyflawni pob un cam ym mhob uned.

Y Safle Rhyngweithiol

Ceir nifer fawr o adnoddau i gyd-fynd â phob uned ar y Safle Rhyngweithiol – **www.dysgucymraeg.cymru**. Mae hyn yn cynnwys llawer o'r deunyddiau sain a fideo i'r dysgwr a'r tiwtor, ynghyd ag ymarferion ychwanegol i'r dysgwyr eu hunain.

Elfennau gwahanol yn y cwrs:

Geirfa

Mae dysgu geirfa'n gwbl allweddol i fanteisio'n llawn ar y cwrs hwn. Daw geirfa pob uned ar ddechrau'r uned. Dylid annog y dysgwyr i ymgysgu ymgyfarwyddo â'r eirfa cyn dod i'r dosbarth er mwyn gallu deall y darnau darllen, gwrando a gwylio yn well. Gellir gweld a chlywed y geiriau ar-lein a gwneud ymarferion.

Yn ddiau, bydd y dysgwyr eu hunain yn gofyn am eirfa sy ddim yn y cwrs. Ceir lle iddynt nodi'r geiriau hyn yn eu llyfrau ond argymhellir hefyd fod tiwtoriaid yn creu cardiau fflach er mwyn ymarfer y geiriau hyn.

Rhennir yr eirfa'n enwau gwrywaidd, enwau benywaidd, berfenwau, ansoddeiriau ac eraill. Ceir allwedd i'r dysgwyr yn y ddwy uned gyntaf.

Awgrymir profi geirfa yn gyson. Gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd, e.e. prawf confensiynol, kahoot, chwila'r, quizlet, Bingo. Dull arall yw gofyn iddyn nhw ysgrifennu 3 colofn ar ddarn o bapur:

Dw i'n gwybod y gair Dw i'n meddwl fy mod i'n gwybod y gair Dw i ddim yn cofio

Gallant drafod eu colofnau gyda phartner cyn mynd dros y geiriau fel dosbarth cyfan.

Un dull arall yw gofyn iddyn nhw ysgrifennu 4 colofn ar ddarn o bapur:

Dw i'n gweld	Dw i'n clywed	Dw i'n teimlo	Dw i'n arogli
<i>tomen ysbwriel</i>	<i>ceir</i>	<i>gorboblogi</i>	<i>bara ffres</i>

Galwch eiriau gan ofyn iddyn nhw roi'r gair yn y golofn briodol, sef y ffordd maen nhw'n ystyried y gair hwn. Nodir ambell i air uchod fel enghraifft. Eto, bydd trafodaeth dosbarth yn ddiddorol.

Wrth droi at y themâu mewn rhai o'r unedau, ceir gweithgaredd o'r enw Storom eirfa. Gofynnir i barau restru o leiaf X o eiriau yn seiliedig ar y thema. Gellid defnyddio'r sesiwn hon i wneud gwaith ymestynnol lle bo'n briodol, e.e. os bydd pâr yn cynnig enw, gellid gofyn am yr ansoddair, gellid cynnig cyfleoliadau diddorol, neu unrhyw ddefnydd o'r gair mewn cyd-destun arall.

Gwaith gramadeg/iaith

Mae'r ymarferion yn amrywio'n fawr o uned i uned. Ceir adran Help Llaw ym mhob uned. Wrth weithio trwy'r awgrymiadau yn y Canllawiau, byddant gan amlaf yn arwain at ddarllen dros yr Help Llaw i grynhoi yn hytrach na dechrau gyda'r Help Llaw ym mhob gwers. Ceir un gweithgaredd i adolygu'r patrwm dan sylw yn yr uned ar ddechrau'r uned nesaf.

Darnau Darllen

Ceisir cadw'r darnau at 300 o eiriau. Ceir ymarferion amrywiol i gyd-fynd â'r darnau ond ceisir osgoi cwestiynau darllen a deall confensiynol – daw'r rhain yn y gwaith cartref. Gellid hefyd amrywio'r modd y defnyddir y darnau darllen eu hun:

- Yn aml iawn, dyw dysgwyr ddim yn hoffi darllen yn uchel heb gael y cyfle i baratoi yn gyntaf. Gellid gofyn i'r dysgwyr ddarllen yn dawel fesul paragraff. Ar ôl pob paragraff bydd y tiwtor yn darllen y darn yn uchel ac yn ateb cwestiynau. Ar y diwedd, gall parau ymarfer darllen yn uchel, os bydd angen.
- Y tiwtor i ddarllen y darn cyfan yn uchel yn gyntaf, gyda'r dysgwyr yn marcio unrhyw beth nad ydyn nhw'n ei ddeall a'r tiwtor yn ateb cwestiynau ar y diwedd. Wedyn, gall parau ymarfer darllen yn uchel, os bydd angen.
- Parau neu'r dosbarth cyfan i ddarllen yn uchel – gellid gofyn i'r dysgwyr baratoi ar gyfer y cam hwn ymlaen llaw trwy ddarllen y darn cyn dod i'r dosbarth.

Gellir hefyd ddefnyddio rhai o'r gweithgareddau cyffredinol isod gyda unrhyw ddarn darllen:

- a) Rhagweld y cynnwys o'r teitl – gall hyn godi chwilfrydedd yn y darn.
- b) Crynhoi. Mae hyn yn baratoad da ar gyfer prawf llafar Defnyddio'r Gymraeg Uwch lle mae angen tynnu sylw at y prif bwyntiau mewn erthygl. Gall hyn brofi gwir ddealltwriaeth.
- c) Ad-drefnu paragraffau i greu testun (neu ddeialog) cydlynus.
- ch) Cymryd un frawddeg o'r darn, gan gymysgu'r geiriau a gofyn i barau ei rhoi yn y drefn gywir. Yn dibynnu ar y frawddeg, gellid disodli un neu fwy o'r elfennau.

Mae'r rhan fwyaf o'r ymarferion sy'n dilyn y Darnau Darllen yn dilyn pwyntiau ieithyddol neu yn sbarduno sgwrs. Mae'n bosib y byddwch am drafod rhywbeth diddorol sy'n codi yn y darn ei hun o bryd i'w gilydd.

Darnau Gwrando a Gwyllo

Cynigir syniadau gwahanol ar gyfer yr holl ddarnau gwrando a gwyllo. Defnyddir nifer o ddarnau dilys o Radio Cymru a rhaglenni S4C felly rhaid ceisio rhoi hyder i'r dysgwyr fodloni ar ddeall y prif bwyntiau. Ceir canllawiau unigol ar gyfer pob uned, ond ceir isod rai syniadau y gellir eu defnyddio gyda phob darn gwrando/gwyllo:

- Dylid chwarae'r darn fwy nag unwaith.
- Chwarae'r darn unwaith heb unrhyw dasg benodol. Gellid wedyn ofyn i bawb sôn am un peth a ddeallwyd. Gall hyn fod yn ffordd o feithrin hyder.
- Rhoi teitl y darn i'r dosbarth a gofyn iddynt ragweld y cynnwys neu ragweld geirfa fydd yn codi – mae hyn yn codi chwilfrydedd.
- Yn dibynnu ar ardal y dosbarth, efallai y bydd yn ddefnyddiol tynnu sylw at nodweddion ieithyddol na chyfeirir atynt yn y canllawiau. Gellir hefyd ofyn i bobl adnabod seiniau neu eiriau unigol.

Arfer da yw rhoi sylw i ffynhonnell y darn ac annog y dysgwyr i wyllo neu wrando ar raglenni tebyg cyfredol.

Siarad

Mae Gwaith Llafar Cychwynnol yn bwysig iawn ar ddechrau pob uned. Oni cheir Gwaith Llafar penodol yn yr uned, argymhellir defnyddio'r isod bob yn ail:

Cymryd un o'r cardiau dadl o'r Blwch Adnoddau a rhannu'r dosbarth yn grwpiau bach i'w drafod.

Trafod y newyddion - dyma rai syniadau:

- i. Rhoi pedair colofn ar y bwrdd gwyn - Cymru Ewrop Y byd Lleol - gofynnwch i barau feddwl am stori gyfredol ym mhob categori;
- ii. Dangos lluniau o'r newyddion (wedi eu torri o bapur newydd neu ar sgrin). Rhaid i grwpiau ddweud cymaint ag y gallant am y stori neu feddwl beth all y stori fod os na wyddant beth yw hi. Gellid hefyd ofyn iddyn nhw greu pennawd ar gyfer y llun neu baru llun a phennawd.
- iii. Rhoi pennawd neu benawdau bras a gofyn i'r grwpiau feddwl am stori sy wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar, e.e. Tân mawr, damwain, carchar, pobl ifainc, beirniadu gwleidyddion, arolwg/adroddiad newydd.

Fel y nodir uchod, mae neilltuo amser digonol ar gyfer gwaith llafar yn gwbl hanfodol a cheir cyfleoedd niferus yn yr unedau ar gyfer cyfleoedd siarad rhydd. Dylid hefyd sicrhau bod y dysgwyr yn cael cyfle i sgwrsio'n anffurfiol ar ddechrau'r wers. Mae'n bwysig creu'r amodau cywir ar gyfer gwaith llafar – digon o gyfle i drafod mewn parau a grwpiau bach, creu ethos o fod yn gynhwysol a pharchu cyfraniad pawb.

Dylid trin pob dosbarth yn unigol ond yn gyffredinol argymhellir ymyrryd mewn gwaith llafar pan fo'n briodol, e.e. os bydd yr un gwall yn codi dro ar ôl tro. Ni ddylid gorgywiro ond gellid cadw cofnod o rai o'r gwallau a rhoi sesiwn adborth ar ddiwedd y gweithgaredd. Gellid cael y dysgwyr i gydsynio i'r dull hwn o weithredu.

Ni chyfeirir yn benodol at gael siaradwyr rhugl i ymweld â gwersi ond dylid gwneud hyn mor aml â phosibl.

Gwaith Cartref

Ceir ymarferion gwahanol bob tro, gan gynnwys cyfle i ymarfer ysgrifennu'n rhydd. Dylid gosod tasg ym mhob gwers, nid ar ddiwedd yr unedau yn unig. Ceir ymarferion ychwanegol ar y Safle Rhyngweithiol.

Unedau Adolygu

Mae'r unedau adolygu'n canolbwyntio ar gyflawni tasg o ryw fath, e.e. llunio eitem i'r papur bro yn Uned 9. Gwych iawn fyddai gweld dosbarthiadau'n mynd ati i weithredu'r syniadau hyn.

Unedau Cyfoes

Mae'n bwysig iawn cadw pob cwrs yn gyfoes, ond yn enwedig cyrsiau Uwch gan fod cymaint o bwyslais ar ddatblygu sgiliau trafod. O'r herwydd, hyderir na fydd y gwaith yn yr unedau creiddiol yn dyddio'n gyflym, ond ceir 5 uned gwbl gyfoes fydd yn gyfle i drafod pethau sy'n digwydd yng Nghymru ar y pryd, neu yn y byd os ydyn nhw'n bethau sy'n cael eu trafod gan bawb yn y Gymraeg. Bydd y gwersi hyn ar gael ar Safle Rhyngweithiol y Ganolfan.

Adolygu Uwch 1

Ar ddiwedd rhai o'r unedau, ceir gweithgareddau syml i adolygu'r gwaith yn yr uned gyfatebol yn Uwch 1. Mae'n bosib y bydd rhai o'r rhain yn ddefnyddiol at ddibenion adolygu. Dylid cofio hefyd y gellir ailddefnyddio'r cardiau sydd ym mlwch adnoddau Uwch 1.

Uwch 1	Pwynt leithyddol	Uwch 2
Uned 1	Y gorffennol cryno	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 1 - arddywediad
Uned 2	Y dyfodol	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 2 – cyfres o ddriliau
Uned 3	Y dyfodol cryno – berfau afreolaidd	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 3 – gweithgaredd creu cwestiynau
Uned 4	Yr amodol	Adolygu o fewn uned 4
Uned 5	Y cymal enwol	Adolygu o fewn uned 5
Uned 6	Atebion	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 6 – cardiau ymarfer
Uned 7	Cynffoneiriau	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 7 – creu cynffoneiriau
Uned 8	Y goddefol	Adolygu o fewn uned 8
Uned 9	Adolygu	-
Uned 10	Cymharu ansoddeiriau – y radd gymharol	Awgrym ar ddiwedd uned 10
Uned 11	Cymharu ansoddeiriau – y radd eithaf	Awgrym ar ddiwedd uned 11
Uned 12	Y lluosog	Adolygu o fewn uned 12
Uned 13	Arddodiaid	Awgrym ar ddiwedd uned 13 – cyfres o ddriliau
Uned 14	Arddodiaid cyfansawdd	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 14 – creu brawddegau
Uned 15	Rhifolion	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 15 – ymarfer ffurfiau traddodiadol
Uned 16	Trefnolion	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 16 – ymarfer dyddiadau diwrnodau arbennig
Uned 17	Adolygu	
Uned 18	Y cymal enwol	Adolygu o fewn uned 5
Uned 19	Cymalau enwol pwysleisiol	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 19
Uned 20	Brawddegau pwysleisiol	Adolygu o fewn uned 20

Uned 21	Yr amodol cryno	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 21 – cyfres o ddriliau
Uned 22	Byth/Erioed	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 22 - driliau
Uned 23	Adolygu	
Uned 24	Hwn, hon, hyn	Adolygu o fewn uned 21
Uned 25	Mewn ac Yn	Awgrym ar ddiwedd canllawiau uned 25 - cyfieithiadau

Asesu ar gyfer Dysgu

Mae hwn yn rhywbeth y dylai tiwtoriaid fod yn ei wneud yn barhaus, ond mae'n bwysig iawn ar ddiwedd gwrs. Dyma rai syniadau:

- i. Gofyn ar ddiwedd gwrs beth a ddysgwyd. Gellir nodi'r pethau hyn ar y bwrdd gwyn a llenwi unrhyw fylchau. Gellid tynnu siâp ymennydd ar y bwrdd a llenwi'r siâp.
- ii. Rhoi post-it i bob dysgwr nodi tri pheth a ddysgwyd yn ystod y wers. Gellir eu casglu a dychwelyd atynt ar gyfer atgyfnerthu ar ddechrau'r wers nesaf.
- iii. Rhoi post-it i bawb gofnodi eu hoff frawddeg o'r wers/uned. Gellir eu hailddosbarthu a chael pawb i ddyfalu pwy ysgrifennodd beth.
- iv. Dewis hyd at bedwar gair o'r wers a gofyn i bawb ysgrifennu 4 brawddeg/cwestiwn yn ymarfer y geiriau hyn a'r patrymau targed.
- v. 3-4-5. Pawb i ddweud tri pheth maen nhw wedi'u dysgu wrth bedwar person mewn pum munud.
- vi. Pawb i greu bwydlen yn nodi tri peth mawn nhw wedi'u dysgu ar ffurf cwrs cyntaf, prif gwrs a phwdin. Gellid gofyn am rywbeth gwahanol ym mhob categori, e.e. cwrs cyntaf yn eitem geirfa, y prif gwrs yn batrwm a'r pwdin yn ddarn o wybodaeth newydd. (Gallai'r wybodaeth hon fod yn gyfle Dysgu Anffurfiol.)
- vii. Ysgrifennu neges destun at ffrind yn dweud beth ddysgwyd yn y wers/uned.

Cardiau dadl

Dylai rhieni gael dewis pryd mae eu plant nhw'n dechrau yn yr ysgol.	Dylai pawb dreulio hanner awr yn gwneud ymarfer corff bob dydd.
Dylai pobl ifainc un ar bymtheg oed gael pleidleisio.	Mae llysiau'n fwy blasus na ffrwythau.
Dylai'r penwythnos ddechrau ar nos lau.	Does neb yn ysgrifennu llythyrau erbyn hyn.
Dylai pawb gael eu talu yr un faint, beth bynnag yw eu swydd.	Ddylai llyfrau ddim cael cloriau.
Dylai pawb gael gwared â phethau bob pum mlynedd.	Dylai pob disgybl ysgol gael gwersi coginio.
Dylai pobl roi anrhegion ar eu pen-blwydd nhw, yn hytrach na'u derbyn.	Dylai pawb fynd ar wyliau yn eu gwlad eu hunain.
Ddylai plant ddim cael gwyllo'r teledu nes eu bod nhw'n saith oed.	Dylai pawb ddiffodd eu ffonau symudol yn ystod y dosbarth Cymraeg.
Mae meysydd awyr yn llefydd diflas.	Dylai pawb gael triniaeth ddeintyddol am ddim.
Mae angen traffordd rhwng de a gogledd Cymru.	Dylid annog pobl ifainc i deithio'r byd.
Dylid cau pob sŵ.	Mae gweld pobl yn taflu ysbwriel yn dân ar fy nghroen.
Mae gormod o bobl ifainc yn mynd i'r brifysgol.	Does dim un teulu angen mwy nag un car.

Uned 1 – Canllaw i'r tiwtor

Nod ieithyddol: Dysgu mwy am dafodieithoedd

Thema: De a Gogledd (tafodiaith)

Mae'n bwysig cael y dysgwyr i siarad o'r cychwyn cyntaf. Os yw hwn yn ddosbarth ar ddechrau blwyddyn academaidd, dylid gwneud gweithgaredd torri'r îa a fydd yn dibynnu ar gyfansoddiad y dosbarth (h.y. a ydyn nhw'n adnabod ei gilydd). I grŵp sy'n adnabod ei gilydd, gellir rhannu'n barau'n neu'n grwpiau bach i drafod eu newyddion. I grŵp sy ddim yn adnabod ei gilydd, gellir rhannu'n grwpiau bach i ganfod pethau sy ganddynt yn gyffredin, e.e. mwynhau'r un pethau, wedi bod i'r un gwledydd neu ddigwyddiadau, adnabod yr un bobl.

Cam 1 – Siarad: Dod i adnabod y dosbarth a'r tiwtor

Mae'r gweithgaredd cychwynnol yr un fath â'r un a geir yn Uned 1 Uwch 1, ond bod y cwestiynau'n wahanol ac yn fwy heriol.

Paratowch y cardiau (Atodiad 1), a'u gosod wyneb i fyny ar fwrdd yn yr ystafell ddosbarth cyn i'r dosbarth ddechrau. Byddai'n syniad da cael o leiaf dau gopi o bob cerdyn.

- i) I ddechrau, gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda phartner i baru'r geiriau o'r cardiau gyda'r diffiniad cywir (yn eu gwerslyfrau).
- ii) Rhwch ychydig funudau i'r dysgwyr ddewis tri cherdyn, sef 2 gerdyn sy'n eu disgrifio'n dda, ac un cerdyn sydd ddim yn eu disgrifio'n dda o gwbl. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod eu cardiau gyda'u partneriaid. Pe bai angen, gallech awgrymu cwestiynau iddynt e.e. 'Pam rwyd ti wedi dewis y cerdyn yna?'; 'Beth oedd enw dy ffrind dychmygol?' Gallech ofyn iddynt newid partneriaid ar ôl amser penodol, ond gadewch iddynt aros gyda'r un partner os yw'r cardiau wedi sbarduno sgwrs dda.
- iii) Os yw'r dosbarth yn weddol dawl a'r cardiau heb sbarduno llawer o sgwrsio, gellir ymestyn y defnydd o'r cardiau disgrifio drwy ddod o hyd i gardiau sy'n:
 - o disgrifio **unigolion**,
 - o disgrifio pethau sy'n gyffredin i **barau/grwpiau**
 - o berthnasol i'r **dosbarth cyfan**
- iv) Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru, i ddyfalu ystyr y geiriau yn y cwrslyfr, sef amyneddgar, anniolchgar, hawddgar, petrusgar, cyfeillgar a gweithgar. Ar ôl rhoi amser iddynt drafod y geiriau, trafodwch y geiriau fel dosbarth. Ydyn nhw wedi'u defnyddio o'r blaen? Fydden nhw'n defnyddio rhai o'r geiriau hynny i'w disgrifio eu hunain?

- v) Y dasg olaf ynghlwm â'r cardiau yw cyfieithu brawddegau i'r Gymraeg, gan ddefnyddio eu geirfa newydd. Dyma'r atebion:
1. *She was wearing an unusual dress.*
Roedd hi'n gwisgo ffrog anarferol.
 2. *I never take selfies.*
Dw i byth yn tynnu hunluniau.
 3. *Aled is writing about an imaginary country.*
Mae Aled yn ysgrifennu/sgwennu am wlad ddychmygol.
 4. *You have to drive slowly and carefully on this road.*
Rhaid i chi yrru'n araf ac yn bwylog ar yr heol / ffordd / lôn yma.
 5. *I get excited when I go shopping for new shoes.*
Dw i'n cyffroi wrth fynd i siopa am esgidiau newydd.

Cam 2 – Geirfa

Fel y nodir yn y Canllawiau Cyffredinol, dylid mynd dros yr eirfa yn y wers flaenorol fel arfer, ond yn achos yr uned hon, dylid gwneud hynny ar ôl cwblhau'r gwaith siarad cychwynnol. Tynnwch sylw at y cod lliw. Mae'n bwysig defnyddio'r eitemau geirfa i dynnu sylw at nodweddion neu batrymau, e.e.

Camddealltwriaeth rhestru geiriau eraill sy'n dechrau gyda'r rhag-ddodiad **cam**

Anhawster (anawsterau) tynnu sylw at eiriau eraill sy'n colli 'h' yn y lluosog, e.e. cymhwyster, cynhadledd. Gellir hefyd sôn am fôn y berfau cyrraedd ac aros.

Perffeithio tynnu sylw at y newid llafariad – perffaith > perffeithio a gofyn am enghreifftiau eraill, e.e. gwaith>gweithio, taith>teithio.

Cofiadwy, credadwy tynnu sylw at yr ôl-ddodiad **adwy** (*ible, able*) a gofyn am enghreifftiau eraill, e.e. ofnadwy, bwytdwy, dibynadwy.

Cam 3 – Help llaw: Pennaf

Nid oes gwaith gramadegol newydd yn yr uned hon oherwydd ei bod yn trafod tafodieithoedd, felly yn hytrach, ceir ymarfer ar y gair 'pennaf'.

Trafodwch y gair gyda'r dysgwyr, gan esbonio'r enghreifftiau a geir yn yr Help llaw. Yna, rhowch amser iddynt lenwi'r bylchau yn y brawddegau, gan ddefnyddio chwe ymadrodd sy'n cynnwys **pennaf**. Dyma'r atebion:

1. Maen nhw gyda'i gilydd drwy'r amser. Maen nhw'n **ffrindiau pennaf** ers y Cylch Meithrin.
2. Ti sy'n **bennaf cyfrifol** am y llanast, felly ti ddylai dacluso.
3. Faswn i ddim yn siarad fel yna gyda fy **ngelyn pennaf**! Mae'n ofnadwy!
4. Mae'r cynnydd ym mhris bwyd yn **effeithio'n bennaf** ar deuluoedd incwm isel.

5. Rhaglen deledu i blant yw hon **yn bennaf** ond mae llawer o rieni yn mwynhau ei gwyllo hi hefyd.
6. Mae pobl yn ei gofio, **yn bennaf oll**, achos ei fod e'n ganwr arbennig o dda.

Cam 4 – Cyflwyno tafodieithoedd Cymru

Thema'r uned hon yw De a Gogledd, a'r nod yw cyflwyno'r dysgwyr i'r prif wahaniaethau rhwng tafodieithoedd y de a'r gogledd, oherwydd mai un fersiwn sydd o gwrs Uwch 2. Bydd disgwyl iddynt ddeall tafodieithoedd o ardaloedd eraill o Gymru mewn fideos, clipiau sain a darnau darllen (ond wrth ddrilio ac mewn gwaith sgwrsio, dylech eu hannog i barhau i ddefnyddio'r dafodiaith a ddysgwyd ganddynt mewn cyrsiau blaenorol, ac a ddefnyddir yn naturiol yn eich ardal chi).

Ceir map o dafodieithoedd Cymru yn y cwrslyfr, i roi darlun bras i'r dysgwyr o wahaniaethau tafodieithol y Gymraeg, ac ym mhle maen nhw'n digwydd.

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau, i edrych ar y map a thrafod y geiriau arno. Pa mor gyfarwydd ydyn nhw â geiriau tafodieithol o ardaloedd eraill? Ydyn nhw'n defnyddio geiriau tafodieithol yn eu hiaith bob dydd? Pa mor wahanol i'w gilydd yw Cymraeg y gogledd a Chymraeg y de yn eu barn hwy?

Yna, gallech drafod hyn ymhellach fel dosbarth, a rhoi cyfle i bob grŵp rannu eu sylwadau.

Cam 5 – Gwyllo a gwrando – Fideo Tafodieithoedd y Gymraeg

Bydd y dysgwyr eisoes wedi trafod tafodieithoedd y Gymraeg yn fras. Bydd cyfle nawr iddynt ddysgu rhagor am y pwnc trwy wyllo fideo gan arbenigwr yn y maes, Dr Iwan Rees o Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Os teimlwch ei bod yn bridool, dylech hefyd ddewis dau o'r clipiau sy'n enghreifftio nodweddion tafodieithol.

Mae'r clipiau hyn yn anodd iawn a dylid egluro mai gwrando am rai nodweddion y dylid ei wneud, yn hytrach na cheisio deall pob gair. Ceir copi o'r sgriptiau yn Atodiad 2.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando. Dyma atebion y cwestiynau.

1. Yn ôl Dr Iwan Rees, beth yw **tafodiaith**?
Mae'n dod o'r gair tafod. Iaith bob dydd ac iaith lafar yw tafodiaith.
2. Mae Dr Iwan Rees yn sôn am barau o eiriau sy'n golygu'r un peth, er enghraifft 'mas' yn y de ac 'allan' yn y gogledd. Allwch chi feddwl am ddwy enghraifft arall?

Mae Iwan Rees yn sôn am rŵan / nawr, mam-gu/ nain a llwynog / cadno hefyd, ond gall y dysgwyr nodi enghreifftiau maen nhw'n eu gwybod eisoes.

3. Sut mae ystyr 'blin' yn wahanol yn y de a'r gogledd?
Mae'n golygu 'sorry' yn y de a 'crac' / 'angry' yn y gogledd.
4. Pam mae gogledd Ceredigion yn cael ei galw'n 'ardal drawsnewid' (transition zone)?
Mae 'mas' ac 'allan' yn cael eu defnyddio yno. Does dim ffin bendant ar gyfer iaith y de ac iaith y gogledd.
5. Rhowch un enghraifft 'leol' o'r gair 'bachgen' / 'hogyn'.
Cog, rhocyn, crwt, crwtyn.
6. Pa lythyren sy'n cael ei dweud yn wahanol yn y gogledd a'r de?
u. Mae 'i' ac 'u' yr un peth yn y de.
7. Mae Dr Iwan Rees yn dweud bod ffactorau heblaw am ddaearyddiaeth yn effeithio ar dafodiaith person. Beth ydyn nhw?
Oedran, rhywedd, dosbarth cymdeithasol, sefyllfa (ffurfiol / anffurfiol) [efallai y bydd angen help ar y dysgwyr i ateb y cwestiwn hwn].
8. Ceir dewis o saith fideo ar y Safle Rhyngweithiol ond dylech chi ddewis y ddau mwyaf addas ar gyfer eich dosbarth chi. Ceir copi o'r sgript yn Atodiad 2.

Cwm Tawe	Sir Benfro	Caernarfon	Y Rhos	Sir Drefaldwyn	Yr Wenhwyseg	Rhydfelyneg
Caledu cytseini-aid Mae b,d,g yn troi yn c,p,t. e.e. 'gwpod.'	'oe' yn troi yn 'we' e.e. 'dwe' yn lle 'ddoe', 'wes' yn lle 'oes' 'wedd' yn lle 'oedd'. Hefyd mae 'dd' yn cael ei gollwng e.e. 'gily' yn lle 'gilydd', 'myny' yn lle 'mynydd'.	'a' yn lle 'e' yn y sillaf olaf, e.e. 'capal'. 'ie' yn troi'n 'ia'. Hefyd, mae 'ia' yn cael ei ddefnyddio fel atodair ('tag') ar ddiwedd brawddeg.	Mae 'nene yne' yn cael ei ddweud yn lle 'hwnna fanna'. Mae'r llafari-aid yn fain: e.e. côed yn lle coed.	Mae 'a' hir yn troi'n 'e', e.e. têt, mêb yn lle tad a mab.	Fel Sir Drefaldwyn, mae'r 'a' hir yn troi'n 'e'. Hefyd gall y sillaf olaf droi'n 'a' fel yn y gogledd orllewin, e.e. 'petha' a 'carrag'.	Ni sonnir am nodweddion penodol. Esbonnir bod rhieni plant ysgolion Cymraeg y de-ddwyrain yn dod o wahanol ardaloedd, ac felly bod tafodiaith newydd yn ffurfio. Ond bydd dysgwyr yn sylwi ar eiriau a chystrawenau Seisnig.

Ceir y cwestiynau isod yn y cwrslyfr, ond mae croeso i chi ddilyn eich trywydd eich hun wrth drafod y fideo. Mae llawer o'r clipiau'n ysgafn felly dylent sbarduno tipyn o siarad a chwerthin.

Siaradwch – Pa dafodiaith ydych chi'n ei defnyddio wrth siarad Cymraeg? Beth yw eich tafodiaith yn eich mamiaith? Pa dafodieithoedd ydych chi'n eu hoffi? Ydych chi'n cael trafferth deall rhai tafodieithoedd?

Cam 6 – Darllen 1

Ceir dau ddarn darllen byr yn yr uned hon. Darn deheuol (tafodiaith Dyffryn Aman) yw'r cyntaf, sef *Dafydd Hywel: Hunangofiant Alff Garnant* (Gomer, 2013).

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru / grwpiau i ateb y cwestiynau isod:

1. Beth ydy'r geiriau hyn mewn Cymraeg safonol?

amal	aml	ca'l	cael	dyddie	dyddiau
cyfnode	cyfnodau	'y	fy	gweud	dweud
c'inog	ceiniog	lla'th	llaeth	o'd	oed
blynyddo'dd	blynyddoedd	cwpla	cwblhau/gorffen	sha	tua

Beth sy wedi'i ysgrifennu yn lle 'dw i' a 'roedd'?

Wi a ro'dd

2. Beth dych chi'n meddwl yw ystyr yr idioma hyn? Trafodwch!

o ganlyniad	<i>as a consequence</i>
dod i ben	gorffen, cwblhau
rhaffu celwyddau	dweud llawer o gelwyddau i achub eich hunan mewn sefyllfa anodd

I gloi, arweiniwch drafodaeth ar swyddi cyntaf (oherwydd bod Dafydd Hywel yn trafod ei swydd gyntaf yn y darn darllen). Oedden nhw'n gweithio yn ystod gwyliau'r ysgol / coleg?

Cam 7 – Darllen 2

***Cyw Haul* gan Twm Miall (Y Lolfa, 1988)**

Yn y cwrslyfr, ceir darn byr o'r nofel (ogleddol) *Cyw Haul*.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru / grwpiau i ateb y cwestiynau isod:

1. Beth ydy'r geiriau hyn mewn Cymraeg safonol?

adra	adref	deud	dweud	gora	gorau
isda	eistedd	uchal	uchel	clwad	clywed
cwestiyna	cwestiynau				

Beth dych chi'n ei sylwi am y rhan fwyaf o'r geiriau hyn?

Efallai y bydd y dysgwyr yn sylwi bod y terfyniad lluosog 'au' yn newid i 'a'. Hefyd, mae'r sŵn 'yw' yn newid i 'w'.

2. Beth dych chi'n meddwl yw ystyr y geiriau hyn? Trafodwch!

newydd sbon danlli	hollol newydd
blwyddyn gron	blwyddyn gyfan
gorweddian	gorwedd, diogi, ymlacio (<i>lounging, slouching</i>)
sêd fawr	y sedd ym mlaen capel, wrth y pulpud


I gloi'r gweithgaredd, gofynnwch i'r dysgwyr nodi o leiaf pum gair yn y darn sy'n amlwg wedi dod o'r Saesneg. Ceir digon o enghreifftiau, fel 'not on iwar neli', a geiriau sydd wedi'u Cymreigio, fel 'polisho' a 'consyntretia'. Beth yw eu barn nhw am ddefnyddio llawer o Saesneg yn y Gymraeg?

Mae llawer o ddysgwyr yn teimlo'n gryf iawn am hyn, ac fe allai arwain at drafodaeth ddiddorol. Gallech hefyd gymharu'r ddau ddarn darllen, a thrafod nodweddion tafodieithol y ddau e.e. bod 'e' yn lle 'au' yn y darn deheuol ('gwylie') ac 'a' yn lle 'au' yn y darn gogleddol ('sgidia').

Cam 8 - Mae'n wlad i mi

Chwaraewch y fideo gan adael i bobl fwynhau. Yna, ewch dros yr eirfa gan ofyn i'r dysgwyr wrando am yr eirfa wrth wrando ar y gân gyfan y tro cyntaf. Mae'r fersiwn fideo a sain ar y Safle Rhyngweithiol.

Rhannwch y dosbarth yn barau i drafod y map a ble mae'r gwahanol lefydd a enwir yn y gân.



Gwnewch yr ymarferion ieithyddol. Er mwyn ymarfer 'tithau' a 'finnau', gofynnwch i'r dysgwyr godi ar eu traed. Tithau - Gofynnwch iddyn nhw gyfieithu *Happy Birthday to You*. Bydd hanner y dosbarth yn rhoi'r cyfarchiad a'r hanner arall yn ymateb 'ac i tithau'. Dewiswch gyfarchion eraill er mwyn newid rol. Gellir gwneud yr un peth i ymarfer 'a finnau', e.e. cyfieithu *I'm tired/I've had enough*.

Lluosog - chwarae'r gân er mwyn gwirio'r atebion.

Gorffen ymadroddion - unwaith eto, chwarae'r gân er mwyn gwirio'r atebion.

Dyma'r atebion:

o gopa'r Wyddfa

hyd lwybrau unig

tywod euraidd

mae clychau'n canu

Cam 9 – Darllen

Ymgais yw'r ymarfer hwn i bwysleisio mor bwysig yw darllen er mwyn cyfoethogi Cymraeg y dysgwyr, a'i bod yn bryd iddynt droi at lyfrau Cymraeg nad ydynt ar gyfer dysgwyr yn benodol, os nad ydynt wedi gwneud yn barod. Er mwyn codi'r pwnc hwn, ceir ymarfer cysylltu clawr â broliant. Dyma'r atebion.

Trwy'r ffenestri

Addasiad Cymraeg Manon Steffan Ros o *Windows of the Mind* gan Frank Brennan i ddysgwyr Cymraeg safon uwch.

Casgliad o straeon byrion difyr. Dewch i adnabod cymeriadau cymhleth, lleoliadau pell, a straeon fydd yn aros yn eich meddwl am amser maith.

Cofio anghofio

"Helô, Catrin. Siân sy 'ma. Mae'n ddrwg gen i, ond bydd rhaid i ti ddod lawr at Mam. Mae'n rhaid i ni siarad. Dw i'n gwybod dy fod ti wastad yn brysur, ond bydd rhaid i ti ddod. Mae Mam wedi mynd yn ormod i fi. Ffonia fi 'nôl yn nhŷ Mam mor gyflym â phosib."

Stori deimladwy am ymdrech dwy chwaer i ddod i delerau â dementia eu mam, a'i effaith ar eu bywydau.

Cyffesion Saesnes yng Nghymru

Ar ôl corwynt o garwriaeth, mae Katie newydd symud i Gymru yn adnabod neb ond Dylan, ei gŵr newydd sbon. Er addo y bydden nhw'n byw mewn tŷ enfawr gyda llawer o dir o'u cwmpas ... nid felly y mae pethau. Rhannu gwely sengl yng nghartref rhieni Dylan yw eu hanes, wrth i bawb ddysgu ymdopi â'r ddieithwraig ryfedd yn eu plith ... a hithau'n Saesnes hollol ddi-glem!

Yn y nofel gomig hon, mae gan Katie lawer i ddysgu, am Gymru, y Gymraeg ac am ei gŵr newydd hefyd!

Cawl a Straeon Eraill

"Anhygoel! Hollol, hollol anhygoel!"

Doedd Daniel Rowlands ddim yn defnyddio geiriau fel yna'n aml...

Casgliad amrywiol o straeon â thinc rhyngwladol iddyn nhw – a phob un yn mynd â ni i fyd difyr y synhwyrâu. Cyfle i weld y da a'r drwg, y caredig a'r sinistr ochr yn ochr wrth i gymeriadau'r straeon, bob yn un, ddod wyneb yn wyneb â'r gwir.

Llwybrau Cul

Pan mae tri byd yn taro yn erbyn ei gilydd, ydy unrhyw beth yn gallu aros yr un fath? Dydy Alfán ddim yn deall i ddechrau pam mae'r Siwan gyfoethog yn dangos diddordeb ynddo fo, pan mae o'n byw ar y stryd a heb ddim byd i'w gynnig iddi hi. Mae hi'n gofyn iddo ddod am benwythnos yng nghefn gwlad Cymru a mynd i barti teuluol. Mae o'n cytuno ac yn penderfynu ei bod yn well peidio holi gormod. Ond pan mae o'n cyfarfod ei brawd, Cai, daw Alfán i sylweddoli nad ydy bywyd mor syml â hynny. Yn ystod y penwythnos, daw cyfrinachau i'r wyneb sy'n clymu'r tri am byth.

Bydd y gwaith dilynol yn dibynnu ar faint o'r llyfrau hyn mae'r dysgwyr wedi'u darllen. Os byddan nhw wedi'u darllen, cânt sgwrsio am eu barn. Os na, gall parau ddewis y llyfr sy'n apelio atynt fwyaf.

Os y dymunwch, gallech chi ddewis pum llyfr nad ydynt ar gyfer dysgwyr gan osod y cloriau mewn un rhan o'r ystafell a'r broliant ar gyfer pob un ar gardiau a rhaid gwneud yr un ymarfer, ond gyda'r llyfrau newydd hyn.

Cam 10 – Geirfa Uned 2**Cam 11**

Gofynnwch i'r dosbarth ddod â 3 llun ohonynt ar wyliau i'r wers nesaf.

Adolygu Uned 1, Uwch 1 (y gorffennol cryno)

Dechreuwch gyda'r darn arddwyediad a geir isod. Ar ôl gorffen arddweud, gofynnwch i bawb wirio eu gwaith – gellir rhoi'r fersiwn cywir ar sleid neu ei ddosbarthu ar ddarn o bapur. Gofynnwch i bawb nodi un peth oedd yn anodd iddyn nhw. Yn amlwg, ceir cyfle yma i dynnu sylw at y gorffennol cryno: berfau afreolaidd (cael, gwneud, mynd), berfau â bôn hawdd (cysgu, gyrru), berfau â bôn mwy anodd:

Gadael -	tynnu sylw at: gwranddo, addo
Benthyg -	'g' yn caledu (fel teg>tecach)
Dechrau -	Newid llafariad – tynnu sylw at mwynhau

Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i newid y paragraff i'r trydydd person. Fel cam olaf gellir gofyn i barau barhau â'r stori hyd at amser cinio.

Fersiwn y de

Ces i ddiwrnod ofnadwy ddoe. Cysgais i'n hwyr – a dw i byth yn cysgu'n hwyr. Gadawais i'r tŷ heb frecwast a neidio i mewn i'r car, dim ond i ffeindio bod y tanc petrol yn wag. Benthycais i'r car i un o'r plant y noson gynt, ac fel arfer, wnaethon nhw ddim trafferthu i brynu petrol. Felly, es i i'r garej leol, ac achos bod fy mhen yn y cymylau, gyrrais i bant heb dalu. Dechreuodd un o'r staff redeg ar fy ôl i – am embaras! Felly, dyna awr gynta fy niwrnod – ond aeth pethau'n waeth...

Fersiwn y gogledd

Mi ges i ddiwrnod ofnadwy ddoe. Mi gysges i'n hwyr – a dw i byth yn cysgu'n hwyr. Mi adawes i'r tŷ heb frecwast a neidio i mewn i'r car, dim ond i ffeindio bod y tanc petrol yn wag. Mi fenthyces i'r car i un o'r plant y noson gynt, ac fel arfer, wnaethon nhw ddim trafferthu i brynu petrol. Felly, mi es i i'r garej leol, ac achos bod fy mhen yn y cymylau, mi yrres i i ffwrdd heb dalu. Mi ddechreuodd un o'r staff redeg ar fy ôl i – am embaras! Felly, dyna awr gynta fy niwrnod – ond mi aeth pethau'n waeth...

Atodiad 1

Roedd gen i ffrind dychmygol pan o'n i'n blentyn.	Dw i fel arfer yn cofio fy mreuddwydion ar ôl diuno / deffro.
Dw i'n hoffi chwilio am fargeinion.	Rhaid i mi gael o leiaf 8 awr o gwsg bob nos.
Mae'n gas gen i wastraffu bwyd.	Dw i wedi ysgrifennu 'rhestr bwced'.
Mewn partïon, fi yw'r cynta i ddawnsio.	Dw i'n meddwl y gallwn i ysgrifennu nofel.
Dw i'n cymryd llawer o amser i baratoi cyn mynd allan.	Alla/Fedra i ddim gwyllo ffilmiau treisgar.
Dw i'n gyrru'n ofalus ac yn bwylog bob amser.	Dw i'n hoffi cael y teclynnau diweddara.
Mae gen i hobi anarferol, sef ...	Dw i byth eisiau ymddeol.
Rhaglenni natur yw fy hoff raglenni teledu.	Dw i'n siarad mwy na dwy iaith yn rhugl.
Faswn i byth yn gadael y tŷ heb wisgo colur.	Pan fydd hi'n bwrw eira, dw i'n cyffroi fel plentyn bach!
Ar ôl gwyliau'r haf, dw i'n dechrau meddwl am y Nadolig.	Dw i'n hoffi bod ar fy mhen fy hun.
Dw i wastad yn crio wrth wyllo ffilmiau trist.	Dw i'n diuno / deffro yr un amser bob bore.
Fy ffrindiau ysgol ydy fy ffrindiau pennaf.	Dw i'n defnyddio ffilter ar fy hunluniau.

Atodiad 2

Cwm Tawe Monolog Meryl Mort, Rhian Morgan

Pacha wilia gyta fi am ddysgu dreifo, wi jest hurto a na'r ffact.

Newydd lando nôl o'r test centre a wi ffaelu cael fy 'bearings' o gwbwl.. 'bearing up' yw'r unig beth wi'n llwyddo neud..ma wna'n well na 'bearing down'.

Ma raid i fi ffono Lawrence, 'y ngŵr.

Mae e hwnt yn tŷ'n fam..di smoco ei 'unan yn dwll fanna nawr chwel.

'Mami..Meryl sy ma..Meryl.. Meryl Mort!! Wel hwpwch eich dannedd mewn er mwyn Duw.

Na wi wedi ffaelu.. 'failed the test mother'..ie, 'one of life's tragedies', wi'n gwpod.

Wel cerwch i weud tho fe te..

(saib)

Lawrence, where's the car? Well I expected you to pick me up at the test centre.... clamped?

Beth ti'n feddwl 'clamped'? Wedi clampo?

Clyw, fe glampa i ti mewn muned..

Yes! Wel shifft your stwmps then!!

Sir Benfro

Detholiad o Pwllleri gan Dewi Emrys.

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn y gyfrol Y Cwm Unig a Chaniadau Eraill (Gwasg James Davies, 1930)

'Rown i'n ishte dŵe uwchben Pwllleri,

Hen gatre'r eryr a'r arth a'r bwci.

'Sda'r dinion taliedd fan co'n y dre

Ddim un llefeleth mor wyllt yw'r lle.

'All ffrwlyn y cownter a'r brethin ffansi

Ddim cadw'i drâd uwchben Pwllleri.

'Ry'ch chi'n sefill fry uwchben y dwnshwn,

A drichid lawr i hen grochon dwfwn,

A hwnnw'n berwi rhwng creige llwydon

Fel stwceidi o lath neu olchon sebon.

Ma' meddwl amdano'r finid hon

Yn hala rhyw isgrid trwy fy mron.

Caernarfon O'r llyfr *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg* gan Beth Thomas a Peter Wynn Thomas (Gwasg Taf, 1989).

t.91-92, addasiad o recordiad dyn anhysbys o Gaernarfon.

"Oeddan ni'n cael *hop* – *hop*, ia. Downsho, ia, yn *Feed my lambs* yn Ganarfon. Ag odd hogia Bangor yn dod i lawr ar nos Ferchar ag oeddan ni'n cael *fight* cyn *bus* deg. Ar y Maes 'elly ia, cyn i nw fynd adra. Ond ... ym ... oedd 'i'n mynd o ddrwg i waeth i ddeud y gwir, 'cos odd plismyn a bob peth, ia, ar nos Sadwrn yn gwatshad hogia Bangor yn mynd yn ôl 'lly am bo' hogia dre yn dyrnu nw felly. Pobol odd yn pigo anan ni 'elly ia. Wedyn odd raid i ni gwffio 'nôl 'te. O' lot o bobol o wlad yn dod i lawr ar nos Sadwn 'elly ia. Ag... ym... wel wrth gwrs, hogia Gynarfon yn mynd ar ôl gennod wlad, oeddan, felly ia. Ag ym ... a nhwtha ar ôl hogia Gynarfon am bo' ni'n well na hogia wlad i ddeud y... O! Well i fi bidio deud ffashwn betha!"

Y Rhos O'r llyfr *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg* gan Beth Thomas a Peter Wynn Thomas (Gwasg Taf, 1989).

t.109, addasiad o recordiad Mrs Phillips o Rosllannerchrugog.

"Glowyr odd pobol y Rhos amser honno. A'dd i'n gymdeithas glos pan odd y glowyr, chi'n gweld. 'Chos dwi'n cofio Parch. Idryd Jones, odd y amser honno. Ag odd o'n deud bod o'n cal 'i ddeffro 'mpas hann' 'di pump yn bore, coliar yn chwilo ac yn canu emyne wrth fynd at 'u gwaith, i lawr y pŵll, cofiwch chi. 'A dene,' medde fo fel ene, 'odd nene i mi,' medde fo fel ene, 'fel *Hallelujah Chorus*,' medde fo. 'On i'n methu credu bod coliar yn gallu chwilo a canu mynd at 'u gwaith,' medde fo, 'hann' 'di pump yn y bore.' le. A gwraig y coliar wedyn. Hithe'n codi'n fore, torri bwyd mewn tun yntê. A wedyn pan fyse colier mynd getre yn y pnawn, bath ar yr ylwyd. On nw'n gorod molchi flân y tân, yndoedd? O' gynnyn nw'm byd arall i folchi."

Sir Drefaldwyn Detholiad o 'Ann y Foty yn Myn'd i'r Mor' gan Sam Ellis (Jones Printing, Utica, Efrog Newydd, 1913)

"Wn i be' gebyst ddoth drosta i i neud i mi addo mynd i benhoeta tua'r môr; ma rhwbeth yn siŵr o hapno, a does 'ma neb ofalith am 'nifel na 'deryn fel y dyle nhw... Wyt ti'n meddwl, Guto, y gneith y plant a thithe gofio hel yr wye cyn i'r sglyfeth ci Pero i byta nhw? Choelies i fawr ... A wel di'r hen wydde yna, mhell y bo nhw, yn dysgwyl ciel fy nghefen am ddiwrnod er mwyn iddyn nhw gael mynd i'r ceirch a spwyllo'r crop... Peth arall sy i vexio f'ened i ydi, fod yr hen blant ma yn rhy ddiog i gorddi... Wn i ddim be i feddwl o blant y ddyddie yma; ma nhw yn rhemp am ddyfetha bwyd a dillad ac 'rwyd tithe, Guto, yn spio arnyn nhw fel pren gwely, heb ddeyd pwmp o dy ben wrthun nhw, a finne a nhræd ar y tredmil a nhrwyn ar y maen llifo o fore glæs hyd y nos, a 'does neb yn deud thanki wrtha i."

Y Wenhwyseg

Detholiad o *William Jones* gan T. Rowland Hughes (1944). Diolch i Wasg Gomer am eu caniatâd caredig i atgynhyrchu ac addasu'r darn hwn.

"Cerddoriath! 'Na ddyla fa gael – tair blynadd yn y *Royal College of Music*. A dyna wetas i wrtho fa cyn iddo fa fynd lawr i Gardydd o'u blæn nw. "Gwêd ti wrthyn nhw dy fod ti'n moyn tair blynadd yn y *Royal College of Music*, Richard Emlyn," myntwn i. A fe wedws a 'ynny 'ed, myn diawl. Ond be' gynigon nhw iddo fa? Chwe mish i ddysgu bod yn *fricklayer*. Yffarn dæn! A phan wrthodws a, 'na stopo'i *dole* a. *Victimisation!* Am fod 'i dad a'n *Gommunist*, 'chi'n deall. Ond 'dyw Richard Emlyn ni ddim yn mynd yn frici, fe ofala' i am hynny. Clywch!"

Rhydfeleneg

Addasiad Ian Rowlands o ddarn o'i ddrama '*Marriage of Convenience*'. Diolch i Ian Rowlands am ei ganiatâd i ddefnyddio ei waith.

"Roedden ni wastad yn mynd i Ysgol Gymraeg mewn bws; taith ar double decker trwy gwm llawn prejudice. Roedd pob taith yn daith tuag at realiso vision rhywun arall. Er roedden ni yn rhy ifanc i deall y why a'r wherefore like, ni oedd y grand design.

Roedd acen fi wedi concoto mewn ysgolion y cymoedd, ymarfer bwrdd du oedd e. Bastard iaith oedd iaith fi, os fi'n honest; rhyw fath priodas od rhwng iaith ac ardal roedd wedi anghofio ei Cymraeg e ages yn ôl, like.

Roedd Cymraeg fi ddim yn real Cymraeg. A pan oeddwn i yn un deg pedwar, roeddwn i wedi sylweddoli pan roeddwn i'n siarad, roedd hanner Cymru yn chwerthin ar pen fi, tra roedd hanner arall Cymru yn casâu fi achos roeddwn i methu treiglo. Beth roedd e, oedd case o pedigree, ac roedd Cymraeg fi yn mongrel tongue. Ac roedd sylweddoli e, yn neud fi i teimlo fel second class a useless. Achos wedi creu fi, roedd y Cymry Cymraeg yn rejecto fi, fel Dr Frankenstein yn rejecto'r monster oedd e wedi creato."

Uned 2 – Canllaw i'r tiwtor

Nod leithyddol: Gorffennol cryno bod

Thema: Fuooh chi erioed yn...? (Trafod ymweld â llefydd)

Cam 1 - Siarad rhydd

Dylai'r dosbarth fod wedi dod â lluniau ohonynt ar wyliau. Rhannwch nhw'n grwpiau priodol a gofynnwch iddynt roi'r lluniau wyneb i fyny ar y ddesg mewn trefn gronolegol, yn fras. Maent wedyn yn symud o lun i lun yn siarad am y gwyliau.

Cam 2 – Adolygu Uned 1

Yn y cwrs lyfrau, ceir tabl sy'n cynnwys geiriau tafodieithol. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda phartner, i nodi ystyr y geiriau ac o ble y mae'r geiriau'n dod. Does dim ots os nad ydynt yn gwybod yr atebion cywir: ymarfer i ddechrau sgwrs yw hwn, i drafod rhai o'r pynciau a godwyd yn yr uned ddiwethaf. Wedyn, gofynnwch iddynt feddwl am eu hoff eiriau Cymraeg. Pam maen nhw'n hoffi'r geiriau hynny?

'Cwtsh' yw hoff air dysgwyr Cymraeg yn dilyn pôl piniwn yn haf 2019 gan Radio Cymru. Ceir erthygol yn olrhain hanes y gair 'cwtsh' yma: <https://www.bbc.co.uk/cymrufyw/50045299>. Wrth drafod y gair 'pres', gellid trafod y gwahanol ystyron i 'pres' ac 'arian'.

Cam 3 – Cyflwyno bues i

Bydd y dysgwyr wedi gweld ffurfiau gorffennol BOD wrth ddarllen y Gymraeg, ond ni fyddant wedi astudio'r ffurfiau hynny. Esboniwch fod y ffurfiau'n gyffredin iawn ar lafar, wrth siarad am weithred yn y gorffennol (fel arfer, y gorffennol agos) sydd wedi dod i ben.

Esboniwch hefyd ein bod yn defnyddio 'bu' wrth ddweud bod rhywun wedi marw.

Byddant yn gweld 'Bu farw xxx/buodd xxx farw ar ôl salwch hir yn xxx' yn hysbysiadau marwolaethau'r Western Mail, er enghraifft.

Esboniwch fod 'marwodd' yn cael ei ddefnyddio ar lafar, ond 'bu farw' neu 'buodd e / hi farw' sy'n gywir wrth ysgrifennu.

Yn gyntaf, gwnewch ymarfer disodli syml.

Ble buoch chi ar eich gwyliau?

Bues i/mi fues i yn Sbaen

Ewch ymlaen i wneud y driliau (sydd hefyd yn y cwrslyfr). Rhaid i'r dysgwyr ateb y cwestiynau gan ddefnyddio 'bues i'.

Dych chi'n hoffi siopa?

Ydw, bues i yn y dref dydd Sadwrn.

Dych chi'n hoffi ffilmiau?

Dych chi'n hoffi gwneud ymarfer corff?

Dych chi'n hoffi gwyllo rygbi?

Gallech feddwl am gwestiynau ychwanegol a'u rhoi ar y bwrdd, e.e.

Dych chi'n hoffi bingo?

Ydw, bues i yn y neuadd bingo neithiwr

Dych chi'n hoffi dawnsio?

Ac yn y blaen...

Aeth hi allan neithiwr?

Naddo, buodd/mi fuodd hi yn y tŷ drwy'r nos.

Aethon nhw allan neithiwr?

Aeth John allan neithiwr?

Est ti allan neithiwr?

Aethoch chi allan neithiwr?

Aeth Siân allan neithiwr?

I gloi'r cam hwn, ailedrychwch ar luniau gwyliau'r dosbarth gan ofyn iddyn yn syml iawn ddweud ble buon nhw ar eu gwyliau.

Holiadur

Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am 4 cwestiwn yn dechrau â 'Fuoch chi / Fuest ti'. Yna, gofynnwch iddynt grwydro o gwmpas y dosbarth, i ofyn y cwestiynau hynny i bedwar person.

Deialog

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau, i ddarllen y ddeialog yn y cwrslyfr sy'n cynnwys llawer o enghreifftiau o 'bu'. Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i greu deialog newydd, gan ddefnyddio'r ddeialog yn y llyfr fel sail.

Ymarfer llenwi bylchau

Ceir dau gerdyn post bylchog yn y cwrslyfr. Gofynnwch i'r dysgwyr llenwi'r bylchau gan ddefnyddio ffurfiau gorffennol cryno ac amherffaith BOD, yn ôl yr angen.

I gloi'r gweithgaredd, gallech ofyn iddynt weithio gyda phartner i greu cerdyn post dychmygol o rywle, sy'n defnyddio 'bues i' / 'buon ni'.

Cam 4 – Gwrando

Ceir clip sain o'r rhaglen radio 'Cofio.' Yn yr eitem hon, mae Ann Pash yn sôn am ei hoffter o fynd ar fordeithiau, a sut y dechreuodd fynd ar wyliau o'r math hwn.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer ymarferion Gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r geiriau isod pan fyddant yn eu clywed, cyn mynd ymlaen i ateb y cwestiynau.

ffoli moethusrwydd	ar hyd y blynyddoedd	naws tân ar fy nghroen i
-------------------------------	-----------------------------	-------------------------------------

1. Gofynnwch i barau neu grwpiau bach nodi tair ffaith bwysig o'r darn. Mae'n bwysig meithrin y sgil yma o adnabod y prif ffeithiau mewn darn. Dylid cael sesiwn adrodd yn ôl.

2. **Trafodwch arwyddocâd y rhifau hyn yn y darn gwrando:**

Ugain *Ugain mlynedd yn ôl aeth rhieni Ann ar fordaith am y tro cyntaf.*

Trigain *Roedd rhieni Ann yn dathlu eu penblwyddi'n drigain oed.*

Dwy *Aeth rhieni Ann â dwy wyres gyda nhw ar y fordaith.*

Deg *Buon nhw ar y llong am ddeg/ddeng niwrnod.*

Tair *Mae Ann wedi bod ar dair llong.*

3. **Gwrandewch yn ofalus ar Ann yn siarad. Beth mae hi'n ei ddweud yn lle...**

fy mam a fy nhad	<i>Yn fam a nhad.</i>
------------------	-----------------------

chwaer	<i>Whâr.</i>
--------	--------------

arni hi	<i>Arni ddi.</i>
---------	------------------

Ar ôl iddynt ateb y cwestiynau, trafodwch y mathau gwahanol o wyliau a geir yn yr holiadur. Gwaith pâr yw hwn a dylid trafod gyda rhwng dau a phump o bobl wahanol. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Cam 5 – Darllen

***Milionêrs* gan Marlyn Samuel (Gwasg y Bwthyn, 2014)**

Dyma ddarn darllen ysgafn ynglŷn â theulu'n trefnu gwyliau i Mauritius ar ôl ennill y loteri.

Mae dau ymadrodd yn defnyddio 'tro' yn codi yn y darn, felly ceir ymarferion yn seiliedig ar hynny.

Gwneud y tro *to make do*

Y tro hwn *this time*

Yna, gofynnwch iddynt weithio mewn parau i lenwi'r bylchau â'r geiriau cywir (sy'n cynnwys 'tro' neu 'troi'), gan dreiglo os oes angen.

1. Gyda'r nos, mae Sioned yn hoffi mynd â'r ci am dro.
2. Roedd olwynion y car yn troi a throi.
3. "Hwyl! Tan y tro nesa!"
4. Penderfynodd Elwyn ei bod hi'n amser troi am adre.
5. "Trowch eich cadeiriau i wynebu'r blaen, os gwelwch yn dda."
6. Roedd Nia wedi cael siom; roedd Lisa wedi gwneud tro gwael â hi.
7. "Dy dro di i fynd â'r biniau allan," meddai Jac wrth weld y lori ludw.
8. "Paid â throi dy gefn arna i!" gwaeddodd Mam yn flin.

Siaradwch

Mae digon o gwestiynau posib yn codi o'r darn darllen hwn. Gofynnwch i grwpiau feddwl am dri chwestiwn yr un. Dyma rai awgrymiadau pellach:

- I ble basech chi'n mynd ar eich gwyliau tasech chi'n ennill y loteri?
- Ydy cael gwyliau yn yr haul yn bwysig i chi?
- Ydych chi'n mwynhau mynd ar siwrne hir ar awyren? Beth dych chi'n wneud i basio'r amser?
- Fuoach chi erioed ar wyliau yn rhywle sy'n cael ei enwi yn y stori?
- Mae Gwyn a Nicola yn frawd a chwaer yng nghyfraith i Wendi. Ydych chi'n ffrindiau gyda'ch brawd / chwaer yng nghyfraith chi, neu ydych chi'n gallu cydymdeimlo â Wendi yn y stori yma?
- Oes 'na unrhyw un erioed wedi bod yn eiddigeddus ohonoch chi ar ôl i chi gael lwc dda?

Cam 6 – Geirfa Uned 3

Adolygu Uwch 1, Uned 2 (y dyfodol a'r dyfodol cryno)

Atgoffwch y dysgwyr o derfyniadau'r dyfodol. Ceir cyfres o ddriliau isod i ymarfer y dyfodol:

Dril ymatebol:

Mae e eisiau help/Mae o isio help
Mae hi eisiau help/Mae hi isio help
Dw i eisiau help/Dw i isio help

Helpa i fe/Mi helpa i fo
Helpa i hi/Mi helpa i hi
Helpa i ti/Mi helpa i ti

Maen nhw eisiau help/Maen nhw isio help
'Dyn ni eisiau help/Dan ni isio help

Helpa i nhw/Mi helpa i nhw
Helpa i chi/Mi helpa i chi

Newid o ffurfiau hir i ffurfiau cryno:

Bydda/Mi fydda i'n gadael am ddeg
Bydd e/Mi fydd o'n gadael am ddeg

Gadawa/Mi adawa i am ddeg
Gadawiff e/Mi adawith o am ddeg

Byddan/Mi fyddan nhw'n gadael am ddeg

Gadawan/Mi adawan nhw am ddeg

Byddan/Mi fyddan nhw'n ffonio am ddeg

Ffonian/Mi ffonian nhw am ddeg

Byddwn/Mi fyddwn ni'n ffonio am ddeg

Ffoniwn/Mi ffonniwn ni am ddeg

Bydda/Mi fydda i'n ffonio am ddeg

Ffonia/Mi ffonia i am ddeg

Bydda/Mi fydda i'n cyrraedd erbyn deg

Cyrhaedda/Mi gyrhaedda i erbyn deg

Bydd/Mi fydd hi'n cyrraedd erbyn deg

Cyrhaeddiff hi/Mi gyrhaeddith hi erbyn deg

Byddwn/Mi fyddwn ni'n cyrraedd erbyn deg

Cyrhaeddwn/Mi gyrhaeddwn ni erbyn deg

Byddwn/Mi fyddwn ni'n gorffen erbyn deg

Gorffennwn/Mi orffennwn ni erbyn deg

Byddwch/Mi fyddwch chi'n gorffen erbyn deg

Gorffennwch/Mi orffennwch chi erbyn deg

Byddi/Mi fyddi di'n gorffen erbyn deg

Gorffenni/Mi orffenni di erbyn deg

Bydda/Mi fydda i'n gorffen erbyn deg

Gorffenna/Mi orffenna i erbyn deg

Cynnig ateb i'r broblem:

Does dim car gyda fi/Sgen i ddim car

Rhoia/Mi roia i lifft i ti

Does dim arian gyda fi/Sgen i ddim arian

Benthyca/Mi fenthyca i arian i ti

Dw i eisiau bwyd/Dw i isio bwyd

Coginia/Mi goginia i rywbeth i ti

Dw i ddim yn gwybod beth i wneud

Dangosa/Mi ddangosa i i ti
(Helpa/Mi helpa i ti)

Dw i'n poeni bydda i'n cysgu'n hwyr

Deffra/Dihuna (Mi ddeffra) i ti

Uned 3 – Canllaw i'r tiwtor

Nod ieithyddol: Treigladau

Thema: Chwedlau Cymru

Chwedlau – Yn ogystal â'r adnoddau ar chwedlau y cyfeirir atynt isod, ceir hefyd adnoddau ar wefan dysgucymraeg.cymru sy'n cyflwyno tair chwedl i ddysgwyr – Y Ferch o Gefn Ydfa, Twm Sion Cati a Beddgelert. Ceir fideos a gweithgareddau.

Cam 1 - Siarad rhydd

Dewiswch un o'r 'cardiau dadl' er mwyn sbarduno siarad rhydd. Gweler y canllawiau cyffredinol.

Cam 2 – Adolygu Uned 2

Ceir gweithgaredd cychwynnol i adolygu amser gorffennol cryno y ferf 'bod', sef cardiau Atodiad 1.

Yn syml iawn, rhaid cyfuno'r tair elfen i greu brawddeg yn defnyddio gorffennol cryno 'bod', e.e. fi + caffi + ddydd Sadwrn > Mi fues i/Bues i yn y caffi ddydd Sadwrn. Rhowch gerdyn (neu fwy yn dibynnu ar faint y dosbarth) i bawb grwydro yn profi ei gilydd. Ceir y treigladau adferfol yma (e.e. ddydd Sadwrn) gan mai dyna'r gwaith iaith newydd yn yr uned hon. Os bydd rhywun yn gofyn am y treigladau, gellir dweud y byddwch yn ymdrin ag ef yn ystod y wers.

I gloi'r gweithgaredd, gallech ofyn i bawb ddweud beth buon nhw'n ei wneud dros y penwythnos (neu yn ystod y dyddiau ers y wers diwethaf).

Cam 3 – Treigladau

Adolygu

Cyn cyflwyno'r treiglad adferfol, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau. Rhaid iddynt enwi'r tri threiglad, a nodi tair rheol ar gyfer pob un.

Trafodwch ymatebion y grwpiau, gan gywiro / ymhelaethu ar unrhyw bwyntiau a wnaed.

Efallai bydd rhai'n ei chael yn anodd meddwl am dair rheol ar gyfer y Treiglad Trwynol. Mae hwn yn gyfle i dynnu sylw at y treiglad trwynol ar ôl y rhagddodiad 'an', e.e. annealladwy.

Cyflwyno'r treiglad adferfol

Mae'n debyg y bydd llawer o'r dysgwyr wedi gweld y treiglad adferfol ar bosteri ac ati ac yn awyddus i ddysgu'r rheolau.

Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio yn y cardiau yn Atodiad 1 i adolygu ffurfiau gorffennol 'bod' felly mae modd cyfeirio at y cardiau hyn.

Esboniwch ein bod ni'n treiglo diwrnod penodol e.e.

Does dim gwers ddydd Llun (y dydd Llun nesaf)

Ond, os ydyn ni'n cyfeirio at ddiwrnod yn gyffredinol, rydym yn defnyddio 'ar'.

Mae'r dosbarth yn digwydd ar ddydd Llun (hynny yw, bob dydd Llun neu unrhyw ddydd Llun).

Nid oes angen defnyddio'r lluosog, er bod y Saesneg yn defnyddio'r lluosog e.e.

We get up late on Sundays 'Dyn ni'n codi'n hwyr ar ddydd Sul

Dw i'n mynd i ddosbarth salsa ar fore Gwener = bob bore Gwener

Ond – Dw i'n mynd i ddosbarth salsa fore Gwener = fore Gwener nesaf.

1. Gofynnwch gwestiwn syml i'r dosbarth i esbonio'r gwahaniaeth. Rhowch eich enghraifft eich hun i ddechrau, fel:

Beth wyt ti'n wneud AR ddydd Sadwrn? – Dw i'n cysgu'n hwyr. (h.y. dw i'n gwneud hynny bob dydd Sadwrn)

Beth wyt ti'n wneud ddydd Sadwrn? – Dw i'n mynd i weld fy ffrind. (h.y. dyna dw i'n ei wneud ddydd Sadwrn nesaf)

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr weithio gyda'i gilydd i siarad am holl ddyddiau'r wythnos, gan feddwl am bethau maen nhw'n eu gwneud bob amser (e.e. mynd i'r gwaith ar ddydd Mawrth) a'r hyn maen nhw'n ei wneud ar ddiwrnod penodol (e.e. mynd at y deintydd ddydd Mawrth).

Ceir holiadur i hwyluso'r gwaith llafar yma.

2. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau i wneud yr ymarfer llenwi bylchau. Rhaid rhoi'r geiriau cywir yn y bylchau 'ar ddydd', 'dydd' neu 'ddydd' – dyma'r atebion:

1. Ar ddydd Llun maen nhw'n casglu sbwriel yn ein stryd ni.
2. Does dim casgliad sbwriel ddydd Llun achos ei bod hi'n ŵyl banc.
3. Mae angen i ni gael cyfarfod. Beth am gwrdd yn fy swyddfa ddydd Mercher?
4. Dw i fel arfer yn cael brecwast mewn caffi ar ddydd Sul.
5. Welaist ti'r gêm ddydd Sadwrn?
6. Dydd Gwener yw fy hoff ddiwrnod i.
7. Dw i'n mynd i ddosbarth ioga bob wythnos, ar ddydd Mawrth.
8. Mae dydd lau yn ddiwrnod prysur yn y salon trin gwallt.
9. Fydd hi ddim yn y gwaith ddydd Gwener achos ei bod hi'n mynd at y deintydd.
10. Dw i'n hoffi mynd i'r farchnad ar ddydd Mercher.

Cam 4 – Darllen

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen.

Ceir tair tasg yn seiliedig ar eirfa ac ymadroddion o'r darn, a threfnolion a'r treigladau (oherwydd 'Y Pedair Cainc' ac 'y bedwaredd gainc' ac ati.) Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau i wneud y tasgau hyn.

Dyma'r atebion:

1. Heb edrych yn ôl ar y darn, cyfieithwch:

1. <i>The fourteenth century</i>	Y bedwaredd ganrif ar ddeg
2. <i>The National Library of Wales</i>	Llyfrgell Genedlaethol Cymru
3. <i>Things go from bad to worse</i>	aiff pethau o ddrwg i waeth
4. <i>resolve the situation</i>	datrys y sefyllfa
5. <i>until today</i>	hyd heddiw

2. Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y pedwar gair yn eu cwrslyfrau, a meddwl am dri gair sy'n gysylltiedig â'r geiriau hynny. Mae rhai geiriau i'w canfod yn y darn darllen. Efallai y bydd angen cymorth i feddwl am ragor. Dyma enghreifftiau:

plentyn

plentyndod
plant
plentyннаidd

crefft

crefftus
celf a chrefft
crefftwr
crefftau

cyfaill

cyfeillgarwch
cyfeillgar
cyfeillion
anghyfeillgar

priod

priodas
priodfab
priodferch
gwas priodas
morwyn briodas
dibriod

3. Rhowch y llythrennau coll yn y geiriau hyn, gan dreiglo os oes angen.

1. Y ferch <u>g</u> yntaf.	1. Y <u>t</u> air <u>m</u> erch.
2. Y bachgen <u>c</u> yntaf.	2. Y <u>d</u> dau <u>f</u> achgen.
3. Y <u>d</u> ry <u>d</u> edd ferch.	3. Y <u>t</u> ri <u>b</u> achgen.
4. Yr <u>a</u> il <u>f</u> achgen.	4. Y <u>d</u> d <u>w</u> y ferch.
5. Y <u>b</u> ed <u>w</u> aredd ferch.	5. Y pedwar <u>b</u> achgen.
6. Y <u>t</u> ry <u>d</u> ydd <u>b</u> achgen.	6. Y <u>p</u> um <u>m</u> erch.
7. Yr <u>a</u> il <u>f</u> erch.	7. Y <u>b</u> umed <u>f</u> erch.
8. Y <u>p</u> ed <u>w</u> erydd bachgen.	8. Y <u>p</u> um <u>b</u> achgen.

Os bydd angen mwy o ymarfer ar drefnolion, ceir PowerPoint sy'n rhan o wers gyfoes Ar Lafar - <https://dysgucymraeg.cymru/tiwtoriaid/gwersi-cyfoes/>.

Siaradwch

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth ar chwedlau'n gyffredinol. Oes diddordeb ganddynt mewn chwedlau? Fydden nhw'n hoffi gwybod rhagor am y Mabinogi? Ydyn nhw'n mwynhau llyfrau a ffilmiau sydd wedi'u hysbrydoli gan chwedlau, e.e. *The Lord of the Rings*, *Game of Thrones* ac ati? Neu a oes well ganddynt ffilmiau a llyfrau am bobl a digwyddiadau cyfoes? Beth am gemau fel *Dungeons and Dragons* ac ail-greu brwydrau (*battle re-enactments*)?

Cam 5 – Gwyllo a gwrando**Cynefin:** Bryn Saeth, Bro Ffestiniog**Geirfa:** medden nhw gwaywffon eryr dial

Ceir clip fideo o Siôn Tomos Owen yn adrodd rhan o Bedwaredd Gainc y Mabinogi, sy'n sôn am Llew Llaw Gyffes, Blodeuwedd a Gronw Pebr.

Efallai y dylid rhybuddio'r dysgwyr bod Sion Tomos Owen yn siarad yn gyflym iawn. Gellid chwarae'r fideo y tro cyntaf heb unrhyw dasg o gwbl.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru i gwblhau'r tasgau isod.

1. Ar ôl gwyllo'r fideo, cwblhewch y brawddegau hyn:

Mae pobl yn credu bod stori o'r Mabinogi wedi digwydd ym Mryn Saeth.

Yn 1934, cafodd carreg arbennig ei darganfod ar waelod afon Cynfal.

Roedd y graig yn arbennig achos bod twll perffaith ynddi hi.

Doedd Llew ddim yn hapus achos bod Blodeuwedd wedi rhedeg i ffwrdd gyda Gronw Pebr.

Rhedodd Llew ar ôl Blodeuwedd a Gronw.

Taflodd Gronw waywffon at Llew.

Cafodd Llew ei droi'n eryr.

Ar ddiwedd y stori, daeth hi'n amser i Llew ddial.

Ro'n nhw ar lannau'r afon unwaith eto.

Taflodd Llew waywffon at Gronw.

Aeth y waywffon trwy'r garreg.

Aeth y waywffon yn syth trwy galon Gronw.

Llech Ronw yw'r enw ar y garreg nawr.

Enw'r fferm yw Bryn Saeth, achos bod Llew wedi taflu'r waywffon o Fryn Saeth, yr holl ffordd at yr afon.

D.S. Nid oes rhaid llenwi'r bylchau â'r union eiriau uchod, ond dylai'r atebion arddangos eu dealltwriaeth o'r stori.

2. "Rhedodd Llew **ar eu holau nhw...**"

Gallwch chi ddefnyddio 'olau' neu 'ôl' gyda **ni, chi a nhw**.

Allwch chi llenwi'r bylchau yma?

Ar fy ôl i Ar ein hôl/holau ni

Ar dy ôl di Ar eich ôl/olau chi

Ar ei ôl e/o Ar eu hôl/holau nhw

Ar ei hôl hi

O fy mlaen i O'n blaen/blaenau ni

O dy flaen di O'ch blaen/blaenau chi

O'i flaen e/o O'u blaen/blaenau nhw

O'i blaen hi

3. Mae llawer o enwau **benywaidd** yn y fideo yma. Allwch chi eu rhestru nhw? Sut ydyn ni'n gwybod eu bod nhw'n fenywaidd?

Dyma'r enwau benywaidd a glywir yn y fideo: craig, afon, chwedl, stori, gwaywffon, carreg, calon, llech.

Rhai pwyntiau i'w trafod gyda'r dosbarth: Mae Siôn yn galw'r craig yn 'hi' ("mae twll perffaith ynddi hi"); mae enwau benywaidd yn treiglo ar ôl y fannod ("taflodd y waywffon" "y garreg"). Gallech eu hatgoffa nad yw enwau benywaidd sy'n dechrau â 'll' a 'rh' (e.e. 'llech') yn treiglo ar ôl y fannod.

4. Mae Siôn Tomos Owen yn dweud "**So chi'n cael hela 'da gwaywffon ragor**".

Allwch chi feddwl am ffordd arall o ddweud hynny?

Dylai'r dysgwyr feddwl am un neu fwy o'r enghreifftiau isod:

Chewch chi ddim hela gyda gwaywffon rhagor

Chewch chi ddim hela efo gwaywffon ddim mwy

Dych/dach chi ddim yn cael hela gyda/efo gwaywffon rŵan

Does dim hawl gyda chi i hela gyda gwaywffon nawr

ac ati ...

Cam 6 – Chwedl Sioned Davies

Dangoswch y chwedl nifer o weithiau ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i greu o leiaf 3 cwestiwn darllen a deall. Dylech fod yn cynorthwyo ar hyd yr adeg yn ystod y dasg hon i sicrhau bod y cwestiynau mor gywir ag sy'n bosib. Yna, rhaid i'r parau gyfnewid cwestiynau i'w hateb.

Cam 7 - Chwedl

Os yw'r dosbarth yn mwynhau'r gwaith ar chwedlau, gellid defnyddio un chwedl arall. Bydd angen cyswllt â'r we. Ceir gwaith ar dair chwedl wrth ddilyn y linc hwn - https://ybont.org/chwedlauarlafar/#/?_k=580130. Dewiswch y chwedl sydd fwyaf perthnasol i'ch ardal chi. Y chwedlau yw Y Ferch o Gefn Ydfa, Twm Sion Cati a Gelert. Ceir cyfres o gamau i gyd-fynd â phob un o'r chwedlau.

Cam 8 - Gêm

Dylai'r deunydd ar y gwefannau neu ymweliad gan westai fod wedi sbarduno digon o sgwrsio rhydd am amrywiaeth o bynciau – nid dim ond chwedloniaeth. Efallai y byddai rhai dosbarthiadau'n mwynhau chwarae'r gêm isod i gloi'r wers mewn ffordd hwyllog.

<http://www.gwales.com/goto/biblio/en/9781910574881/?lang=CY&tsid=1>

Gêm gardiau i'w phrynu yw hi. Efallai bydd o ddiddordeb i rieni sydd â phlant.

Cam 9 – Geirfa Uned 4

Uwch 1, Uned 3 (ffurfiau dyfodol cryno'r berfau afreolaidd)

Er mwyn adolygu'r ffwythiant 'gofyn cymwynas', ysgrifennwch y deg berfenw isod ar y bwrdd gwyn. Daw'r berfau hyn i gyd o restr geirfa Uwch 1. Yn syml iawn, rhannwch y dosbarth yn barau i greu 5 cwestiwn sy'n dechrau gyda Wnei di neu Wnewch chi ac sy'n cynnwys pump o'r berfenwau, e.e.

Gwarchod Wnei di/Wnewch chi warchod y plant i fi heno?

Ewch dros y cynigion a dewiswch un cwestiwn ar gyfer pob berfenw ar y bwrdd gwyn. Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i holi'r cwestiynau hyn i'w gilydd. Rhaid iddynt wrthod gwneud bob tro, gan nodi rheswm.

casglu	cyfrannu	dadorchuddio	maddau	gwarchod
arwain	berwi	gwau	hysbysebu	llongyfarch

Uned 3 – Atodiad 1

fi + y caffi + ddydd Sadwrn	Mi fues i yn y caffi ddydd Sadwrn Bues i yn y caffi ddydd Sadwrn
ti + y parc + y bore 'ma	Mi fuest ti yn y parc y bore 'ma Buest ti yn y parc y bore 'ma
fo/fe + yr amgueddfa + yr wythnos diwetha	Mi fuodd o yn yr amgueddfa wythnos diwetha Buodd e yn yr amgueddfa yr wythnos diwetha
hi + yr archfarchnad + ddoe	Mi fuodd hi yn yr archfarchnad ddoe Buodd hi yn yr archfarchnad ddoe
ni + y dosbarth salsa – nos Fawrth	Mi fuon ni yn y dosbarth salsa nos Fawrth Buon ni yn y dosbarth salsa nos Fawrth
chi + y bwyty Tseineaid + nos Fercher	Mi fuoch chi yn y bwyty Tseineaid nos Fercher Buoch chi yn y bwyty Tseineaid nos Fercher
nhw + y dosbarth Cymraeg + ddydd lau	Mi fuon nhw yn y dosbarth Cymraeg ddydd lau Buon nhw yn y dosbarth Cymraeg ddydd lau
y Prif Weinidog + y ddeintyddfa + ddydd Gwener	Mi fuodd y Prif Weinidog yn y ddeintyddfa ddydd Gwener Buodd y Prif Weinidog yn y ddeintyddfa ddydd Gwener
fi + yr Eisteddfod Genedlaethol + y llynedd	Mi fues i yn yr Eisteddfod Genedlaethol llynedd Bues i yn yr Eisteddfod Genedlaethol y llynedd
ti + swyddfa'r cyfreithiwr + y bore 'ma	Mi fuest ti yn swyddfa'r cyfreithiwr y bore 'ma Buest ti yn swyddfa'r cyfreithiwr y bore 'ma
fo/fe + derbyniad y cwmni + yr wythnos diwetha	Mi fuodd o yn nerbyniad y cwmni wythnos diwetha Buodd e yn nerbyniad y cwmni yr wythnos diwetha
hi + y siop elusen + ddoe	Mi fuodd hi yn y siop elusen ddoe Buodd hi yn y siop elusen ddoe
ni + y gweithdy crefft – nos Fawrth	Mi fuon ni yn y gweithdy crefft nos Fawrth Buon ni yn y gweithdy crefft nos Fawrth
chi + y winllan + nos Wener	Mi fuoch chi yn y winllan nos Wener Buoch chi yn y winllan nos Wener
nhw + y parti gwisg ffansi + ddydd Sadwrn	Mi fuon nhw yn y parti gwisg ffansi ddydd Sadwrn Buon nhw yn y parti gwisg ffansi ddydd Sadwrn
y Gweinidog Addysg + yr ysgol + ddydd Gwener	Mi fuodd y Gweinidog Addysg yn yr ysgol ddydd Gwener Buodd y Gweinidog Addysg yn yr ysgol ddydd Gwener

Uned 4 – Canllaw i'r tiwtor

Nod leithyddol: yr amodol

Thema: Dramâu teledu ac operâu sebon

Cam 1 – Siarad Rhydd

Trafodwch yr hyn sydd yn y newyddion. Gweler y canllawiau cyffredinol.

Cam 2 – Adolygu Uned 3 (yr adferfol)

Adolygu Uned 3 (yr adferfol)

I adolygu'r adferfol, rhannwch y dosbarth yn barau a rhowch gopi o'r cardiau yn Atodiad 1 i bob pâr. Gofynnwch iddynt gysylltu'r ddwy golofn i greu brawddegau synhwyrol. Dyma'r atebion cywir:

Mae Rhian yn cael gwersi piano ar ddydd Mercher / ar ddydd Mawrth.

Allwn ni aildrefnu? Anghofiais i bod gen i gyfarfod ddydd Gwener.

Mae'r oergell bron yn wag. Bydd rhaid i mi fynd i siopa ddiwedd yr wythnos.

Mae'n braf ymlacio ar y penwythnos. 'Dyn/Dan ni'n codi'n hwyr iawn ar ddydd Sadwrn.

Fy hoff ddiwrnod i yw dydd Sadwrn.

Achos ei bod hi'n ddydd Llun y Pasg, fydd dim dosbarth ddydd Llun.

Fel arfer, 'dyn/dan ni'n cael ein talu ar ddiwedd y mis.

Y dyddiau hyn, mae bron pob siop ar agor ar ddydd Sul.

'Dyn/Dan ni'n dal awyren am chwech felly bydd rhaid i ni godi'n gynnar fore Mercher.

Yn ein stryd ni, maen nhw'n casglu sbwriel ar ddydd Mawrth / ar ddydd Mercher.

Wedi hynny, gofynnwch iddynt drafod eu cynlluniau ar gyfer yr wythnos i ddod gyda'u partner, e.e.

Ddydd Llun, bydda i'n _____

Cam 3 – Yr amodol

Adolygu baswn i / faswn i ddim.

Cyn mynd ati i gyflwyno **byddwn i**, ceir ymarfer i adolygu'r ffurfiau amodol y maent yn gyfarwydd â hwy, **sef baswn i / faswn i ddim**. Rhowch un neu fwy o gardiau i bawb (yn dibynnu faint sydd yn y dosbarth) a phawb i grwydro'n holi ei gilydd. Dylid eu hannog i ymestyn y sgwrs cymaint â phosib. Mae'r cardiau yn Atodiad 2.

Ymestyn Geirfa

Ar ôl rhoi digon o amser ar gyfer trafod y cardiau, gofynnwch iddynt wneud yr ymarfer yn y cwrslyfr. Gofynnir iddynt feddwl am dri ymadrodd / gair sy'n defnyddio'r geiriau isod, neu elfennau ohonynt nhw. Mae'r geiriau ar y cardiau maen nhw newydd eu defnyddio. Dyma enghreifftiau posib.

Byrddio	bwrdd	Arlunio	llun
	bwrdd smwddio		lluniau priodas
	bwrdd iechyd		llun du a gwyn
	bwrdd snwcer		llun lliw
	bwrdd dartiau		

Llosgfynydd llosgi
mynyddoedd
llosg haul
mynydda

Edrychwch ar enghreifftiau'r dysgwyr, a rhannwch unrhyw eiriau / ymadroddion defnyddiol gyda gweddill y dosbarth.

Cyflwyno 'byddwn i.'

Cyfeiriwyd at ffurfiau llenyddol yr amodol yn Uwch 1, ond ni chawsant eu cyflwyno a'u hymarfer yn y cwrs. Serch hynny, mae'n debygol y bydd y dysgwyr wedi gweld a chlywed y ffurfiau hyn, yn enwedig yn y de-orllewin, lle maent yn gyffredin iawn ar lafar. Dylid esbonio eu bod yn ffurfiau llafar (a llenyddol) yn y de, ac yn ffurfiau llenyddol yn unig yn y gogledd.

Trowch yn ôl at y cardiau amodol.

Rhowch y cardiau i gyd allan wyneb i fyny ar y bwrdd. Dewiswch ddau gerdyn i roi enghraifft o 'byddwn i' a 'fyddwn i ddim' i'r dosbarth, er enghraifft:

Byddwn i'n cystadlu mewn cwis ar y teledu

Fyddwn i ddim yn rafftio i lawr afon wyllt

Gofynnwch i bawb wneud yr un peth. Wedyn, ewch ymlaen i wneud y trydydd person trwy ofyn cwestiynau i bob pâr, e.e.

"John – beth fyddai Lisa ddim yn wneud?"

"Fyddai hi ddim yn canu karaoke ar ei phen ei hun."

Gallech chi fynd â hyn ymhellach trwy ofyn "Beth fyddden nhw'n wneud?" a "Beth fyddden ni'n wneud?"

Efallai na fydd dosbarthiadau'r gogledd yn dymuno treulio llawer o amser yn ymarfer y ffurfiau ar lafar gan na fydd y dysgwyr yn debygol o'u clywed a'u defnyddio wrth sgwrsio.

Ymarfer

Ar ôl i bawb gael digon o gyfle i ymarfer y ffurfiau, gallwch symud ymlaen i wneud yr ymarfer ysgrifenedig yn y cwrslyfr. Dyma'r atebion:

1. **Fyddet** ti'n gallu dod am swper heno yn lle nos fory?
2. Tasai Elis yn ddigon heini, **byddai'n** rhedeg marathon.
3. Beth **bydden/fyddden** nhw'n wneud heb dy help di?
4. **Fyddwn** i byth yn nofio yn y môr ar ddiwrnod oer fel heddiw.
5. **Byddwn** i'n poeni tasai siop y pentref yn cau.
6. Dw i'n meddwl **byddech** chi'n mwynhau'r ffilm 'na – mae'n ddoniol iawn.
7. **Fyddai** hi ddim yn hapus taswn i'n rhannu'r gyfrinach gyda ti.
8. **Fyddai** John byth yn fy nghredu i – mae'n rhaid i ti ddweud wrtho fe.
9. **Byddech** chi'n cael eich cosbi tasech chi'n meiddio twyllo yn y prawf yma.
10. **Fyddden** nhw ddim yn hoffi mynd ar wyliau i wlad boeth.
11. **Byddech** chi'n cael trafferth siopa ar-lein heb fy help i.

Cam 4 – Cyfwyno'r thema: Dramâu teledu ac operâu sebon

1. Ceir blwch Storom eirfa yn y cwrslyfr. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eiriau sy'n dod i'r meddwl wrth ystyried y thema hon. Nodwch unrhyw eiriau defnyddiol ar y bwrdd gwyn.
2. Gofynnwch i'r dosbarth restru chwe opera sebon, a chreu brawddeg gradd eithaf ar gyfer bob un gan ddefnyddio doniol, trist, diflas, realistig, da, drwg. Er enghraifft, "Dw i'n credu taw/mai Eastenders ydy'r opera sebon drista". Atgoffwch nhw bod 'opera sebon' yn fenywaidd, a bod angen treiglo'r ansoddair ar ei ôl.
3. I gloi, ceir llawer o gwestiynau ar y thema yn y cwrslyfr. Un cwestiwn ychwanegol posib fyddai "Oes golygfa o opera sebon yn aros yn eich meddwl?"

Cam 5 – Deialog: Rownd a Rownd

Ceir rhan o sgript *Rownd a Rownd* yn y cwrslyfr. Ceir y fersiwn wreiddiol (ogleddol) ynghyd ag addasiad deheuol. Sicrhewch bod eich dysgwyr yn darllen y fersiwn sydd fwyaf addas iddyn nhw.

Yn gyntaf, gofynnwch iddynt chwilio am y ffurfiau amodol yn y ddeialog. Maent wedi eu hamlygu isod. Gofynnwch iddynt ysgrifennu'r ffurfiau amodol fel y maent yn y ddeialog, ac yna eu hysgrifennu fel y byddent yn ei wneud fel arfer (e.e. 'baswn' yn lle 'byswn' yn y gogledd). Yna, gofynnwch iddynt danlinellu'r holl elfennau llafar yn y ddeialog.

Ar ôl cael digon o gyfle i drafod a dadansoddi iaith y ddeialog, gofynnwch iddynt weithio mewn parau i ddarllen y ddeialog, gan gymryd tro i wneud y ddwy ran.

Fersiwn wreiddiol (y gogledd)	Fersiwn y de
<u>BRITNEY</u> 'Nath hi sôn rwbath am y pres sy arnyn nhw i'r dyn treth wedyn? <u>DANI</u> Na. Dim byd. <u>BRITNEY</u> Bechod. <u>DANI</u> Ia, dwi'n gwbod. <u>BRITNEY</u> Pam 'nei di'm cynnig talu drostyn nhw? <u>DANI</u> Fi? <u>BRITNEY</u> Ia. Ma' gin ti ddigon o bres does. <u>DANI</u> Ond 'y mhres i 'dio. <u>BRITNEY</u> Dwi'n gwbod, ond tasa gin i bres, 'swn i'n gynnig o iddyn nhw. <u>DANI</u> (AMHEUS IAWN) O bysat?! <u>BRITNEY</u> Bysw. Faint o bres Wyn sgin ti ar ôl? <u>DANI</u> Meindia dy fusnas! <u>BRITNEY</u> Gin ti ddigon ma' siwr does. <u>DANI</u> Oes ella. <u>BRITNEY</u> A fysa chdi'n ga'l o'n ôl ginnyn nhw. Dim ond benthbyg fysa fo. 'Swn i'n 'neud 'swn i'n chdi.	<u>BRITNEY</u> 'Wedodd hi rywbeth am yr arian sy arnyn nhw i'r dyn treth wedyn? <u>DANI</u> Na. Dim byd. <u>BRITNEY</u> Trueni. <u>DANI</u> Ie, dwi'n gwbod. <u>BRITNEY</u> Pam 'nei di ddim cynnig talu drostyn nhw? <u>DANI</u> Fi? <u>BRITNEY</u> Ie. Mae digon o arian 'da ti on'd oes e? <u>DANI</u> Ond fy arian i yw e. <u>BRITNEY</u> Dwi'n gwbod, ond tase arian 'da fi, byddwn i'n 'i gynnig e iddyn nhw. <u>DANI</u> (AMHEUS IAWN) O fyddet ti?! <u>BRITNEY</u> Byddwn. Faint o arian Wyn sy 'da ti ar ôl? <u>DANI</u> Meindia dy fusnes! <u>BRITNEY</u> Mae digon 'da ti, on'd oes e. <u>DANI</u> Oes falle. <u>BRITNEY</u> A byddet ti'n 'i ga'l e'n ôl wrthyn nhw. Dim ond benthbyg fydde fe. Byddwn i'n neud, 'swn i'n ti.

Cam 6 – Gwyllo a gwrando: Anti Marian yn ymddeol

Cyfweliad â'r actores Buddug Williams yw'r fideo. Mae hi'n siarad am ei hymddeoliad, ar ôl blynyddoedd yn actio ar Pobol y Cwm.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando. Efallai y bydd angen help ar ddosbarthiadau'r gogledd i ddeall ambell air tafodieithol.

Dyma atebion y cwestiynau.

Dewiswch yr atebion cywir a rhowch groes yn y blwch.		
O ble mae Buddug Williams yn dod?	Pontypridd Pontyberem Pontypŵl	
		✓
Mae Anti Marian yn dweud "Paid ti â meddwl bo' ti'n mynd i ga'l tamed o'r _____ 'na!" Beth?	Cawl Pizza Lasagne	
		✓
Mae Buddug Williams yn dweud bod Anti Marian fel mam i rywun. Pwy?	Denzil Sioned Cheryl	✓
Dydy Buddug Williams ddim yn gallu mynd i rywle ar brynhawn dydd Mercher. Ble?	Pontyberem Caerfyrddin Cefneithin	✓
Beth fydd Buddug Williams yn gweld ei eisiau fwya ar ôl ymddeol?	Y cyflog Y cwmni perfformio	
		✓

Bydd Buddug Williams yn parhau i wyllo Pobol y Cwm. Pam? Ysgrifennwch ddau reswm isod.

1. Mae ei chwaer yn 'ffan' o'r rhaglen ac yn ei gwyllo bob dydd.
2. Bydd hi eisiau gwybod beth sy'n digwydd i bawb.

I gloi, ceir cwestiynau yn y cwrslyfr ynglŷn ag ymddeol. Ond mae croeso i chi sgwrsio am unrhyw bwnc sy'n codi yn y fideo.

Cam 9 – Geirfa Uned 5

Atodiad 1

Mae Rhian yn cael gwersi piano	ar ddiwedd y mis.
Allwn ni aildrefnu? Anghofiais i bod gen i gyfarfod	dydd Sadwrn.
Mae'r oergell bron yn wag. Bydd rhaid i mi fynd i siopa	ar ddydd Sadwrn.
Mae'n braf ymlacio ar y penwythnos. 'Dyn/ Dan ni'n codi'n hwyr iawn	ar ddydd Mercher.
Fy hoff ddiwrnod i yw	ar ddydd Mawrth.
Achos ei bod hi'n ddydd Llun y Pasg, fydd dim dosbarth	fore Mercher.
Fel arfer, 'dyn/dan ni'n cael ein talu	ddydd Gwener.
Y dyddiau hyn, mae bron pob siop ar agor	ddiwedd yr wythnos.
'Dyn/Dan ni'n dal awyren am chwech felly bydd rhaid i ni godi'n gynnar	ar ddydd Sul.
Yn ein stryd ni, maen nhw'n casglu sbwriel	ddydd Llun.

Atodiad 2

bwyta cyrri poeth iawn	mynd ar fordaith am dri mis
canu karaoke ar dy ben dy hun	ymweld â llosgfynydd
cwyno am wasanaeth drwg mewn siop neu gaffi	rafftio i lawr afon wyllt
actio ar lwyfan	rhedeg ras mewn gwisg ffansi
coginio pryd o fwyd i ugain o bobl	darllen nofel 500 o dudalennau
gallu/medru ysgrifennu barddoniaeth	gallu/medru gwneud her y tri chopa mewn diwrnod (Yr Wyddfa, Cader Idris a Phen-y-Fan)
symud i fyw dramor	cysgu yn yr awyr agored
gallu/medru byw heb nwyddau plastig	nofio yn y môr (yng Nghymru) yn y gaeaf
mynd i eira-fyrddio	gweithio y tu allan bob dydd
cystadlu mewn cwis ar y teledu	mynd i ddosbarth arlunio bywyd
gwneud cacen ben-blwydd i ffrind neu aelod o'r teulu	mynd i weld drama Gymraeg
mynd ar wyliau mewn cwch camlas	dysgu iaith arall

Uned 5 – Canllaw i'r tiwtor

Nod leithyddol: Y cymal enwol

Thema: Sefydliadau Cymru

Cam 1 – Adolygu'r Amodol

Ceir dau ymarfer yn y gwerslyfr:

- 1) Ymarfer paru – gall paru sy'n gorffen yn gynnar geisio cofio ail hanner y frawddeg. Mae'n bwysig wedyn rhoi'r dosbarth ar waith yn holi'r cwestiynau hyn i'w gilydd er mwyn sbarduno sgwrs. Dyma fydd y Sgwrsio Cychwynnol yn yr uned hon.
- 2) Ymarfer ysgrifennu i adolygu gorffennol yr amodol.

Cam 2 – Geirfa

Yn ogystal â gofyn i'r dysgwyr ddwyn i gof eiriau'n dechrau gyda cam, cyflwynir tri ymadrodd: camsefyll, cael cam, achub cam.

Cam 3 – Sefydliadau Cymru

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i enwi cymaint â phosib o sefydliadau Cymru.

Cam 4 – Y Cymal Enwol

Adolygu

Cyflwynir gwybodaeth am Sefydliadau Cymru wrth adolygu'r Cymal Enwol. Nid oes unrhyw waith newydd yma felly gellid gofyn i barau wneud y gweithgaredd uno brawddegau heb unrhyw baratoi, gan eu defnyddio fel cyfle i adolygu egwyddorion: bod ar gyfer brawddegau presennol ac amherffaith, y ar gyfer y dyfodol a'r amodol, mai/taw mewn cymalau pwysleisiol. Bydd darllen dros yr Help Llaw yn cadarnhau'r rheolau.

Y gorffennol cryno:

Y gwaith ymestynnol yma yw defnyddio'r arddodiad **i** ar gyfer cyfleu'r gorffennol cryno. Rhaid pwysleisio nad oes angen poeni am hyn a bod brawddegau megis 'Dw i'n siŵr gadawais i fy ffeil yn y dosbarth' yn gwbl dderbyniol ar lafar. Ond, er mwyn dangos y gystrawen ar waith, efallai yr hoffech gasglu enghreifftiau y byddwch wedi eu clywed neu eu gweld ar y cyfryngau neu yn y wasg yn ddiweddar. Rhannwch y dosbarth yn barau i roi cynnig ar yr ymarfer cyfieithu:

I think I left my file in class last week.

Dw i'n meddwl i mi/fi adael fy ffeil yn y dosbarth (yr) wythnos diwetha.

I'm sure I understood correctly.

Dw i'n siŵr i mi ddallt/i fi ddeall yn iawn/gywir.

I heard he forgot to do the homework.

Clywais i/Mi glywes i iddo fe/fo anghofio gwneud y gwaith cartre(f).

They are saying that the Prime Minister resigned after the cabinet meeting.

Maen nhw'n dweud i'r Prif Weinidog ymddiswyddo ar ôl cyfarfod y cabinet.

I think she was born on Tuesday.

Dw i'n meddwl iddi hi gael ei geni ddydd Mawrth.

Ymarfer

Er mwyn atgyfnerthu'r patrwm, gwnewch y dril isod:

De

Basiaist ti'r prawf?

Dw i'n meddwl i fi wneud.

Basiodd e'r prawf?

Dw i'n meddwl iddo fe wneud.

Basion nhw'r prawf?

Dw i'n meddwl iddyn nhw wneud.

Basioch chi'r prawf?

Dw i'n meddwl i ni wneud.

Basiodd hi'r prawf?

Dw i'n meddwl iddi hi wneud.

Ffeiliodd hi'r adroddiad?

Dw i'n meddwl iddi hi wneud.

Ffeiliodd e'r adroddiad?

Dw i'n meddwl iddo fe wneud.

Ffeiliaist ti'r adroddiad?

Dw i'n meddwl i fi wneud.

Gogledd

Wnest ti basio'r prawf?

Dw i'n meddwl i mi wneud.

Wnaeth o basio'r prawf?

Dw i'n meddwl iddo fo wneud.

Wnaethon nhw basio'r prawf?

Dw i'n meddwl iddyn nhw wneud.

Wnaethoch chi basio'r prawf?

Dw i'n meddwl i ni wneud.

Wnaeth hi basio'r prawf?

Dw i'n meddwl iddi hi wneud.

Wnaeth hi ffeilio'r adroddiad?

Dw i'n meddwl iddi hi wneud.

Wnaeth o ffeilio'r adroddiad?

Dw i'n meddwl iddo fo wneud.

Wnest ti ffeilio'r adroddiad?

Dw i'n meddwl i mi wneud.

Rhaid i barau benderfynu ym mha flwyddyn cafodd y sefydliadau gwahanol eu sefydlu gan adrodd yn ôl yn defnyddio'r patrwm:

'Dyn/Dan ni'n meddwl i XX gael ei sefydlu yn XX neu 'Dyn/Dan ni'n gwybod i XX gael ei sefydlu yn XX

Atebion:

Undeb Rygbi Cymru	1881
Cadw	1984
S4C	1982
Cymdeithas Bêl-droed Cymru	1876

Cynulliad Cenedlaethol Cymru	1999
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru	2000
Gwasg Prifysgol Cymru	1922
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	1907

Cam 5 – Sefydliadau Cymru: Amgueddfa Cymru

Siaradwch – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y cwestiynau yn y llyfr, gan gynnal sesiwn adrodd yn ôl.

Gwranddo – Cyn chwarae'r darn, gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y map a'r tabl a cheisio enwi pob amgueddfa a nodi un ffaith amdani os yn bosib. Chwaraewch y darn. Y tro cyntaf, rhaid i'r dysgwyr wirio bod yr enwau'n gywir gyda nhw. Ewch dros yr atebion cyn chwarae'r darn eto. Y tro nesaf, rhaid ceisio nodi ffaith, neu ffaith newydd am bob amgueddfa.

Gwyllo a Deall – Croeso i Sain Ffagan

- Chwaraewch y ffilm a gofynnwch i barau nodi arwyddocâd y llefydd a enwir:

Stockholm	Cafodd Iorwerth C Peate ei ysbrydoli gan amgueddfa awyr agored Skansen yn Stockholm cyn mynd ati i sefydlu Sain Ffagan.
Plymouth	Iarll Plymouth roddodd y castell a'r tiroedd ar gyfer yr amgueddfa.
Rhyd-y-car	Symudwyd rhes o dai teras o Ryd-y-car (Merthyr Tudful) i'r amgueddfa a'r bythynnod hyn yw un o atyniadau mwyaf poblogaidd yr amgueddfa.
Pontarddulais	Symudwyd Eglwys Sant Teilo (eglwys o'r Oesodd Canol) o Bontarddulais i'r amgueddfa.
Ynys Môn	Defnyddiwyd tystiolaeth o Lys Rhosyr ar Ynys Môn wrth greu Llys Llywelyn.
- Bydd parau'n trafod un ffaith newydd a ddysgon nhw wrth wyllo'r ffilm.
- Y tro hwn, gwrandewch yn ofalus a llenwch y bylchau:
 - Roedd e eisiau sefydlu cartref i ddiwylliant, iaith, treftadaeth a thraddodiadau Cymru > treigladau llaes yn dilyn a.
 - Symudwyd llawer o adeiladau o bob cwr o Gymru > gellid gofyn am ffurfiau amhersonol eraill yn y darn (dechreuwyd, agorwyd, defnyddiwyd).
 - Daeth hen furluniau lliwgar i'r golwg > gellid gofyn am ymadroddion eraill yn defnyddio'r berfenw dod (dod i ben, dod i ben fy nhennyn, dod o hyd i).

4. Ceisiwch wrando am y geiriau yn y darn sy'n dod o'r geiriau isod:
- i. arbennig arbenigwr (arbenigwraig, arbenigo, arbenigol)
 - ii. gwaith gweithleoedd (gweithdrefnau, gweithgar, gweithgaredd, dosbarth gweithiol)
 - iii. lle lleoliad (lleol, lleoli, eisteddle, llecyn, cadarnle, rhywle, rhywbeth o'i le)

5. Ymadroddion:
- i. newydd sbon
 - ii. dan do
 - iii. dweud eu dweud

Yn olaf, edrychwch ar y frawddeg: **Dyma oriel Cymru, sy'n rhoi cip ar fywyd yng Nghymru dros gyfnod o 230,000 o flynyddoedd.** Er mwyn ymarfer y gystrawen elfennol ond defnyddiol hon, ewch â chasgliad o lyfrau Cymraeg i'r dosbarth. Rhewch lyfr i bob aelod o'r dosbarth a rhaid iddynt ystyried y broliant a chreu brawddeg, e.e. Dyma Llyfr Glas Nebo, sy'n adrodd hanes Siôn, ei fam Rowenna, a'i chwaer Dwynwen yn dilyn Y Terfyn. (Gallai fod yn haws petaech yn paratoi'r brawddegau ymlaen llaw a'u hysgrifennu ar post-it ar y llyfr – Mae Llyfr Glas Nebo'n adrodd hanes Siôn, ei fam Rowenna, a'i chwaer Dwynwen yn dilyn Y Terfyn.) Fel ail gam, gofynnwch i bawb ddod â llyfr i'r wers nesaf a chynllunio brawddeg i'w ddisgrifio gan ddechrau gyda'r un fformiwla – Dyma XX sy'n... Does dim rhaid iddynt fod yn llyfrau Cymraeg. Gellid gofyn i bobl ddod ag un o'u hoff lyfrau.

Cam 7 – Sefydliadau Cymru:Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Storom Eirfa – llyfrgelloedd

Siaradwch – datganiadau i sbarduno trafodaeth a barn ar bwysigrwydd llyfrgelloedd.

Gwranddo – Darn lle mae Rhodri Glyn Thomas, llywydd y Llyfrgell Genedlaethol, yn trafod y llyfrgell.

Pam mae'n rhaid i'r Llyfrgell dderbyn popeth?

Beth yw'r peth pwysig am y Llyfrgell?

Enwch dri pheth sy yn y Llyfrgell.

Mae'n llyfrgell hawlfraint.

Cof y genedl yw hi.

Casgliadau – dogfennau, mapiau, lluniau.

Dych chi wedi disgrifio rhai o **swyddogaethau**’r Llyfrgell.

Rhaid i ni dderbyn popeth **sy'n cael ei** gyflwyno/gynnig.

Mae yna **gasgliadau** enfawr.

Mae yna **gannoedd ar gannoedd** o luniau.

Mae'n **fodd** i'n cyfeirio ni i'r dyfodol.

Modd – Ceir tri ymarfer i ddefnyddio 'modd'. Ymarfer 1 – Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud y dril ac yna ewch drosto fe. Ymarfer 2 – Awgrymir bod y dosbarth yn drilio'r tiwtor yn y lle cyntaf – er mwyn modelu'n dda. Ymarfer 3 - Eto, rhannwch y dosbarth yn barau i brofi ei gilydd cyn gwneud dril llafar yn y dosbarth.

Darllen – Y Llyfrgell gan Fflur Dafydd (Y Lolfa, 2009)

Yn y cwrslyfr, ceir darn byr o'r nofel *Y Llyfrgell*.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau trwy'r cwestiynau ieithyddol a geir yn dilyn y darn.

Siaradwch – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod trefn mewn gweithle/swyddi ac a ydyn nhw'n hoff o drefn yn eu bywydau nhw.

Cam 8 – Sefydliadau Cymru: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod yr hyn maent yn ei wybod am y Cynulliad a'r hyn yr hoffent ei wybod. Os nad yw'r wybodaeth gennych am unrhyw gwestiwn sy'n codi, gellwch ddweud y byddwch yn adrodd yn ôl yn y wers nesaf neu'n gosod her i'r dosbarth ganfod yr wybodaeth eu hunain.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau newydd i weld beth sy'n digwydd yn y Cynulliad ar hyn o bryd. Os gellwch gyrchu'r we, cewch wybodaeth yma: **<http://www.cynulliad.cymru/cy/Pages/Hafan.aspx>**.

Cam 9 – Geirfa Uned 6

Uned 6 – Canllaw i'r tiwtor

Nod ieithyddol: yr amhersonol

Thema: rhyfel

Cam 1 – Siaradwch

Ewch â chasgliad o luniau sy'n cynrychioli storïau cyfredol yn y newyddion. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a rhowch lun i bob grŵp. Rhaid iddyn nhw drafod unrhyw agwedd ar y stori – adrodd y ffeithiau, mynegi barn, holi am wybodaeth. Os na wyddant beth yw'r stori, rhaid meddwl beth allai fod. Wedyn, gofynnwch i bob grŵp ddewis pedwar llun a chreu pennawd addas. Bydd yn rhaid i'r grwpiau eraill ddyfalu pa bennawd sy'n cyd-fynd â pha lun.

Cam 2 – Adolygu Uned 5

I adolygu gwaith Uned 5 ar y cymal enwol gyda chymalau yn y gorffennol cryno, rhowch y dosbarth i weithio mewn parau. Ysgrifennwch y deg brawddeg isod ar y bwrdd neu eu rhoi ar sleid.

Gofynnwch i'r parau roi 'Dw i'n meddwl / credu' o flaen y pum brawddeg isod, fel a ganlyn:

Collon ni/Mi gollon ni'r gêm ddiwetha.	>	Dw i'n meddwl i ni golli'r gêm ddiwetha.
Anghofiais /Mi anghofies i gau'r ffenest.	>	Dw i'n meddwl i mi anghofio cau'r ffenest.
Taflodd hi/Mi daflodd hi'r llythyr i'r bin.	>	Dw i'n meddwl iddi hi daflu'r llythyr i'r bin.
Cafodd e / Mi gaeth o farciau da yn yr arholiad.	>	Dw i'n meddwl iddo fo gael marcïau da yn yr arholiad
Gwnest/Mi wnest ti gawl potsh / smonach o'r arholiad.	>	Dw i'n meddwl i ti wneud smonach o'r arholiad

Gofynnwch i'r parau roi 'Gobeithio' o flaen y pum brawddeg isod, fel a ganlyn:

Cyrhaeddodd hi/Mi gyrhaeddodd hi mewn pryd.	>	Gobeithio iddi hi gyrraedd mewn pryd.
Mwynheuoich chi/Mi wnaethoch chi fwynhau'r parti.	>	Gobeithio i chi fwynhau'r parti.
Cofiodd hi/Mi gofiodd hi ddiffodd y popti / ffwrn	>	Gobeithio iddi hi ddiffodd y ffwrn.
Dwedodd e/Mi ddeudodd o 'diolch'.	>	Gobeithio iddo fe/fo ddweud 'diolch.'
Cawsoch chi/Mi gaethoch chi wyliau da.	>	Gobeithio i chi gael gwyliau da.

Mae hwn hefyd yn gyfle i dynnu sylw at unrhyw enghreifftiau o ddefnydd o'r patrwm uchod y byddwch wedi dod ar eu traws rhwng gwersi.

Cam 3 – Yr amhersonol

Ymarfer y goddefol

Cyn mynd ati i ymarfer yr amhersonol, byddai'n syniad da ymarfer ffurfiau cwmphasog y goddefol, i atgoffa'r dysgwyr o'r cysyniad.

Yn gyntaf, rhwch enghraifft syml o'r goddefol, e.e. 'Ces i fy ngeni yn ...' a gofynnwch i'r dysgwyr ymateb gan ddilyn yr un patrwm.

Cyn mynd ymlaen i'r cam nesaf, gofynnwch iddynt esbonio pam mae cenedl enwau yn bwysig wrth ffurfio'r goddefol. Trafodwch yr hyn sy'n digwydd wrth ddefnyddio enwau benywaidd yn y goddefol e.e. 'cafodd yr ysgol ei hadeiladu', a'r gwrywaidd e.e. 'cafodd y bachgen ei weld'.

Yna, dosbarthwch gardiau ymarfer y goddefol (Atodiad 1) i bob pâr. Gofynnwch iddynt uno'r cardiau i greu brawddegau synhwyrol, cyn nodi'r atebion cywir yn y man priodol yn eu cwrslyfrau.

Yr amhersonol

Bydd y dysgwyr yn gyfarwydd â'r amhersonol ac wedi gwneud peth gwaith arno yn Canolradd ac Uwch 1. Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer syml yn y llyfr cwrs i weld faint mae'r dysgwyr yn ei gofio. Dyma'r atebion:

Cafodd y nodyn ei anfon	<i>Anfonwyd y nodyn</i>
Cafodd y bencampwriaeth ei gohirio	<i>Gohiriwyd y bencampwriaeth</i>
Cafodd y llenni eu hagar	<i>Agorwyd y llenni</i>
Cafodd y cadoediad ei barchu	<i>Parchwyd y cadoediad</i>
Cafodd y ffoadur ei groesawu	<i>Croesawyd y ffoadur</i>
Cafodd y llwybr ei wella	<i>Gwellwyd y llwybr</i>
Cafodd y rhaglen ei recordio	<i>Recordiwyd y rhaglen</i>

Ceir Help Llaw manwl. Nid oes rhaid darllen yr adran hon air am air, ond edrychwch ar dabl y berfau amhersonol (gorffennol) a ddefnyddiwr amlaf. Ar ôl edrych dros y brawddegau, rhwch ferf i bob pâr a gofynnwch iddynt ffurfio brawddeg wahanol yn defnyddio'r ferf honno, e.e. arestio - Arestiwyd dau ddyn am ymladd y tu allan i'r dafarn.

Ewch ymlaen wedyn i drafod yr enghreifftiau yn y tabl –ir, a gofynnwch iddynt lunio eu henghreifftiau eu hunain gan ddefnyddio'r berfau yn y tabl.

Wedi hynny, esboniwch pryd rydym yn defnyddio'r terfyniad –id, a rhwch rai enghreifftiau ychwanegol iddynt eu trafod.

Nesaf, trafodwch y berfau afreolaidd, gan bwysleisio bod y rhain yn cael eu defnyddio'n weddol helaeth. Gallech wedyn ofyn i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau i greu un eitem mewn bwletin newyddion (stori go-iawn neu ddychmygol) gan ddefnyddio berfau amhersonol afreolaidd.

Yn olaf, tynnir sylw at dair ffurf gyffredin iawn – Gellir, Gellid, Dylid. Os yw'n bosib yn eich ystafell ddosbarth, rhannwch y dosbarth yn barau i chwilio am y geiriau hyn ar y we i weld pa frawddegau maen nhw'n eu canfod.

Ymarfer

Pan fyddwch yn teimlo bod y dysgwyr yn gallu defnyddio'r amhersonol yn hyderus, gofynnwch iddynt wneud yr ymarfer yn y cwrslyfr, sy'n gofyn am ddealltwriaeth o ffurfiau'r amhersonol yn y gorffennol, y presennol/dyfodol a'r amherffaith. Dyma'r atebion:

1. Cafodd gwobr ei rhoi i'r tîm gorau yn y gystadleuaeth.
Rhoddwyd gwobr i'r tîm gorau yn y gystadleuaeth.
2. Roedd cloch yn cael ei chanu bob amser chwarae yn fy hen ysgol.
Cenid cloch bob amser chwarae yn fy hen ysgol.
3. Mae dosbarth Cymraeg yn cael ei gynnal yn Neuadd y Pentref.
Cynhelir dosbarth Cymraeg yn Neuadd y Pentref.
4. Bydd y troseddwr yn cael ei ddedfrydu yfory.
Dedfrydir y troseddwr yfory.
5. Cafodd parcel ei anfon atoch chi ddoe.
Anfonwyd parcel atoch chi ddoe.
6. Roedd dillad o bob math yn cael eu gwneud yn y ffatri hon.
Gwnaed dillad o bob math yn y ffatri hon.
7. Bydd enw'r enillydd yn cael ei gyhoeddi yr wythnos nesaf.
Cyhoeddir enw'r enillydd yr wythnos nesaf.
8. Cafodd deg pysgodyn eu dal gan y pysgotwr neithiwr.
Daliwyd deg pysgodyn gan y pysgotwr neithiwr.
9. Roedd gwasanaeth plygain yn cael ei gynnal yn yr eglwys yma ers talwm.
Cynhelid gwasanaeth plygain yn yr eglwys yma ers talwm.
10. Mae swyddfa newydd y cwmni'n cael ei hagor yfory.
Agorir swyddfa newydd y cwmni yfory.

Cam 4 – Rhyfel

Storom Eirfa – Rhyfel

Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu o leiaf chwe gair ar y thema yn eu cwrslyfrau.

Siaradwch - Gofynnwch i'r dosbarth ddechrau trafod y thema hon trwy drafod sut mae rhyfel wedi effeithio ar eu teuluoedd nhw, os o gwbl.

Darllen - Cymru a Rhyfel Cartref Sbaen

Ceir darn darllen byr yn y cwrslyfr, sy'n cyd-fynd â'r thema ond hefyd yn ymarfer yr amhersonol. Rhaid llenwi'r bylchau yn y darn â berfau amhersonol addas (a restrir yn y cwrslyfr). Dyma'r atebion:

Dechreuodd Rhyfel Cartref Sbaen yn 1936 pan ymosodwyd ar Lywodraeth Gweriniaeth Sbaen gan filwyr y **Cadfridog** Franco.

Trwy Ffederasiwn Glowyr De Cymru a'r Blaid Gomiwnyddol, cafwyd llawer o gefnogaeth yng Nghymru i'r Brigadau Rhyngwladol oedd yn ymladd yn erbyn Franco.

Aeth 174 o Gymry i ymladd yn Sbaen (a dim ond un fuodd yn ymladd dros Franco). Lladdwyd 33 ohonyn nhw.

Ar ôl cwmpw Gwlad y Basg yn 1938, dan arweiniad David Lloyd George, ffurfiwyd pwyllgorau **dyngarol** i helpu plant **ffoaduriaid** o Wlad y Basg.

Cyhoeddwyd dwy nofel gan Lewis Jones o'r Rhondda sy'n trafod ymateb glowyr Cymru i Ryfel Cartref Sbaen, sef *Cwmardy* (1937) a *We Live* (1939).

Yn fwy diweddar, ysbrydolwyd y band o'r Coed Duon, The Manic Street Preachers, gan wirfoddolwyr o dde Cymru a ymladdodd yn y Brigadau Rhyngwladol.

Rhyddhawyd 'If You Tolerate This Your Children Will Be Next' yn 1998, ac aeth i rif un y siartiau Prydeinig.

Gwyllo a gwrando - Ymweliad â'r Ysgwrn, Cartref Hedd Wyn

Ceir cyflwyniad syml i'r Ysgwrn gan yr actores Catrin Mara.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau yn y cwrslyfr. Dyma'r atebion:

1. Ym mha bentref yng Nghymru mae'r Ysgwrn?
Trawsfynydd.
2. Beth oedd enw 'go iawn' Hedd Wyn?
Ellis Evans.
3. Sut mae Gerald Williams yn perthyn i Hedd Wyn?
Mae'n nai i Hedd Wyn.
4. Pwy sy'n gyfrifol am Yr Ysgwrn heddiw?
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
5. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn?
1917 Cafodd Ellis Evans ei ladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.
14 Roedd yn un o 14 o blant.
9 Dim ond naw o'r plant wnaeth fyw i fod yn oedolion.

"Rhoddwyd llen ddu dros y gadair yn ystod y seremoni."

Ail-ysgrifennwch y frawddeg uchod gan ddefnyddio berfau cwmpasog yn lle 'rhoddwyd.'

Cafodd llen ddu ei rhoi dros y gadair yn ystod y seremoni.

"Mae Eisteddfod Penbedw'n cael ei galw'n 'Eisteddfod y Gadair Ddu.'"

Ail-ysgrifennwch y frawddeg uchod gan ddefnyddio berf amheronol yn lle 'cael ei galw.'

Gelwir Eisteddfod Penbedw'n 'Eisteddfod y Gadair Ddu.'

Darllen - Detholiad o Englynion Coffa Hedd Wyn gan R. Williams Parry.

Ceir darn darllen eithaf heriol yma, sef detholiad o Englynion Coffa Hedd Wyn gan R. Williams Parry.

Peidiwch â mynd i gors wrth geisio esbonio'n union beth yw englyn! Peidiwch chwaith ag ymdrechu i esbonio pob gair. Pwysleisiwch nad oes angen iddynt ddeall popeth – dim ond deall bras ystyr y gerdd.

Rhannwch y dosbarth yn barau, a gofynnwch iddynt gymryd tro i ddarllen yr englynion yn uchel i'w partneriaid, er mwyn clywed a mwynhau eu sŵn.

Bydd rhai dosbarthiadau wrth eu bodd yn gwneud hyn, ond ni fydd at ddant dosbarthiadau eraill. Penderfynwch chi faint o amser i'w roi i'r dasg hon, yn unol â diddordeb eich dosbarth. Os gellwch gyrchu'r we, mae nifer o gorau'n canu'r Englynion Coffa ar YouTube.

Ceir isod gopi o'r pedwar pennill, er mai dim ond dau sy'n cael eu hargraffu yn y llyfr i'r dysgwyr:

Y bardd trwm dan bridd tramor - y dwylaw

Na ddidolir rhagor:

Y llygaid dwys dan ddwys ddôr,

Y llygaid na all agor.

Wedi ei fyw y mae dy fywyd - dy rawd

Wedi ei rhedeg hefyd.

Daeth awr i fynd i'th weryd,

A daeth i ben teithio'r byd.

Tyner yw'r lleuad heno - tros fawnog

Trawsfynydd yn dringo:

Tithau'n drist a than dy ro

Ger y ffos ddu'n gorffwyso.

Trawsfynydd! Tros ei feini trafaeliaist

Ar foelydd Eryri;

Troedio wnest ei rhedyn hi,

Hunaist ymhell ohoni.

I gloi, rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer y gwaith 'Siaradwch'.

Darllen a Siarad - Bywyd ar ôl yr Ail Ryfel Byd

Ceir ymarfer bach hwyliog yma, i gymharu ein bywydau ni heddiw â bywydau pobl yn fuan wedi'r Ail Ryfel Byd.

Gofynnwch i'r dosbarth weithio mewn parau, i geisio ateb y cwestiynau yn y cwrslyfr am 1953, sef:

- **Ar gyfartaledd**, faint yn hirach mae pobl yn byw nawr nag yn 1953?
- Pa nwyddau oedd yn cael eu **dogni**?
- Sut roedd noson yn y sinema'n dod i ben?

- Pa fath o swyddi oedd gan fenywod?
- Sut roedd menyng yn cael ei werthu?
- Sut roedd dillad yn cael eu golchi a'u sychu?
- Faint o gyllideb wythnosol pobl oedd yn cael ei gwario ar fwyd a diodydd ysgafn? Beth am heddiw?
- Pa raglenni radio oedd yn boblogaidd?
- Sut mae arferion gwyliau wedi newid i lawer?
- Pam roedd pobl yn prynu **olew olewydd**?
- Enwch un digwyddiad hanesyddol sy'n dyddio'n ôl i 1953.
- Beth na fydddech chi'n cael hyd iddyn nhw yn y rhan fwyaf o dai yn 1953?
- Sut mae prynu bisgedi wedi newid dros y blynyddoedd?
- Pa raglenni teledu oedd yn boblogaidd? Enwch un gwahaniaeth mawr rhwng y rhaglenni hyn a rhaglenni heddiw.

Pan fyddant wedi cael digon o gyfle i roi cynnig ar ateb pob cwestiwn, dosbarthwch rai o'r cardiau atebion i bob pâr (Atodiad 2). Wedyn, gofynnwch i'r parau godi ar eu traed a chrwydro'r dosbarth, er mwyn gwirio eu hatebion gyda pharau eraill. Dylai'r dasg hon arwain at ddigon o sgwrsio rhydd naturiol, yn cymharu bywyd heddiw â'r oes o'r blaen. Os oes tipyn o ddysgwyr hŷn yn eich dosbarth, gallech ofyn iddynt ddod ag unrhyw greiriau sydd ganddynt o'r cyfnod, i'w dangos a'u trafod yn y wers nesaf.

Gwyllo a gwrando 2 - Ar y Bysus (Tinopolis, 2018)

Fideo difyr a digon hwyliog sydd yma, yn dangos taith cwmni bysus Cwm Taf i Wlad Belg, i ymweld â lleoedd o bwys yn hanes y Rhyfel Byd Cyntaf.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar ddarnau Gwyllo a gwrando. Yna, gofynnwch i'ch dosbarth ateb y cwestiynau canlynol.

1. Beth ydy lluosog...
amgueddfa amgueddfeydd
mynwent mynwentydd
2. Beth mae Hubert (y gyrrwr) yn ei ddweud am Sat Nav?
Mae'r Sat Nav yn ei ben.
3. Sut mae'r ffyrdd yng Ngwlad Belg yn cymharu â'r ffyrdd gartre, yn ôl Hubert?
Mae'r ffyrdd yn well yng Ngwlad Belg, yn ôl Hubert.
4. Pa enw mae'r cyflwynydd yn ei ddefnyddio yn lle 'Y Rhyfel Byd Cyntaf'?
Y Rhyfel Mawr.

5. Pa gerdd mae'r siaradwr olaf yn ei hadrodd?
Englynion Coffa Hedd Wyn, R. Williams Parry (a drafodwyd yn y dosbarth).
6. Mae **cad** yn hen air am ryfel, ac yn elfen mewn llawer o eiriau Cymraeg, fel **cadoediad** a **cadfridog**. Gyda'ch partner, trafodwch ystyr yr ymadroddion hyn:

i'r gad
maes y gad
ar flaen y gad

Efallai y bydd angen arweiniad yma. Meddyliwch am enghreifftiau syml, e.e. "Gwaeddodd y milwr 'I'r gad!' wrth fynd i'r frwydr", "Lladdwyd Hedd Wyn ar faes y gad", "Mae cwmni Apple ar flaen y gad bob amser."

Siaradwch

I gloi, rhannwch y dosbarth yn barau neu'n grwpiau i drafod y cwestiynau yn y cwrslyfr, sef: **Ydych chi wedi bod ar daith fws dramor? Beth yw manteision ac anfanteision mynd ar daith fws?**

Gadewch iddynt sgwrsio'n rhydd am unrhyw fater arall sy'n codi o'r fideo.

Cam 5 – Geirfa Uned 7

Adolygu Uwch 1, Uned 6 (Atebion)

Ceir set o gardiau yn Atodiad 3 i adolygu atebion. Gellir eu defnyddio ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs. Dylid cael pawb ar eu traed yn profi ei gilydd – yr ateb yn unig y tro cyntaf, ateb a brawddeg yr ail dro.

Atodiad 1

Cafodd y nodyn	ei ysgrifennu
Cafodd y bencampwriaeth	ei chynnal
Cafodd y llenni	eu tynnu
Cafodd y cadoediad	ei dorri
Cafodd y ffoadur	ei lochesu
Cafodd y llwybr	ei droedio
Cafodd y llifddorau	eu hagor
Cafodd y rheol fantais	ei chwarae
Cafodd y rhaglen	ei chynhyrchu

Atodiad 2

Mae pobl ar gyfartaledd yn byw naw mlynedd yn hirach nag roedden nhw yn 1953.

Ar ddiwedd ffilm yn y sinema roedd God Save the Queen yn cael ei chwarae yn 1953.

Roedd menyn yn cael ei dorri yn ôl faint roedd pobl ei eisiau neu'n gallu ei gael. Roedd y siopwr yn arfer torri darn bach allan o ddarn enfawr ar gyfer y cwsmer.

Yn 1953 roedd traean o arian person ar gyfer wythnos yn cael ei wario ar fwyd a diodydd ysgafn. Mae hyn wedi cwmpo i chweched ran o arian person erbyn heddiw.

Yn 1953 dim ond unwaith y flwyddyn roedd pobl yn mynd ar eu gwyliau ac roedden nhw'n heidio i drefi glan-y-môr fel Skegness a Blackpool yn Lloegr, a'r Rhyl, Prestatyn, Pwllheli, Ynys y Barri a Phorthcawl yng Nghymru.

Llwyddodd Edmund Hilary a Tenzing Norgay i gyrraedd copa Everest ym 1953.

Erbyn hyn, rydyn ni'n prynu bisgedi mewn pecyn ond yn 1953 roedden nhw'n cael eu gwerthu'n rhydd.

Roedd nwyddau fel siwgr, menyn, caws, margarin a chig yn cael eu dogni yn 1953.

Roedd bron i draean o wragedd Prydain yn gweithio yn 1953. Roedden nhw'n gweithio mewn swyddi clerigol, ysgrifenyddol a glanhau.

Roedd dillad yn cael eu golchi â llaw a'u sychu wrth eu tynnu trwy fangl a'u gwasgu.

**Yr Archers a'r Goon Show oedd rhai o raglenni radio
mwy poblogaidd 1953.**

**Roedd pobl yn prynu olew olewydd i drin clust
dost / pigyn clust yn 1953.**

**Doedd dim oergell na pheiriant golchi yn y rhan
fwyaf o dai yn 1953.**

**The Lone Ranger, Dixon of Dock Green a Muffin the Mule oedd y rhaglenni
teledu mwy poblogaidd ym 1953. Rhaglenni du a gwyn oedden nhw.**

Atodiad 3

Ga i'ch helpu chi? ✓	Cewch Mi gewch chi fy helpu i Cewch chi fy helpu i
Glywoch chi rywbeth yn yr ardd neithiwr? X	Naddo Chlywes i ddim byd Chlywais i ddim byd
Fydd y plant yn mynd? ✓	Byddan Mi fyddan nhw'n mynd Byddan nhw'n mynd
Fasai hi'n talu? X	Na fasai Fasai hi ddim yn talu
Gân nhw weld? ✓	Cân Mi gân nhw weld Cân nhw weld
Ddylwn i newid? ✓	Dylet Mi ddylet ti newid Dylet ti newid
Am saith o'r gloch mae'r cyngerdd? ✓	Ia/le Am saith o'r gloch mae'r cyngerdd
Fyddi di yn y tŷ heno? X	Na fydda Fydda i ddim yn y tŷ heno
Allech chi helpu? ✓	Gallwn Mi allwn i helpu Gallwn i helpu
Aethon nhw i'r cyfarfod? ✓	Do Mi aethon nhw i'r cyfarfod Aethon nhw i'r cyfarfod
Alwan nhw heno? X	Na wnân Alwan nhw ddim heno
Glywon nhw rywbeth? X	Naddo Chlywon nhw ddim byd
Wrth y bwrdd maen nhw? ✓	Ia/le Wrth y bwrdd maen nhw
Ydy'r plant yn y gwely? X	Nac ydyn Dydyn nhw ddim yn y gwely 'Dyn nhw ddim yn y gwely
Oedd problem yn y cyfarfod ddoe? X	Nac oedd Doedd dim problem yn y cyfarfod
Brawd Jac wyt ti? X	Naci/Nage Nid brawd Jac dw i

Uned 7 – Canllaw i'r tiwtor

Nod leithyddol: cymalau'n defnyddio **a**

Thema: Diwydiant a byd gwaith

Cam 1 - Gwaith Siarad

Dewiswch un o'r Cardiau Dadl ar gyfer sbarduno sgwrsio cychwynnol.

Cam 2 - Adolygu'r goddefol a'r amhersonol

Rhowch set o gardiau i bob pâr (Atodiad 1). Dylent edrych ar y brawddegau goddefol a'u troi i'r amhersonol. Ar ol cwblhau'r cam hwn, gallant eu troi o'r amhersonol i'r goddefol.

Cam 2 – Cyflwyno Cymalau 'a'

1. Rhowch y brawddegau isod ar y bwrdd gwyn ar gyfer ymarfer disodli:
Dw i'n nabod rhywun fydd yn newid swydd wythnos nesa.
Mae ffrind gyda fi/Mae gen i ffrind fasai'n hoffi/licio ymddeol.
Mae'r dysgwyr eisoes wedi dod ar draws y patrymau uchod heb sylweddoli eu bod yn defnyddio'r cymal 'a'.
2. Esboniwch mai *which* neu *who* yw ystyr yr 'a' yn y cymalau a drafodir yn yr uned hon. Efallai y byddan nhw wedi clywed cymalau 'a' mewn iaith lafar ffurfiol megis adroddiadau newyddion, er enghraifft "Mae'r troseddwr a gafodd ei gadw yn y ddalfa ddoe wedi cael ei ryddhau."
Nodwedd ysgrifenedig yn bennaf yw cymalau 'a'. Ond, er nad yw pobl fel arfer yn dweud yr 'a', mae'r treigladd sy'n deillio o'r 'a' yn bodoli ar lafar, e.e. Dyna'r ci gafodd ei daro gan gar wythnos diwetha.
3. Pan fyddwch yn sicr bod y dosbarth yn deall cysyniad y cymalau 'a', gwnewch ymarfer disodli cyflym eto:
Ble mae'r papur (a) brynais i ddoe?
Dyma'r llyfr a ysgrifennais i'r wythnos diwetha.
Yna, rhannwch yn dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer llafar sydd yn y cwrslyfr.

Os bydd angen rhagor o ymarfer, gellir newid partneriaid i fynd drwy'r rhestr eto ond gan ddechrau Fe yw'r dyn/Fo ydy'r dyn a Nhw yw/ydy'r plant.

Ceir set o gardiau yn Atodiad 2 – enwau pobl enwog mewn un golofn a diffiniad o pam maen nhw'n enwog yn y golofn arall – pob un yn defnyddio'r patrwm 'a oedd'. Fel cam cyntaf, edrychwch ar enwau'r enwogion a gofynnwch i grwpiau o dri nodi cymaint o wybodaeth â phosib am bob un ohonynt. Dylent wedyn fynd ymlaen i wneud y gweithgaredd fel pelmanism (gêm baru). Fel cam olaf, gellid ceisio cofio'r diffiniad sydd ar y cerdyn.

Wedyn, gallant fynd ymlaen i wneud yr ymarfer ysgrifenedig (eto gyda phartner).

Dyma'r atebion:

1. Dyma'r bont + adeiladu + Rhufeiniaid
Dyma'r bont a adeiladodd y Rhufeiniaid.
2. Fe yw'r ci + bwyta + fy + gwaith cartref
Fe yw'r ci a fwytodd fy ngwaith cartref.
3. Dyma'r gacen + coginio + fi + neithiwr
Dyma'r gacen a goginiais i neithiwr.
4. Dyma'r côr + canu + yn y cyngerdd + wythnos diwethaf
Dyma'r côr a ganodd yn y cyngerdd wythnos diwethaf.
5. Dyna'r tractor + achosi + damwain
Dyna'r tractor a achosodd ddamwain.
6. Fe ydy'r bachgen + canu unawd + yn y briodas nesa
Fe ydy'r bachgen a fydd yn canu unawd/a ganiff unawd/a ganith unawd yn y briodas nesa.
7. Nhw yw'r bobl + dod i fyw + drws nesa + y mis nesa
Nhw ydy'r bobl a fydd yn dod i fyw/a ddaw i fyw drws nesa y mis nesa.
8. Nhw ydy'r merched + rhedeg + ras + yn y gystadleuaeth nesa
Nhw ydy'r merched a fydd yn rhedeg/a rediff/a redith yn y gystadleuaeth nesa.

4. Esboniwyd fod berfau amhersonol yn cael eu defnyddio'n aml gyda chymalau 'a'. Trafodwch yr enghreifftiau yn y cwrslyfr, sef:

Mae'r ferch a arestiwyd neithiwr wedi cael ei rhyddhau.

Mae'r sbwriel a welir ar ein strydoedd y dyddiau hyn yn warthus.

Y Plygain yw'r gwasanaeth arbennig a gynhelir adeg y Nadolig.

Yna, gofynnwch iddynt gysylltu'r cymalau yn y tabl â'i gilydd i wneud brawddegau synhwyrol, fel a ganlyn.

Mae'r Nadolig yn ŵyl	a glywir cyn i Gymru chwarae rygbi
Mae'r briallu'n flodau	a ysgrifennwyd gan Gwyneth Lewis
Hen Wlad Fy Nhadau	a chwaraeir yn yr Alban
Ar Ganolfan y Mileniwm, mae barddoniaeth	a gynhelir ar Ragfyr y pumed ar hugain
Mae'r bagbib yn offeryn	a gynlluniwyd gan William Edwards
'Mam Cymru' yw'r enw	a roddir i fardd yn yr Eisteddfod
Ym Mhontypridd mae'r bont enwog	a welir yn y gwanwyn
Cadair yw'r wobr	a roddir i Ynys Môn

5. Ceir un ymarfer arall i gadarnhau'r patrwm, sef ateb cwestiynau gan ddefnyddo pwyslais:

1. Pa ddiwydiant oedd yn bwysig yn ne Cymru yn y gorffennol?
(y diwydiant glo)

Y diwydiant glo a oedd yn bwysig yn y gorffennol.

2. Beth fydd yn datblygu mwy a mwy yn y dyfodol? (twristiaeth)

Twristiaeth a fydd yn datblygu mwy a mwy yn y dyfodol.

3. Beth fasa'i'n dda i'r economi? (mwy o swyddi'n gofyn am sgiliau uchel)

Mwy o swyddi'n gofyn am sgiliau uchel a fasa'i'n/fyddai'n dda i'r economi.

4. Beth oedd yn bwysig iawn i economi gogledd Cymru yn y gorffennol? (y chwareli llechi)

Y chwareli llechi a oedd yn bwysig iawn i economi gogledd Cymru yn y gorffennol

5. Beth gaeodd yn 2018? (y pwll glo olaf)

Y pwll glo olaf a gaeodd yn 2018.

Cam 3 – Cyflwyno Thema ‘Diwydiant.’

Tynnwch sylw'r dysgwyr at y diffiniad o'r gair 'diwydiant' yn y cwrslyfr. Trafodwch y gair, cyn mynd ymlaen i wneud storom eirfa ar y thema. Nodwch unrhyw eiriau defnyddiol ar y bwrdd gwyn.

Darllen – Diwydiannau Cymru yn y gorffennol

Cyn i chi ddarllen y darn am Ddiwydiannau Cymru yn y gorffennol, rhannwch y dosbarth yn barau neu'n grwpiau o dri i benderfynu a yw'r ffeithiau'n gywir neu'n anghywir. Y syniad yw codi chwilfrydedd yn y darn. Ar ôl ei ddarllen, gofynnwch a oedd y dosbarth wedi rhagweld y ffeithiau cywir ac anghywir yn y darn. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer y gwaith llafar. Y chwe atyniad mwyaf poblogaidd yn 2017 oedd:

Canolfan y Mileniwm

The LC (Canolfan Hamdden Abertawe)

Copa'r Wyddfa

Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan

Yr Amgueddfa Genedlaethol, Caerdydd

Fferm Folly, ger Dinbych-y-Pysgod

Gwyllo a gwrando 1

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwyllo a gwrando.

- Beth ydy arwyddocâd y rhifau yma yn y darn?

30,000	Maen nhw'n cynhyrchu 30,000 o botiau o iogwrt bob dydd.
14	Ceir un deg pedwar blas gwahanol.
1985	Sefydlwyd y busnes yn 1985.
9 neu 10 o'r gloch	Weithiau roedd rhaid gweithio tan naw neu ddeg o'r gloch y nos yn pacio'r iogwrts.
- Mae Heledd Cynwal yn dweud bod yr "hen reilffyrdd...wedi hen ddiflannu". Beth ydy ystyr yr ymadrodd 'hen diflannu'? Yna ceir ymarferion i ymarfer yr ymadrodd 'hen bryd'.
- Mae Owain Roberts yn dweud, "Sdim pwysau ar neb i ddod yn ôl i'r busnes". Pa eiriau sy'n gallu cael eu defnyddio gyda'r gair pwysau?

colli pwysau ennill/magu pwysau codi pwysau dan bwysau

gweithio wrth eich pwysau

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer y gwaith llafar.

Gwyllo a gwrando 2

Nid oes tasg benodol yma. Defnyddir y clip i sbarduno trafod ar fyd busnes.

Darllen: Gwenallt

Ceir dau ddarn darllen yn yr adran hon, sef darn am Gwenallt y bardd, ac yna dau bennill o gerdd enwog Gwenallt, Y Meirwon. Efallai y bydd gwneud y cyfan mewn un sesiwn yn ormod, felly gallech ddarllen y cyflwyniad i Gwenallt ac ateb cwestiynau 1-3, a dod yn ôl wedyn at y gerdd a chwestiwn 4.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y gerdd yn uchel, er mwyn iddynt glywed ei sain. Pwysleisiwch nad oes disgwyl iddynt ddeall pob gair, a bod y darn yn gyfle i fwynhau ychydig o farddoniaeth gan un o feirdd enwocaf Cymru. Gallech hefyd dynnu sylw at y darlun sy'n cyd-fynd â'r gerdd. A yw'n gymorth i ddeall y gerdd?

Dyma atebion y cwestiynau.

1. "Gwenallt yw'r bardd Cymraeg a gysylltir fwyaf â diwydiannau trwm de Cymru." Dilynwch y frawddeg yma fel patrwm i lenwi'r bylchau yn y brawddegau isod.
 1. Y gwcw yw'r aderyn **a glywir** gyntaf yn y gwanwyn. [clywed]
 2. Dyma'r dyn **a welir** yn y llyfrgell bob dydd. [gweld]
 3. Y Gymraeg yw'r iaith **a siaradir** ar Radio Cymru. [siarad]
 4. Coch yw lliw'r crys **a wisgir** fel arfer gan dîm rygbi Cymru. [gwisgo]
 5. Blawd codi **a ddefnyddir** yn y rysâit yma. [defnyddio]
2. Mae'r geiriau isod yn y darn darllen. Allwch chi feddwl am eiriau sy'n gysylltiedig â nhw?

Enghreifftiau posib:

diwydiannau	<i>diwydiant trwm, diwydiant ffilmiau, diwyd, diwydiannol</i>
gwreiddiau	<i>gwraidd, gwreiddiol, gwreiddiau coeden, di-wreiddiau</i>
carcharu	<i>carchar, carcharor, carcharorion, carchar agored</i>
perygl	<i>peryglus, peryglon, tir peryglus, troseddwr peryglus</i>

3. "Wnaeth Gwenallt erioed weithio **dan ddaear**." Allwch chi feddwl am ymadroddion eraill sy'n cynnwys 'dan'?

Enghreifftiau posib: dan do, dan deimlad, dan warchae, dan glo, dan ddŵr (hefyd – tanfor, llong danfor)

4. Mae'r bardd yn dweud ei fod yn gweld yn "lled glir".
Ystyr **lled** yw width. Ond, mae hefyd yn gallu golygu **eithaf**, **braidd** neu **hanner**.
Sut byddech chi'n cyfieithu'r geiriau hyn?

lled-awtomatig	<i>semi-automatic</i>
lled-barhaol	<i>semi-permanent</i>
lled-ferwi	<i>parboil</i>
lled-orwedd	<i>to recline, to lounge</i>
lled-gytuno	<i>to agree partially</i>

Yn olaf, arweiniwch drafodaeth ar y dyfyniad o'r gerdd a geir yn y cwrslyfr:

Mae'r bardd yn sôn am "y bobl a'r cynefin a foldiodd ei fywyd e".

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru i drafod beth a phwy sydd wedi 'moldio' eu bywydau.

Gwrando 1: Melinydd Oedd Fy Nhaid

Cân yw'r ail ddarn Gwrando, sef fersiwn Plethyn o'r gân werin, **Melinydd Oedd Fy Nhaid**. Mae hi'n gân syml ac ysgafn sy'n sôn am weithwyr mewn gwahanol ddiwydiannau (melinydd, chwarelwr a physgotwr).

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r bylchau yng ngeiriau'r gân â berfau addas.

Melinydd **oedd** fy nhaid

Melinydd **oedd** fy nhad

Melinydd **ydw** innau, y gorau yn y wlad,

Melinydd **fydd** y baban pan ddelo fo i'r byd

On'd ydyw yn beth rhyfedd bod ni'n felinyddion i gyd?

Chwarelwr **oedd** fy nhaid

Chwarelwr **oedd** fy nhad

Chwarelwr **ydw** innau, y gorau yn y wlad,

Chwarelwr **fydd** y baban pan ddelo fo i'r byd

On'd ydyw yn beth rhyfedd bod ni'n chwarelwyr i gyd?

Pysgotwr **oedd** fy nhaid

Pysgotwr **oedd** fy nhad

Pysgotwr **ydw** innau, y gorau yn y wlad,

Pysgotwr **fydd** y baban pan ddelo fo i'r byd

On'd ydyw yn beth rhyfedd bod ni'n bysgotwyr i gyd?

Cam 4 – Geirfa Uned 8

Adolygu Uwch 1, Uned 7 – Cynffoneiriau

Ysgrifennwch y brawddegau isod ar y bwrdd gwyn a rhannwch y dosbarth yn barau i greu'r cynffoneiriau priodol.

Mae hi'n braf

Roedd hi'n oer neithiwr

Byddi di'n mynd/Mi fyddi di'n mynd

Gofynnaist ti/Mi ofynnest ti iddi hi

Dylwn i gefnogi/Mi ddylwn i gefnogi

Dw i ddim yn rhydd

Doedd hi ddim yn gwybod

Fydd hi ddim yn noson hwyr

Chlywon nhw ddim byd

Faset ti ddim ar gael

Ar ôl mynd drostynt, gofynnwch i bob aelod o'r dosbarth gofio un o'r uchod (gyda'r cynffonair) a mynd o gwmpas yn ei ymarfer gyda phawb. Bydd hyn hefyd yn atgyfnerthu'r gwaith ar atebion. Os bydd mwy na 10 yn y dosbarth, ychwanegwch at y rhestr uchod fel bod cwestiwn gwahanol gan bob aelod o'r dosbarth.

Atodiad 1

Saethodd dyn ifanc dri o bobl yn y stryd.	Saethwyd tri o bobl gan ddyn ifanc yn y stryd.
Enillodd Dinas Caerdydd y cwpan am y tro cyntaf.	Enillwyd y cwpan am y tro cyntaf gan Ddinas Caerdydd.
Bydd y Gymdeithas Gymraeg yn cynnal y noson.	Cynhelir y noson gan y Gymdeithas Gymraeg.
Mae golygydd y papur yn ysgrifennu colofn olygyddol bob mis.	Ysgrifennir colofn olygyddol gan y golygydd bob mis.
Cynhaliodd Siân noson yn ei thŷ i godi arian i'r papur bro.	Cynhaliwyd noson gan Siân yn ei thŷ i godi arian i'r papur bro.
Argraffodd cwmni lleol y llyfr am hanes y pentref.	Argraffwyd y llyfr am hanes y pentref gan gwmni lleol.
Bydd maer y dref yn agor y ffatri newydd.	Agorir y ffatri newydd gan faer y dref.

Atodiad 2

Betsi Cadwaladr	Nyrs oedd yn gofalu am filwyr yn ystod Rhyfel y Crimea
Gwenllian	Tywysoges a oedd yn ferch i Lywelyn ein Llyw Olaf
Betty Campell	Y brifathrawes ddu gyntaf yng Nghymru a oedd yn byw yng Nghaerdydd ac a enillodd bleidlais Merched Mawreddog Cymru yn 2019
Laura Ashley	Cynllunydd ffasiwn a oedd yn byw yng nghefn gwlad Cymru ac a sefydlodd gwmni byd enwog
Ryan Davies	Canwr a digrifwr a oedd yn perfformio gyda Ronnie Williams yn y saith degau
David Lloyd George	Prif Weinidog Llywodraeth Prydain a oedd yn siarad Cymraeg
Ray Gravell	Chwaraewr rygbi a darlledwr a oedd yn chwarae dros Gymru a'r Scarlets
Kyffin Williams	Arlunydd a oedd yn tynnu lluniau o Gymru
Aneurin Bevan	Aelod Seneddol a oedd yn (rhannol) gyfrifol am sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Uned 8 – Canllaw i'r tiwtor

Nod leithyddol: Cymalau negyddol gan ddefnyddio 'na' a 'nad'

Thema: Chwaraeon. (Mae yma ymdrech i gyflwyno'r thema mewn modd cynhwysol ac i apelio at rai sydd heb fawr o ddiddordeb mewn chwaraeon yn ogystal â'r rhai sy wrth eu boddau gyda chwaraeon.)

Cam 1 - Siarad Cychwynnol

Defnyddiwch un o'r cardiau dadl i sbarduno gwaith siarad cychwynnol.

Cam 2 – Uno haneri brawddegau (adolygu'r uned ddiwethaf – Cymalau 'a')

Rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch i bob pâr fynd trwy'r parau o gymalau a'u huno i greu brawddegau gyda chymalau 'a'. Wedi i'r parau gael cyfle i gwblhau'r ymarfer, ewch dros yr atebion gyda'r dosbarth cyfan gan eu hatgoffa bod yr 'a' yn aml yn cael ei hepgor ar lafar. Dyma'r atebion disgwylidig:

Dyma'r adnodd a gafodd ei gyfieithu i'r Gymraeg.

Dyma'r car a logodd fy nhad i fynd ar wyliau.

Dw i'n adnabod rhywun a fydd yn symud i fyw yn Rhufain.

Maen nhw'n mynd i gyfarfod undeb a gynhelir yn ystafell bwyllgor 5.

Mae'n adolygiad pwysig a fydd yn helpu cynllunio yn y dyfodol.

Welaist ti'r rhagair a ysgrifennodd yr awdur yn y llyfr?

Glywoch chi'r ddadl a gynhaliwyd ar y teledu neithiwr?

Dyma'r ysgol fonedd a oedd yn y newyddion y mis diwetha.

Maen nhw'n cynnal arolwg a fydd yn eu helpu nhw i ysgrifennu polisi.

Daeth dyn i mewn i'r banc bwyd a fydd yn gwirfoddoli yma yn y dyfodol.

Darllenais i am y cwmni a fuddsoddodd yn y busnes.

Cam 3 – Chwaraeon

Storom Eirfa

Gwyllo a gwrando – chwaraeon anabled

Esboniwrch eich bod yn mynd i wyllo clip fideo gyda Rhodri Gomer Davies yn mynychu digwyddiad chwaraeon anabled yng Nghyncoed ar ran rhaglen Heno yn ystod Gemau Paralympaidd Rio 2016.

1. Cyn dechrau gwyllo, cyflwynwch yr ymadrodd **llwyddiant ysgubol** gan egluro bod Rhodri'n dweud ar ddechrau'r clip bod tîm Prydain wedi profi **llwyddiant ysgubol** yn y gemau Paralympaidd yn Llundain bedair blynedd ynghynt. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau neu grwpiau o dri i drafod pethau maen nhw wedi'u gwneud, neu ddigwyddiadau maen nhw wedi bod ynddynt, oedd yn **llwyddiant ysgubol**. Rhowch enghraifft neu ddwy o'ch profiad eich hun cyn iddynt ddechrau trafod.
2. Cyflwynwch yr ymadrodd **o'n i wastad yn meddwl...** a dwedwch y bydd siaradwr arall yn ddefnyddio'r ymadrodd hwnnw tua diwedd y clip i siarad am y ffordd roedd yn meddwl am bethau yn gyson pan oedd yn ifanc. Rhowch enghraifft o rywbeth ro'ch chi'n arfer ei wneud yn gyson ar ryw gyfnod yn y gorffennol gan ddefnyddio **'(R)o'n i wastad yn...'** Esboniwrch wedyn ein bod ni'n ddefnyddio'r amser presennol neu'r dyfodol wrth drafod arferion presennol – pethau rydyn ni'n eu gwneud yn gyson nawr a rhowch enghreifftiau eto o'ch profiad eich hun gan ddefnyddio **'Dw i wastad yn...'** ac ailadrodd gan ddefnyddio **'Bydda i wastad yn...'** er mwyn pwysleisio mai'r un yw'r ystyr. Gofynnwch wedyn i'r parau/grwpiau fynd ati i drafod pethau roedden nhw'n arfer eu gwneud yn gyson a phethau maen nhw'n eu gwneud yn gyson nawr, gan ddefnyddio:

(R)o'n i wastad yn.... a Dw i wastad yn.../Bydda i wastad yn...

3. Cyn chwarae'r darn am y tro cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr sylwi pa gampau/ chwaraeon sydd i'w gweld, ac wedi iddynt weld y darn unwaith, gofynnwch iddynt nodi cymaint ag y gallant o wahanol gampau/chwaraeon yn y blwch yn eu llyfrau cwrs. Dyma restr o'r campau:
badminton, pêl-droed cadair olwyn, saethu, golff, bowls, pêl-fasged cadair olwyn, tennis bwrdd, pêl-droed, pêl-fasged, dringo, gymnasteg (gyda rhuban), criced, trampolinio, codi pwysau, rhwyfo (peiriant rhwyfo), tennis, seiclo.
Ewch dros gwestiynau 4-9 a sicrhau bod pawb yn deall y cwestiynau cyn chwarae'r fideo eto. Gofynnwch wedyn i barau drafod yr atebion i'r cwestiynau cyn trafod yr atebion gyda'r dosbarth cyfan. Dyma awgrym o'r hyn ddylai fod yn yr atebion:
4. Mae pobl yn fwy tebygol o gymryd yr athletwyr anabl o ddifri a chydabod eu camp yn hytrach na theimlo trueni drostynt.

5. Saethu a dringo.
6. 12 gwaith (eleni yw'r drydedd flwyddyn ar ddeg).
7. Tua 600-700.
8. Yn y digwyddiad yng Nghyncoed ddeg mlynedd yn ôl y cafodd Phil Pratt flas ar bêl-fasged cadair olwyn am y tro cyntaf. Aeth ymlaen i fod yn aelod o dîm Prydain yn Rio.
9. Pan oedd James Lusted yn ifanc, roedd o wastad yn meddwl nad oedd o'n gallu cymryd rhan mewn chwaraeon. Erbyn heddiw, mae Chwaraeon Anabledd Cymru yn dangos ei bod hi'n bosib i bobl anabl gymryd rhan mewn pob math o chwaraeon – maen nhw'n newid bywydau pobl ac mae gan James hyder i gymryd rhan.
10. Cyfeiriwch wedyn at gwestiwn 10 sy'n gofyn o ba ardaloedd y daw'r tri dyn sy'n cyfrannu at y clip. Chwaraewch y fideo unwaith eto a rhowch gyfle i'r parau drafod a rhoi cynnig ar roi'r atebion yn y man cywir yn y tabl cyn dod ynghyd i drafod gyda'r dosbarth cyfan. Dyma'r atebion cywir a rhai awgrymiadau am gliwiau fyddai wedi helpu:

Enw	O ba ardal?	Cliwiau
Steffan Hughes	Sir Gaerfyrddin	ymadroddion – fi'n credu, o 'na dr'eni, ynganu – where teg, gorffod, o weud, 'u'
Tom Rogers	ardal Caernarfon	ymadroddion – rîli dda, rwbath fel'ma, nath o ddod i fama ynganu – 'u' ogleddol, 'a' yn y sillaf olaf – rwbath, cadar
James Lusted	Sir Conwy	ynganu – 'u' ogleddol, tuedd tuag at 'e' yn y sillaf olaf – rhywbeth, pêl-fasged.

Siaradwch

Ewch dros y cwestiynau a roddir yn yr uned a gofynnwch i'r dysgwyr eu defnyddio yn sail i sgwrs am chwaraeon ac ymarfer corff mewn grwpiau o 3-5. Dwedwch nad oes rhaid dilyn yn slafaid o un cwestiwn i'r nesaf, ond y dylent eu defnyddio'n sail i sgwrs, ymateb i'r hyn mae eu cyd-ddysgwyr yn ei ddweud a gofyn sgil-gwestiynau. Gwrandewch am gyfraniadau difyr a chyfeirio atynt i arwain sgwrs wedi i chi ddod â'r dosbarth at ei gilydd i gyd-drafod a rhannu profiadau.

Cam 4 – Chwaraeon a'r iaith Gymraeg

Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen y darn am 'Chwaraeon a'r iaith Gymraeg' a llenwi'r bylchau. Ceir yr atebion mewn coch isod.

0 (x3)	3	2016 (x2)	350,000	miloedd
---------------	----------	------------------	----------------	----------------

Euros **2016**: Cymru **3** Rwsia **0**. Tra oedd **miloedd** o Gymry yn dawnsio mewn gorfoledd yn y stadiwm ac o flaen sgriniau teledu, roedd cwmni o Gaerdydd yn paratoi un o'r ymgyrchoedd marchnata mwyaf llwyddiannus erioed yn y Gymraeg.

Yn ystod Pencampwriaeth Euro **2016** roedd cwmni Mela yn un o bartneriaid Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac yn cydlynu rhan o'u gwaith cyfathrebu.

Gyda Chymru ar fin trechu Rwsia, ac yn edrych fel eu bod am ennill y grŵp, cysylltodd tîm marchnata cwmni chwaraeon Adidas ag Ashok Ahir, cyfarwyddwr Mela.

"Adidas oedd un o brif noddwyr y gystadleuaeth ac fel ro'dd hi'n digwydd y nhw hefyd oedd yn cynhyrchu gwisgoedd tîm Cymru ac ro'dd Gareth Bale yn llysgennad iddyn nhw," meddai Ashok Ahir.

"Gan fod sgôr gêm Lloegr a Slofacia'n gyfartal (**0 - 0**), roedd yn edrych fel bod Cymru am ennill y grŵp ac ro'dd y cwmni am adlewyrchu llwyddiant tîm Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol. Fe ofynnnon nhw i ni gyfieithu y slogan hysbysebu roedden nhw wedi bod yn ddefnyddio i hyrwyddo ymgyrch Cymru yn ystod y gystadleuaeth i'r Gymraeg."

Roedd beth ddigwyddodd wedyn yn rhyfeddol yn ôl Ashok.

"Wedi i'r neges Gymraeg gael ei hanfon o gyfrif Twitter Adidas, yn fuan ar ôl y chwiban olaf, fe gafodd hi ei rhannu yn gyflym ac fe gyrhaeddodd yr iaith Gymraeg bob cwr o'r byd mewn byr amser. Gwelodd dros **350,000** o bobl y neges", meddai.

(Addasiad o erthygl ar Cymru Fyw)

Wedyn, rhaid i'r parau ateb y cwestiynau ieithyddol. Dyma rai syniadau ar gyfer cyfleoliadau:

ymgyrchoedd	hysbysebu/recrwtio/iaith
cwmni	lleol/rhyngwladol/Cymreig
gwaith	cartref/caled/anodd

Yn olaf, rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer y gwaith llafar.

Cam 4 – Cymalau 'na'/'nad'

Ewch trwy'r adran Help Llaw gyda'r dosbarth cyn eu rhannu'n barau i weithio trwy'r ymarferion. Dyma'r atebion disgwyledig:

Cysylltu haneri brawddegau:

1. Roedd y rhagolygon yn dweud na fydd hi'n bwrw glaw heddiw.
2. Clywais i nad oes rhagor o arian gyda hi/ganddi hi.
3. Dych chi'n siŵr nad yw e/ydy o'n bwyta cig?
4. Cyhoeddodd Undeb Rygbi Cymru na fydd Steff Jones yn y tîm i chwarae yn erbyn Lloegr.
5. Dywedodd y rheolwr nad yn Wreccsam bydd y gêm nesaf.
6. Dw i'n gobeithio na fyddwn ni'n colli'r gêm.
7. Roedd yr hyfforddwr yn gwybod nad oedd yr amddiffyn yn gadarn iawn.
8. Roedd Siân yn benderfynol na fyddai hi'n rhoi'r gorau i redeg.
9. Cofiwch nad yw/ydy'r amgueddfa ar agor ar ddydd Llun.
10. Dw i wedi dweud nad ydw i'n hoff iawn o bwyllgora.
11. Gwnest ti'n dda iawn o ystyried nad wyt ti wedi bod wrthi'n hir iawn.
12. Mae'r arolwg yn dangos nad nofio yw'r gweithgaredd mwyaf poblogaidd.

Ateb brawddegau gyda 'Gobeithio na/nad...'

Mae angen llawer o gyfleoedd disodli yma er mwyn ymarfer personau'r ferf.

- | | |
|---|-----------------------------------|
| 1. Dw i ddim eisiau i'r Scarlets golli. | Gobeithio na fyddan nhw'n colli. |
| 2. Dw i ddim eisiau i chi wylltio. | Gobeithio na fydda i'n gwylltio. |
| 3. Dw i ddim eisiau i Megan weld. | Gobeithio na fydd hi'n gweld. |
| 4. Dw i ddim eisiau i Dewi anghofio. | Gobeithio na fydd e/o'n anghofio. |

Ymateb gyda 'Pam na wnei di...?'

Hoffwn i wella fy handicap.

Mae rhaid i fi arbed arian.

Does gen i ddim amser i baratoi swper.

Dw i eisiau bod yn fwy ffit.

Mae gormod o stwff yn y tŷ.

Pam na wnei di ymarfer?

Pam na wnei di aros i mewn?

Pam na wnei di brynu pryd parod?

Pam na wnei di gymryd rhan yn y *Parkrun*?

Pam na wnei di werthu pethau ar *e-Bay*?

Ymateb gyda 'Pam nad ewch chi...?' neu 'Pam na ddewch chi...?' Ni roddir sbardun ar gyfer yr un olaf.

'Dyn/dan ni ddim wedi gweld eich tŷ newydd chi.

'Dyn/dan ni ddim wedi bod yn Sbaen erioed.

'Dyn/dan ni wedi teithio yma mewn dau gar eto.

'Dyn/Dan ni eisiau gwella ein Cymraeg ni.

Pam na ddewch chi draw nos Wener?

Pam nad ewch chi yno ar eich gwyliau nesa?

Pam na ddewch chi gyda/efo fi y tro nesa?

Wedi i chi fynd dros yr atebion, gofynnwch i'r parau fynd trwy'r adrannau 'Gobeithio na/nad...?' a 'Pam na/nad...?' gydag un partner yn darllen y brawddegau ar y chwith a'r partner arall (heb edrych ar y llyfr) yn rhoi'r ymatebion priodol mor gyflym ag y gall. Wedi mynd trwy'r cyfan fel hyn, dylent gyfnewid rolau a mynd trwy'r ymarferion eto.

Cam 5 – Darnau darllen – Y Gêm Genedlaethol

Cyflwynwch yr ymadroddion **o blith** a **heb os nac oni bai** a gofynnwch i barau gwblhau'r ymarferion a roddir ar gyfer yr ymadroddion hyn cyn mynd drostynt gyda'r dosbarth cyfan.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau eto a gofyn i rai grwpiau ddarllen y darn darllen cyntaf (tua hanner y dosbarth) ac i'r grwpiau eraill ddarllen yr ail ddarn. Wedi iddynt wneud hynny, gofynnwch iddynt nodi pedwar rheswm/pedair dadl yn y blwch priodol yn y llyfr cwrs dros ystyried pêl-droed neu rygbi (yn dibynnu pa ddarn ddarllenon nhw) yn gêm genedlaethol. Pan fydd pawb wedi gwneud hynny, rhannwch y dosbarth yn barau - un o bob grŵp. Gofynnwch iddynt gyfnewid dadleuon o blaid cydnabod y naill gêm neu'r llall yn gêm genedlaethol a llenwi ochr wag eu bwloch.

Siaradwch

Yn yr un parau ag uchod, gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r cwestiynau sydd yn y llyfr cwrs i drafod rygbi a pêl-droed. Unwaith eto, nodwch nad oes rhaid cadw'n slafaid at y cwestiynau ac mae modd dilyn trywyddau gwahanol ar sail yr ymatebion a roddir.

Cam 7 – Geirfa Uned 9

Uned 9 – Canllaw i'r tiwtor

Nod leithyddol: Adolygu unedau 1-8

Thema: Papurau bro

Cam 1 - Siarad Cychwynnol

Siaradwch am y newyddion. Gweler y canllawiau cyffredinol.

Cam 2 – Adolygu'r cymalau negyddol

Cynhaliwch ddрил i adolygu na/nad. Bydd y dril hwn yn canolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng nad oes a nad yw/ydy.

Mae twll yn y to.

Gobeithio nad oes.

Mae feirws ar y cyfrifiadur.

Mae adolygiad gwael yn y papur.

Mae cyfarfod pwyllgor yfory.

Mae storm ar y ffordd.

Mae'r glaw yn dod i mewn.

Gobeithio nad yw e/ydy o.

Mae'r cyfrif banc yn wag.

Mae'r diwydiant yn colli arian.

Mae'r pencadlys yn symud.

Mae'r cyfrifiadur wedi torri.

Mae twll mawr yn y to.

Mae'r twll yn tyfu bob dydd.

Mae'r pennaeth yn gadael.

Mae pennaeth newydd yn dod.

Mae amser i orffen y gwaith heddiw.

Mae'r gwesty wedi cau.

Cam 3 – Papurau newydd a chylchgronau

Storom eirfa

Siaradwch

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i feddwl am dri chwestiwn i'w holi ei gilydd am bapurau newydd a chylchgronau. Derbyniwch un cwestiwn gan bob grŵp. Dyma rai cwestiynau wrth gefn:

Pa bapurau newydd a chylchgronau ydych chi'n eu darllen yn gyson? Beth am rai Cymraeg? Ydych chi'n tanysgrifio?

Pa dudalen ydych chi'n troi ati gyntaf mewn papur newydd?

Fyddwch chi byth yn gwneud y croesair neu sudoku mewn papur newydd?

Ydych chi'n hoffi cael copi caled o bapur/gylchgrawn neu ydych chi'n darllen ar y we?

Pa gylchgronau neu gomics oeddech chi'n eu darllen pan oeddech chi'n blentyn?

Ydych chi wedi clywed am bapurau bro? (Mae'r cwestiwn hwn yn bwysig er mwyn arwain at y darn gwylio.)

Os yn bosib, ewch â chasgliad o'r gwahanol gylchgronau Cymraeg sydd ar gael i'r dosbarth, yn ogystal â'r papur(au) bro lleol.

Gwylio a gwrando

Eitem o'r rhaglen Heno yw'r darn Gwylio a gwrando, sy'n sôn am bapurau bro a sut mae'r broses o'u creu wedi newid dros y blynyddoedd.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwylio a gwrando. Gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r eirfa y tro cyntaf. Yna, oherwydd bod y fideo'n eithaf hir a rhai o'r siaradwyr yn siarad yn gyflym, awgrymir y dylid rhoi ychydig o funudau rhwng pob siaradwr er mwyn i'r dysgwyr brosesu'r wybodaeth a gwneud nodiadau.

Pan fyddant wedi gwylio'r fideo tua theirgwaith, gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau yn eu cwrslyfrau.

1. Beth yw atgofion **Mari Emlyn** o'r cyfnod pan oedd ei mam yn gweithio ar bapur bro'r Dinesydd?
Mae hi'n cofio pobl yn tŷ yn hwyr yn y nos, yn rhoi'r papur at ei gilydd (roedd papur, glud a sisyrnau ym mhobman).
2. Gwrandewch yn ofalus ar **Mari Emlyn** a llenwch y bylchau hyn:
"Buodd Mam yn olygydd ac yn gyd-olygydd."
"Mi fuodd hi'n golofnydd misol am o leia pymtheg mlynedd."
3. Yn ôl Penri Williams, beth sy'n bwysig wrth roi papur bro at ei gilydd?
Mae'n bwysig bod pobl yn cyflwyno erthyglau'n brydlon, a bod dim rhaid mynd ar eu holau.
4. Beth ydy barn Dylan Iorwerth am steil newydddiadurol papurau bro?

Dydy'r steil ddim yn wych. Fyddai erthyglau papur bro ddim yn ennill gwobr Pulitzer. Ond, mae'r arddull yn addas i'r diben ac yn 'gweddu i'r gynulleidfa.'

5. Beth ydy arwyddocâd y rhifau hyn yn y fideo?
- | | |
|--------|---|
| 1973 | <u>Cyhoeddi'r Dinesydd am y tro cynta.</u> |
| 1978 | <u>Cyhoeddi rhifyn dyddiol yn yr Eisteddfod.</u> |
| 50,000 | <u>Yn ôl Penri Williams, mae 50,000 o bapurau bro yn dod allan bob mis.</u> |

Wedi hynny gofynnir i'r dysgwyr drafod ymadroddion a glywir yn y fideo. Sicrhewch eu bod yn deall ystyr yr ymadroddion trwy roi eich enghreifftiau eich hun i ddechrau.

I gloi'r gweithgaredd, trafodwch y pwnc a nodir yn y cwrslyfr, sef:

*Ar ddiwedd yr eitem, mae Dylan Iorwerth yn poeni am effaith technoleg ar bapurau bro: "mae 'na **rinwedd** mewn pobl yn dod at ei gilydd i blygu papur."*

Oes 'na bobl yn dod at ei gilydd yn eich cymuned chi i wneud rhywbeth? Allwch chi feddwl am enghraifft arall o dechnoleg yn effeithio ar sut mae pobl yn cymdeithasu?

Cam 4 – Ymarfer yr amhersonol

Ceir Darn Darllen a ddaw o bapur bro ar gyfer y gwaith adolygu. Ceir darn darllen bylchog, sef erthygl o Bapur Fama (papur bro ardal Rhuthun). Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r bylchau â berfau amhersonol addas, fel a ganlyn:

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol yng Nghapel Bethel ar nos Fawrth Ebrill y 10fed. Croesawyd pawb gan ein **llywydd**, Anwen Edwards. Atgoffwyd ni am ginio'r Rhanbarth yng Nghae Cymro ar Fehefin yr 8fed, ac am daith y gangen i Ysbyty Ifan ar Fehefin y 12fed. Llongyfarchwyd ein **trysorydd**, Menna Evans, achos mai ei merch Elin Angharad fydd golygydd newydd cylchgrawn Y Wawr.

Ein siaradwraig **wadd** oedd Carys Edwards o Ganllwyd, Dolgellau. Cyflwynwyd hi gan Anwen. Dywedwyd ei bod yn wraig hynod o brysur yn ei chymdogaeth. Mae'n rheolwr llwyfan mewn theatrau – yn aelod o Theatr Maldwyn, ac yn feirniad ac enillydd cenedlaethol gyda mêl. Mae ganddi 80 o gychod gwenyn ar hyn o bryd, ond ei nod yw cael 200 i 250 ohonyn nhw. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi am noson ddiddorol ac **addysgiadol**. Diolchwyd hefyd i Enid ac Eluned am y baned.

Ar Ebrill yr 21ain, aeth rhai ohonon ni i ginio'r **llywydd** yn y gogledd. Cynhaliwyd yr achlysur yng Ngwesty Meifod, Caernarfon. Roedd yn dywydd bendigedig ac roedd yn dipyn o her bwydo 180 o aelodau, a hynny gyda phryd poeth o fwyd, ond gallwn ni **dystio** iddyn nhw lwyddo. Rhodddwyd yr ail wob'r i'n cangen ni am y cynnydd mewn aelodaeth drwy Ogledd Cymru, gyda changen Golan yn gyntaf, a Phorthmadog yn drydydd. I roi clo **teilwng** i ddiwrnod bendigedig, cawson ni ein swyno gan ddawn arbennig Dylan Cernyw ar y delyn.

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth ar glybiau cymdeithasol e.e. Merched y Wawr. Ydy'r dysgwyr yn aelod o glybiau fel hyn? Beth maen nhw'n ei wneud yn y cyfarfodydd? Os nad yw'r math yma o beth yn apelio atynt, pam?

Cam 5 – Adolygu Geirfa Unedau 1-8

Rhowch y dysgwyr i weithio mewn paru. Rhowch Atodiad 1 i bob pâr (cerdyn A i un a cherdyn B i'r llall).

Gallwch wneud y dasg hon mewn dwy ffordd. Naill ai bydd partner A yn disgrifio ei eiriau i bartner B, a phartner B yn ceisio dyfalu beth ydyn nhw (ac fel arall), neu bydd partner A yn tynnu lluniau o'r geiriau a phartner B yn ceisio dyfalu beth ydyn nhw (ac fel arall). Dewiswch y dull mwyaf addas i'ch dosbarth chi.

Cam 6 – Llenwi bylchau – ansoddeiriau

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru.

Rhaid dewis ansoddair addas o'r cwmwl geiriau i lenwi'r bylchau. Atgoffwch nhw bod rhaid treiglo ansoddair ar ôl yr 'yn' traethiadol, a bod ansoddeiriau'n treiglo ar ôl enw benywaidd. Dyma'r atebion:

1. Magwyd Lisa ym Mhontypridd felly roedd ganddi hi acen ddeheuol.
2. Wnes i ddim mwynhau'r ffilm. Do'n i ddim yn meddwl bod y stori'n gredadwy o gwbl.
3. Mae Sam a Lyn yn ennill cyflogau da, felly maen nhw bob amser yn aros mewn gwestai moethus.
4. Clywais i newyddion syfrdanol bore 'ma – mae'r ferch drws nesaf wedi ennill y loteri!
5. Saer o Wlad Belg wnaeth Cadair Ddu Hedd Wyn. Mae hi'n gadair grefftus iawn.
6. Roedd gweld dyn yn cerdded ar y lleuad am y tro cynta yn brofiad rhyfeddol.
7. Yn achlysurol, dw i'n prynu dillad o siop ddrud yn Llundain.
8. Mae llais pwerus iawn gan y canwr opera yma – mae e bron â chodi'r to!
9. Roedd llawer o berfformwyr dawnus iawn yn y cyngerdd gwych welais i ar y teledu neithiwr.
10. Mae llawer mwy o fenywod yn gyflogedig heddiw nag yn y 1950au.

Cam 7 – Gwrando 2

Diben y ddeialog hon yw adolygu ffurfiau'r amodol a'r gorffennol cryno.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwrando.

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r bylchau yn y sgript. Dyma'r sgript gyflawn:

- A: Fuest ti yn y sêl cist car ar gae yr ysgol ddydd Sadwrn?
B: Naddo. Roedd rhaid i mi wneud tipyn o waith tŷ. Fuest ti?
A: Do. Roedd hi'n un dda. Es i yno erbyn chwech.
B: Chwech y bore?
A: Ie. Ces i lwyth o fargeinion. Talais i ddwy bunt am hen record Elvis sydd werth cannoedd o bunnau ar-lein!
B: Waw, da iawn ti.
A: Roedd dillad hyfryd yno hefyd. Pethau o safon. Byddet ti wedi mwynhau edrych o gwmpas.
B: Byddwn, siŵr o fod. Ond roedd hi'n well i mi gadw draw. Ti'n gwybod sut ydw i pan mae 'na fargeinion. Byddwn i wedi dod adre gyda llond tŷ o bethau newydd.
A: Mae'r tŷ dan ei sang yn barod.
B: Ydy... Pryd maen nhw'n gwneud y sêl nesa?
A: Bydd un arall ddiwedd y mis, dw i'n credu.
B: O? Falle do i gyda ti.
A: I edrych o gwmpas, ie?
B: Ie. Dim ond i edrych.

Ar ôl iddynt lenwi'r bylchau, gofynnwch iddynt weithio mewn parau i ddarllen y ddeialog. Gan nad yw 'byddet ti' a berfau cryno'r gorffennol yn naturiol ar lafar yn y gogledd, ceir fersiwn arall o'r ddeialog yn Atodiad 2 i ddosbarthiadau'r gogledd ar gyfer yr ymarfer darllen.

Cam 8 – Ymarfer Gramadeg

Ceir ymarfer gramadeg i adolygu'r cymalau a gyflwynir yn unedau 1-8. Dyma'r atebion.

1. Hi yw'r ferch (*who took*) y lluniau i'r Papur Bro.
Hi yw'r ferch a dynnodd y lluniau i'r Papur Bro.
2. Dw i'n credu (*I bought*) y ffrog o siop ail-law.
Dw i'n credu i mi / i fi brynu'r ffrog o siop ail-law.
3. "Weloch chi'r person (*who scratched*) fy nghar i?"
"Weloch chi'r person a grafodd fy nghar i?"
4. Ro'n nhw'n dweud (*it won't*) bwrw glaw fory.
Ro'n nhw'n dweud na fydd hi'n bwrw glaw fory.
5. Chawson ni ddim lle yn y bwyty neithiwr achos (*we arrived*) yn hwyr.
Chawson ni ddim lle yn y bwyty neithiwr achos i ni gyrraedd yn hwyr.
6. Pam (*don't you come*) am dro heno?
Pam na ddewch chi am dro heno?
7. Dyma'r band (*who performed*) ar y teledu neithiwr.
Dyma'r band a berfformiodd ar y teledu neithiwr.
8. Cafodd y babi ei alw'n Hefin achos (*he was born*) ym mis Mehefin.
Cafodd y babi ei alw'n Hefin achos iddo fe gael ei eni ym mis Mehefin.

Cam 9 – Aralleirio

Dyma dasg heriol i ymarfer ymadroddion unedau 1-8.

Gofynnwch i'ch dysgwyr weithio mewn parau. Y nod yw aralleirio'r elfennau sydd wedi'u tanlinellu, gan ddefnyddio ymadroddion a ddysgwyd yn yr unedau blaenorol. Dyma'r atebion:

Does dim angen i chi dacluso'r gegin – dw i wedi gwneud hynny yn barod.

Does dim angen i chi dacluso'r gegin – dw i wedi gwneud hynny eisoes.

1. Mae ysbryd yn y tŷ yma, mae pobl yn dweud.
Mae ysbryd yn y tŷ yma, medden nhw.
2. Wnaeth fy hen daid ddim ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd o'n anghytuno â'r syniad o ryfel.
Wnaeth fy hen daid ddim ymladd yn y Rhyfel Mawr. Roedd o'n wrthwynebydd cydwybodol.
3. Byddwn ni'n cael gwybod pwy yw'r enillydd cyn bo hir.
Byddwn ni'n cael gwybod pwy yw'r enillydd yn fuan.

4. Mae hi wedi bod yn gwneud ei gwaith yn brysur drwy'r dydd – rhaid iddi hi orffwys nawr!
Mae hi wedi bod wrthi drwy'r dydd – rhaid iddi hi orffwys nawr!

Cam 10 – Gwaith grŵp

Cam 1

Ceir detholiad o erthyglau o bapurau bro yn Atodiad 3. Mae tair erthygl o'r gogledd, a thair o'r de. Ond, mae iaith pob erthygl yn weddol syml a'u pynciau'n amrywiol. Neu gellid defnyddio erthyglau o'ch papur bro lleol ar gyfer y dasg hon.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau a rhowch erthygl wahanol i bob grŵp. Gofynnwch iddynt ddarllen yr erthygl a'i thrafod gyda'i gilydd. Bydd angen iddynt wneud nodiadau unigol ar yr erthygl, gan y byddant yn defnyddio'r nodiadau i wneud eu gwaith cartref.

Ar ôl rhoi digon o amser iddynt i baratoi, gofynnwch i bob grŵp gyflwyno crynodeb o'r erthygl ar lafar o flaen gweddill y dosbarth.

Cam 2

Gall y dysgwyr aros yn yr un grwpiau, neu symud i grwpiau gwahanol ar gyfer y dasg hon.

I ddechrau, byddai'n syniad da dangos rhifynnau o bapurau bro lleol i'ch dosbarth, er mwyn iddynt weld y gwahanol fathau o eitemau a geir mewn papur bro. Gallech hefyd ofyn i olygydd eich papur bro lleol ddod i gwrdd â'ch dosbarth, i siarad am y papur ac i ateb cwestiynau amdano.

Sicrhewch fod gan bob grŵp ddigon o bapur a deunyddiau ysgrifennu. Yna, gofynnwch iddynt baratoi eitem i'r papur bro lleol. Yn unol â sgiliau a brwdfrydedd eich dosbarth, gellid llunio erthygl newyddion, portread o gymeriad lleol, rysâit, neu adolygiad. Unrhyw beth y byddech yn ei weld mewn papur bro!

Pan fyddant wedi cwblhau'r dasg, gofynnwch iddynt gyflwyno'r eitem o flaen gweddill y dosbarth.

Da o beth fyddai cyhoeddi'r eitemau (neu rai ohonynt) yn y papur bro lleol. Byddai hyn yn fodd o gyflwyno'r dysgwyr i siaradwyr Cymraeg yn eu hardal, a chodi eu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth.

Cam 11 – Geirfa Uned 10

Atodiad 1

Partner A

**Tafodiaith
Crasboeth
Dihiryn
Llosgfynydd
Hela
Undeb**

Partner B

**Dwrn
Olew Olewydd
Caer
Loncian
Amaethyddiaeth
Ysgol fonedd**

Atodiad 2**Deialog (fersiwn y gogledd)**

- A: Fuest ti yn y sêl cist car ar gae yr ysgol ddydd Sadwrn?
- B: Naddo. Roedd rhaid i mi wneud tipyn o waith tŷ. Fuest ti?
- A: Do. Roedd hi'n un dda. Mi es i yno erbyn chwech.
- B: Chwech y bore?
- A: Ia. Mi ges i lwyth o fargeinion. Mi wnes i dalu dwy bunt am hen record Elvis sydd werth cannoedd o bunnau ar-lein!
- B: Waw, da iawn ti.
- A: Roedd dillad hyfryd yno hefyd. Pethau o safon. Basat ti wedi mwynhau sbio o gwmpas.
- B: Baswn, mae'n siŵr. Ond roedd hi'n well i mi gadw draw. Ti'n gwybod sut ydw i pan mae 'na fargeinion. Baswn i wedi dod adra efo llond tŷ o bethau newydd.
- A: Mae'r tŷ dan ei sang yn barod.
- B: Ydy... Pryd maen nhw'n gwneud y sêl nesa?
- A: Bydd un arall ddiwedd y mis, dw i'n meddwl.
- B: O? Ella do i efo ti.
- A: I weld be sy 'na, ia?
- B: Ia. Dim ond i weld be sy 'na.

Atodiad 3

Techmums yn dod i Ben Llŷn
Llanw Llŷn, Tachwedd 2017

Geirfa

arloesol	<i>innovative, pioneering</i>	ailafael	<i>to resume, to take up again</i>
doethuriaeth	<i>doctorate</i>	cynhadledd (cynadleddau)	<i>conference(s)</i>
hyrwyddo	<i>to promote</i>	sylfaenol	<i>basic, fundamental</i>

Pen Llŷn fydd yr ardal gyntaf yng Nghymru i gynnal cynllun arloesol i gael mamau, a merched yn gyffredinol, i ddysgu am y byd digidol.

Pwrpas elusen *Techmums* ydy rhoi'r sgiliau a'r hyder i famau a merched sydd wedi mynd allan o'r byd gwaith, a'u galluogi i **ail-afael** mewn gwaith eto gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i wneud hynny, mewn swyddfa neu yn eu cartrefi.

Sefydlwyd yr elusen gan Dr Sue Black, ac roedd hi yng Ngholeg Meirion Dwyfor ym Mhwlheli yn ddiweddar i roi hyfforddiant i'r staff yno am sut i fynd ati i gyflwyno'r cyrsiau digidol i ferched Pen Llŷn.

Gadawodd Dr Black yr ysgol yn 16 oed, mi briododd yn ifanc a chael tri o blant. Erbyn iddi fod yn 25, roedd mewn lloches i ferched. Wedyn mi wnaeth hi ail-afael mewn gyrfa academaidd, ac ennill **doethuriaeth** mewn technoleg. Mae hi bellach yn teithio'n ôl ac ymlaen i'r Unol Daleithiau lle mae hi wrthi'n cyflwyno mewn cyfres o **gynadleddau** yn ogystal â **hyrwyddo**'r elusen *#techmums* yno.

Yn 2012 mi sefydlodd *Techmums*, sef cwrs pum wythnos i hyfforddi merched ym myd cyfrifiaduron. Mae'r cynllun bellach wedi rhoi sgiliau i filoedd o ferched ledled Lloegr, ac mae Cyngor Gwynedd wedi gofyn iddi hi ddechrau cynllun peilot ym Mhen Llŷn. Dyma fydd y tro cyntaf i'r cwrs *#techmums* gael ei weithredu yng Nghymru ac mewn iaith heblaw am y Saesneg.

Un o'r rhai fuodd yn cael ei hyfforddi gan Dr Black er mwyn cynnal cyrsiau i ferched ydy Gwenan Richards, sy'n ddarlithydd technoleg gwybodaeth yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Dywedodd mai'r brif neges i'r mamau a'r merched ydy fod dysgu sgiliau technegol **sylfaenol** yn gallu agor drysau i bob math o waith.

Teithio Dramor gan y fferyllydd Emyr Wynne Evans
Llanw Llŷn, Tachwedd 2017

Geirfa

o fewn ein cyrraedd ni	<i>Within our reach</i>	hollbwysig	<i>all-important</i>
dilys	<i>valid, authentic, genuine</i>	haint (heintiau)	<i>infection</i>
imiwnedd	<i>immunity</i>	cynhenid	<i>inherent, innate, inborn</i>
heintio	<i>to infect</i>		

Mae ymweld â gwledydd pell y byd yn un o bleserau mwyaf bywyd, a diolch i ddiwydiant awyrennau rhyfeddol yr oes yma, mae unrhyw le **o fewn ein cyrraedd ni** ymhen ychydig oriau. Mae teithio bellach yn rhan o addysg i lawer, gyda myfyrwyr yn aml iawn yn cymryd 'blwyddyn allan' i weld y byd cyn cychwyn ar eu gyrfa. Mi fedra i ddychmygu ymateb fy nhad taswn i wedi dweud mod i am wneud hynny ar ôl gorffen fy ngradd yn Lerpwl – ro'n i'n sefyll fy arholiad olaf ar y dydd Gwener ac yn cychwyn gweithio fore Sadwrn, a welais i ddim golau dydd am y chwarter canrif nesaf! Tydi'r oes wedi newid?

Un peth sy'n **hollbwysig**, yn ogystal â gofalu bod eich pasbort yn **ddilys**, bod gynnoch chi'r arian tramor cywir a'ch cerdyn teithio yn eich llaw, ydy sicrhau eich bod chi'n amddiffyn eich corff yn erbyn **heintiau** sy'n ddiarth i ni yma yng Nghymru fach. Mae 'na lu o wahanol **heintiau** yn eich disgwyl ledled y byd. Gan nad ydyn ni wedi dod ar eu traws o'r blaen, does gynnon ni ddim **imiwnedd cynhenid** yn eu herbyn.

Enghraifft o hyn ydy'r gynddaredd (*rabies*), sef haint difrifol ar ôl cael eich brathu neu'ch cripio gan anifail sydd wedi'i **heintio**. Does yna ddim achos o'r gynddaredd wedi bod yng Ngwledydd Prydain ers bron i ganrif, ond mae yna berygl uchel ohono o hyd mewn gwledydd mor agos â Thwrci a Tunisia, sy'n wledydd poblogaidd iawn am wyliau i filoedd o bobl o'r wlad yma. Mi all **haint** fel hyn eich lladd.

Felly, ar ôl penderfynu ar leoliad eich taith nesaf, ac o leiaf wyth wythnos cyn y dyddiad teithio, ewch i gael cyngor meddygol am yr ardal a'i **heintiau**.

Dathlu Diwedd Tymor – Clwb Rygbi Pontypridd Tafod Elái, Mehefin 2018

Geirfa

cyfraniad	<i>contribution</i>	tywynnu	<i>to shine, to gleam, to glimmer</i>
sylweddol	<i>substantial</i>	ymysg	<i>amongst</i>
wythwr	<i>number eight</i>	blaenasgellwr	<i>flanker</i>
maswr	<i>fly half</i>	asgellwr	<i>winger</i>
canolwr	<i>centre</i>	bytholwyrdd	<i>evergreen</i>
darlledwr	<i>broadcaster</i>	noddwr (noddwyr)	<i>sponsor</i>
arwerthiant	<i>auction</i>	coffrau	<i>coffers</i>
tysteb	<i>testimonial</i>		

Roedd dydd Sadwrn y 19eg o Fai yn ddiwrnod i'w gofio ar Heol Sardis. Roedd yn ddathliad o ddiwedd y tymor rygbi ond hefyd yn ddathliad o **gyfraniad** unigryw capten Clwb Pontypridd – Dafydd Lockyer.

Roedd yr haul yn **tywynnu** ar Heol Sardis drwy gydol y dydd, gyda thorff **sylweddol** yn mwynhau gêm gystadleuol a ddiweddodd yn gyfartal, 45 pwynt yr un. Yn profi nad yw oedran yn rhwystr i chwarae, **ymysg** y garfan wadd roedd nifer o ffeffrynnau o'r gorffennol megis yr **wythwr** Nathan Strong, y **blaenasgellwr** Wayne O'Connor, y **maswr** Dai Flanagan, yr **asgellwr** Gareth Wyatt a'r **canolwr bytholwyrdd** Dafydd James. Yn gynharach yn y diwrnod roedd cymdeithas Cyn Chwaraewyr Pontypridd wedi cynnal eu cinio blynyddol gyda'r **darlledwr** poblogaidd Phil Steele yn siaradwr gwadd.

Aeth y dathliadau ymlaen yn hwyr i'r nos yn y clwb, gyda chyn chwaraewyr a chwaraewyr presennol yn cymdeithasu gyda'r cefnogwyr a'r **noddwyr**. Cynhaliwyd **arwerthiant** llwyddiannus o nifer o eitemau rygbi gwerthfawr a gododd swm **sylweddol** i **goffrau** **tysteb** Dafydd Lockyer.

Yn goron ar y cyfan dychwelodd carfan ieuenctid Pontypridd yn hwyr yn y nos, wedi ennill gêm derfynol y tymor yn erbyn Athletic Pen-y-bont i gael eu coroni yn bencampwyr Cymru.

Daeth tymor 2017 – 2018 i ben i Glwb Rygbi Pontypridd yn y ffordd fwyaf addas, wrth i genedlaethau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol ddod at ei gilydd i ddathlu.

Adar a Newid Hinsawdd
gan Bethan Lloyd – Rheolwr Cyfathrebu RSPB Cymru
Y Bedol, Ebrill 2018

Geirfa

cyfartalog	<i>average</i>	amlygu	<i>to display, to highlight</i>
gwirioneddol	<i>real</i>	cynefin(oedd)	<i>habitat</i>
gorfodi	<i>to force</i>	bridio	<i>breeding</i>
cwtiaid aur	<i>golden plover</i>	grugiar ddu	<i>black grouse</i>
ucheldiroedd	<i>highlands</i>	gwlypdiroedd	<i>wetlands</i>
crëyr bach	<i>little egret</i>	cyfandir	<i>continent</i>
gwennol (gwenoliaid) y bondo	<i>house martin(s)</i>	lliw nos	<i>at night</i>
ymddygiad	<i>behaviour</i>	titw mawr	<i>great tit</i>

Ar ôl gaeaf caled, mae'n anodd credu fod tymheredd **cyfartalog** y DU yn ystod yr haf wedi cynyddu bron i 1°C ers y 1980au – gydag wyth o'r deg mlynedd cynhesaf ar record wedi digwydd ers 1990.

Ond sut mae hyn yn effeithio ar ein bywyd gwylt? Mae adroddiad Sefyllfa Adar y DU yn ceisio **amlygu** hyn.

Mae perygl **gwirioneddol** y bydd adar prin yn diflannu'n llwyr. Wrth i'r tymheredd gynyddu mae eu **cynefinoedd** yn newid, felly mae rhai adar yn cael eu **gorfodi** i symud i'r gogledd i chwilio am gartref newydd. Bydd rhai adar **bridio** prin fel y **cwtiaid aur** a'r **grugiar ddu** mewn perygl mawr o farw allan o **ucheldiroedd** Cymru.

Ar y llaw arall, gallai'r tymheredd cynhesach fod yn newyddion da i adar y **gwlypdiroedd**. Mae rhywogaethau fel y **crëyr bach** wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae arbenigwyr yn credu eu bod nhw'n manteisio ar dywydd cynhesach y wlad hon oherwydd bod eu cartref yng **nghyfandir** Ewrop yn rhy gynnes a sych.

Allwch chi ddim paratoi ar gyfer yr haf tan i chi weld **gwennol y bondo**'n dawnsio yn yr awyr **liw nos**. Mae'r adar anhygoel hyn yn mudo miloedd o filltiroedd o Dde Affrica bob blwyddyn i nythu a magu eu cywion. Ar gyfartaledd, mae'r adar hyn yn cyrraedd dair wythnos yn gynharach nag yn y 1960au, ac yn treulio hyd at bedair wythnos yn fwy yn y DU bob blwyddyn.

Mae adar yr ardd hefyd yn newid eu **ymddygiad**. Erbyn hyn, mae'r **titw mawr** yn dodwy 11 diwrnod yn gynharach na 40 mlynedd yn ôl.

Mae'r newidiadau hyn yn arwyddion clir bod hyd yn oed bywyd gwylt cyffredin yr ardd yn cael ei effeithio gan yr hinsawdd sy'n newid.

CwmNi, Mawrth 2018

Geirfa

canmlwyddiant	<i>centenary</i>	ymddiriedolaeth	<i>trust</i>
ysgolfeistr	<i>schoolmaster</i>	dilladu	<i>to clothe, to dress</i>
prentisio	<i>to apprentice</i>	plwyf	<i>parish</i>
addysgu	<i>to educate, to teach</i>	ystyried (ystyriodd)	<i>to consider</i>
awydd	<i>desire, eagerness</i>	ehangu gorwelion	<i>to broaden one's horizons</i>
elfennol	<i>elementary</i>	blaengar	<i>progressive, innovative</i>
Deddf Addysg Ganolraddol Cymru		<i>Welsh Intermediate Education Act</i>	
dan reolaeth		<i>under the control (of)</i>	

Ym mlwyddyn dathlu **canmlwyddiant** rhoi'r bleidlais i rai menywod, mae'n addas cofio mor bwysig oedd addysg yn y broses a arweiniodd at hynny. Roedd yn broses hir – wedi'r cyfan, bydd rhai o ddarllenwyr CwmNi yn cofio adeg pan oedd dysgu crefftau mewn ysgolion wedi ei rannu yn ôl eich rhyw – a'r cwyno pan newidiodd hynny!

Pan fu farw Edward Lewis yn ddyn ifanc cyfoethog yn 1728, gadawodd arian i sefydlu **ymddiriedolaeth** er mwyn codi ysgol, talu **ysgolfeistr**, **dilladu** a **phrentisio** pymtheg o fechgyn tlawd o **blwyf** Gelligaer. Doedd dim sôn am **addysgu** merched. Ym marn pobl y cyfnod hwnnw, byddai pob merch yn derbyn digon o addysg gan ei mam i gadw tŷ a magu teulu.

Dyna oedd barn cymdeithas yn gyffredinol am lawer o flynyddoedd wedyn. Serch hynny, yn 1836 **ystyriodd** Ysgol Lewis dderbyn merched i'r ysgol, ond y rheswm am hynny oedd lleihad yn nifer y bechgyn yn yr ysgol yn hytrach nag **awydd** i **ehangu gorwelion** merched yr ardal.

Erbyn 1853 roedd digon o arian yn yr **ymddiriedolaeth** i adeiladu ysgol newydd ym Mhengam, a gadael yr hen adeilad yng Ngelligaer. Yn Ysgol Lewis Pengam cynigiwyd addysg i 150 o fechgyn – a 100 o ferched! Addysg **elfennol** oedd yn Ysgol Lewis, ond roedd cynnig unrhyw fath o addysg ffurfiol i ferched yn **flaengar** iawn yn y cyfnod hwn.

Ar ôl **Deddf Addysg Ganolraddol Cymru** 1889, daeth Ysgol Lewis Pengam **dan reolaeth** Cyngor Sir Morgannwg fel ysgol ramadeg. Pan agorodd Lloyd George adeiladau newydd yr ysgol ym 1905, siarodd am botensial Ysgol Lewis i Fechgyn i ddatblygu'n 'Eton' Cymreig.

A beth am y merched? Yn 1901 agorwyd Ysgol Ramadeg Lewis i Ferched yn Hengoed, oedd yn cynnig addysg academaidd i ferched, fel ysgol y bechgyn. Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif roedd llawer o ysgolion tebyg ar hyd a lled y wlad. O'r ysgolion hyn daeth menywod oedd yn ddigon hyderus i fynnu'r bleidlais, ac i wneud rhywbeth ar wahân i fagu teulu a chadw tŷ...

Lansio elusen Dyfed-Powys Diogel yn Sir Gaerfyrddin

Papur y Cwm, Mehefin 2018

Geirfa

cwblhau (cwblhaodd)	<i>to complete</i>	comisiynydd ariannu	<i>commissioner</i> <i>to finance, to fund</i>
swyddog(ion)	<i>officer(s)</i>	amryw	<i>various</i>
rhanbarth	<i>region</i>	adlewyrchu	<i>to reflect</i>
ymgysylltu	<i>to engage</i>		
amhrisiadwy	<i>priceless</i>		

Ar 4 Mai, **cwblhaodd** Dafydd Llywelyn, **Comisiynydd** yr Heddlu a Throsedd, daith feicio elusennol #TourdeForce o gwmpas ardal Dyfed-Powys. Teithiodd y criw 500 milltir mewn 5 diwrnod, gyda dros 110 o'r rheiny drwy Sir Gaerfyrddin, gan alw yng ngorsafoedd heddlu Caerfyrddin, Llanymdyfri, Llandeilo, Rhydaman, Cross Hands, Llwynhendy, Llanelli, Porth Tywyn, a Chydweli. Gorffennwyd y daith ym Mhencadlys yr Heddlu nos Wener, Mai 4.

Yn cadw cwmni i Dafydd ar hyd y daith roedd criw o **swyddogion** heddlu, ac roedd y tîm cyfan wedi rhoi o'u hamser yn wirfoddol er mwyn codi ymwybyddiaeth am elusen newydd, Dyfed-Powys Diogel. Nod elusen Dyfed-Powys Diogel yw **ariannu** a chefnogi nifer o brosiectau ieuencid yn ardal Dyfed-Powys. Y gobaith yw cefnogi pum prosiect ieuencid yng Ngheredigion ac ym mhob un o siroedd eraill y **rhanbarth**. Yn ystod y daith feicio, roedd cyfle i'r cyhoedd gwrdd â Dafydd Llywelyn bob nos mewn **amryw** leoliadau, a chynhaliwyd nosweithiau **ymgysylltu** ar draws ardal Dyfed-Powys i drafod yr elusen gyda swyddogion yr heddlu, Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu a thrigolion lleol.

Gan **adlewyrchu** ar y profiad, dywedodd Dafydd Llywelyn, "Hoffwn i ddiolch i bawb a gefnogodd y digwyddiad hwn mewn unrhyw ffordd – ac yn arbennig i'r swyddogion fuodd yn beicio gyda fi drwy ardal Sir Gaerfyrddin, a'r cymorth meddygol **amhrisiadwy** a roddwyd gan elusen Cariad. Wrth edrych 'nôl, roedd yn brofiad arbennig, ac yn sicr, roedd hi'n werth rhoi fy amser fy hun i wneud hyn."

"Mae'r daith wedi tanlinellu amrywiaeth ein cymunedau, o ardaloedd gwledig fel Llanymdyfri i ardaloedd mwy trefol fel Llanelli, ac mae hynny'n rhywbeth i'w ddathlu."

Mae elusen Dyfed-Powys Diogel yn croesawu ceisiadau gan gymunedau lleol yn Sir Gâr, ac mae grantiau o hyd at £1,000 ar gael i elusennau a grwpiau cymunedol o fewn y Sir sy'n gweithio gyda phobl ifanc.

Uned 10 – Canllaw i'r tiwtor

Nod ieithyddol: ffurfiau lluosog a benywaidd ansoddeiriau

Thema: Trosedd a throseddu

Cam 1 - Siarad Cychwynnol

Defnyddiwch un o'r 'cardiau dadl' i sbarduno siarad cychwynnol.

Cam 2 – Adolygu Geirfa/Ymadroddion Unedau 1-8 - Kahoot

Ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd angen cyswllt gwe yn y dosbarth a sgrin i ddangos y cynnwys o'r we i'r dosbarth, a bydd angen i bob grŵp (o leiaf ddau grŵp o 2-5 dysgwr) fod â dyfais symudol wedi'i chysylltu â'r we (ffôn clyfar neu lechen). Dechreuwch gyfrif Kahoot ymlaen llaw – ewch i <https://kahoot.com/> a gwasgu'r ddolen 'Sign up' sydd ar yr ochr dde tua phen uchaf y wefan (does dim cost). Wedi i chi greu eich cyfrif, gallwch fewngofnodi ('sign in') unrhyw bryd.

Mae'r gêm ar gyfer yr uned hon ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

<https://play.kahoot.it/#/k/ef634465-467a-4e42-b0a5-3ea9f5580920>

Pan fyddwch chi'n agor y gêm ac yn gwasgu 'Play', bydd cod (PIN) yn ymddangos ar y sgrin. Dylai'r dysgwyr sydd yn gyfrifol am y ddyfais symudol ar ran eu grŵp fynd i kahoot.it a mewnbynnu'r cod yno. Bydd angen iddynt roi enw neu ffugenw a phan fyddant wedi ymuno'n llwyddiannus â'r gêm, bydd yr enw hwnnw'n ymddangos ar eich sgrin chi. Pan fydd pob grŵp wedi llwyddo i ymuno, dechreuwch y gêm. Bydd y cwestiynau'n ymddangos fesul un gyda symbolau ar y sgrin i gynrychioli'r gwahanol atebion aml-ddewis. Bydd y dysgwyr yn gwasgu ar un o'r symbolau hyn ar eu dyfais symudol i ddewis eu hateb. Pan fydd pob grŵp wedi ateb, bydd y nifer a ddewisodd bob ateb yn cael ei ddangos ar eich sgrin a bydd cyfle i oedi cyn symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf. Ar y diwedd, bydd sgoriau pob tîm i'w gweld a'r enillwyr yn cael eu coronu'n bencampwyr!

Y ffordd orau i chi ddod i ddeall sut bydd y gêm yn gweithio ydy trwy roi cynnig arni eich hunan ymlaen llaw gyda chyfrifiadur a dyfais symudol! Mae canllaw Kahoot ar sut i chwarae yma: <https://kahoot.uservoice.com/knowledgebase/articles/949450-how-to-host-and-play-a-kahoot>

Siaradwch – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i sôn am bethau sy'n 'dân ar eu croen'. Rhestrwch nhw ar y bwrdd gwyn a rhannwch y dosbarth yn grwpiau newydd i gytuno ar dri pheth sy'n eu poeni fwyaf. A oes consensws o fewn y grŵp?

Cam 3 – Cyflwyno ansoddeiriau benywaidd a lluosog.

Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer ar ansoddeiriau. Gweithgaredd rhagarweiniol, adolygu yw hwn yn canolbwyntio ar bwysleisio treigladd meddal ar ôl enwau benywaidd unigol. Dyma'r atebion:

Mae tafodiaith bert/dde iawn yn Sir Benfro.

A'r drydedd flaenoriaeth eleni fydd marchnata gwell.

Roedd brwydr waedlyd rhwng y ddwy ochr.

Mae llawer o offer newydd yn y gampfa fodern.

Mae'n bwysig bod pawb yn gwybod lle mae'r ddihangfa dân.

Maen nhw'n cau'r ysgol gynradd yn y pentre oherwydd diffyg plant.

Mae ymgyrch genedlaethol ar y gweill i wella sgiliau pobl ifainc.

Yn 1920 roedd yr Ymerodraeth Brydeinig yn ymestyn dros 24% o holl dir y byd.

Roedd y darlithydd wedi cyflwyno darlith ddiddorol iawn.

Mae llawer o ddisgyblion talentog yn y dosbarth ond mae un ferch ddisglair yn eu plith.

Cyn darllen yr Help Llaw, gofynnwch i barau feddwl am enghreifftiau o ansoddeiriau benywaidd maen nhw eisoes wedi dod ar eu traws. Darllenwch dros yr adran briodol yn yr Help Llaw. Dilynwch yr un drefn ar gyfer yr ansoddeiriau lluosog. Gofynnwch i barau gwblhau'r tabl yn y cwrslyfr.

Cam 4 – Gwlad y Menig Gwynion?

Eglurwch darddiad yr ymadrodd. Dyma'r diffiniad yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru:

Gwlad y Menig Gwynion: land of the white gloves (*alluding to the frequent presentation of White gloves to assize judges in Wales, when there was no case for trial*).

Storom eirfa

Siaradwch

Rhannwch y dosbarth yn barau neu'n grwpiau bach i gael trafodaeth ar ba mor ufudd ydyn nhw wrth fynd trwy'r rhestr ysgafn o droseddau. Dylid annog cymaint â phosib o ymestyn yma.

Gwranddo a Deall

Daw'r darn o raglen Aled Hughes. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwranddo.

Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r geiriau a nodwyd yn eu cwrslyfr pan fyddant yn eu clywed. Yna, gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau isod.

1. Troseddau o ba ardal yng Nghymru mae Lowri lfor yn sôn amdany'n nhw i ddechrau?
Cwm Rhondda.
2. Pa drosedd roedd 'pasio pres' yn ei disgrifio?
Gamblo / hapchwarae.
3. Beth fuodd tri bachgen yn ei wneud yn Nhonypany?
Baglu merched ifanc gyda ffon gerdded ('wilful jostling').
4. Beth oedd trosedd Blodwen Jones o Flaenclydach?
Gwerthu pys ar baced heb fanylion.
5. Pam cafodd Thomas William Abraham ddirwy?
Gwerthu marmalêd am bris drutach nag oedd yn cael ei ganiatáu.
6. Pam roedd llawer o droseddau'r cyfnod yn ymwneud â bwyd?
Roedd yn gyfnod o ddogni ac roedd bwyd yn brin.

I gloi, gofynnir i'r dysgwyr drafod yr ymadroddion isod. Ar ôl rhoi amser iddynt ddyfalu'r ystyron, trafodwch yr ymadroddion fel dosbarth. Byddai modd gwneud gwaith ymestynnol ar 'o flaen ei gwell' trwy ofyn iddynt roi'r personau eraill: o flaen fy ngwell, o flaen dy well, ac ati.

**o gwmpas eu pethau
creu miri
o flaen ei gwell**

Darllen a Deall

Ceir darn darllen ar hanes Gwylliaid Cochion Mawddwy, sy'n cyd-fynd â'r thema ond hefyd yn gyfle i ymarfer ffurfiau lluosog ansoddeiriau.

Dilynwch y Canllawiau Cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i ateb y cwestiwn am arwyddocâd y rhifau. Dylid eu hannog i drafod eu hatebion. Yn ail, ceir ymarfer i gadarnhau'r gwaith ar ansoddeiriau. Yn olaf, rhaid canfod y geiriau yn y darn darllen sy'n cyd-fynd â'r diffiniadau ohonynt. Dyma'r atebion:

- 16 Roedd Mawddwy yn lle peryglus yn yr unfed ganrif ar bymtheg.
 1554 Cafodd Gwylliaid eu crogi ar Noswyl Nadolig 1554.
 80 80 o'r Gwylliaid a gafodd eu crogi.
 1770 Mae hanes y Gwylliaid yn llyfr Thomas Pennant, a ysgrifennwyd tua 1770.
 10 10 mis ar ôl crogi'r Gwylliaid, daeth cyfle i ddial.
 2 Cwmpodd dwy dderwen o flaen y Barwn a'i ddynion.
 30 Saethwyd y Barwn 30 o weithiau

Bwyd môr poblogaidd yw cregyn gleision

Ar lan y môr mae rhosys cochion

Os ewch chi i Barc Dinefwr, fe welwch chi'r gwartheg gwynion unigryw.

Mynachod oedd y Brodyr Llwydion

Enw arall ar dîm rygbi Seland Newydd yw'r Crysau Duon

Enw tîm rygbi Caerdydd yw Gleision Caerdydd.

Symud car neu anifail - **gyrru**

Llinell sy'n gwahanu dau le neu ddau beth - **ffin**

Llefydd lle mae llawer o goed a phlanhigion yn tyfu - **coedwigoedd**

Pethau mae'r gyfraith yn caniatáu i ni eu gwneud - **hawliau**

Dyma sut roedd pobl yn cael eu dienyddio ym Mhrydain tan y 1950au - **crogi**

Rhoi bwyd i berson neu i anifail - **bwydo**

Mae pobl fel arfer yn gwneud hyn bob dydd, fel arfer yn y bore a chyn mynd i'r gwely - **ymolchi**

Defnyddio dryll i anafu neu i ladd - **saethu**

I gloi, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau yn y cwrslyfr.

Gwrando a Deall – Hanes y Sesiwn yng Nghymru

Bydd y dysgwyr yn gwylio fideo o'r canwr gwerin Gwilym Bowen Rhys yn cyflwyno ac yn perfformio'r gân Hanes y Sesiwn yng Nghymru gan Jac Glan y Gors. Esboniwch nad oes angen iddynt ddeall pob gair, ac mai mwynhau'r stori (yn fras) yw'r bwriad. Os y dymunir, gellir dosbarthu copi o'r sgript (Atodiad 1). Ceir tri ymarfer ieithyddol i ddilyn y gân:

trafod 'chwarae'r ffon ddwybig', sef bod yn ddauwynebog mewn rhyw ffordd;

cyfieithu gan ddefnyddio 'ar' neu 'ar fin'. Dyma atebion cywir posib:

Roedd e/o ar adael/ar fin gadael y cae/maes pan gafodd/gaeth ei anafu.

Roedd hi ar fin cyfaddef pan gerddodd rhywun i mewn i'r ystafell.

Mae'r llyfr ar fin cael ei gyhoeddi.

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am frawddegau eraill yn defnyddio 'ar fin', a'u nodi yn y man priodol yn y cwrslyfr.

I gloi, gadewch i'r dysgwyr sgwrsio'n rhydd am unrhyw beth sy'n codi'n naturiol o'r darn Gwylio a gwrando e.e. 'drysni ieithyddol' wrth gynnal digwyddiad yn ddwyieithog, cerddoriaeth werin, mynd i wyllo cerddorion yn perfformio'n fyw, ac ati.

Cam 7 – Geirfa Uned 11

Adolygu Uwch 1, Uned 10 (gradd gymharol ansoddeiriau)

1. Mae hwn yn gyfle i adolygu tri ansoddair sy'n codi yn Uwch 1 – corfforol, cyffredin, poblogaidd. Yn syml iawn, rhannwch y dosbarth yn barau i greu tair brawddeg gymharol: corfforol yng nghyd-destun chwaraeon, cyffredin yng nghyd-destun bwydydd, poblogaidd yng nghyd-destun rhaglenni teledu, e.e. Mae rygbi'n fwy corfforol na snwcer. Chwilir am gywirdeb yma.
2. Er mwyn adolygu ffurf gymharol mawr a bach, galwch allan enwau dwy wlad a rhaid i'r parau greu dwy frawddeg, e.e. Mae X yn fwy nag Y, Mae Y yn llai nag X. Rhestrir y deg gwlad fwyaf (o ran cilometrau sgwâr) isod:
 - i. Rwsia
 - ii. Canada
 - iii. Unol Daleithiau America
 - iv. Tsieina
 - v. Brasil
 - vi. Awstralia
 - vii. India
 - viii. Yr Ariannin
 - ix. Kazakhstan
 - x. Algeria

Atodiad 1**Fideo Gwilym Bowen Rhys****Hanes y Sesiwn yng Nghymru**

A fuoch chi 'rioed mewn sesiwn yng Nghymru
 Lle mae cyfraith ac ieithoedd yn cael eu cymysgu,
 Rhai'n siarad Cymraeg, a'r lleill yn rhai Seisnig,
 A nhwytha'r twrneiod yn chwarae'r ffon ddwybig

Efo'i ffal-di-ral ffal-di-ral ffal-di-ral ffal-di-ral
 ffal-di-ral ffal-di-ral ffal-di-ra-lal.

Bu yno'n ddiweddar rhyw helynt mewn treial
 A'r ustus ar ddodwy wrth wrando 'r y ddadl,
 Hen ast i Gadwalad' o Ben Ucha'r Nant
 Giniawodd ar oen i Siôn Ty'n y Pant

Wel Siôn aeth i gyfraith drwy lawer o boen
 I wneud i Gadwalad' roi tâl am yr oen
 A chownsler o Lundain, dan godi ei glôs
 A gododd i fyny to *open the cause*

*"Gentlemen of the jury...
 Cadwallader's dog of the Head of the Nant
 Killed a fat lamb of John Ty'n y Pant.
 We claim in this court without any dispute
 The value of the lamb, with all cost of suit"*

Fe dyngai rhyw Gymro "mae'n hysbys i mi
 Nad ydyw Cadwalad' yn cadw 'run ci"
 A'r cownsler a waeddai *"Pray don't be in haste,
 If he don't keep a ci then he does keep a gast"*

A'r jury a waeddodd "wel dyma'n barn ni,
 Na welwyd yng Nghymru yr un gast yn gi,
 A na fedrwch chithau efo'ch cyfraith a'ch Saesneg
 Gneud caseg yn geffyl a cheffyl yn gaseg."

Wel Siôn Robert Rowlands o ben isa'r dre
 A ddaeth i gyfieithu, bob gair yn ei le
 'Rôl sychu ei drwyn i gael edrych yn drefnus,
 Dechreuodd ar osteg i ddysgu'r hen ustus

*"You see my lord...
'Ci' is a dog, and male is a 'gwryw'
So 'buwch' is a cow and bull is a 'tarw'
And 'gast' is a bitch, with shaking her cwnffon
'S the same sex, my lord, as your madams in London"*

*"Well that being so, it appears to me
This man lost his lamb between a 'gast' and a 'ci',
the value of verdict we may quickly rejoin"
"My lord! 'Twas a cigfran that killed the oen!"*

*"A cigfran!?...
Against such a name there is no accusation,
It mentions a dog in this declaration,
for what is a cigfran? I can't make a guess"
"My lord, 'tis a black bird that feasts upon flesh"*

*"A bird that destroys such an innocent creature,
Of course, it must be of a ravenous nature"
"It'll pick out your eyes, my lord, in a crack!
And just like old lawyers, he's always in black"*

Wel cofiwch chi bobol mai gwell yw cytuno
Rhag ofn y cewch frathiad os ewch i gyfreithio,
A mynd yn y diwedd, ar ôl cadw sŵn,
Fel aeth yr oen bach rhwng y cigfrain a'r cŵn.

Uned 11 – Canllaw i'r tiwtor

Cam 1 - Adolygu Uned 10

I adolygu Uned 10 (ansoddeiriau lluosog a benywaidd), ceir dewis o dasgau; naill ai llenwi bylchau yn y gân adnabyddus Ar Lan y Môr neu chwarae kahoot.

Ar Lan y Môr

Bydd y dosbarth yn gwrando ar Elin Fflur yn canu Ar Lan y Môr. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwrando. Yna, gofynnwch iddynt weithio mewn parau i lenwi'r bylchau yn Atodiad 1, trwy ddewis y geiriau cywir ar waelod y tudalen. Dyma'r geiriau cywir:

Ar lan y môr mae rhosys cochion
Ar lan y môr mae lilis gwynion
Ar lan y môr mae 'nghariad innau
Yn cysgu'r nos a chodi'r bore.

Ar lan y môr mae carreg wastad
Lle bŵm yn siarad gair â 'nghariad
O amgylch hon fe dyf y lili
Ac ambell gangen o rosmari.

Ar lan y môr mae cerrig gleision
Ar lan y môr mae blodau'r meibion
Ar lan y môr mae pob rhinweddau
Ar lan y môr mae nghariad innau.

Nid oes ansoddeiriau benywaidd yn y gân hon, ond gallech ofyn i'r dosbarth chwilio am enw benywaidd yn y geiriau. Atgoffwch nhw fod ansoddeiriau'n treiglo ar ôl enwau benywaidd. Dylent wedyn ddod o hyd i'r gair 'carreg'.

Ar ôl llenwi'r bylchau, gadewch i'r dosbarth sgwrsio am unrhyw beth sy'n codi o'r gân hon. Efallai eu bod wedi clywed fersiynau gwahanol ohoni, neu eu bod yn gwybod penillion eraill iddi.

Kahoot

Ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd angen cyswllt gwe yn y dosbarth a sgrin i ddangos y cynnwys o'r we i'r dosbarth, a bydd angen i bob grŵp (o leiaf ddau grŵp o 2-5 dysgwr) fod â dyfais symudol wedi'i chysylltu â'r we (ffôn clyfar neu lechen). Dechreuwch gyfrif Kahoot ymlaen llaw – ewch i <https://kahoot.com/> a gwasgu'r ddolen 'Sign up' sydd ar yr ochr dde tua phen uchaf y wefan (does dim cost). Wedi i chi greu eich cyfrif, gallwch fewngofnodi ('sign in') unrhyw bryd.

Mae'r gêm ar gyfer yr uned hon ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

<https://play.kahoot.it/#/k/62d77e41-a03f-46d0-8570-3b3fdc3a2ff6>

Pan fyddwch chi'n agor y gêm ac yn gwasgu 'Play', bydd cod (PIN) yn ymddangos ar y sgrin. Dylai'r dysgwyr sydd yn gyfrifol am y ddyfais symudol ar ran eu grŵp fynd i kahoot.it a mewnbynnu'r cod yno. Bydd angen iddynt roi enw neu ffugenw a phan fyddant wedi ymuno'n llwyddiannus â'r gêm, bydd yr enw hwnnw'n ymddangos ar eich sgrin chi. Pan fydd pob grŵp wedi llwyddo i ymuno, dechreuwch y gêm. Bydd y cwestiynau'n ymddangos fesul un gyda symbolau ar y sgrin i gynrychioli'r gwahanol atebion aml-ddewis. Bydd y dysgwyr yn gwasgu ar un o'r symbolau hyn ar eu dyfais symudol i ddewis eu hateb. Pan fydd pob grŵp wedi ateb, bydd y nifer a ddewisodd bob ateb yn cael ei ddangos ar eich sgrin a bydd cyfle i oedi cyn symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf. Ar y diwedd, bydd sgoriau pob tîm i'w gweld a'r enillwyr yn cael eu coronï'n bencampwyr!

Y ffordd orau i chi ddod i ddeall sut bydd y gêm yn gweithio ydy trwy roi cynnig arni eich hunan ymlaen llaw gyda chyfrifiadur a dyfais symudol! Mae canllaw Kahoot ar sut i chwarae yma: **<https://kahoot.uservice.com/knowledgebase/articles/949450-how-to-host-and-play-a-kahoot>**

Cam 2 – Rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid

Cyn cyflwyno'r gwaith yn yr uned, gofynnwch i'r dosbarth pa ragddodiaid maen nhw'n ymwybodol ohonynt (e.e. mae **cam** wedi'i gyflwyno). Treuliwch amser yn ystyried y rhain ac yn creu geiriau. Os na fydd **gwrth**, **di** ac **an** wedi codi, gofynnwch am enghreifftiau gan y dosbarth yn gyntaf ac yna ewch dros y nodiadau yn yr Help llaw. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarferion cyfieithu. Ewch drwy'r un broses gyda'r ôl-ddodiaid. Y rhai a gyflwynir yn yr uned yw **-gar**, **-lon** ac **-us**.

Yn olaf, ceir bwletin newyddion sy'n cynnwys nifer o eiriau a chanddynt ragddodiad neu ôl-ddodiad. Rhaid i'r dysgwyr lenwi'r bylchau wrth wrando.

Carcharwyd troseddwr **peryglus** iawn am gyfanswm o ugain mlynedd heddiw. Cyflawnodd Ffred John nifer o droseddau **maleisus** iawn yn y ddinas.

Bydd yr **wrth-blaid** yn cynnig pleidlais o ddiffyg hyder yn y Prif Weinidog heddiw. Maen nhw'n dweud bod y Prif Weinidog yn hollol **ddi-rym** erbyn hyn, ar ôl yr holl ddigwyddiadau **anffodus** o fewn ei blaid ei hunan yn ddiweddar.

Arestwyd bachgen pymtheg oed am werthu cyffuriau **anghyfreithlon** y tu allan i ysgol yng ngorllewin Cymru brynhawn ddoe. Tabledi bach **lliwgar** yw'r cyffuriau hyn sydd wedi'u creu er mwyn apelio at blant a phobl ifainc.

Cam 3 – Cyflwyno'r thema – Hiwmor

Jôcs

I gyflwyno thema hiwmor, ceir jôcs syml yn y cwrslyfr, sy'n chwarae ar eiriau Cymraeg. Gofynnwch i'r dysgwyr ddweud y jôcs hyn wrth ei gilydd. Ydyn nhw'n eu deall nhw? Allan nhw feddwl am jôcs Cymraeg eraill? Gallai hyn yn arwain at sgwrsio rhydd am jôcs, a ph'un ai bod modd cyfieithu rhai jôcs o'r Saesneg i'r Gymraeg. Yna, gofynnwch iddynt nodi eu jôc nhw / jôc eu partneriaid yn y cwrslyfr.

Darllen

Mae darn darllen yr uned yn fyrrach nag arfer, ond yn eithaf heriol o ran geirfa felly gadewch ddigon o amser i wneud y cam hwn.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau i wneud y gwaith iaith. Dyma atebion enghreifftiol, a allai fod o gymorth i'ch dysgwyr.

1. "Mae'n gymaint o ddirgelwch ag erioed," meddai Dr Dafydd Huws. Gyda'ch partner, ysgrifennwch ddwy frawddeg yn defnyddio **erioed**, a dwy frawddeg yn defnyddio **byth**. Dyma enghreifftiau:

1Dw i erioed wedi bod i India, ond dw i wedi teithio i lawer o wledydd eraill.

2Mae fy rhieni wedi byw yn y dref yma erioed.

1Wna i byth fwyta yn y bwyty yna eto – ces i wenwyn bwyd!

2Bydda i'n cofio'r diwrnod yma am byth – dw i wedi cael amser gwych!

2. Mae cydleoiliadau diddorol yn y darn yma: **synnwyr digrifwch**, **dan warchae** ac **anifeiliaid rheibus**. Allwch chi feddwl am eiriau eraill sy'n cyd-fynd â synnwyr, anifeiliaid a dan?

synnwyr	anifeiliaid	dan
synnwyr cyffredin synnwyr cyfeiriad	anifeiliaid gwyllt anifeiliaid anwes anifeiliaid fferm anifeiliaid y sw	dan glo dan y môr dan deimlad dan y dŵr dan bwysau dan do

3. Mae **digrifwch a thristwch** yn eiriau **cyferbyniol**. Allwch chi feddwl am eiriau cyferbyniol eraill? **Beth yw geiriau cyferbyniol y geiriau isod?**

cul	llydan	amddiffyn	ymosod
deheuol	gogleddol	caeth	rhydd
gwirionedd	celwydd	esgeulus	gofalus
hardd	hyll	gorffennol	dyfodol
gwrthod	derbyn	dlog	gweithgar

I gloi'r gwaith Darllen, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau a geir yn y cwrslyfr.

Gwylïo a gwrando 1 – Gŵyl Ffrinj Caeredin

Mae hwn yn ddarn heriol ond mae hefyd yn weledol ac yn cynnwys comediwr o'r gogledd (Tudur Owen) ac o'r de (Steffan Alun). Chwaraewch y ffilm ddwy neu dair gwaith er mwyn i'r dysgwyr allu gwneud nodiadau. Yna, rhannwch nhw'n barau neu'n grwpiau bach i lunio o leiaf dri chwestiwn. Bydd angen nodi'r cwestiynau yn eu llyfrau ac ar bapur sgrap er mwyn gallu eu cyfnewid gyda grŵp arall.

Chwaraewch y ffilm eto er mwyn i'r dysgwyr geisio cwblhau'r ymadroddion isod:

gŵyl gelfyddydol	hen gyfarwydd (Dylid atgoffa'r dysgwyr o 'hen bryd')
enwau mawr	canol nos
gweddill y byd	gwerthu allan
mis arferol	llawn dop

Os ydych chi am herio'r grŵp, gellid gofyn iddyn nhw ddweud beth yw swyddogaeth yr ymadroddion yn y darn:

Gŵyl gelfyddydol fwya'r byd yw Gŵyl Ffrinj Caeredin.

Mae Tudur Owen yn **hen gyfarwydd** â'r ŵyl.

Mae'r **enwau mawr** ym myd comedi i gyd wedi perfformio yn Pleasance Courtyard.

Fyddech chi ddim wedi mwynhau cerdded yn stryd Cowgate **ganol nos** yn y gorffennol ond mae'r stryd wedi newid yn llwyr.

Mae sioe Tudur (LL Factor) yn ystyried y Gymraeg mewn perthynas â Saeson a **gweddill y byd**.

Mewn mis **arferol** mae Steffan Alun yn perfformio pymtheg gig, os yw'n lwcus, ond gall berfformio hyd at bymtheg mewn un diwrnod yng Nghaeredin.

Roedd sioe Steffan Alun yn **llawn dop**.

Gwahanol fathau o hiwmor

Ceir tabl yn y cwrslyfr, sy'n disgrifio gwahanol fathau o hiwmor. Trafodwch y tabl, a gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am raglenni neu berfformwyr sy'n cyd-fynd â'r gwahanol categorïau. Yna, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau yn y cwrslyfr, sef:

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?

Pwy yw eich hoff berfformwyr comedi, ac i ba categori maen nhw'n perthyn?

Ydych chi wedi bod i wyl gomedi neu wyl gelfyddydol arall?

Pa fath o berfformiadau byw sy'n apelio atoch chi?

Wrth gwrs, efallai y bydd y sgwrs yn mynd ar drywydd cwbl wahanol, ac mae hynny i'w groesawu. Gall y dysgwyr siarad mewn parau neu grwpiau – beth bynnag sydd fwyaf addas yn eich dosbarth chi.

Gwyllo a gwrando 2 - Y Wers Gymraeg

I gloi'r uned, ceir pennod o'r opera sebon Y Wers Gymraeg, a ddangoswyd yn wreiddiol ar y rhaglen Hwb. Eitem wedi'i llunio'n arbennig i ddysgwyr yw hon, felly dylai fod yn ddigon rhwydd i'r dysgwyr ei deall heb lawer o gymorth.

Nid oes tasgau ysgrifenedig i'w cwblhau, dim ond cwestiwn i sbarduno sgwrs:

Mae camddealltwriaeth yn codi yn y wers rhwng 'ti' a 'tea'. Oes sefyllfa ddoniol wedi codi yn eich dosbarth Cymraeg chi o'r blaen? Siaradwch â'ch partner am hyn.

Adolygu Uwch 1, Uned 11 – gradd eithaf ansoddeiriau

Rhowch gopi o'r grid isod ar y bwrdd gwyn neu ar sleid. Rhaid i'r parau ddewis un categori ar gyfer pob un o'r diodydd/bwydydd ac yna creu brawddegau, e.e. blasus – 'Eog yw/ydy'r mwya blasus'. Os bydd anghytuno, gellir trafod hyn.

	blasus	hanfodol	maethlon	hwylus	drud
dŵr					
pasta					
bananas					
bara					
eog					

Atodiad 1**Ar Lan y Môr**

Ar lan y môr mae rhosys

Ar lan y môr mae lilis

Ar lan y môr 'nghariad innau

Yn cysgu'r nos a chodi'r

Ar lan y môr mae wastad

Lle bŵm yn gair â 'nghariad

O hon fe dyf y lili

Ac gangen o rosmari.

Ar lan y môr mae cerrig

Ar lan y môr mae blodau'r

Ar lan y môr mae pob

Ar lan y môr mae 'nghariad

carreg

bore

gleision

siarad

rhinweddau

cochion

ambell

mae

innau

amgylch

gwynion

meibion

Uned 12 – Canllaw i'r tiwtor

Nod ieithyddol: Ymarfer ffurfiau lluosog

Thema: y gwledydd Celtaidd

Cam 1 – Siarad cychwynnol

Defnyddiwch un o'r cardiau dadl i sbarduno siarad cychwynnol.

Cam 2 – Adolygu rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid

Rhannwch y dosbarth yn barau i greu geiriau newydd yn defnyddio rhagddodiaid neu ôl-ddodiaid. Rhai atebion posib:

grym	grymus	di-rym			
deall	camddeall	deallus	dealladwy	annealladwy	dealledig
rhyfel	gwrthryfel	rhyfelgar	rhyfelwr	gwrthryfelwyr	
gwaith	di-waith	gweithgar			
ffydd	di-ffydd	ffyddlon	anffyddlon		
trefn	di-drefn	trefnus	anhrefnus	anrhefn	

Cam 3 – Ffurfiau lluosog

Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau newydd i drafod a nodi ffurfiau lluosog y tair set o eiriau yn eu cwrslyfrau, sef anifeiliaid (terfyniad –od), geiriau –nt (lle mae'n rhaid dyblu 'n' wrth ffurfio'r lluosog) a geiriau –fa (y lluosog yw –feydd). Gallech hefyd sôn am eithriadau: *nant* > *nentydd*; *gyrfa* > *gyrfaoedd*.

Wedi hynny, trafodwch y cwestiynau a nodir yn y cwrslyfr, cyn mynd ymlaen i drafod y pwyntiau yn yr adran Help Llaw. Yn olaf, gofynnwch i'r dysgwyr gwblhau'r tabl yn eu gwerslyfrau. Dyma'r atebion:

unigol	lluosog
Cymro	<i>Cymry</i>
Albanwr	<i>Albanwyr</i>
llygad	<i>llygaid</i>
bys	<i>bysedd</i>
blewyn	<i>blew</i>
braich	<i>breichiau</i>
dafad	<i>defaid</i>
llwynog	<i>llwynogod</i>
ci	<i>cŵn</i>

iaith	<i>ieithoedd</i>
bwrdd	<i>byrddau</i>
cadair	<i>cadeiriau</i>
cyfrifiadur	<i>cyfrifiaduron</i>
llechen	<i>llechi</i>

unigol	lluosog
<i>coeden</i>	coed
<i>deilen</i>	dail
<i>cnwd</i>	cnydau
<i>gwenynen</i>	gwenyn
<i>neidr</i>	nadroedd
<i>oen</i>	ŵyn
<i>troed</i>	traed
<i>llaw</i>	dwylo
<i>Sais</i>	Saeson
<i>Brython</i>	Brythoniaid
<i>chwarelwr</i>	chwarelwyr
<i>gwleidydd</i>	gwleidyddion
<i>seren</i>	sêr
<i>porthladd</i>	porthladdoedd

Gwiriwch y brawddegau y byddant yn eu hysgrifennu gyda phartner ar hyd yr adeg. Mae angen rhoi sylw i gywirdeb yma. Gellid gofyn iddynt ddarllen eu brawddegau i weddill y dosbarth, ond gadael adael bwlch lle mae'r ffurf luosog. Bydd y dosbarth yn dyfalu beth yw'r ffurf luosog goll.

Cam 4 – Yr Ieithoedd Celtaidd

Cyn cychwyn ar y gwaith yn y cwrslyfr, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i gyfnewid unrhyw wybodaeth sydd ganddynt am yr ieithoedd Celtaidd. Gofynnwch i'r grwpiau adrodd yn ôl a nodwch y pwyntiau ar y bwrdd gwyn. Dylid dychwelyd at y rhestr hon ar ddiwedd y wers i weld faint o'r pwyntiau a gododd yn ystod y wers.

Cwis

1 – Dyfalu beth yw'r gair ar gyfer 'beth' yn yr ieithoedd Celtaidd eraill

Cad	Gwyddeleg
Dè	Gaeleg yr Alban
Petra	Llydaweg
Beth	Cernyweg
Cre	Manaweg

Chwaraewch y fideo gan roi cyfle i bawb nodi dwy ffaith oedd yn newydd iddynt.

Darllen a Deall

Defnyddiwch y Canllawiau Cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarferion ieithyddol yn dilyn y darn darllen: i) nodi'r lluosog yn y darn darllen a meddwl am enghreifftiau eraill ar gyfer y tabl. Dyma'r ffurfiau lluosog a welir yn y darn:

-oedd	-aid	-wyr	-au	Ffurfiau anghyffredin
ardaloedd ieithoedd tiroedd	Rhufeiniaid Brythoniaid Eingl- Sacsoniaid bugeiliaid defaid	ymfudwyr	traddodiadau enwau rhifau	arferion rhieni plant ysgolion pobl

ii) trafod y gair iaith:

iaith pob dydd	yr iaith gyffredin mae pobl yn ei siarad
iaith arwyddion	yr iaith sy'n cael ei defnyddio gan a gyda phobl fyddar
iaith ffurfiol	iaith sy'n dueddol o fod yn iaith ysgrifenedig yn y Gymraeg
iaith y nefoedd	Y Gymraeg
yr iaith fain	Saesneg
iaith anwedus	rhagi neu iaith annymunol

iii) trafod y gwahaniaeth rhwng 'nifer y' a 'nifer o'.

Gwyllo a gwrando 1

Darn am yr Wyl Ban Geltaidd a geir yma. Wrth wyllo'r tro cyntaf, dylid cylchu'r geiriau wrth eu clywed. Yr ail gam yw ateb y cwestiynau. Dyma'r atebion:

Beth sy'n digwydd yn yr Wyl Ban Geltaidd? Ticiwch y pedwar dewis cywir.

adloniant stryd	✓
chwaraeon	
ffair	✓
hwyl yn y tafarndai	✓
cystadlu	✓

Enillodd y Brodyr Magee gystadleuaeth y grŵp gwerin. Faint oedd yn cystadlu?
7

Enillodd Gwilym Bowen Rhys yr unawd gwerin. Pryd roedd e ar y llwyfan?
Yn gyntaf

Enillodd Anni Llŷn ar y gân wreiddiol orau. Ym mha gystadlaethau eraill buodd hi'n cystadlu?

Dawnsio gwerin

Y cam olaf yw trafod yr ymadroddion a restrir yn y cwrslyfr (a ddaw o'r fideo).

Gwyllo a gwrando 2

Fideo ysgafn o wefan Cymru Fyw yw'r ail ymarfer Gwyllo a gwrando.

Dilynwch y Canllawiau Cyffredinol ar gyfer darnau gwyllo. Rhannwch y dosbarth yn barau i drafod eu hatebion cyn gofyn am yr atebion.

Dyma'r atebion cywir:

1. Pam mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ofyn am win koc'h (coch) yn Llydaw, yn ôl Aneirin?
Mae hynny'n golygu 'gwin cachu' yn y Llydaweg.
2. Pan oedd Ani'n fach, beth oedd ymateb pobl pan oedden nhw'n clywed ei bod hi'n siarad Cernyweg?
Roedden nhw'n credu bod hynny'n rhyfedd ('weird').
3. Beth sy'n 'ddadl dda' ym marn Aneirin?
Pan fyddai pobl yn dweud wrth Ani (am y Gernyweg) "Hasn't it died?" ei hymateb hi oedd bod yr iaith yn fyw tra ei bod hi'n dal yn fyw.
4. Yn ôl Aneirin, pam does dim llythyren K yn Gymraeg?
Doedd dim 'k' ar ôl yn yr argraffdy yn Llundain oedd yn argraffu llyfrau Cymraeg.
5. Pa eiriau Cernyweg sy'n cael eu defnyddio fwyaf ar Twitter yn ôl Ani?
Nadelik Lowen (Nadolig Llawen).
6. Pa sant fuodd yn Llydaw a Chymru?
Sant Teilo.

Siaradwch

Arweiniwch drafodaeth ar y modd y gall ymddygiad a phersonoliaeth pobl newid wrth siarad ieithoedd gwahanol.

Darllen 2

Ceir darn darllen o Cymru Fyw am yr iaith Gernyweg. Rhaid i barau ddarllen a cheisio llenwi'r sgript bylchog gyda'i gilydd. Ceir yr atebion isod:

Safodd nifer uwch nag **erioed** arholiadau Cernyweg yn 2018 a hynny, yn ôl **arholwyr**, achos llwyddiant y gantores o Gymru, Gwenno Saunders. Dywedodd Bwrdd yr Iaith Gernyweg **bod/fod** 77 o bobl wedi sefyll arholiad yn 2019 - cynnydd o 15% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd, medd yr ysgrifennydd arholiadau Tony Hak, yn rhannol oherwydd llwyddiant yr albwm Cernyweg, Le Kov.

Mae'r Gernyweg ar restr UNESCO, un o asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, o **ieithoedd** a allai ddiflannu ac mae'n cael ei chydabod fel iaith leiafrifol gan Gyngor Ewrop.

Hunaniaeth

"Mae albwm Gwenno yn hwb ardderchog i'r iaith," **meddai** Mr Hak. "Mae cymaint o bobl yn ei gweld yn amlach o'u cwmpas ac maen nhw wedi dangos diddordeb." Ychwanegodd fod pobl Cernyw hefyd yn dod yn **fwy** ymwybodol o'u hunaniaeth ac o le maen nhw'n dod," meddai.

'Synnwyr o le' yw ystyr Le Kov - ail albwm Gwenno, a **gafodd** ei magu yn Gymraeg a Chernyweg. **Enillodd** Wobr Albwm Cymraeg y Flwyddyn a'r Wobr Gerddoriaeth Gymreig yn 2015 gyda'i halbwm unigol cyntaf, Y Dydd Olaf.

Dywedodd fod defnydd cynyddol o'r Gernyweg mewn bywyd o **ddydd** i ddydd yn "gyffrous".

Perchnogaeth

"Mae'n eitha' anhygoel bod yr iaith yn fyw," meddai. "Mae hynny'n dangos pa **mor** wydn ydy hi achos dydy hi ddim wedi cael llawer o gefnogaeth." Dywedodd bod yr iaith yn ffordd berffaith o gyflwyno hanesion Cernyw "sydd â hanes cyfoethog ac anferthol nad ydy llawer o bobol yn ymwybodol ohono". Mae'n cynnig perspectif arall... mae'n rhywbeth y mae poblogaeth Cernyw yn teimlo perchnogaeth drosto," meddai. "Mae pobl yn dweud 'gadewch i ni ei defnyddio mewn ffordd ddiddorol neu sy'n gwneud synnwyr i ni'.

Gan mai ffurfiau lluosog yw canolbwynt ieithyddol yr uned, gellid gofyn am lluosog y geiriau isod (sydd yn y darn): arholiad, arholwr, asiantaeth, cenedl, iaith, busnes, hanes.

Siaradwch

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y cwestiynau sy yn y cwrslyfr.

Cam 5 – Geirfa Uned 13

Ewch dros eirfa Uned 13, gan ofyn i'r dysgwr ymglyfarwyddo â'r geiriau newydd cyn cychwyn y gwaith ar yr uned.

Uned 13 – Canllaw i'r tiwtor

Nod ieithyddol: cyfieithu 'for'

Thema: Gwnewch y pethau bychain – Dewi Sant a phobl gymwynasgar

Cam 1 - Siarad Cychwynnol

Trafodwch ryw agwedd ar newyddion y dydd i sbarduno siarad cychwynnol. Gweler y Canllawiau Cyffredinol.

Cam 2 – Adolygu Uned 12 - Ffurfiâu lluosog

Ewch â chasgliad o luniau i'r dosbarth a gosod her, e.e. y grŵp cyntaf i nodi pump lluosog, neu faint o eiriau lluosog ydych chi'n gallu eu nodi mewn un munud. Ceir awgrymiadau ar gyfer tudalennau i ganfod lluniau isod:

<https://www.pexels.com/search/landscape/>

<https://www.pexels.com/search/town/>

<https://www.pexels.com/search/food/>

Er mwyn troi'r gweithgaredd hwn yn weithgaredd siarad rhydd, dewiswch rhwng 3 – 5 o'r ffurfiau lluosog sy'n codi a'u rhoi mewn cwestiynau i'r dysgwyr holi ei gilydd, e.e.

Traethau – Pa draethau ydych chi'n hoff iawn ohonyn nhw?, Oes digon yn cael ei wneud i werthu traethau Cymru?, Ble yng Nghymru mae'r traethau gorau?

Tai – Faint o dai gwahanol ydych chi wedi byw ynddyn nhw?, Oes digon o dai fforddiadwy yn eich ardal chi?, Pa fath o dai sy'n apelio atoch chi?

Cam 3 – Adolygu arddodiaid a chyflwyno ffurfiau 'for'

Ar ddiwedd y canllawiau, ceir cyfres o ddriliau a deialog ar gyfer adolygu arddodiaid yng nghyd-destun Uwch 1, Uned 13. Ond gellid eu defnyddio yma fel rhagymadrodd ar gyfer cyflwyno 'for'.

1. Cyn edrych ar yr Help Llaw gofynnwch i'r dosbarth feddwl am yr arddodiad Saesneg 'for' ac am 5 brawddeg Saesneg sy'n cynnwys y gair. Ysgrifennwch rai o'r brawddegau ar y bwrdd gwyn gan geisio sicrhau y bydd amrywiaeth o gyfieithiadau: 'er mwyn', 'ar gyfer', 'i', 'am' a 'dros'. Gofynnwch i barau roi cynnig ar gyfieithu'r brawddegau ar lafar ac ysgrifennwch y brawddegau Cymraeg o dan y rhai Saesneg.
2. Er mwyn pwysleisio bod cyfieithu arddodiaid yn dibynnu ar y cyd-destun, ceir tasg gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg gyda'r arddodiad 'am' sy'n gallu golygu 'for', ond hefyd yn gallu golygu 'about'. Dyma'r atebion:

Cymraeg	Saesneg	Cymraeg	Saesneg
Ysgrifennu am	Write about	Siarad am	Talk about
Pryderu am	Worry about	Edrych am	Look for
Disgwyl am	Wait for	Gobeithio am	Hope for
Cyfnewid am	Exchange for	Chwilio am	Look for

3. Darllewnch dros yr Help llaw. Hyderir y bydd yr esboniadau'n ategu peth o'r gwaith byddwch chi eisoes wedi'i wneud gyda'r cyfieithiadau ym mhwynt 1 uchod.
4. Yn yr ymarfer nesaf, bydd parau'n llunio eu brawddegau eu hunain lle gellid cyfieithu i'r Saesneg 'for': e.e. Prynu, ar gyfer > Prynais i ddigon o fwyd ar gyfer pawb. Helpwch yn ystod yr ymarfer hwn a gofynnwch i bob pâr adrodd yn ôl er mwyn gallu cymharu brawddegau.

Cam 4 – Thema – Gwnewch y pethau bychain

Gwyllo a gwrando - Rhaglen 'Diolch o Galon' BBC Cymru

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru i ateb cwestiynau 1-7. Efallai byddai'n help adolygu / dwyn i gof y gair 'rhinwedd' / 'rhinweddau'? (Uned 9 'Papurau Bro')

Darllen - Dewi Sant

Cyn troi at y Darn Darllen, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i ddweud wrth ei gilydd unrhyw ffeithiau sy ganddynt am Dewi Sant. Gellid eu hannog i lenwi holiadur wrth sgwrsio:

Gwybod

Ddim yn siŵr

Eisiau gwybod

Dilynwch y Canllawiau Cyffredinol ar gyfer darnau darllen ac yna rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarferion ieithyddol:

1. Gofynnwch i'r dosbarth nodi unrhyw eiriau newydd maent wedi eu dysgu wrth ddarllen y darn a'u cysylltu â geiriau tebyg sy'n perthyn iddyn nhw, e.e.

Geiriau newydd	Geiriau tebyg e.e.
llawen	llawenydd, llawenhau
cred	credu, credinol, credadwy
pennaeth	penaethiaid, unben, pennawd
llwythau	llwyth, llwytho

2. **Ansoddeiriau lluosog**

Gan fod Dewi Sant yn enwog am y dyfyniad 'Gwnewch y pethau bychain', mae'n gyfle i adolygu ffurf lluosog yr ansoddair, sydd wedi codi eisoes yn Uned 10 ac Uned 12. Dyma rhai o'r enghreifftiau posib o'r darn:

Enw lluosog	Ansoddair lluosog
hancesi	gwynion
bryniau	mawrion
lleoedd	eraill
mynachod	ifainc

3. Beth yw arwyddocâd y llefydd hyn?

Tyddewi – y ddinas gadeiriol wedi'i henwi ar ôl Dewi Sant. Sefydlodd Dewi fynachlog yna.

Llanddewibrefi – un o'r straeon mwyaf adnabyddus amdano wedi'i lleoli yna. Safodd ar hances a chododd bryn o dano er mwyn i'r dorf allu ei weld.

Capel Non – ei fan geni.

Gwyllo a gwrando - Halen y Ddaear – Jean Huw Jones

Mae'r clip fideo yn dangos Jean Huw Jones yn derbyn gwobr 'Halen y Ddaear' am ei gwaith fel llywodraethwraig yn Ysgol Gynradd Rhydaman. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y prif bwyntiau sy'n codi yn y ffilm.

Rhannwch y dosbarth yn barau i gyfieithu'r brawddegau wedi iddynt wyllo'r clip.

Dyma gyfieithiadau posibl o'r brawddegau. Ceir 'for' ym mhob brawddeg:

1. Hi oedd cadeirydd bwrdd y llywodraethwyr am ugain mlynedd.
2. Daeth ei ffrindiau a'i theulu i'r ysgol ar gyfer dathliad.
3. Cafodd ei synnu pan roddwyd gwobr iddi am ei gwaith.
4. Enwebodd ei ffrindiau a'r staff yn yr ysgol Jean ar gyfer y wobr.
5. Mwynheuodd Jean ei gwaith achos ei bod hi'n ei wneud e er mwyn y plant.

Siaradwch

Dyma gyfle i'r dysgwyr drafod y thema a chysylltu'r pwnc dan sylw â'u byd nhw. Efallai y dylid bod yn ofalus gyda'r cwestiwn 'Ydych chi'n credu y dylai pobl gael eu gwobrwyo fel hyn am eu gwaith?'

Cam 5 – Geirfa Uned 14**Adolygu Uwch 1, Uned 13 – arddodiaid**

Ceir cyfres o ddriliau i ymarfer arddodiad isod:

I

Dw i am ofyn cwestiwn i ti	Gofynna i fi 'te/ta
Dw i am ofyn cwestiwn i John	Gofynna iddo fe 'te/fo ta
Dw i am ofyn cwestiwn i Siân	Gofynna iddi hi 'te/ta
Dw i am ofyn cwestiwn i'r plant	Gofynna iddyn nhw 'te/ta
Dw i am ofyn cwestiwn i chi	Gofynna i ni 'te/ta

Am

Ble/Lle mae'r llyfrau?	Dw i'n chwilio amdanyn nhw nawr/rŵan
Ble/Lle mae'r bwyd llysieuol?	Dw i'n chwilio amdano fe nawr/fo rŵan
Ble/Lle mae'r cylchgronau?	Dw i'n chwilio amdanyn nhw nawr/rŵan
Ble/Lle mae'r rheolwr?	Dw i'n chwilio amdano fe/fo/hi nawr/rŵan
Ble/Lle mae'r perchnogion?	Dw i'n chwilio amdanyn nhw nawr/rŵan
Ble/Lle ar y map mae'r porthladd?	Dw i'n chwilio amdano fe nawr/rŵan
Ble/Lle yn yr adeilad mae'r fynedfa?	Dw i'n chwilio amdani hi nawr/rŵan
Ble/Lle ar y trac mae'r llinell derfyn?	Dw i'n chwilio amdani hi nawr/rŵan
Ble/lle yn y papur mae'r stori?	Dw i'n chwilio amdani hi nawr/rŵan
Ble/lle yn y llyfr mae'r rysâit?	Dw i'n chwilio amdani hi nawr/rŵan

Ar bwys/Yn ymylY De

Ro'n i'n eistedd o flaen John	Pwy oedd yn eistedd ar ei bwys e?
Ro'n i'n eistedd o flaen Siân	Pwy oedd yn eistedd ar ei phwys hi?
Ro'n i'n eistedd o flaen y plant	Pwy oedd yn eistedd ar eu pwys nhw?
Ro'n i'n eistedd o dy flaen di	Pwy oedd yn eistedd ar fy mhws i?
Ro'n i'n eistedd o'ch blaen chi	Pwy oedd yn eistedd ar ein pwys ni?
Ro'n i'n eistedd o flaen Jac	Pwy oedd yn eistedd ar ei bwys e?

Y gogledd

Roeddwn i'n eistedd o flaen John	Pwy oedd yn eistedd yn ei ymyl o?
Roeddwn i'n eistedd o flaen Siân	Pwy oedd yn eistedd yn ei hymyl hi?
Roeddwn i'n eistedd o flaen y plant	Pwy oedd yn eistedd yn eu hymyl nhw?
Roeddwn i'n eistedd o dy flaen di	Pwy oedd yn eistedd yn fy ymyl i?
Roeddwn i'n eistedd o'ch blaen chi	Pwy oedd yn eistedd yn ein hymyl ni?
Roeddwn i'n eistedd o flaen Jac	Pwy oedd yn eistedd yn ei ymyl o?

Deialogau byrion:

Rhowch y ddeialog isod ar y bwrdd gwyn:

Ar

- A: Ble/Lle mae John? (Siân, Dafydd, Bob a Bet, Mair, y plant)
- B: Mae e/o wedi mynd. Pam?
- A: Mae arno fe/fo bum punt i fi/mi.
- Rhaid disodli John bob tro gan ddefnyddio'r enwau mewn cromfachau.

Uned 14 – Canllaw i'r tiwtor

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Defnyddiwch un o'r cardiau dadl i sbarduno siarad cychwynnol.

Cam 2 – Adolygu Uned 13 (defnyddio ffurfiau *for*).

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru. Rhewch set o gardiau Atodiad 1 i bob pâr. Rhaid iddynt lunio brawddegau synhwyrol gan ddefnyddio'r arddodiad cywir. Gêm pelmaniaeth yw hon – rhaid rhoi'r cardiau ben i waered (gan eu cadw yn eu colofnau priodol) ar y bwrdd a throï drosodd un o bob colofn. Os na fydd y frawddeg yn gywir, rhaid troi'r cardiau wyneb i waered eto a thro'r partner yw hi i roi cynnig arni.

Cam 3 – Cyflwyno'r gwaith iaith

(deall y gwahaniaeth rhwng **a, ac, â, ag, gyda, gydag, efo** ac ymarfer eu defnyddio)

I gyflwyno gwaith iaith yr uned, rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch iddynt ddarllen y ddeialog sydd yn eu gwerslyfrau, gan gymryd tro i wneud y ddwy ran. Sicrhewch eu bod yn dewis y fersiwn fwyaf addas iddyn nhw (de neu gogledd). Efallai yr hoffech chi ddarllen y ddeialog gyntaf cyn eu rhannu'n barau.

Yna, gofynnwch iddynt edrych ar y geiriau mewn print trwm. Trafodwch yr enghreifftiau, e.e. Pam rydyn ni'n dweud 'ac Eryl' yn lle 'a Eryl'? ac yn y blaen. Defnyddiwch yr adran Help Llaw i'ch helpu i esbonio defnydd yr arddodiaid, ond peidiwch â'i ddarllen air am air.

Ymarfer

Rhannwch y dosbarth yn barau i lenwi'r bylchau yn y brawddegau isod, sydd yn eu gwerslyfrau. Dyma'r atebion:

a ac â ag gyda/efo

1. Gyda llaw, dwedwch wrth Ifan mod i'n cofio ato fo.
2. Sam a Jo sy'n gwneud te a choffi yn y cyfarfod.
3. Mi ddes i ag anrheg iddyn nhw, i ddiolch am eu gwaith caled.
4. Dw i'n mynd am dro bob dydd efo/gyda Anna, Lynwen ac Alffi'r ci.
5. Rhaid i ni ddod â phecyn bwyd efo/gyda ni ar y daith gerdded.
6. Aeth Lowri ac Emyr ar eu gwyliau i Dde Affrica eleni.

7. Paid ag anghofio recordio'r ffilm 'na heno!
8. Ces i anaf cas wrth dorri bara â chylllell finiog.
9. A fyddwch chi'n aros mewn gwesty heno?
10. Aethpwyd â dau ddyn i'r ysbyty ag anafiadau difrifol.

Cam 4 – Gwaith Thema – Llyfrau

Storom eirfa – Llyfrau

Gofynnwch i'r dosbarth am eiriau a fyddai'n ddefnyddiol i drafod thema 'Llyfrau'. Nodwch y geiriau ar y bwrdd gwyn. Ychwanegwch unrhyw eiriau defnyddiol na fydd y dosbarth wedi'u cynnig, e.e. argraffwyr, golygydd, cyfres, gwasg, dilyniant.

Trafod arferion darllen

I sbarduno sgwrs am arferion darllen a llyfrau yn gyffredinol, gofynnwch i'r dysgwyr godi ar eu traed a gofyn y cwestiynau isod i chwe aelod o'r dosbarth. Ewch dros y cwestiynau i sicrhau eu bod yn eu ffurfio'n gywir. Anogwch nhw i ymhelaethu; nid llenwi'r tabl sy'n bwysig mewn gwirionedd, ond sgwrsio.

Beth yw arferion darllen pawb?

Enw	Hoffi darllen llyfrau?	Pa mor aml?	Ffuglen/ffeithiol?	e-lyfr?

Ar ôl i bawb gael digon o gyfle i sgwrsio, arweiniwch drafodaeth yn y dosbarth ar y cwestiynau a nodir yn y gwerslyfr, sef:

- Beth oedd y llyfr diwetha i chi ei ddarllen?
- Ydych chi erioed wedi bod yn aelod o glwb llyfrau?
- Ydych chi'n defnyddio eich llyfrgell leol?
- Ydych chi'n credu bod llyfrau'n bwysig y dyddiau hyn? Oes teclyn gyda chi i ddarllen e-lyfrau?

Gwrando

Sgwrs ag Eirian James, perchennog siop lyfrau yng Nghaernarfon, yw darn Gwrando'r uned. Mae Eirian yn siarad am y llyfr Straeon Nos Da i Bob Rebel o Ferch. Os oes gennych gopi o'r gyfrol, ewch â chopi i'r dosbarth a gellid tynnu sylw arbennig at y bennod ar Lowri Morgan. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr wneud yr ymarfer gwir neu gau yn y gwerslyfr.

Dyma'r atebion cywir:

1. Mae Eirian James yn esbonio bod Straeon Nos Da i Bob Rebel o Ferch ...

yn llyfr gwreiddiol Cymraeg.	
ar fin cael ei gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg.	
wedi cael ei gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg.	✓

2. Yn y llyfr, mae ...

hanes 60 o artistiaid benywaidd.	
hanes 100 o ferched pwysig yn hanes y byd.	✓
hanes 60 o ferched pwysig yn hanes y byd.	

3. Yn ôl Eirian James, y peth gorau am y llyfr yw bod ...

Lowri Morgan yn lle Margaret Thatcher yn y fersiwn Gymraeg.	✓
Lowri Morgan a Margaret Thatcher yn y fersiwn Gymraeg.	
Lowri Morgan a Margaret Thatcher wedi eu tynnu allan o'r fersiwn Gymraeg.	

4. Beth roedd Lowri Morgan yn ei wneud "yn ddi-baid" pan oedd hi'n blentyn?

actio	
rhedeg	
canu	✓

5. Wedi hynny, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y gosodiad hwn ynglŷn â Lowri Morgan, a meddwl am bobl eraill sy'n debyg iddi hi:
 "... nid yw'n un i adael i neb na dim ei rhwystro rhag cyrraedd y brig."
6. Ceir ymarfer wedyn ar yr ymadroddion sy'n cynnwys 'bryd', sydd hefyd yn ymarfer y rhagenwau. Dyma'r atebion:
 1. Pan o'n i'n blentyn, actio oedd yn mynd â fy mryd, ond dechreuais i fwynhau mathemateg yn yr ysgol uwchradd.
 2. Penderfynodd y pwyllgor yn unfrydol i roi caniatâd cynllunio i'r ysgol newydd.
 3. Roedd fy mab wedi rhoi ei fryd ar fynd i'r brifysgol, ond chafodd o mo'r graddau angenrheidiol, yn anffodus.
 4. Gwyliau yn Sbaen sy'n mynd â'u bryd nhw. Maen nhw eisiau torheulo!
 5. Gemau cyfrifiadurol yw'r unig beth sy'n mynd â'i bryd hi y dyddiau hyn.
 6. Rwyt ti wedi rhoi dy fryd ar yr esgidiau 'na, ond cofia fod gen ti filiau i'w talu!
 7. Setiau trenau bach sy'n mynd â'i fryd e, felly mae cwt i gadw'r trenau yn yr ardd.
 8. Doedd y beirniaid ddim yn unfrydol, felly roedd dewis enillydd yn benderfyniad anodd.

I gloi'r tasgau Gwranddo, gofynnwch i'r dosbarth:

"Beth oedd yn **mynd â'ch bryd** chi pan oeddech chi'n blentyn?"

Darllen – *Llyfr Glas Nebo* gan Manon Steffan Ros

Ceir rhagarweiniad i'r darn darllen yn y gwerslyfr, ond da o beth fyddai ymhelaethu ar hwnnw trwy esbonio beth yw'r Fedal Ryddiaith, ac efallai, esbonio taw nofel wedi'i lleoli yn y dyfodol yw hi, ar ôl ffrwydrad niwclear. Efallai y bydd rhai dysgwyr wedi darllen nofelau Saesneg ar y thema hon e.e. *The Road* gan Cormac McCarthy, ac y gallech sgwrsio am hynny cyn troi at y darn darllen.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Wedi hynny, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru i ateb y cwestiynau.

Cwestiwn 1: efallai y bydd angen ychydig o gymorth ar y dysgwyr i feddwl am eiriau ac ymadroddion sy'n cynnwys 'trin'. Enghreifftiau posib fyddai trin gwallt, triniaeth, llawdriniaeth, trin a thrafod, ymdrin (â).

Cwestiwn 2: mae'r darn darllen yn cynnwys ffurfiau cryno gwybod (presennol ac amherffaith). Mae'r ffurfiau hyn yn gyffredin iawn mewn llenyddiaeth Gymraeg, ac er nad yw'r dysgwyr wedi'u dysgu yn y cwrs, ceir cyflwyniad byr iddynt yma, i fagu dealltwriaeth oddefol ohonynt. Trafodwch yr enghreifftiau a nodir yn y gwerslyfrau, sy'n gyffredin iawn ar lafar:

Am wn i/Hyd y gwn i

Wyddoch chi ...?

Wn i ddim. / Dwn i ddim.

Pwy a wŷr? / Duw a wŷr.

Yr hen a wŷr, yr ifanc a dybia.

Ac yn y gogledd: **Wyddost ti be?** sydd weithiau yn troi'n **(W)sti be?**

Wedi hynny, gofynnwch iddynt ailysgrifennu'r brawddegau â ffurfiau cwmphasog. Dyma'r atebion:

i. Ni wn pwy a ysgrifennodd *Cysgod y Cryman*.

Dw i ddim yn gwybod pwy ysgrifennodd *Cysgod y Cryman*.

ii. Wyddost ti pwy a enillodd Llyfr y Flwyddyn eleni?

Wyt ti'n gwybod pwy enillodd Llyfr y Flwyddyn eleni?

iii. Gwydden ni fod y llyfr ar gael yn y llyfrgell.

Roedden ni'n gwybod bod y llyfr ar gael yn y llyfrgell.

iv. A wyddoch chi pwy yw awdur *Mochyn Gwydr*?

Ydych chi'n gwybod pwy yw awdur *Mochyn Gwydr*?

v. A wyddech chi fod clwb llyfrau yn y pentref?

Oeddech chi'n gwybod bod clwb llyfrau yn y pentref?

Cwestiwn 3: trafodwch y gair **diffygion** a gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw'n gwybod beth yw diffygion athrawes Rowenna.

I gloi'r gweithgaredd, trafodwch y cwestiynau sydd yn y gwerslyfr, ac unrhyw beth arall sy'n codi wrth drafod y darn darllen.

Gwylio a gwrando – Y Lolfa

Byddwch yn gwylio fideo am Wasg y Lolfa, sy'n sôn am rai o lyfrau mwyaf poblogaidd y wasg ac yn egluro'r broses o gynhyrchu llyfr, gam wrth gam.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwylio a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr wneud y tasgau isod.

Wrth wyllo am y tro cyntaf, ysgrifennwch unrhyw eirfa byd llyfrau rydych chi'n eu clywed. Byddwch chi'n gweld rhai o'r geiriau hyn ar y sgrin. Bydd angen esbonio rhai geiriau newydd. Dylai'r dysgwyr glywed rhai o'r rhain: argraffu, cyhoeddi, cyfres(i), comisiynu, awdur, golygu, fformatio, dylunio, plygu, casglu, rhwymo, torri, tudalen, y wasg, inc, papur, dalen (dalenni), meingefn.

2. Beth sy'n cysylltu Manon Steffan Ros a Nigel Owens?

Llyfrau'r ddau awdur hyn sydd wedi gwerthu orau, yn ddiweddar.

3. Mae'r Lolfa hefyd yn gwmni argraffu. Enwch o leia dri pheth maen nhw'n ei argraffu i bobl eraill.

Atebion posib: papurau bro, taflenni, llyfrau, poster, cardiau busnes.

4. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn yn y fideo:

1967	Sefydlwyd Y Lolfa yn y flwyddyn honno.
6	Mae Paul yn esbonio eu bod nhw'n argraffu chwe thudalen ar y tro.
4	Mae pedwar lliw inc gwahanol (melyn, coch, glas a du).
15,000	Gall yr argraffwr argraffu'r nifer hwnnw o dalenni bob awr. Mae'r peiriant plygu'n gallu plygu'r un nifer mewn awr hefyd.
100	Cyhoeddir dros gant o deitlau gan Y Lolfa bob blwyddyn.

5. Mae Paul yn dod o Geredigion, ac mae'n defnyddio rhai geiriau tafodieithol diddorol. Gwrandewch yn ofalus. Beth mae e'n ei ddweud yn lle...

eisiau – ise gyda – êfo cylllell – cyllleth

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau a nodir isod ac unrhyw beth arall a fydd yn codi'n naturiol ar ôl gwyllo'r fideo.

Ydych chi wedi darllen unrhyw lyfrau sy'n cael eu henwi yn y fideo?

Ydych chi wedi darllen unrhyw lyfrau gan Y Lolfa, yn Gymraeg neu'n Saesneg?

Mae Paul yn dweud bod rhai llyfrau yn y warws ers hanner can mlynedd. Oes 'na rai llyfrau ar eich silffoedd chi ers blyneddod, heb eu darllen? Pam nad ydych chi wedi'u darllen? Ydych chi erioed wedi rhoi llyfr yn anrheg i rywun?

Darllen

Rhannwch y dosbarth yn barau i ddarllen am yr awduron a llenw'r bylchau gan ddefnyddio **a, ac, gyda/efo**.

Islwyn Ffowc Ellis

1924–2004

Roedd Islwyn Ffowc Ellis yn awyddus i ysgrifennu nofelau ysgafn a chyffrous a fyddai'n apelio at bobl ifanc. Ef yw awdur y nofel Gymraeg sydd wedi gwerthu orau erioed, sef *Cysgod y Cryman* a gyhoeddwyd yn 1953. Ysgrifennodd **ddilyniant** iddi, sef *Yn ôl i Leifior*, ac **amrywiaeth** o weithiau llenyddol, gan gynnwys y nofel **wyddonias**, *Wythnos yng Nghymru Fydd*. Islwyn Ffowc Ellis oedd y person cyntaf erioed i fod yn awdur Cymraeg amser llawn.

Kate Roberts

1891–1985

Magwyd Kate Roberts mewn bwthyn o'r enw Cae'r Gors ym mhentref Rhosgadfan yng Ngwynedd. Ei phlentyndod yw cefndir llawer o'i nofelau a 'i chyfrolau o straeon byrion cynnar, fel *O Gors y Bryniau*, *Deian a Loli* a *Traed Mewn Cyffion*. Buodd Kate Roberts yn athrawes yn Nolbadarn, Ystalyfera ac Aberdâr. Ar ôl priodi, symudodd i Ddinbych lle'r oedd hi'n rhedeg Gwasg Gee gyda'i/efo'i gŵr. Roedd gweithiau olaf Kate Roberts yn fwy tywyll ac unigrwydd yn thema amlwg ynddyn nhw.

T. Llew Jones 1915–2009

Cyhoeddodd T. Llew Jones dros hanner cant o lyfrau. Nofelau anturus i blant yw llawer ohonyn nhw, ac maen nhw'n aml yn cynnwys cymeriadau hanesyddol fel Harri Morgan (*Trysor y Môr Ladron*) a Twm Siôn Cati (*Y Ffordd Beryglus, Ymysg Lladron, Dial o'r Diwedd*).

Enillodd gadair yr Eisteddfod Genedlaethol ddwywaith. Ei ddiddordeb mawr arall oedd **gwyddbwyll**, a buodd yn rheolwr Tîm **Gwyddbwyll** Cymru yn 1974.

Yn 2012, agorwyd ysgol gynradd newydd ger Llandysul o'r enw Ysgol T. Llew Jones.

Matthew Rhys Geni: 1974

Actor o Gaerdydd yw Matthew Rhys, sydd wedi actio mewn ffilmiau mawr yn Hollywood. Yn 2018, enillodd Emmy am ei ran yn y gyfres deledu, *The Americans*.

Yn 2010, cyhoeddodd Matthew Rhys lyfr dwyieithog o'r enw *Patagonia: Croesi'r Paith*. Mae'r llyfr yn gofnod o daith 700 km a wnaeth ar gefn ceffyl yn 2005 gyda/efo grŵp o ddynion o'r Wladfa. Roedden nhw eisiau **ail-greu** taith a wnaed yn 1885, i ddod o hyd i dir gwell yn yr Andes. Mae'r llyfr yn cynnwys lluniau **trawiadol** a disgrifiadau byw o'r teithwyr.

Siaradwch

Trafodwch gloriau'r llyfrau yn yr ymarfer blaenorol. Pa mor bwysig yw cloriau llyfrau? Beth sy'n eich denu chi at lyfr? Ydych chi'n darllen adolygiadau neu'n gofyn am farn ffrind cyn dewis llyfr? Beth am ffilmiau a rhaglenni teledu? Ydy'r hysbysebion a'r *trailers* yn bwysig?

Cam 4 – Geirfa Uned 15

Ewch dros yr eirfa, gan annog y dysgwyr i ymgyfarwyddo â'r geiriau newydd cyn cychwyn Uned 15.

Adolygu Uned 14, Uwch 1 (Arddodiaid Cyfansawdd)

Yn syml iawn, rhowch y cyfuniadau isod ar y bwrdd gwyn a rhannwch y dosbarth yn barau i ysgrifennu'r ffurfiau cywir o fewn brawddegau:

o flaen + fi

ar bwys + ti/yn ymyl + ti

ar ôl + hi

yn erbyn + nhw

ar gyfer + ni

o gwmpas + fe/fo

ar draws + fi

yn lle + chi

ynghylch + hi

Atodiad 1

Chwaraeodd e/o rygbi	dros	Gymru pan oedd e/o'n ifanc.
Aethon/Mi aethon ni i mewn i nifer o atyniadau	am	ugain punt.
Cafodd crysau T newydd eu cynllunio	ar gyfer	y Cylch Meithrin.
Dw i'n dysgu Cymraeg	er mwyn	fy mhlant.
Mae'r moddion / ffisig yma'n dda	at	beswch.
Dw i wedi prynu anrheg	i	ti.
Dw i'n siopa bob wythnos	dros	fy nghymydog oedrannus.

Uned 15 - Canllawiau i'r tiwtor

Yn ogystal â'r uned hon, ceir uned gyfoes ar y Safle Rhyngweithiol yn hyrwyddo'r rhaglen deledu 'Garddio a Mwy'. Mae'n bosib y bydd deunydd ychwanegol yr hoffech ei ddefnyddio yn yr uned honno.

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Trafodwch ryw agwedd ar y newyddion.

Cam 2 – Adolygu Uned 14

Rhannwch y dosbarth yn barau. Yna, gofynnwch iddynt wneud y canlynol:

1. Dwy frawddeg yn cynnwys **â**
2. Dwy frawddeg yn cynnwys **a**
3. Dwy frawddeg yn cynnwys **ac**
4. Dwy frawddeg yn cynnwys **gyda / efo**
5. Dwy frawddeg yn cynnwys **ag**

Ar ôl iddynt orffen, gofynnwch iddynt ailysgrifennu'r brawddegau, ond gan newid y drefn a gan adael bwlch yn lle'r geiriau uchod. Bydd rhaid i chi fod wedi sicrhau bod y brawddegau i gyd yn gywir. Maent wedyn yn gallu cyfnewid ymarferion llenwi bylchau byddant wedi'u creu eu hunain.

Cam 3 – Patrymau dan reolaeth 'i'

Adolygu

Atgoffwch y dysgwyr eu bod eisoes wedi dod ar draws llawer o ymadroddion sy dan reolaeth yr arddodiad 'i', e.e. rhaid, cyn, ar ôl, wrth. Gellir gwneud dril cyfieithu syml i atgyfnerthu'r patrymau hyn a/neu ofyn cwestiynau tebyg i'r isod: Pryd cawsoch/gaethoch chi frecwast y bore 'ma? Ar ôl i mi godi a chyn i mi wisgo.

Deialog

I baratoi'r dysgwyr i ddefnyddio ymadroddion eraill sy'n cynnwys 'i', gofynnwch iddynt weithio mewn parau i ddarllen y ddeialog yn eu gwerslyfrau. Sicrhewch eu bod yn dewis y fersiwn cywir (deheuol neu ogleddol). Efallai yr hoffech chi ddarllen y ddeialog gyntaf.

Ar ôl iddynt gael cyfle i wneud dwy ran y ddeialog, gofynnwch iddynt edrych ar y geiriau sydd mewn print tywyll yn y ddeialog, sef ymadroddion sy'n cynnwys 'i'. Ydyn nhw'n gyfarwydd â rhai ohonynt? Pa rai maen nhw'n eu defnyddio?

Ymarfer – Dril

Ceir y driliau isod yn y llyfr i'r dysgwyr.

Mae fy nghyfrifiadur wedi torri.

Oes modd i ti...?

Mae fy nghyfrifiadur wedi torri.
 Mae fy mheiriant golchi wedi torri.
 Mae fy ffeil wedi torri.
 Mae fy meic wedi torri.

Mae fy nghadair wedi torri.
 Mae fy ffôn wedi torri.
 Mae fy allwedd/agoriad wedi torri.
 Mae fy allweddi/goriadau wedi torri.
 Mae fy nghamera wedi torri.

Erbyn i ti ...

Dw i wedi colli'r bws.
 Rwyf ti wedi colli'r bws.
 'Dyn/dan ni wedi colli'r bws.
 Maen nhw wedi colli'r bws.
 Mae hi wedi colli'r bws.
 Mae Siôn wedi colli'r bws.
 Dw i wedi colli'r bws.

Mae croeso i ti ...

Hoffwn i ysgrifennu/sgwennu adolygiad.

Hoffai hi ysgrifennu/sgwennu adolygiad.
 Hoffen nhw ysgrifennu/sgwennu adolygiad.
 Hoffen nhw fuddsoddi yn y cwmni.
 Hoffen ni fuddsoddi yn y cwmni.
 Hoffai Jac fuddsoddi yn y cwmni.
 Hoffai Jac fod yn gadeirydd.
 Hoffwn i fod yn gadeirydd.
 Hoffai hi fod yn gadeirydd.

Mae eisiau/isio i chi...

Rhaid i mi gofrestru ar gyfer y cwrs.
 Dw i wedi colli fy ngherdyn debyd.
 Mae sŵn rhyfedd ar y car.
 Collais i'r bws eto y bore 'ma./Mi wnes i gollu'r bws eto bore 'ma.
 Mae llawer gormod o waith gyda fi./Mae gen i lawer gormod o waith.
 Mae fy ffôn i wedi torri.
 Mae'r ardd yn edrych fel jyngl.

Oes modd i ti ei drwsio fe/fo?

Erbyn i ti gyrraedd, bydd hi'n rhy hwyr.

Mae croeso i ti ysgrifennu/sgwennu adolygiad.

Mae eisiau/isio i chi ffonio'r swyddfa.

Dyma ddriliau ychwanegol:

Rhaid iddyn nhw fod yn y tŷ cyn pump o'r gloch.

Mae'n iawn iddyn nhw adael yn gynnar.

Rhaid iddyn nhw fod yn y tŷ cyn tri o'r gloch.

Does dim lle gyda nhw i gysgu heno

/Sgynnyn nhw ddim lle i gysgu heno.

'Dyn nhw ddim yn gallu talw heddiw/

Dan nhw ddim yn medru talw heddiw.

'Dyn nhw ddim yn gallu dod bob tro/

Dan nhw ddim yn medru dŵad bob tro.

'Dyn/Dan nhw ddim yn hollol siŵr o'r ateb.

Dw i'n gallu/medru helpu.

Dw i ddim eisiau/isio i ti helpu.

Dw i'n gallu/medru newid.

Dw i'n gallu/medru caniatáu hynny.

Dw i'n gallu/medru cofnodi yn y cyfarfod.

Dw i'n gallu/medru parchu'r rheolau.

Dw i'n gallu/medru tystio yn y llys.

Dw i'n gallu/medru callio.

Ymarferion ysgrifenedig

Pan fydd y dysgwyr wedi cael digon o gyfle i ymarfer y patrymau ar lafar, gofynnwch iddynt weithio mewn paruau i gwblhau'r ddau ymarfer ysgrifenedig isod. Gellir troi at yr Help Llaw am gymorth. Dyma'r atebion:

1. Mae'n well i ti aros gartref heddiw. Rwyf ti'n edrych yn sâl iawn.
2. Dylen ni fod wedi codi'n gynnar. Bydd rhaid i ni yrru i Gaerdydd. Erbyn i ni gyrraedd yr orsaf, bydd y trê'n wedi mynd.
3. Mae hi wedi bod trwy amser anodd yn ddiweddar, felly mae'n iawn iddi hi gyflwyno ei gwaith yn hwyr.
4. Dewch yma, os gwelwch yn dda. Dw i eisiau/isio i chi fy helpu i dacluso.
5. Dywedwch wrthyn nhw bod croeso iddyn nhw aros yma i ginio. Mae digon o fwyd i bawb.
6. Oes modd i chi ddod i fy swyddfa i fory? Mae angen i ni drefnu amserlen y mis nesaf.
7. Peidiwch â phoeni – does dim angen i ni wisgo'n smart i'r parti.
8. Mae croeso iddo fe/fo ddod â'i bartner i'r cinio hefyd.

1. *You'd better clean your shoes before going out.*

Mae'n well/Gwell i ti lanhau dy esgidiau cyn mynd allan / ma's.

Mae'n well/Gwell i chi lanhau'ch esgidiau cyn mynd allan / ma's.

2. *You'd better cut the lawn before going on holiday.*
Mae'n well/Gwell i ti dorri'r lawnt cyn mynd ar dy wyliau.
Mae'n well/Gwell i chi dorri'r lawnt cyn mynd ar wyliau.
3. *By the time you cook the food on the barbeque, it will be dark.*
Erbyn i ti/chi goginio'r bwyd ar y barbeciw, bydd hi'n dywyll.
4. *She wants you to plant more trees in the garden.*
Mae hi eisiau i ti/chi blannu mwy o goed yn yr ardd.
5. *Wait here until you hear the bell ring.*
Aros/Arhosa yma tan/hes i ti glywed y gloch yn canu.
Arhoswch yma tan/hes i chi glywed y gloch yn canu.

Cam 4 – Thema – Garddio

Storom Eirfa

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer gwneud storom eirfa. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr nodi o leiaf chwe gair ar y thema 'Garddio' yn eu gwerslyfrau. Ceir rhestr eirfa ychwanegol yn Atodiad 1 os bydd y dysgwyr yn awyddus i gael rhagor o eirfa sy'n perthyn i fyd garddio.

Disgrifio gardd

Yn Atodiad 2, ceir pedwar llun o erddi gwahanol. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau, a rhwch ddau lun gwahanol i bob pâr. Dewch â phapur sgrap gyda chi i'r wers, rhag ofn na fydd pob aelod o'ch dosbarth wedi dod â phapur gyda nhw.

Gofynnwch i'r parau ddisgrifio eu lluniau i'w gilydd (heb eu dangos). Rhaid iddynt wrando'n ofalus ar y disgrifiadau er mwyn ceisio atgynhyrchu llun y partner ar eu papur sgrap.

Efallai y bydd rhai dysgwyr yn teimlo'n ddi-hyder ynglŷn ag arlunio, ond pwysleisiwch mai ymarfer disgrifio yw hwn yn bennaf, ac na ddylid poeni am safon y gwaith celf!

Ar ôl rhoi cyfle i bawb gwblhau'r dasg, arweiniwch drafodaeth ar y pynciau a nodir yn y gwerslyfrau, ac unrhyw beth arall sy'n codi o'r thema.

Gellid gofyn i'r dysgwyr ddod â lluniau o'u gerddi nhw i'r wers nesaf.

Darllen: 'Y Border Bach'

Cyflwyniad i'r gerdd boblogaidd 'Y Border Bach' yw'r darn darllen, a detholiad byr ohoni.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Darllen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau yn eu gwerslyfrau. Dyma'r atebion:

1.
 1. Mae'r tri garddwr hyn yn gweithio yn yr ardd hon.
 2. Dydy'r planhigion hyn ddim yn blodeuo bob blwyddyn.
 3. Fy nhad-cu oedd piau'r tŷ gwydr hwn.
 4. Mae'r blodyn hwn yn denu llawer o wenyn i'r ardd.
 5. Cafodd y blodau hyn eu plannu yn y gwanwyn.
 6. Mae'r gath hon yn hoffi crwydro i erddi'r cymdogion.
 7. Mae'r **perlysia**u hyn yn dda at bob math o afiechydon.
 8. Bydd y dail hyn yn troi'n goch yn yr hydref.
 9. Mae'r ddwy goeden hon wedi plygu yn y gwynt.
 10. Mae'r trychfilod hyn yn dipyn o broblem yn yr ardd lysiau.

2. Beth yw ystyr 'yn awr ac yn y man'? Allwch chi feddwl am ffordd arall o ddweud hynny yn Gymraeg?
Atebion posib: weithiau, o dro i dro, ambell waith.

3. Allwch chi feddwl am eiriau neu ymadroddion eraill sy'n cynnwys 'lles'?
Nodwch nhw isod.

Atebion posib: llesol, neuadd les, er lles, er fy lles i ac ati, Y Wladwriaeth Les

Ar y Safle Rhyngweithiol, ceir recordiad o Abigail Williams yn canu 'Y Border Bach' y gallech ei chwarae os meddylwch y byddai'r dosbarth yn ei fwynhau. Ceir sgript fylchog yn Atodiad 3 i gyd-fynd ag ef.

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau a geir yn y gwerslyfrau.

Cylchdroi cnydau

Yn Atodiad 4, ceir saith cerdyn, sy'n cynnwys cwestiwn ac ateb ynglŷn â chylchdroi cnydau. Rhowch gerdyn i bob pâr (neu unigolyn) yn y dosbarth, gan ddibynnu ar faint eich dosbarth. Rhaid i'r dysgwyr grwydro'r dosbarth i ganfod yr atebion i'r cwestiynau yn eu gwerslyfrau. Dyma'r atebion:

Beth yn union yw cylchdroi cnydau?

Ystyr cylchdroi cnydau yw tyfu llysiau gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r ardd bob blwyddyn.

Sut mae cylchdroi cnydau yn helpu i reoli chwyn?

Mae gan rai cnydau, fel tatws, ddail mawr sy'n atal chwyn. Mae hyn yn arwain at lai o waith chwynnu yn yr ardal lle bu'r tatws mewn blynnyddoedd sy'n dilyn.

Sut mae cylchdroi cnydau yn helpu i reoli plâu?

Mae plâu yn ymosod ar yr un planhigion dro ar ôl tro. Trwy gylchdroi'r cnydau, mae ardaloedd o'r ardd heb y plâu hyn am gyfnod.

Sut mae rhannu'r ardd ar gyfer cylchdroi cnydau?

Rhaid rhoi rhan o'r ardd ar gyfer y gwahanol deuluoedd o gnydau.

Enwch ddau lysieuyn sy'n perthyn i deulu'r gwreiddlysiau.

Mae moron, betys a phannas yn perthyn i deulu'r gwreiddlysiau.

Dros ba gyfnod dylech chi gylchdroi'r cnydau?

Dylech chi gylchdroi'r cnydau dros gyfnod o dair neu bedair blynedd.

Pa gnydau sy ddim yn cael eu cylchdroi?

Dyw cnydau lluosflwydd (e.e. riwbob ac asparagws) ddim yn cael eu cylchdroi.

Ar ôl i bawb gasglu'r atebion, gadewch iddynt sgwrsio'n rhydd am unrhyw bwnc a fydd yn codi wrth wneud y gweithgaredd hwn.**Gwyllo a gwrando – Cynefin**

Eitem o'r rhaglen *Cynefin* ynglŷn â Chastell Powis yw'r darn Gwyllo a gwrando.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando.

Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr gylchu geirfa'r fideo pan fyddant yn ei chlywed.

Yna, gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau yn eu gwerslyfrau. Dyma'r atebion:

1. I ba gyfeiriad o'r Trallwng mae Castell Powis?
Y de orllewin.
2. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn yn y fideo?
1595 Daeth y teulu Herbert i fyw yng Nghastell Powis.
400 Buodd yr Herbertiaid yn byw yno am bedwar can mlynedd.
300 Mae'r coed yw yn dri chan mlwydd oed.
7 Mae saith o weithwyr llawn amser yn cynnal a chadw'r coed.
3. Pwy adeiladodd y castell yn wreiddiol? Tywysogion Powys.
4. Pam adeiladon nhw'r castell? I amddiffyn eu hunain rhag Dywysogion Gwynedd.
5. Ym mha ganrif adeiladwyd y castell? Y drydedd ganrif ar ddeg.
6. Beth sy'n 'gynhenid' i Gastell Powis? Artimisia Castell Powis
7. Pam newidiodd yr Iarlles Violet yr ardd, o fod yn 'ardd gegin' i fod yn 'ardd ffurfiol'? I gael gwell golygfa drwy'r ffenestr.
8. Pa batrwm sy'n cael ei dorri i'r gwair eleni? Pam? Mae siâp pabi'n cael ei dorri, i gofio diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf (y canmlwyddiant yn 2017, pan wnaed y rhaglen).

Siarad rhydd, a thrafod gerddi enwog eraill.

Arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau a geir yn y gwerslyfrau, sef:

Mae Heledd Cynwal yn dweud bod yr olygfa o'r castell "yn mynd â d'ana'l di, bron".

Pa olygfa sy'n mynd â'ch anadl chi, neu wedi mynd â'ch anadl chi?

Ydych chi wedi ymweld â Chastell Powis, neu erddi tebyg i Gastell Powis? Ydych chi'n aelod o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, neu unrhyw sefydliad arall sy'n rhoi mynediad i chi i erddi arbennig?

<http://www.eryri.llyw.cymru/visiting/places-to-visit>

32 o ddatblygiadau

Geirfa Garddio

fforch (ffyrch) *fork(s)*

hof(iau) *hoe(s)*

rhaca(nau) *rake(s)*

rhaw(iau) *spade(s)*

trywel(i) *trowel(s)*

compostio *to compost*

chwynnu *to weed*

dyfrio *to water*

egino *to bud,
to sprout*

hogi *to sharpen*

palu *to dig*

rhidyllu *to sieve*

taenu *to spread*

tocio *to prune*

trawsblannu *to transplant*

cafn(au) *trough(s)*

clai *clay*

**chwynladdwr
(-wyr)** *pesticide(s)*

chwynnyn (chwyn) *weed(s)*

**gwrtaiith
(gwртеithiau)** *fertilizer(s)*

hedyn (hadau) *seed(s)*

mawn *peat*

pla (plâu) *pest(s)*

**planhigyn
(planhigion)** *plant(s)*

pridd *soil*

sisiwrn (sisyrnau) *scissors*

bytholwyrdd *evergreen*

basged grog (basgedi crog) *hanging basket*

planhigyn unflwydd *annual plant*

planhigyn eilflwydd *biannual plant*

planhigyn lluosflwydd *perennial plant*

planhigyn unflwydd caled *hardy annual*

pridd asid *acidic soil*

pridd tywodlyd *sandy soil*

pridd caregog *stony soil*

tir ffrwythlon *fertile ground*

Atodiad 2 – Gardd 1



Atodiad 2 – Gardd 2



Atodiad 2 – Gardd 3



Atodiad 2 – Gardd 4



Atodiad 3**Sgript fylchog****Y Border Bach**

Gydag ymyl troetffordd gul
A rannai'r _____ yn ddwy,
'Roedd gan fy mam ei _____ bach
O _____ perta'r plwy.

_____ bach gan hwn a hon
Yn _____ ac yn y man,
Fel yna'n ddigon syml y daeth
Yr _____ fach i'w rhan.

A, rywfodd, byddai _____ bob tro,
Ni wn i ddim paham,
Ond taerai 'nhad na _____ dim
A blannodd _____ fy mam.

Blodau _____ pobol dlawd
Oeddynt, bron bob un,
A'r _____ gwyrthiol berchid am
Eu lles yn fwy na'u llun.

Crwys

Atodiad 4 - Cylchdroi cnydau

Beth yn union yw cylchdroi cnydau?

Ystyr cylchdroi cnydau yw tyfu llysiau gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r ardd bob blwyddyn.

Sut mae cylchdroi cnydau yn helpu i reoli chwyn?

Mae gan rai cnydau, fel tatws, ddail mawr sy'n atal chwyn. Mae hyn yn arwain at lai o waith chwynnu yn yr ardal lle bu'r tatws mewn blynnyddoedd sy'n dilyn.

Sut mae cylchdroi cnydau yn helpu i reoli plâu?

Mae plâu yn ymosod ar yr un planhigion dro ar ôl tro. Trwy gylchdroi'r cnydau, mae rhannau o'r ardd heb y plâu hyn am gyfnod.

Sut mae rhannu'r ardd ar gyfer cylchdroi cnydau?

Rhaid rhoi rhan o'r ardd ar gyfer y gwahanol deuluoedd o gnydau.

Enwch ddau lysieuyn sy'n perthyn i deulu'r gwreiddlysiau.

Mae moron, betys a phannas yn perthyn i deulu'r gwreiddlysiau.

Dros ba gyfnod dylech chi gylchdroi'r cnydau?

Dylech chi gylchdroi'r cnydau dros gyfnod o dair neu bedair blynedd.

Pa gnydau sy ddim yn cael eu cylchdroi?

Dyw cnydau lluosflwydd (e.e. riwbob ac asparagws) ddim yn cael eu cylchdroi.

Uned 16

Cam 1 – Siarad Cychwynnol

Defnyddiwch un o'r cardiau dadl i sbarduno siarad cychwynnol.

Cam 2 – Adolygu Uned 15

Er mwyn adolygu patrymau Uned 15 (patrymau dan reolaeth yr arddodiad 'i'), rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp. Rhowch un cerdyn o hanner cyntaf y set (Atodiad 1) i un grŵp, ac un o'r cardiau 'Gwell i ti...' i'r grŵp arall. Rhaid iddynt ddysgu'r hyn sydd ar eu cerdyn a chodi ar eu traed i ganfod partner - sef dau berson sy'n creu pâr rhesymegol. Dylid gwneud yr un peth gyda'r ail set o gardiau, ond gyda'r grwpiau yn newid rôl. (Os oes gennych ddosbarth bach iawn, gellir ei wneud fel pelmanism.)

Cam 3 – Ymarferion Yr Arddodiad o

Ceir yr ymarferion isod yn y gwerslyfr. Ceir syniadau ar gyfer drilio yn y canllawiau cyffredinol.

Mae hi'n gweithio'n galed iawn.

Mae hi'n benderfynol o lwyddo.

Mae hi'n ymarfer yn galed ar gyfer y gystadleuaeth.

Mae hi'n cynilo bob wythnos.

Mae hi'n ymarfer Cymraeg bob mis.

Mae hi ar ddeiet.

Mae'r plant heb godi eto.

Maen nhw'n dueddol o gysgu'n hwyr.

Mae'r plant heb fwyta eu llysiau.

Mae'r plant heb wyllo'r teledu ers tipyn.

Mae'r plant heb wisgo.

Mae'r plant heb ddod â'r arian/pres i'r ysgol.

Mae llawer o bobl yma.

Dw i'n falch o weld y neuadd yn llawn.

Mae fy chwaer wedi cael babi.

Rhaid dy fod wedi cael taith ofnadwy yn y tywydd 'ma.

Clywais i fod yr arholiad yn anodd iawn.

Mae tair wythnos yn yr ysbyty'n amser hir.

Ymarferion ysgrifenedig

Pan fydd y dysgwyr wedi cwblhau'r ymarferion llafar ac wedi cael cyfle i ofyn unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r patrymau, gofynnwch iddynt wneud yr ymarfer ysgrifenedig yn eu gwerslyfrau. Esboniwch fod mwy nag un ymadrodd yn gwneud synnwyr mewn ambell frawddeg. Dyma'r atebion:

1. "Mae Cwmni Adeiladu Jones a Griffiths **yn falch o** noddi cystadleuaeth y Goron yn yr Eisteddfod eleni."

2. **O gymharu ag** Eisteddfod y llynedd, roedd y tywydd yn yr Eisteddfod eleni'n braf iawn.
3. Mae hi'n **siŵr o / yn dueddol o** fod yn llawn yn y pafiliwn ar ddiwrnod y Cadeirio.
4. Rhedodd Alys â'i gwynt yn ei dwrn. Roedd hi'n **benderfynol o** gyrraedd Maes B cyn i'w hoff fand ddechrau chwarae.
5. Mae diwedd wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol yn **dueddol o / yn siŵr/sicr o** fod yn brysurach na'r dechrau.
6. Roedd rhaid cynnal y ddrama ar ddwy noson **o ganlyniad i'r** galw mawr am docynnau.
7. Mae e'n siŵr/sicr o ennill y Fedal Ryddiaith ryw ddydd, gan ei fod e wedi dod yn agos i'r brig sawl gwaith.
8. Y côr yna wnaiff ennill – dw i'n **sicr/siŵr** o hynny.
9. Dw i'n **siŵr/sicr** o gael cyfle i ymarfer fy Nghymraeg yn yr Eisteddfod.
10. Roedd y plant yn **benderfynol o** weld eu hoff gymeriadau Cyw ar ôl y sioe ar stondin S4C.

Wedi hynny, gofynnwch iddynt lunio brawddegau sy'n cynnwys pob un o'r ymadroddion a restrir yn y gwerslyfrau.

Cam 4 – Cyflwyno thema Yr Eisteddfod

Efallai y bydd rhai aelodau o'ch dosbarth yn eisteddfodwyr brwd, tra bod eraill erioed wedi bod ar gyfyl eisteddfod o unrhyw fath. Mae'n bosib, felly, y bydd angen tipyn o gymorth gyda'r dasg gyntaf, sef paru gair a diffiniad – a thrwy hynny, ddysgu geirfa 'eisteddfodol'. Dyma'r atebion:

rhagbrawf	Person sy'n gwneud yn siŵr bod côr neu grŵp offerynnol yn perfformio'n gywir.
eisteddfod gadeiriol	Y person yma sy'n penderfynu pwy yw'r gorau.
eisteddfota	Mae person gwahanol yn cael ei ddewis bob dydd i roi araith ar y llwyfan.
teilyngdod	Mae'n rhaid cael un o'r rhain i ddewis y tri (fel arfer) sy'n mynd i berfformio ar y llwyfan.
beirniad	Mynd i eisteddfodau
arweinydd	Eisteddfod lle mae gwobr arbennig yn cael ei rhoi am ysgrifennu barddoniaeth.
llywydd y dydd	Mae hyn yn golygu bod person neu bobl yn haeddu'r wobr gyntaf.

Ar ôl cwblhau'r dasg, gadewch i'r dosbarth sgwrsio'n rhydd am yr Eisteddfod Genedlaethol, cyn nodi tair ffaith amdani yn y blwch priodol yn eu gwerslyfrau. Wedi hynny, gofynnwch iddynt edrych ar y llun o faes yr Eisteddfod Genedlaethol sydd yn eu gwerslyfrau, ac ysgrifennu tair brawddeg amdano. Nid oes angen gwybodaeth am yr Eisteddfod Genedlaethol i wneud y dasg hon; gellid disgrifio elfennau ohono e.e. mae menyw/dynes mewn siwt las yn siarad ar ei ffôn symudol. Wedyn, gofynnwch iddynt gael sgwrs am eisteddfodau. Ceir awgrymiadau yn y gwerslyfr i sbarduno sgwrs.

Wrth i'r parau drafod eisteddfodau'n gyffredinol, byddai'n syniad da i chi rannu unrhyw wybodaeth sydd gennych ynglŷn ag eisteddfodau yn eich ardal. Edrychwch ar wefan Eisteddfodau Cymru am ragor o wybodaeth: <http://smala.net/steddfota/> Efallai bod cystadlaethau i ddysgwyr yn eich eisteddfod leol, neu efallai y byddai modd trefnu trip dosbarth i eisteddfod mewn ardal gyfagos.

Byddai hefyd yn syniad da rhannu gwybodaeth am gyfleoedd i wirfoddoli mewn eisteddfodau bach a mawr, e.e. stiwardio, gweithio ar stondin - a bod hynny'n gyfle gwyh i ymarfer y Gymraeg. Os oes aelod o'ch dosbarth wedi gwirfoddoli mewn eisteddfod, gofynnwch iddynt siarad am y profiad.

Rhan nesaf y cam hwn yw dysgu am leoliadau pwysig ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn Atodiad 2, ceir wyth cerdyn sy'n disgrifio'r gweithgareddau a gynhelir mewn gwahanol leoliadau ar y Maes. Rhwng un cerdyn i bob pâr neu unigolyn, gan ddibynnu ar faint eich dosbarth. Yna, rhaid i bawb gerdded o gwmpas i siarad â gweddiill y dosbarth er mwyn llenwi'r bylchau yn eu gwerslyfrau. Dyma'r atebion cywir.

Maes B	Lleoliad i bobl ifanc, sy'n cynnwys pabell fawr i wyllo bandiau ac artistiaid, bar a lle i wersylla.
Y Pafiliwn	Fan hyn mae'r prif gystadlaethau a seremonïau'n digwydd. Mae digon o seddau fel arfer, ond rhaid dod yma'n gynnar ar gyfer y Cadeirio neu'r Coroni!
Y Babell Lên	Mae geithgareddau llenyddol fel Talwrn y Beirdd a darlleniadau barddoniaeth a rhyddiaith yn digwydd fan hyn.
Mudiad Meithrin	Os oes gennych blant bach, mae fan hyn yn lle da i ddod. Mae llawer o weithgareddau hwyllog yma, a lle chwarae y tu allan.
Y Babell Wyddoniaeth	Os nad yw llenyddiaeth a barddoniaeth at eich dant chi, gallwch chi ddod yma i weld arddangosfeydd gwyddonol ac i ddysgu am ymchwil newydd. Mae gweithgareddau ardderchog i blant yma hefyd.
Tŷ Gwerin	Gallwch chi wyllo dawnswyr, cantorion ac offerynwyr gwerin fan hyn, cymryd rhan mewn gweithgareddau fel y Gymanfa Gerdd Dant, yn ogystal â chystadlaethau fel y Stomp Fawr Werin.
Y Lle Celf	Fan hyn mae gwaith celf gan rai o artistiaid mwyaf blaenllaw Cymru yn cael ei arddangos. Hefyd, gallwch chi weld gwaith celf buddugol yr Eisteddfod.
Pentref Dysgu Cymraeg	Dyma'r ardal i ddysgwyr Cymraeg. Ceir llawer o weithgareddau a gwybodaeth am ddysgu Cymraeg, ac mae bob amser cyfle am sgwrs dros banded.

Gwrando – Cofrestr cadeiriau

Sgwrs rhwng y Prifardd Twm Morys ac Aled Hughes yw'r darn gwrando. Maent yn trafod yr angen i greu cofrestr i gadeiriau eisteddfodol.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau gwrando. Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r geiriau yn eu gwerslyfrau pan fyddant yn eu clywed. Yna, gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau am y darn. Dyma'r atebion:

1. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn?

1867 Mae'r Gadair a'r Goron Genedlaethol yn bodoli ers y flwyddyn hon.

1176 Dyddiad Eisteddfod Aberteifi, sef yr eisteddfod fawr gyntaf y mae sôn amdani. Cadeiriwyd bardd a cherddor yn yr eisteddfod honno.

2. Yn ôl Twm Morys, sut mae cadeiriau'n cael eu "colli"?

Mae teulu'n colli cof amdany'n nhw ac yn eu gwerthu, neu'n eu rhoi i rywun.

3. Ble rydyn ni'n dueddol o weld cadeiriau eisteddfodol?

Mewn festri, tŷ neu gapel.

4. Pam mai cadeiriau sy'n cael eu rhoi'n wobwr i fardd?

Mae cadair yn arwydd o awdurdod ac o barch at athro.

5. Ble byddai disgyblion yn arfer eistedd?

Byddai disgyblion yn eistedd wrth draed yr athro.

6. Meddylwch am yr ymadrodd colli cof. Beth rydych chi'n meddwl yw ystyr yr ymadroddion isod?

Dyma'r diffiniadau Saesneg, er gwybodaeth, ond dylid annog y dosbarth i geisio esbonio'r termau yn Gymraeg.

colli adnabod	<u>to lose touch</u>
colli blas	<u>to lose interest</u>
colli gafael	<u>to lose one's grip</u>
colli golwg	<u>to become blind</u>
colli golwg ar	<u>to lose sight of</u>

Byddwch chi hefyd yn clywed y gair **difancoll**.

Mae **ar ddifancoll** yn golygu bod rhywbeth ar goll yn llwyr (*completely and utterly lost*).

7. Allwch chi feddwl am unrhyw eiriau neu ymadroddion eraill sy'n cynnwys cof?

Nodwch nhw fan hyn.

Enghreifftiau posib: cofio, anghofio, atgof, atgoffa, coffa, cofeb, cof bach, cofbin, ffon gof, cofiant, hunangofiant, er cof am, ers cyn cof, cof fel eliffant, cof fel gogor.

Ar ôl iddynt gwblhau'r tasgau, gadewch i'r dosbarth siarad yn rhydd gan ddefnyddio'r cwestiynau yn y gwrslyfr, neu unrhyw beth arall sy'n codi o'r erthygl.

Bwlch Gwybodaeth - Pafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau i lenwi'r bylchau yn eu hamserlenni (bydd un yn gwneud amserlen A, a'r llall yn gwneud amserlen B). Bydd angen iddynt ofyn cwestiynau e.e. "Beth sy'n digwydd yn y Pafiliwn am ugain munud wedi deg?" Dyma'r amserlen gyflawn.

10:00	Llefaru Unigol Agored
10:20	Unawd Cerdd Dant 21 oed a throsodd
10:40	Unawd Tenor 25 oed a throsodd
11:15	Unawd Mezzo-Soprano
11:45	Seremoni cyflwyno'r Fedal Wyddoniaeth a Thechnoleg
12:10	Dawns Stepio Unigol i Fechgyn 18 oed a throsodd
12:25	Dawns Stepio Unigol i Ferched 16 oed a throsodd
12:50	Triawd neu Bedwarawd Cerdd Dant Agored
13:05	Seremoni cyflwyno enillydd Tlws Dysgwr y Flwyddyn
13:15	Cystadleuaeth o Adran y Dysgwyr
13:30	Côr Dysgwyr
14:05	Unawd Lieder
14:30	Seremoni'r Fedal Ddrama
15:15	Côr Merched heb fod yn llai nag 20 mewn nifer
16:05	Unawd yr Hen Ganiadau 19 oed a throsodd
16:35	Gwobr Goffa Osborne Roberts

Cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn

Dyma gyfle da i godi ymwybyddiaeth y dosbarth o gystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn, a'u hannog i gystadlu ynddi.

Cyn troi at y gweithgaredd, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i ddweud wrth ei gilydd yr hyn maen nhw'n ei wybod am y cystadleuaeth.

Wedyn, yn hytrach na darn darllen arferol, ceir rhestr o nodweddion ar gyfer cystadleuwyr Dysgwr y Flwyddyn. Rhaid i'r dysgwyr benderfynu pa nodweddion sy'n bwysig. Mae rhai nodweddion yn hollol amherthnasol e.e. 'person ifanc.' Wedi hynny, trafodwch y cystadleuaeth ac ateb unrhyw gwestiynau amdani. Gan ddibynnu ar yr adeg o'r flwyddyn y byddwch yn gwneud yr uned hon, mae'n bosib y bydd gwybodaeth ar wefan yr Eisteddfod Genedlaethol ynglŷn â dyddiadau cau a phroses ymgeisio'r cystadleuaeth. Dylid chwilio am wybodaeth gyfredol cyn gwneud y gweithgaredd hwn.

Gwyllo a gwrando – Myrddin ap Dafydd

Fideo o'r Prifardd Myrddin ap Dafydd, sy'n siarad ar ddechrau ei gyfnod fel Archdderwydd, yw'r darn Gwyllo a gwrando. Gobeithir y bydd y fideo o gymorth i addysgu'r dysgwyr am yr Orsedd ac agweddau seremonïol yr Eisteddfod Genedlaethol.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwyllo a gwrando.

Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr gylchu geirfa'r darn wrth ei chlywed. Yna, gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau yn eu gwrslyfrau. Dyma'r atebion:

1. Beth welwch chi mewn trefi yng Nghymru lle mae'r Eisteddfod wedi ymweld?

Cylch yr Orsedd (cylch o feini).

2. Mae Myrddin ap Dafydd yn esbonio bod tair ffordd o ddod yn aelod o'r Orsedd. Enwch ddwy ohonyn nhw.

Atebion posib: sefyll arholiad, ennill un o brif gystadlaethau Eisteddfod yr Urdd neu'r Eisteddfod Genedlaethol, cael gwahoddiad i ymuno.

3. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn yn y fideo?

3,000 Mae'r diwylliant Cymraeg a barddoniaeth Gymraeg yn mynd yn ôl 3,000 o flynyddoedd (ar lafar)

6 Mae'r Archdderwydd yn arwain chwe seremoni bob blwyddyn.

7 Cafodd Myrddin ap Dafydd ei enwebu gan saith aelod o'r Orsedd.

4. Mae Myrddin ap Dafydd yn dweud bod gwaith yr Archdderwydd yn waith "llawen". Beth yw ystyr y gair "llawen"? Pryd ydyn ni'n defnyddio'r gair yma fel arfer?

Ystyr llawen yw hapus neu llon. Defnyddir llawen fel arfer i ddymuno Nadolig Llawen.

5. Mae Myrddin ap Dafydd yn defnyddio'r idiomau isod yn y fideo. Gyda'ch partner, trafodwch yr idiomau a cheisiwch feddwl am ffordd arall o gyfleu eu hystyr.

Atebion posib:

yn arw iawn yn fawr iawn, yn llawn brwdfrydedd, yn aruthrol, yn eiddgar.

o bob cwr o bob man, o bedwar ban y byd, o bell ac agos.

6. Mae Myrddin ap Dafydd yn sôn am feini'r orsedd ar ddechrau'r fideo. Gyda'ch partner, edrychwch ar y tabl isod a pharwch y geiriau neu'r ymadroddion sy'n cynnwys maen â'r cyfieithiad cywir. Yna, dewiswch ddau air neu ymadrodd, a gwnewch frawddegau gyda nhw.

maen hir	<i>obstruction, stumbling-block</i>
maen gwerthfawr	<i>grindstone</i>
maen prawf	<i>monolith, standing stone</i>
maen llifo	<i>precious stone</i>
mynd â'r maen i'r wal	<i>criterion, test</i>
maen tramgwydd	<i>to complete a task</i>

I gloi'r gweithgaredd hwn, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiwn yn y gwrslyfr, neu unrhyw beth arall sy'n codi wrth wyllo'r fideo.

Cam 5 – Ymarfer geirfa

Ewch dros eirfa Uned 17, gan ofyn i'r dysgwr ymgyswrtu â'r geiriau newydd cyn cychwyn y gwaith ar yr uned.

Adolygu Uned 16, Uwch 1 (Trefnolion)

Yn syml iawn, rhwng enwau'r diwrnodau arbennig isod ar y bwrdd gwyn a rhannwch y dosbarth yn barau i ddweud wrth ei gilydd ar ba ddyddiad byddwn ni'n eu dathlu. Ar ôl y cam hwn, gwnewch hyn fel dril llafar. Os oes gennych ddosbarth da, gellid hepgor y cam cyntaf yn llwyr a galw'r diwrnodau i'r dosbarth ymateb ar lafar.

Dydd San Steffan

Dydd Gŵyl Dewi

Nos Galan

Dydd Nadolig

Calan Mai

Calan Gaeaf

Dydd Santes Dwynwen

Dydd Ffolant

Shwmae Sumae (Hydref 15)

Atodiad 1

Dw i'n hwyr!	Gwell i ti brynu Hanes Cymru.
Dw i eisiau / isio dysgu mwy am Gymru	Gwell i ti ymddiheuro.
Dw i eisiau / isio tyfu blodau yn yr ardd.	Gwell i ti ymarfer yn galed.
Dw i eisiau / isio buddsoddi fy arian yn gall.	Gwell i ti brynu hadau.
Dw i wedi camddeall y sefyllfa.	Gwell i ti frysio
Dw i'n gobeithio cael lle yn y garfan.	Gwell i ti ofyn am gyngor.
Mae llawer o ansicrwydd am ddyfodol y ffatri.	Gwell i ti ddechrau chwilio am swydd newydd.
Dim ond llond dwrn sy'n dweud eu bod nhw'n dod i'r cyfarfod.	Gwell i ti anfon y gwahoddiad allan eto.

Pam wyt ti'n berwi'r tegell?	Er mwyn i ni fynd ar drip gyda'n gilydd.
Pam wyt ti'n tyfu llysiau yn yr ardd?	Er mwyn i ni gael cacen flasus i de!
Pam wyt ti'n llogi bws mini?	Er mwyn i ni gael bwyd iach.
Pam wyt ti'n mynd i weld y rheolwr banc?	Er mwyn i ni gael paned.
Pam wyt ti'n prynu dau docyn tymor?	Er mwyn i ni gael tŷ newydd.
Pam wyt ti'n pobi?	Er mwyn i ni gael seddi da yn y stadiwm.
Pam wyt ti'n chwynnu?	Er mwyn i ni fwynhau eistedd yn yr ardd.
Pam wyt ti'n rhoi'r lluniau yn yr albwm?	Er mwyn i ni gael cofnod o'r gwyliau.

Atodiad 2

Lleoliad i bobl ifanc, sy'n cynnwys pabell fawr i wyllo bandiau ac artistiaid, bar a lle i wersylla.
Fan hyn mae'r prif gystadlaethau a seremonïau'n digwydd. Mae digon o seddau fel arfer, ond rhaid dod yma'n gynnar ar gyfer y Cadeirio neu'r Coronil!
Mae gweithgareddau llenyddol fel Talwrn y Beirdd a darlleniadau barddoniaeth a rhyddiaith yn digwydd fan hyn.
Os oes gennych blant bach, mae fan hyn yn lle da i ddod. Mae llawer o weithgareddau hwyllog yma, a lle chwarae y tu allan.
Os nad yw llenyddiaeth a barddoniaeth at eich dant chi, gallwch chi ddod yma i weld arddangosfeydd gwyddonol ac i ddysgu am ymchwil newydd. Mae gweithgareddau ardderchog i blant yma hefyd.
Gallwch chi wyllo dawnswyr, cantorion ac offerynwyr gwerin fan hyn, cymryd rhan mewn gweithgareddau fel y Gymanfa Gerdd Dant, yn ogystal â chystadlaethau fel y Stomp Fawr Werin.
Fan hyn mae gwaith celf gan rai o artistiaid mwyaf blaenllaw Cymru yn cael ei arddangos. Hefyd, gallwch chi weld gwaith celf buddugol yr Eisteddfod.
Dyma'r ardal i ddysgwyr Cymraeg. Ceir llawer o weithgareddau a gwybodaeth am ddysgu Cymraeg, ac mae bob amser cyfle am sgwrs dros baned.

Canllawiau Uned 17 – Rhifedd

Pwrpas yr uned hon yw cyflwyno termau mathemategol syml allai fod o gymorth i rieni a chanddynt blant mewn ysgolion Cymraeg.

Cam 1 – Siarad cychwynnol

Trafodwch ryw agwedd ar y newyddion.

Cam 2 – Adolygu Uned 16

Atgoffwch y dysgwyr i chi edrych ar ymadroddion yn defnyddio'r arddodiad o yn Uned 16 a gofynnwch i barau gofio o leiaf dri o'r ymadroddion hyn. Yna, rhowch y drill isod ar waith er mwyn adolygu:

Maen nhw heb gyrraedd eto.
Maen nhw heb orffen eto.
Maen nhw heb glywed eto.
Maen nhw heb dalu eto.
Maen nhw heb siopa eto.

Maen nhw'n siŵr o gyrraedd mewn da bryd.

Mae hi heb drwsio'r to.
Mae hi heb drwsio'r gadair.
Mae hi heb drwsio'r drws.
Mae hi heb drwsio'r pibau.
Mae hi heb drwsio'r car.
Mae hi heb drwsio'r ffenest.
Mae hi heb drwsio'r bwrdd.
Mae hi heb drwsio'r drariau.

Mae hi'n siŵr o'i drwsio fe/fo.

Cam 3 – Cyflwyno'r thema - Mathemateg

Gofynnwch i bawb yn y dosbarth i ysgrifennu'r gair cyntaf sy'n dod i'w meddwl pan maent yn clywed y gair 'Mathemateg'. Trafodwch y geiriau hyn fel dosbarth.

Darllen

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer y darnau darllen.

Ar ôl sicrhau bod y dysgwyr yn deall y darn, tynnwch sylw'r dysgwyr at y gair cyfoethogion yn y darn. Gofynnwch i'r dysgwyr gwblhau'r dasg ieithyddol sy'n dilyn y darn darllen gan feddwl am eiriau eraill sy'n gorffen gyda ion.

Pobl gyfoethog – cyfoethogion
Pobl dlawd – tlodion
Pobl dros 18 oed – oedolion
Pobl sy'n canu – cantorion

Pobl yn yr ysbyty – cleifion
Pobl sy'n canu offerynnau – cerddorion

Rhannwch y dosbarth i grwpiau er mwyn trafod y cwestiynau sy'n dilyn y darn darllen.

Termau Mathemategol

Tynnwch sylw'r dysgwyr at y termau mathemategol – adio, tynnu, lluosu a rhannu. Defnyddiwch gardiau Atodiad 1 i ymarfer y termau hyn drwy ofyn i'r dosbarth adrodd y symiau allan yn uchel e.e. mae dau lluosu dau yn gwneud yn hafal i bedwar/dau lluosu dau yw pedwar.

Ewch dros ystyr y termau mathemategol – ffactor, lluosrif, eilrif, odrif.

Rhannwch bawb yn barau ac yna rhwch y cyfarwyddiadau isod i'r dysgwyr er mwyn gwneud y dasg grid rhifau. Dyma'r cyfarwyddiadau.

- 1.** Croeswch allan y rhif UN.
- 2.** Rhwch gylch o amgylch y rhif DAU, a chroeswch allan bob eilrif arall hyd at 100.
- 3.** Rhwch gylch o amgylch TRI, a chroeswch allan bob lluosrif arall o 3 hyd at 99.
(Bydd rhai wedi eu croesi allan yn barod.)
- 4.** Rhwch gylch o amgylch y rhif PUMP, a chroeswch allan bob lluosrif arall o 5.
- 5.** Rhwch gylch o amgylch y rhif lleiaf sydd heb ei groesi allan a chroeswch allan bob lluosrif arall o'r rhif hwn.

Ysgrifennu a dweud rhifau

Atgoffwch y dysgwyr o genedl enwau deg, cant, mil, miliwn. Gofynnwch iddyn nhw ymarfer rhain ar lafar fel dosbarth ac yna mewn parau. Yna gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu'r rhifau cywir a'u hadrodd yn uchel i'r dosbarth.

987 – naw cant wythdeg a saith

654 321 - chwe chant pum deg a phedair mil, tri chant dau ddeg ac un

102 030 405 - cant a dwy filiwn, tri deg mil, pedwar cant a phump

Gwyllo a Gwranddo

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer gweithgaredd Gwyllo Robert Recorde.

Anogwch y dysgwyr i rannu'r hyn maent yn ei wybod am Robert Recorde cyn iddynt wyllo'r fideo. Peidiwch â phoeni os nad ydynt wedi clywed amdano o'r blaen.

Mae'r clip fideo yn cyfeirio at yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg. Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu'r canrifoedd hyn. Gallwch ofyn iddyn nhw a ydynt yn gwybod sut mae dweud y canrifoedd eraill ar lafar hefyd e.e. unfed ganrif ar ddeg, deuddegfed ganrif...

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer y gwaith llafar.

Cwestiynau Mathemategol

Dyma rai cwestiynau allan o un o bapurau arholiadau Mathemateg CBAC. Gall y dysgwyr weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach.

Atebion:

1a.) Mae yna naw taliad misol o £15 am 9 mis

$$15 \times 9 = 135$$

Ychwanegwch y blaendal o £30

$$£135 + £30 = \textbf{£165}$$

1b.) Cost y beic ydi £220 ac mae blaendal o £40 wedi ei dalu

Mae £180 yn weddill. Rhannwch hwn yn naw rhan

Mae 180 wedi ei rannu efo 9 yn 20

Felly **£20 ydi'r taliad misol**

2.) Mae 12 sedd ymhob rhes bob ochr i'r eil ganol.

I ddarganfod faint o resi sydd yna, mae angen rhannu hyd y neuadd gyda hyd y rhes. Mae hyd y neuadd yn 18 metr ac mae hyd y rhes yn 2 fetr. Mae rhannu 18 gyda 2 yn rhoi ateb i ni o 9 rhes.

Mae 12 sedd ymhob rhes ar y ddwy ochr i'r eil ganol, felly mae angen lluosu hyd y rhes sef 2 gyda 12. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 24 o seddau ymhob rhes.

Gallwn ni wedyn luosi'r cyfanswm o 24 sydd ymhob rhes lawn gyda nifer y rhesi, sef 9 i roi cyfanswm i ni o 216 sedd.

Felly mae digon o seddau (216) i 200 o bobl

3a.) Mae Sophie yn mynd ar y trêrn am 11:25, ac yn gadael y trêrn am 12:08.

Os tynnir 11 awr 25 munud o 12 awr ac 8 munud mi fydd 43 munud yn weddill.

Dylai siwrne Sophie gymryd **43 munud**

3bi) Mae'r trê'n sydd yn gadael Port Talbot am 12:12 yn cyrraedd Bryste Parkway am 13:30.

Mae yna drê'n yn gadael Bryste Parkway am 13:40 ac yn cyrraedd Birmingham am 14:56 (34 munud cyn 3:30).

Felly, y trê'n hwyraf y gallai David ei gymryd o Bort Talbot er mwyn cyrraedd Birmingham mewn da bryd yw trê'n **12:12**

3bii) Mae'r trê'n o Bort Talbot yn cyrraedd Bryste Parkway am 13:30, ac mae'r ail drê'n yn gadael am Birmingham am 13:40

Felly, mi fydd rhaid i David aros am **10 munud** ym Mryste Parkway

Cyfrif Caloriau

Dyma'r atebion cywir (er y gall yr union gyfrif amrywio ar gyfer yr un mathau o fwyd, wrth gwrs):

a. Banana	95 calori
Grawnwin	60
Afal	47
Mefus	27
(tua 100g o bob un)	

b. Mars (54g)	242
Pecyn o greision	180
Flake siocled	180
Kit Kat (2 fys)	106

c. Peint o lager	180
Coca-Cola (330ml)	142
Gwydraid o win	126
Sudd oren (200ml)	94

ch. Pizza 12"	1,600
Big Mac gyda sglodion a cola	1,015
Pysgodyn a sglodion	1,000
Cyw lâr Tikka Masala gyda reis pilau	960

d. Brecwast llawn	907
Dau wŷ wedi'u sgramblo ar dost	362
Ffa pob ar dost	291
Brechdan gaws	250

dd. Myffin â darnau siocled	401
Croissant	285
Myffin llus	266
Toesen jam	256
e. Cinio dydd Sul llawn	850
Sbageti Bolognese	413
Taten bob gyda tiwna a ffa cannellini	281
Taten bob gyda ffa pob	250
f. Hob Nob siocled	92
Digestive siocled	84
Digestive plaen	70
Hob Nob plaen	67
Custard cream	64
Jaffa Cake	46
Cream cracker	34
Tost melba	13
ff. Coffi latte	143
Cwpanaid o de	10
Cwpanaid o de mintys	2
Mwgaid o goffi du	0

Cam 4

Ewch dros Eirfa uned 18.

Uned 17, Atodiad 1

$2 \square 2 = 4$	$8 \square 7 = 56$	$12 \square 4 = 3$
$12 \square 11 = 132$	$54 \square 48 = 102$	$60 \square 6 = 10$
$21 \square 7 = 3$	$72 \square 132 = 204$	$144 \square 12 = 12$
$72 \square 12 = 6$	$143 \square 57 = 86$	$354 \square 100 = 254$
$13 \square 14 = 182$	$7543 \square 624 = 6919$	$5 \square 3 = 15$

Uned 18 – Canllaw i'r Tiwtor

Uned Adolygu yw hon felly ceir cyfres o ymarferion i adolygu'r unedau blaenorol.

Cam 1 – Sgwrsio Cychwynnol

Defnyddiwch un o'r cardiau dadl i sbarduno sgwrs.

Cam 2 – Adolygu Uned 12 (geiriau lluosog)

Ar gyfer y gweithgaredd hwn, bydd angen cyswllt gwe yn y dosbarth a sgrin i ddangos y cynnwys o'r we i'r dosbarth, a bydd angen i bob grŵp (o leiaf ddau grŵp o 2-5 dysgwr) fod â dyfais symudol wedi'i chysylltu â'r we (ffôn clyfar neu lechen).

Dechreuwch gyfrif Kahoot ymlaen llaw – ewch i <https://kahoot.com/> a gwasgu'r ddolen 'Sign up' sydd ar yr ochr dde tua phen uchaf y wefan (does dim cost). Wedi i chi greu eich cyfrif, gallwch fewngofnodi ('sign in') unrhyw bryd.

Mae'r gêm Adolygu ffurfiau lluosog ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

<https://play.kahoot.it/#/?quizId=1cd97067-ae04-48ce-95fe-b9ac39b20452>

Cyfres o bymtheg cwestiwn sydd yma gydag atebion aml-ddewis. Pan fyddwch chi'n agor y gêm ac yn gwasgu 'Play', bydd cod (PIN) yn ymddangos ar y sgrin. Dylai'r dysgwyr sy'n gyfrifol am y ddyfais symudol ar ran eu grŵp fynd i kahoot.it a mewnbynnu'r cod yno. Bydd angen iddynt roi enw neu ffugenw a phan fyddant wedi ymuno'n llwyddiannus â'r gem, bydd yr enw hwnnw'n ymddangos ar eich sgrin chi. Pan fydd pob grŵp wedi llwyddo i ymuno, dechreuwch y gêm. Bydd y cwestiynau'n ymddangos fesul un gyda symbolau ar y sgrin i gynrychioli'r gwahanol atebion aml-ddewis. Bydd y dysgwyr yn gwasgu un o'r symbolau hyn ar eu dyfais symudol i ddewis eu hateb. Pan fydd pob grŵp wedi ateb, bydd y nifer a ddewisodd bob ateb yn cael ei ddangos ar eich sgrin a bydd cyfle i oedi cyn symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf. Ar ddiwedd y 12 cwestiwn, bydd sgoriau pob tîm i'w gweld a'r enillwyr yn cael eu coronï'n bencampwyr!

Y ffordd orau i chi ddod i ddeall sut bydd y gêm yn gweithio ydy trwy roi cynnig arni eich hunan ymlaen llaw gyda chyfrifiadur a dyfais symudol! Mae canllaw Kahoot ar sut i chwarae yma: **<https://kahoot.uservoice.com/knowledgebase/articles/949450-how-to-host-and-play-a-kahoot>**

Cam 3 – Adolygu Uned 11 (rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid)

Rhannwch y dosbarth yn barau i gyfieithu'r brawddegau. Yn ogystal â chyfieithu, rhaid iddynt hefyd feddwl am frawddeg ychwanegol yn defnyddio'r un rhagddodiad/ôl-ddodiad (ond gair gwahanol i'r un a geir yn yr ymarfer cyfieithu).

1. Mae'r gwrthdaro rhwng y ddwy ochr yn amlwg. (Brawddeg arall gyda 'gwrth'.)
2. Dywedodd y barnwr ei fod e'n ddieuog. (Brawddeg arall gyda 'di'.)
3. Roedd y penderfyniad yn annheg. (Brawddeg arall gyda 'an'.)
4. Mae'r meddyg mor amyneddgar. (Brawddeg arall gyda 'gar'.)
5. Mae hi'n bwysig bod yn brydlon. (Brawddeg arall gyda 'lon'.)
6. Dangosodd yn y cyfweliad ei bod hi'n ddeallus. (Brawddeg arall gyda 'us'.)

Cam 4 – Cyflwyno'r thema (Y Theatr) ac adolygu Uned 13

I gyflwyno'r thema, gwnewch storom eirfa gyda'ch dosbarth ar 'Y Theatr'. Rhai geiriau pwysig i'w cynnwys fyddai actorion, dramodydd, dramodwyr, cynhyrchydd, cyfarwyddwr, cynulleidfia.

Wedi hynny, ceir deialog sy'n cyd-fynd â'r thema, ond sydd hefyd yn adolygu Uned 13 (cyfieithu for). Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i ddarllen y ddeialog, gan gymryd tro i wneud y ddwy ran. Sicrhewch eu bod yn dewis y fersiwn fwyaf addas iddyn nhw (de / gogledd). Yna, tynnwch sylw at y geiriau sydd wedi'u tanlinellu yn y ddeialog. Gofynnwch iddynt eu hysgrifennu yn y blychau cywir yn eu gwerslyfrau. Ydyn nhw'n cyfieithu i *for*, *about*, *in order to* neu *over* yn Saesneg?

Dyma'r atebion:

<i>for</i>	<i>about</i>	<i>in order to</i>	<i>over</i>
addas i ar gyfer i ni i ni	Beth am comedi am unrhyw beth am dysgu am	er mwyn i ni	dros

Ar ôl cwblhau'r gweithgaredd hwn, gofynnwch i'r dysgwyr sgwrsio'n rhydd mewn parau neu grwpiau, gan ddefnyddio'r cwestiynau yn eu gwerslyfrau.

Cam 5 – Adolygu Uned 14 (â, ag, a, ac, gyda/efo)

Yn gyntaf, ceir gêm kahoot arall i adolygu'r uned hon.

Dyma'r ddolen ar gyfer y gêm:

<https://play.kahoot.it/#/?quizId=01e81e15-fd1c-415b-9ff3-35387d975c9b>

Ceir cyfarwyddiadau i ddefnyddio kahoot yng **ngham 1**.

Ar ôl chwarae'r gêm, gofynnwch i'ch dysgwyr wneud yr ymarfer llenwi bylchau yn eu gwerslyfrau. Dyma'r atebion cywir.

1. Y tro cyntaf i mi fynd i'r theatr, es i gyda/efo fy nheulu i weld pantomeim.
2. Mae'n well gen i gomedïau a sioeau cerdd na dramâu difrifol.
3. Anghofiodd Lisa fynd â'i sbectol i'r theatr felly roedd yn anodd iddi hi weld yr actorion.
4. Mae Trystan ac Alys yn rhoi gwersi actio i blant bach.
5. Mae Gareth yn yfed dŵr a lemwn cyn mynd ar y llwyfan.
6. Gyda llaw, bydd rhaid i chi fynd ag arian parod gyda/efo chi i dalu am hufen iâ yn ystod yr egwyl.
7. Roedd gwisgoedd y ddrama wedi'u gwneud â llaw.
8. Caewch y drysau a rhowch bob chwarae teg i'r perfformwyr.

Cam 6 – Adolygu Uned 15 (ymadroddion sy'n cynnwys 'i')

Gofynnwch i'r dysgwyr am enghreifftiau o ymadroddion sy'n cynnwys 'i'. Yna, gofynnwch iddynt gysylltu'r colofnau yn eu gwerslyfrau, i greu brawddegau synhwyrol. Dyma'r atebion:

Oes modd i ti brynu	archebu diodydd ar gyfer yr egwyl.
Erbyn iddo fe	y sgript cyn gwyllo'r ddrama.
Mae croeso iddi hi	tocynnau'r ddrama ar y we?
Gwell i ti wahodd	gyrraedd y theatr, bydd y ddrama wedi dechrau.
Mae'n iawn iddi hi ddod	Lisa i'r theatr hefyd.
Dw i eisiau i chi ddarllen	i weld y cast yn ymarfer.

I gloi'r ymarfer, gofynnwch i'r dysgwyr lunio tair brawddeg gyda'u partneriaid sy'n cynnwys ymadroddion 'i'.

Cam 7 – Gwylio a gwrando 1 – Arwel Gruffydd, Cyfarwyddwr Artistig Theatr Genedlaethol Cymru

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwylio a gwrando. Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr roi cylch o gwmpas geirfa'r darn pan fyddant yn ei chlywed. Yna, gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau yn eu gwerslyfrau.

1. Nodwch ddau beth rydych chi wedi'i ddysgu am Arwel Gruffydd o'r fideo yma.

Mae llawer o atebion posib, e.e.: Cafodd ei eni yn Nhanygrisiau, ger Blaenau Ffestiniog. Aeth i Ysgol y Moelwyn. Astudiodd Gymraeg yn y Brifysgol ym Mangor. Gwnaeth gwrs ôl-radd mewn coleg drama (Academi Douglas Weber). Gweithiodd fel actor cyn dod yn gyfarwyddwr.

2. Pa fath o gynrychiadau mae'r Theatr Genedlaethol yn eu gwneud? Nodwch ddwy enghraifft.

Atebion posib: dramâu newydd, clasuron Cymraeg, fersiynau gwahanol o glasuron Cymraeg (cyfeirir at opera Y Tŵr), clasuron rhyngwladol, cynrychiadau safle penodol.

1. Mae Arwel Gruffydd yn dod o'r gogledd. Rhowch enghraifft o'i iaith ogleddol yn y blwch isod.

Bydd y dasg hon yn anodd i ddysgwyr o'r gogledd ac efallai y bydd angen i chi eu helpu. Rhai nodweddion amlwg yw'r sŵn 'sh' ar ddiwedd berfau amser gorffennol e.e. "Mi 'nesh i" a defnyddio "fo" ac nid "fe" ac yn y blaen.

Cam 8 – Darllen – Twm o'r Nant a'r Anterliwt

Rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp – gan roi copi o Atodiad 1 (Cerdyn A i un grŵp a Cherdyn B i'r grŵp arall) i bawb. Yn gyntaf, rhaid iddynt ddarllen trwy'r ffeithiau ddwywaith ac yna, gyda'i gilydd, ceisio cofio cymaint o ffeithiau â phosib. Rhannwch y dosbarth yn barau gydag un aelod o bob grŵp iddynt gyfnewid ffeithiau a llenwi'r bylchau yn y brawddegau yn y cwrslyfr.

Dyma'r atebion:

1. **O gymharu â** dramâu arferol yr Oesoedd Canol, roedd anterliwtiau'n fyr.
2. Roedd anterliwtiau'n **dueddol o** gael eu perfformio yng ngogledd ddwyrain Cymru.
3. **O ganlyniad** i'w ddyledion, dihangodd Twm o'r Nant i'r de am gyfnod.
4. Heddiw, byddai Twm o'r Nant **yn falch o** weld bod ysgol a theatr yn Ninbych wedi'u henwi ar ei ôl.

2. Mae'r geiriau yn y tabl wedi'u tynnu o'r darn darllen. Llenwch y bylchau â'r geiriau lluosog neu unigol cywir.

Unigol	Lluosog
dramodydd	dramodwyr
cymeriad	cymeriadau
cynulleidfa	cynulleidfaoedd
ffair	ffeiriau
tafarn	tafarndai/tafarnau
fferm	ffermydd
dawn	doniau
coeden	coed
dyled	dyledion
bachgen	bechgyn

I gloi'r gweithgaredd, gadewch i'r dysgwyr sgwrsio'n rhydd am unrhyw bwnc a fydd wedi codi yn y darn darllen. Os ydych yn dysgu dosbarth yn y gogledd ddwyrain, efallai y byddai modd trefnu taith i Theatr Twm o'r Nant i gwrdd â hanesydd lleol a allai siarad â chi am Twm o'r Nant.

Cam 9 – Gwyllo a gwrando 2 – Catrin Mara, actor

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando. Yna, gofynnwch iddynt weithio mewn paru i nodi pum ffaith a gasglwyd am Catrin Mara wrth wyllo'r fideo. Dyma atebion posib:

- Mae hi'n enedigol o Lanuwchllyn ger Y Bala.
- Cafodd ei magu mewn pentref lle'r oedd cystadlu mewn eisteddfodau, drama a cherddoriaeth yn bwysig iawn.
- Cafodd ran yn y rhaglen Rownd a Rownd pan oedd hi'n ddwy ar bymtheg.
- Astudiodd yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru am dair blynedd.
- Ei rôl anoddaf hyd yn hyn oedd rhan y seicolegydd yn y ddrama Difa, Theatr Bara Caws.
- Mae hi wedi mwynhau pob rhan mae hi wedi'i gwneud.
- Mae hi'n canolbwyntio – ychydig yn obsesiynol – ar y rhan mae hi'n ei gwneud ar y pryd, ac yn anghofio am bopeth arall.

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiwn a geir yn y gwerslyfr, ac unrhyw beth arall sy'n codi o'r fideo.

Cam 10 – Adolygu rhifedd a mathemateg

Prynu tocynnau theatr

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau neu barau i wneud yr ymarfer hwn. Dylid eu hannog i esbonio eu dulliau gweithio'n llawn ar lafar yn Gymraeg, gan ddefnyddio'r termau a ddysgwyd yn yr uned (**rhannu, lluos, yn hafal i** ac ati). Esboniwch nad prawf mathemateg yw'r dasg, ond cyfle i ymarfer defnyddio termau mathemateg a sgwrsio. Mae croeso iddynt ddefnyddio cyfrifiannell.

Dyma'r atebion:

Mae tocyn i weld drama'n costio £14.00. Faint mae deg tocyn yn ei gostio?

I wneud y swm, mae'n rhaid... rhannu

lluosi

tynnu



Gwnewch y swm fan hyn

$$14 \times 10 = 140$$

Mae gostyngiad o 10% i bensiynwyr. O'r deg tocyn, mae tri thocyn i bensiynwyr.

Mae gostyngiad o 25% i fyfyrwyr. O'r deg tocyn, mae dau docyn i fyfyrwyr.

Beth yw'r cyfanswm newydd, gyda'r gostyngiadau hyn? Esboniwch sut rydych chi'n gwneud y swm yma.

Gallai'r gwaith cyfrifo edrych yn debyg i hyn:

$$10\% \text{ o } 14 = 1.4 \text{ (1.40)}$$

$$\text{tri thocyn} = £4.20 \quad £140 - 4.20 = £135.80$$

$$25\% \text{ o } 14 = 3.5 \text{ (£3.50)}$$

$$\text{dau docyn} = £7 \quad £135.80 - 7 = £128.80$$

Y cyfanswm newydd yw **£128.80**

Mae swper dau gwrs yn y theatr yn costio £8.00. Mae pensiynwyr a myfyrwyr yn cael gostyngiadau o 10% a 25%, fel y tocynnau. Faint yw swper i bawb?

Gallai'r gwaith cyfrifo edrych yn debyg i hyn:

$$10\% \text{ o } 8 = 0.8$$

$$\text{tri phryd} = £2.40$$

$$£80 - £2.40 = £77.60$$

$$25\% \text{ o } 8 = 2$$

$$\text{dau bryd} = £4$$

$$£77.60 - 4 = £73.60$$

Y cyfanswm newydd yw **£73.60**

Cam 11 – Mynd i'r Theatr

I gloi'r uned, ceir gwaith grŵp a ddylai sbarduno digon o sgwrsio a thrafod.

Gofynnwch i'ch dysgwyr edrych ar bosteri'r pedair drama yn eu gwर्सlyfrau. Dramâu dychmygol ydynt, sy'n cynrychioli pedair genre wahanol: trasiedi (Shakespeare), pantomeim, comedi a drama realaidd. Rhaid i'r dysgwyr benderfynu pa ddrama sy'n apelio atynt, ac esbonio eu rhesymau. Ceir cwestiynau eraill i'w trafod yn y gwर्सlyfr hefyd.

Pan fydd pawb wedi dewis drama, gellid cynnal pleidlais yn y dosbarth, er mwyn gweld pa ddewis yw'r mwyaf poblogaidd.

Dyma rai syniadau am weithgareddau atodol ar y thema hon:

- Os bydd drama Gymraeg yn cael ei pherfformio yn y dyfodol agos, byddai'n syniad da mynd â'r dosbarth i'w gweld, a gadael i'r dysgwyr wneud tipyn o'r gwaith trefnu fel rhan o waith yr uned hon.
- A oes cwmni drama Cymraeg (oedolion neu ieuenctid) yn eich ardal? A fyddai modd i chi fynd â'r dosbarth i gwrdd â'r grŵp, a'u gwyllo'n ymarfer?
- Ydych chi'n adnabod person lleol sy'n gweithio ym myd y theatr (actor, dramodydd, cyfarwyddwr)? A fyddai'r person yma'n gallu dod i siarad â chi? Helpwch eich dosbarth i baratoi cwestiynau i'w gofyn iddo/iddi.
- Beth am fynd i ymweld â theatr leol? Efallai bod staff yno sy'n siarad Cymraeg, a fyddai'n hapus i'ch tywys o gwmpas.

Cam 12 – Geirfa

Ewch dros eirfa Uned 19, gan ofyn i'r dysgwr ymgyswrtu â'r geiriau newydd cyn cychwyn y gwaith ar yr uned.

Adolygu Uned 18, Uwch 1 (Y Cymal Enwol – y)

Ceir isod gyfres o ddriliau sy'n dangos defnydd o'r cymal enwol yn y dyfodol/amodol. Gellir rhoi'r sbardun i'w ddilyn bob tro ar y bwrdd gwyn gan roi 'y' mewn cromfachau. Fodd bynnag, wrth ddrilio, dylid annog hepgor yr 'y' i fod yn fwy naturiol. Mae'r bloc cyntaf hwn hefyd yn gyfle i gyflwyno/atgyfnerthu ffurfiau cryno 'gallu' – galla i, gallwch chi, gall e/hi neu 'medru' – medra i, medrwch chi.

De Cymru

Pam dych chi'n gofyn i fi?

Dw i'n credu (y) gallwch chi fy helpu i.

Pam dych chi'n gofyn iddo fe?

Pam dych chi'n gofyn iddyn nhw?

Pam dych chi'n gofyn i Siân?

Gogledd Cymru

Pam dach chi'n gofyn i mi?

Dw i'n meddwl (y) medrwch chi fy helpu i.

Pam dach chi'n gofyn iddo fo?

Pam dach chi'n gofyn iddyn nhw?

Pam dach chi'n gofyn i Sân?

Atodiad 1

Cardiau ffeithiau Twm o'r Nant

Cerdyn 1

1. **Dramodydd** o Ddyffryn Clwyd oedd Twm o'r Nant (1739-1810). Roedd yn ysgrifennu math arbennig o ddramâu o'r enw 'anterliwt', neu interlude yn Saesneg.
2. Dramâu byr a bywiog ar ffurf barddoniaeth oedd anterliwtiau. Doedden nhw ddim yn cynnwys plot **crefftus**, ac fel arfer, 'teipiau' oedd y cymeriadau, i gyfleu **moeswers**.
3. Yn yr Oesoedd Canol, roedd anterliwtiau'n cael eu perfformio i **ddiddanu'r** gynulleidfa rhwng actau dramâu hir.
4. Erbyn y ddeunawfed ganrif, roedd anterliwtiau wedi dod yn boblogaidd o'u rhan eu hunain.
5. Roedd anterliwtiau'n boblogaidd iawn yng ngogledd-ddwyrain Cymru. Roedden nhw'n cael eu perfformio mewn ffeiriau a thafarndai ac ar **fuarthau** ffermydd.

Cerdyn 2

1. Oherwydd ei anterliwtiau, daeth Twm o'r Nant yn boblogaidd iawn, ac roedd ei sgriptiau'n cael eu cyhoeddi ar bamffledi i'w gwerthu mewn ffeiriau.
2. Roedd pobl yn mwynhau anterliwtiau Twm o'r Nant achos eu bod nhw'n beirniadu arferion yr oes, ac achos bod Twm yn gallu creu llinellau slic a chofiadwy.
3. Chafodd Twm o'r Nant ddim llawer o addysg, ond roedd yn fardd dawnus. Dechreuodd ysgrifennu barddoniaeth ac anterliwtiau pan oedd yn blentyn ifanc.
4. Er mor boblogaidd oedd ei anterliwtiau, bywyd digon caled a gafodd Twm o'r Nant. Bu'n cario coed ac yn gweithio fel saer maen drwy gydol ei oes.
5. Ar ôl sawl digwyddiad anffodus, dihangodd Twm o'r Nant i'r de. Buodd yn rhedeg tafarn, yn cadw tollborth ac yn cario coed er mwyn talu ei **ddyledion**.

Uned 19 – Teimlo'n falch

Cam 1 – Sgwrsio Cychwynnol

Trafodwch ryw agwedd ar y newyddion.

Cam 2 – Cyflwyno'r gwaith iaith (y defnydd o 'os' ac 'a')

Uned adolygu oedd Uned 18, felly nid oes gwaith adolygu ar ddechrau'r uned hon. Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paruau i ddarllen y ddeialog yn eu gwrslyfrau. Sicrhewch eu bod yn darllen y fersiwn gywir (de/gogledd), a darllenwch y ddeialog yn uchel i ddechrau fel eu bod yn ymgyfarwyddo â hi.

Ar ôl iddynt gael cyfle i ddarllen y ddwy ran, tynnwch eu sylw at y geiriau mewn print trwm (os ac a). Yna, defnyddiwch yr enghreifftiau yn y ddeialog i esbonio pryd a sut yr ydym yn defnyddio os ac a.

Pan fydd y dysgwyr wedi deall y patrymau, gofynnwch iddynt weithio mewn paruau i wneud yr ymarferion yn eu gwrslyfrau. Dyma'r atebion:

1. Gyda'ch partner, cysylltwch golofn A â cholofn B i wneud brawddegau cywir.

Colofn A	Colofn B
Af i i weld y gêm	a oedd y dosbarth wedi gwneud y gwaith cartref.
Mae'n rhaid i ti brynu tocyn ymlaen llaw	a oedd e'n mynd y ffordd iawn.
Gofynnodd yr athro	a fyddai hi'n braf ar gyfer y daith gerdded.
Gwylodd hi ragolygon y tywydd i weld	os bydd hi'n sych fory.
Stopiodd y gyrrwr y car er mwyn gofyn i rywun	os wyt ti eisiau sedd ar y trê.

2. Cyfieithwch y brawddegau isod, gan ddefnyddio a neu os yn gywir. Cynigir rhai atebion cywir posib isod.

1. *She asked if you could bring a cake to the party.*

Gofynnodd a allet ti ddod / a faset ti'n medru dŵad â theisen/chacen i'r parti.

2. *If the roof is open, you will need to wear a warm coat in the stadium.*

Os bydd y/yw'r/ydy'r to ar agor, bydd angen i ti/chi wisgo cot gynnes/dwym yn y stadiwm.

3. *He likes to go running on Sundays if the weather is fine.*

Mae e'n hoffi mynd i redeg ar ddydd Sul os bydd/yw/ydy'r tywydd yn braf.

4. *Her parents will buy her a car if she passes her A-levels.*

Bydd ei rhieni'n prynu car iddi hi os gwnaiff/gwneith hi basio ei lefel-A.

5. *John can't decide if it would be better to buy a new car this year or next year.*

All John ddim/Dydy John ddim yn medru penderfynu a fyddai/fasai hi'n well prynu car newydd eleni neu'r flwyddyn nesaf.

Cam 3 – Cyflwyno'r thema – Teimlo'n falch

Ceir diffiniad o'r gair 'balch' yn y gwerslyfr. Trafodwch y diffiniad gyda'r dysgwyr, gan ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt amdano. Yna, ewch ymlaen i wneud y cwis.

Cwis

Darllenwch y rhagarweiniad i'r cwis, gan drafod y cwestiynau ynddo. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau a gofynnwch iddynt drafod y sefyllfaoedd dychmygol yn y cwis, a chylchu eu hatebion. Pwysleisiwch mai ychydig o hwyl yw'r cwis, ac na ddylent ei gymryd ormod o ddifrif. Sbardun i sgwrsio ydyw, yn fwy na dim.

Pan fydd pawb wedi cwblhau'r cwis, gofynnwch am eu hatebion.

Dyma sut y dylid eu sgorio:

- | | | | | |
|----|-----|-----|-----|------|
| 1. | A=3 | B=4 | C=2 | Ch=1 |
| 2. | A=2 | B=4 | C=3 | Ch=1 |
| 3. | A=3 | B=4 | C=2 | Ch=1 |
| 4. | A=1 | B=2 | C=3 | Ch=4 |
| 5. | A=1 | B=2 | C=3 | Ch=1 |
| 6. | A=1 | B=2 | C=3 | Ch=4 |
| 7. | A=4 | B=3 | C=2 | Ch=1 |
| 8. | A=3 | B=4 | C=2 | Ch=1 |

Yn y gwerslyfrau, nodir y canlynol:

Rhwng 1-16	Carw yn cuddio
Rhwng 17-24	Paun yn agor ei gynffon
Rhwng 25-32	Ceiliog balch yn clochdar.

Efallai y bydd angen esbonio'r cyffelybiaethau. Yna, trafodwch p'un ai a yw'r marciau'n deg ai peidio.

Gallwch fynd ymlaen wedyn i sgwrsio am unrhyw beth sy'n codi o'r cwis, e.e. ydyn nhw'n mwynhau gwneud cwisiau fel hyn ar-lein neu mewn cylchgronau?

Darllen

Erthygl am Lido Pontypridd yw'r darn darllen. Mae'n cyd-fynd â thema'r uned, ond hefyd yn codi llawer o bynciau trafod diddorol.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Darllen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau yn eu gwerslyfrau. Dyma'r atebion.

1. Esboniwch arwyddocâd y rhifau hyn yn y darn.

200,000	<u>Phil Ratcliffe yw'r 200,000fed person i ddefnyddio Lido Ponty ers iddo ailagor.</u>
5	<u>Mae Phil Ratcliffe yn ymweld â'r Lido bum diwrnod yr wythnos.</u>
21	<u>Mae'r Cynghorydd Ann Crimmings yn dweud ei fod yn gyfleuster modern i'r unfed ganrif ar hugain.</u>
1927	<u>Agorodd Lido Ponty yn wreiddiol yn 1927.</u>
1991	<u>Caewyd y Lido yn 1991 achos bod angen ei atgyweirio.</u>
3	<u>Mae tri phwl nofio cynnes yn y Lido.</u>
2015	<u>Ail-agorwyd y Lido yn 2015.</u>

2. Mae'r ymadrodd carreg filltir yn y darn yma. Mae dau ystyr iddo, sef yn gyntaf, carreg ar ochr ffordd sy'n nodi pellter i rywle ac yn ail, dyddiad neu ddigwyddiad pwysig yn hanes unigolyn, sefydliad neu bobl. Gyda'ch partner, cysylltwch y termau a'r ymadroddion isod, sydd hefyd yn cynnwys carreg, â'r diffiniadau cywir.

Term / Ymadrodd	Diffiniad
Carreg fedd	Carreg sy'n achosi adlais neu eco.
O fewn tafliad carreg	Carreg lle tân mewn tŷ, sydd hefyd yn gallu cyfeirio at y cartref cyfan.
Troi pob carreg	Llechen, neu un o gerrig arbennig y Preselau yn sir Benfro.
Carreg ateb	Ddim yn bell.
Carreg yr aelwyd	Carreg sy'n cael ei defnyddio i wneud i gyllell fod yn finiog.
Carreg hogi	Carreg i gofio am berson a gladdwyd o dani.
Carreg las	Gwneud popeth posib i ddod o hyd i rywbeth.

3. Cafodd Lido Ponty ei ailagor yn 2015. Os yw ailagor yn golygu reopen, beth yw'r berfenwau isod yn Gymraeg? Cofiwch fod treigladd meddal ar ôl **ail**.

to repeat ailadrodd

to repaint ailbeintio

to remarry ailbriodi

to replay ailchwarae

to regrow aildyfu

to rethink ailfeddwl

4. Mae Phil Ratcliffe yn dweud "Dw i wrth fy modd yn nofio".

Llenwch y bylchau isod, gan ddilyn y patrwm.

Dw i wrth fy modd yn nofio.

Rwy'ti wrth dy fodd yn nofio.

Mae e wrth ei fodd yn nofio.

Mae hi wrth ei bodd yn nofio.

Rydyn ni wrth ein bodd/boddau yn nofio.

Rydych chi wrth eich bodd/boddau yn nofio.

Maen nhw wrth eu bodd/boddau yn nofio.

5. Mae Lido Ponty yn atyniad dŵr awyr agored. Allwch chi feddwl am dri gair neu ymadrodd sy'n cynnwys awyr a thri sy'n cynnwys agored?

Atebion enghreifftiol:

awyr las

awyr iach

awyren

llu awyr

diwrnod agored

drysau agored

agored i niwed

gôl agored

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch sgwrs ar y pynciau a geir yn y gwrslyfr, ac unrhyw beth arall a fydd wedi codi yn y darn.

Gwyllo a gwrando – Beth sy'n gwneud i chi deimlo'n falch?

Bydd y dysgwyr yn gwyllo chwech o bobl yn siarad am bethau neu brofiadau sy'n gwneud iddynt deimlo'n falch.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr gwblhau'r dasg syml yn eu gwrslyfrau, sef llenwi'r tabl isod.

Enw	Gwaith	Beth sy'n gwneud i'r person yma deimlo'n falch?
Alun Jones	Athro Gwyddoniaeth wedi ymddeol	Mae Alun Jones yn falch ei fod yn un o'r rhai cyntaf i ddysgu Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n fwy cyffredin erbyn heddiw ac mae'n falch ei fod wedi cyfrannu at y maes.

Huw Erith	Pysgotwr	Mae Huw Erith yn falch o'i deulu, a'i fod wedi gallu parhau i fyw ar Benrhyn Llŷn. Mae'n falch ei fod wedi cynnal traddodiadau yno ac yn gobeithio y bydd ei blant a phlant ei blant yn gwneud hynny hefyd.
Alex Jones	Gweithio i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Aberdaron	Bu Alex Jones yn gwirfoddoli yng Ngwlad Thai am fis gydag elusen anifeiliaid. Bu'n helpu i ofalu am gathod a chŵn, ac yn codi arian at yr elusen. Mae hi'n falch o'r gwaith a wnaeth hi yno ac yn gobeithio y bydd cyfle i wneud hynny eto.
Gwilym Bowen Rhys	Cerddor	Mae Gwilym Bowen Rhys yn falch fod pobl wedi cysylltu ag e i ddweud eu bod nhw wedi dechrau gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg achos ei ganeuon. Mae'n falch ei fod wedi cyflwyno pobl i fyd cerddoriaeth Gymraeg.
Heledd Cynwal	Cyflwynydd teledu a radio	Mae Heledd Cynwal yn falch ei bod wedi ennill gwobr gyntaf, ail a thrydydd yn Sioe Llandeilo am ei chiwcymbers!
Dewi Griffiths	Rhedwr	Mae Dewi Griffiths yn teimlo'n falch pan fydd ymarfer a gwaith caled yn dod at ei gilydd a'i fod yn cyflawni ei uchelgais.

I gloi'r gweithgaredd, gadewch i'r dosbarth sgwrsio'n rhydd am unrhyw beth a fydd wedi codi yn y fideo. Ydyn nhw wedi cael profiadau tebyg i rai o'r cyfranwyr?

Cam 4 - Geirfa

Ewch dros eirfa Uned 20, gan ofyn i'r dysgwr ymgyswrtu â'r geiriau newydd cyn cychwyn y gwaith ar yr uned.

Adolygu Uned 19, Uwch 1 (taw/mai)

Gofynnwch i aelodau'r dosbarth godi pan fyddwch yn dweud brawddeg bwysleisiol, ac eistedd pan na fydd pwyslais yn y frawddeg:

Maen nhw'n disgwyl y gwaetha.

Meddyg oedd hi.

Bai John oedd y ddamwain.

Dylet ti ei ffonio hi cyn mynd draw.

Bydd llawer o bobl yn y cyngerdd heno.

Yn y Swyddfa Bost mae hi'n gweithio erbyn hyn.

Arni hi roedd y bai am y camgymeriad.

Roedd hi'n gwybod bod y plentyn yn dweud celwydd.

Fel ail gam, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i gyfieithu'r brawddegau uchod. Ysgrifennwch y fersiynau cywir ar y bwrdd gwyn. Yna, gofynnwch i'r parau ysgrifennu 'Mae'n debyg' o flaen pob un ohonyn nhw er mwyn ymarfer bod a taw/mai.

Uned 20 - Canllaw'r Tiwtor

Thema'r Uned: Byd y Ffilmiau

Nod yr uned hon yw...

- Adolygu ac ymarfer brawddegau pwysleisiol
- Siarad am fyd y ffilmiau a ffilmiau Cymreig
- Dysgu a defnyddio geirfa ac idiomau newydd

Cam 1 – Adolygu Uned 19

Casglwch luniau o bapurau newydd neu o'r we sy'n cynrychioli storïau newyddion yr wythnos. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod popeth a wyddant am y stori. Os nad oes ganddynt syniad, rhaid trafod beth allai fod. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl. Yna, defnyddiwch y storïau i sbarduno gwaith cyfieithu i ymarfer y gwahaniaeth rhwng os ac a, e.e. os bydd llun chwaraeon gellid gofyn i'r dysgwyr gyfieithu, *If XX scores another try this season, he will break the club's record/The referee wasn't sure if it was a try at first.*

Cam 2 – Cyflwyno'r thema

I gyflwyno thema'r uned, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach, a gofynnwch iddynt sgwrsio gan ddefnyddio'r cwestiynau yn y blwch 'Siaradwch'. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Cam 3 – Ymarfer Pwyslais

Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am ffilm ar gyfer pob categori a nodir. Eglurwch y newid yn y frawddeg 'Mae Psycho yn ffilm arswyd' > 'Ffilm arswyd yw Psycho'. Gofynnwch iddyn nhw ymarfer gyda'u hansoddeiriau nhw.

Cam 4 – Gwyllo a Gwranddo

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer gwaith Gwyllo a Gwranddo. Chwaraewch y darn unwaith heb unrhyw dasg benodol. Ar ôl gwyllo yr eilwaith, gofynnwch am ffeithiau a ddeallwyd o'r clip - un ffaith gan bob person. Dylid chwarae'r darn fwy nag unwaith er mwyn i'r dysgwyr allu ateb yr holl gwestiynau yn y llyfr.

I gloi'r weithgaredd, gadewch i'r dysgwyr sgwrsio am unrhyw bwynt diddorol gododd yn y fideo.

Cam 5 – Ymarfer Y Frawddeg Bwysleisiol

I ymarfer y frawddeg bwysleisiol, darllenwch drwy'r Help Llaw, gan ymestyn ar yr egluro fel bo'r angen. Gwnewch gwestiwn 1 fel dosbarth, cyn gofyn i'r dysgwyr wneud cwestiynau 2 a 3 mewn paru.

Wedyn, trowch at y **ddeialog** sy'n cynnwys nifer o ymadroddion pwysleisiol. Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer darllen y ddeialog. Dylent wedyn danlinellu'r ymadroddion pwysleisiol. Ewch dros hyn fel dosbarth cyfan. Cymerwch ddwy frawddeg o'r ddeialog i'r dysgwyr eu personoli a'u cael ar eu traed yn rhannu eu brawddegau:

Bydda i'n mynd i wers ddringo ar nos Fawrth fel arfer. (Gellid gwneud hyn ddwywaith gyda'r dysgwyr yn dewis eu cyfnod amser yr ail dro.)

Mae'n gas gyda fi ffilmiau arswyd.

Y cam olaf yw'r **driliau**. Ceir un dril gyda chyfle i bersonoli ac un mecanyddol.

Cam 6 – Darllen a Siarad

Eglurwch fod y darn darllen yn ddarn o nofel a enillodd Wobr 2000 Gwasg Gomer am nofel gyntaf; a theitl Llyfr Cymraeg y Flwyddyn Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2001. Efallai y bydd diddordeb trafod gwobrau am lenyddiaeth.

Gofynnwch beth yw ystyr teitl y nofel, gan ofyn wedyn beth fydden nhw'n meddwl fyddai pwnc y nofel o glywed y teitl yn unig.

Darllenwch y darn yn uchel i'r dosbarth unwaith, gan ofyn i'r dysgwyr nodi unrhyw eirfa anghyfarwydd. Byddwch yn barod i ateb unrhyw gwestiynau am gynnwys y darn – yr eirfa a'r ystyr. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y darn yn dawel i'w hunain wedyn, cyn rhoi'r cyfle i barau ymarfer darllen gyda'i gilydd.

Fel cam olaf, gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r darn wrth eu partner, er mwyn cadarnhau dealltwriaeth.

Cam 7 – Ymarfer Pwyslais

Eglurwch y newid yn y brawddegau a rhowch y dysgwyr ar waith i gwblhau gweddill yr ymarfer yn barau.

Cam 8 – Darllen a Siarad

Eglurwch fod y darn darllen yn dod o Gwyddoniadur Cymru yr Academi Gymreig gan nodi fod y cyfeirlyfr hwn yn ddefnyddiol iawn i ddysgu mwy am Gymru a'i diwylliant.

Dilynwch y canllawiau ar gyfer Darllen. Gadewch i'r dysgwyr weithio mewn parau i gwblhau'r ymarfer, sy'n cyfuno profi dealltwriaeth o'r darn a chynnwys yr wybodaeth honno mewn brawddegau pwysleisiol.

Mae'r cwestiynau yn y blwch Siarad yn deillio o'r darn darllen.

Cam 9 – Gwyllo a Gwranddo

Gwylwch y clip fideo o loan Gruffydd yn cael cyfweiliad ar raglen 'Heno' ym 1998. Gwylwch y clip unwaith heb osod tasg. Rhowch gyfle i'r dysgwyr edrych dros y brawddegau i'w cwblhau yn y llyfr cyn gwyllo yr eildro. Gwylwch y clip unwaith eto os na fydd pob un wedi llwyddo i gwblhau eu brawddegau ar yr ail dro. Holwch am adborth, gan nodi unrhyw eirfa fel bo'r angen ar y bwrdd gwyn.

Cam 10 – Gweithgaredd Cloi

Os oes amser ar ddiwedd y wers, gallech roi cyfle i'r dysgwyr weithio mewn timau i ddweud cymaint â phosib o ansoddeiriau i ddisgrifio sinema, e.e. modern, cyffyrddus.

Efallai gellid rhoi gwobr fath i'r tîm sy'n llwyddo i nodi'r nifer uchaf o eiriau.

Cam 11 – Geirfa Uned 21

Cam 12 - Crynhoi

Cyfeiriwch at y Gwaith Cartref a gofynnwch i'r dysgwyr grynhai cynnwys y wers, gan lenwi unrhyw fylchau yn ôl yr angen.

Uned 21 – Kate Roberts

Cam 1 – Sgwrsio cychwynnol

Defnyddiwch un o'r cardiau dadl i sbarduno sgwrsio cychwynnol.

Cam 2 – Adolygu Uned 20: Brawddegau pwysleisiol

I adolygu'r uned flaenorol ac i gyflwyno thema'r uned, ceir cyfres o ffeithiau am Kate Roberts. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen y ffeithiau gyda phartner, a phwysleisio'r elfennau sydd wedi'u tanlinellu, fel a ganlyn:

Ganwyd Kate Roberts yn 1891.

Yn 1891 ganwyd Kate Roberts.

Cafodd hi ei magu mewn bwthyn o'r enw Cae'r Gors yn Rhosgadfan.

Mewn bwthyn o'r enw Cae'r Gors yn Rhosgadfan cafodd hi ei magu.

Mae Rhosgadfan yn bentref bach ger Caernarfon, Gwynedd.

Pentref bach ger Caernarfon, Gwynedd, yw Rhosgadfan.

Roedd ei thad yn chwarelwr.

Chwarelwr oedd ei thad.

Astudiodd y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor rhwng 1910 ac 1913.

Rhwng 1910 ac 1913 astudiodd y Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor.

Ei swydd gyntaf oedd dysgu yn Ysgol Elfennol Dolbadarn.

Dysgu yn Ysgol Elfennol Dolbadarn oedd ei swydd gyntaf.

Enw ei chyfrol gyntaf o storïau oedd O Gors y Bryniau, a gyhoeddwyd yn 1925.

O Gors y Bryniau oedd enw ei chyfrol gyntaf o storïau, a gyhoeddwyd yn 1925.

Priododd Kate Morris T. Williams, argraffydd, yn 1928.

Yn 1928 priododd Kate Morris T Williams, argraffydd.

Roedd Kate a Morris yn rhedeg Gwasg Gee gyda'i gilydd yn Ninbych.

Yn Ninbych roedd Kate a Morris yn rhedeg Gwasg Gee gyda'i gilydd.

Ysgrifennodd Kate Roberts chwe nofel, ac mae hi'n enwog am ei storïau byrion yn bennaf.

Chwe nofel a ysgrifennodd Kate Roberts, ac mae hi'n enwog am ei storïau byrion yn bennaf.

Yn bennaf, mae Kate Roberts yn enwog am ei storïau byrion, ac ysgrifennodd chwe nofel.

Mae'r nofel Traed Mewn Cyffion wedi ei throï'n gyfres deledu.

Y nofel Traed Mewn Cyffion sydd wedi'i throï'n gyfres deledu.

Cam 3 – Gwyllo a gwrando: Cae'r Gors

Fideo am gartref Kate Roberts yn Rhosgadfan yw'r dasg Gwyllo a gwrando.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando.

Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r eirfa yn eu gwerslyfrau pan fyddant yn ei chlywed.

Dyma sgript y fideo:

Cae'r Gors

Tyddyn bach yn Rhosgadfan ger Caernarfon ydy Cae'r Gors. Symudodd Kate Roberts a'i theulu i fyw yma pan oedd hi'n bedair oed. Hwn oedd ei chartref tan iddi fynd i'r Brifysgol ym Mangor pan oedd hi'n ddeunaw oed.

Tyddyn chwarelwr **nodweddiadol** ydy Cae'r Gors, efo ychydig o dir i gadw anifeiliaid. Mae cwt mochyn yma hefyd.

Codwyd llawer o dyddynnod fel hyn gan chwarelwyr oedd yn gweithio yn chwareli'r ardal, sef Cors y Bryniau, Moel Tryfan, Braich a Cilgwyn.

Roedd gwraig y chwarelwr yn gweithio'n galed hefyd. Roedd rhaid bwydo'r anifeiliaid, trin y tir, paratoi bwyd, gofalu am y plant a chadw'r cartref yn lân ac yn daclus. Roedd gwaith tŷ dipyn yn galetach bryd hynny. Mae llawer o storïau Kate Roberts yn dangos mor anodd oedd bywyd i deuluoedd yr ardal hon – yn enwedig i'r mamau.

Yn 1967, rhoddwyd Cae'r Gors yn anrheg i'r genedl gan Kate Roberts. Ond, roedd angen codi swm mawr o arian i'w adnewyddu, felly chafodd o ddim ei agor i'r cyhoedd tan 2007. Bellach, mae'r tu fewn wedi'i ail-greu fel y basai ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, pan oedd Kate Roberts yn byw yma.

Mi fedrwch chi ddysgu llawer amdani hi yn yr ystafell hon, lle mae gwybodaeth am ei bywyd, ei gwaith a'r gymdeithas a ddylanwadodd arni hi.

Roedd Kate Roberts yn treulio oriau maith yn chwarae y tu allan, a'r profiadau hynny wnaeth ysbrydoli ei gwaith enwocaf. Mae storïau fel Te yn y Grug yn edrych yn ôl yn **hiraethus** ar ei phlentyndod, a'r rhyddid a gafodd hi yn y brynau o gwmpas Cae'r Gors.

Er bod pentref Rhosgadfan wedi newid tipyn ers dyddiau Kate Roberts, mae golygfeydd bendigedig yma o hyd. Mae'n hawdd gweld pam mae byd natur yn rhan mor bwysig o'i gwaith.

Yn ogystal â'r tyddyn, mae neuadd gymunedol fan hyn i gynnal pob math o weithgareddau.

Mae'n werth ymweld â'r tyddyn arbennig hwn i ddysgu am yr amgylchedd a'r profiadau a **ffurfiodd** gymeriad Kate Roberts, ac a ysbrydolodd ei **champweithiau**.

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth am y pynciau y gwर्सlyfrau, ac unrhyw beth arall a fydd wedi codi wrth wyllo'r fideo.

Cam 4 – Ymarfer *hwn, hon, hyn, y rhain / hwnnw, honno, hynny, y rheini*.

Nid oes adran Help llaw yn yr uned hon gan nad oes rheolau na phatrymau newydd yn yr uned. Felly, cyn gwneud yr ymarferion yn y gwर्सlyfr, gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi'r rheolau eu hunain, mewn grwpiau neu barau, ac adrodd yn ôl i weddill y dosbarth.

Yna, gofynnwch iddynt weithio mewn parau i wneud y tasgau yn eu gwर्सlyfrau, sef creu brawddegau sy'n cynnwys ***hwn, hon, hyn / hwnnw, honno, rheini, hynny***.

Cam 5 – Darllen 1: *Deian a Loli* gan Kate Roberts

Detholiad o'r nofel *Deian a Loli* yw'r darn darllen. Darn byr ydyw, ond efallai y bydd angen tipyn o gymorth ar y dysgwyr i ddeall hen eiriau a ffurfiau llenyddol.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Nid oes tasg i'w chwblhau ar y darn, dim ond cwestiynau i'w trafod, sef:

Ydych chi'n cofio eich diwrnod cyntaf chi yn yr ysgol?

Pwy oedd eich hoff athro neu athrawes yn yr ysgol gynradd?

Wrth feddwl am eich amser yn yr ysgol gynradd, pa wersi neu ddigwyddiadau sy wedi aros yn eich cof?

Gadewch i'r sgwrs ddatblygu'n naturiol; efallai y gallai'r dysgwyr feddwl am gwestiynau eraill yn seiliedig ar y darn.

Cam 6 – Gwyllo a gwrando 2: *Deian a Loli* ar y teledu

Cyfweliad â chynhyrchydd y rhaglen deledu *Deian a Loli* yw fideo Gwyllo a gwrando 2. Ceir rhannau o'r rhaglen deledu yn y fideo hefyd.

Efallai y bydd rhai o aelodau eich dosbarth yn rhieni i blant ifanc; gallai hyn fod yn gyfle i drafod rhaglenni Cyw a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg gyda phlant.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando.

Yn gyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r eirfa yn eu gwerslyfrau pan fyddant yn ei chlywed. Yna, gofynnwch iddynt ateb y cwestiynau eu gwerslyfrau. Dyma'r atebion:

1. Wrth wyllo'r fideo am y tro cyntaf, rhowch gylch o gwmpas y geiriau uchod pan fyddwch chi'n eu clywed nhw.

2. Pwy sy'n cael eu 'rhewi yn yr unfan' yn *Deian a Loli*?

Rhieni *Deian a Loli* sy'n cael eu rhewi (gyda'r gair hud, 'ribidirew').

3. Pa fath o blentyndod a gafodd Angharad Elen yn Llandwrog?

Cafodd hi lawer o ryddid. Roedd hi'n chwarae y tu allan o fore gwyn tan nos.

4. Beth sy'n ei phoeni am blant y dyddiau hyn?

Mae hi'n poeni bod plant yn treulio gormod o amser ynghlwm wrth declynnau.

5. Sut mae plant wedi ymateb i'r rhaglen?

Mae plant wedi ymateb yn wych i'r rhaglen. Mae hi'n cael llythyrau oddi wrth 'ffans' y rhaglen.

6. Mae Angharad Elen yn defnyddio llawer o idiomau ac ymadroddion diddorol.

Gyda'ch partner, ceisiwch feddwl am esboniad (yn Gymraeg) i bob un.

Atebion posib:

o fore gwyn tan nos

trwy'r dydd, yn gynnar yn y bore tan nos.

yn fwyfwy **ymwybodol**

yn fwy ymwybodol drwy'r amser, sylweddoli rhywbeth yn fwy.

rheoli eu ffawd eu hunain

rheoli beth sy'n mynd i ddigwydd iddyn nhw, penderfynu beth maen nhw'n wneud.

yn is-ymwybodol

gwybodaeth, atgof neu deimlad y tu mewn i chi, ond efallai nad ydych chi'n sylweddoli ei fod yno.

testun balchder

rhywbeth sy'n gwneud i chi deimlo'n falch.

Allwch chi feddwl am unrhyw eiriau sy'n gysylltiedig ag ymwybodol a ffawd? Nodwch nhw yn y blwch.

Atebion posib y gallech chi eu cynnig a'u trafod gyda'r dosbarth:

gwybod, gwybodaeth, ymwybod, anwybodaeth, Technoleg Gwybodaeth, llinell wybodaeth, pecyn gwybodaeth.

olwyn ffawd, ffawdelw, ffawdheglu, anffawd, anffodus, ffodus, ffodusion.

I gloi, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau a geir yn y gwerslyfr, ac unrhyw beth arall a fydd wedi codi wrth wyllo'r fideo.

Cam 7 – Darllen 2: Rhigolau Bywyd gan Kate Roberts

Rhan o'r stori Rhigolau Bywyd gan Kate Roberts yw'r ail ddarn darllen. Cyn mynd ati i ddarllen y darn, edrychwch ar yr enghreifftiau o'r amherffraith cryno ynddo. Esboniwch nad oes rhaid iddynt ddysgu'r ffurfiau hynny eto (fe'u dysgir ar lefel Uwch 3), ond da o beth fyddai meithrin dealltwriaeth oddefol ohonynt oherwydd eu bod yn ymddangos yn gyson mewn llenyddiaeth Gymraeg (hen a newydd).

clywai (x2) - roedd e/hi yn clywed
âi - roedd e/hi yn mynd
gwrandawai – roedd e/hi yn gwrandao

siaradent - roedden nhw'n siarad
edrychai – roedd e/hi yn edrych

Yna, defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Darllen wrth gyflwyno'r darn.

Dyma atebion y tasgau sy'n seiliedig ar y darn.

1. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn yn y darn?

- 6 Mae Dafydd Gruffydd yn codi am 6.00 i fynd i weithio yn y chwarel.
- 70 Mae pen-blwydd Dafydd Gruffydd yn saith deg oed (deg a thrigain oed).
- 8 Mae Beti yn torri wyth sleisen o fara.
- 32 Mae Dafydd wedi cwrdd â Twm Min y Ffordd bob dydd ers tri deg dwy o flynyddoedd (deuddeg mlynedd ar hugain).

2. Ystyr 'talcen' yw forehead, ond mae 'talcen y tŷ' (fel sydd yn y stori yma) yn golygu ochr neu ben y tŷ lle mae'r wal a'r to yn gwneud siâp triongl. Dyma enghreifftiau eraill o ymadroddion sy'n cynnwys 'talcen':

talcen glo	coalface
ei bwrw yn ei thalcen	to hit the nail on the head
talcen caled	gwaith caled, heb lawer o obaith llwyddo
talcen slip	cyffredin iawn, gwael
yfed (diod) ar ei dalcen	to down in one gulp

Gyda'ch partner, dewiswch ddau o'r ymadroddion uchod, a gwnewch frawddegau gyda nhw.

Mae croeso i'r dysgwyr wneud y dasg hon mewn grwpiau. Esboniwch wrthynt fod 'talcen slip' yn cael ei ddefnyddio gan amlaf yng nghyd-destun barddoniaeth ('bardd talcen slip').

3. Mae'r Gymraeg wedi newid ers cyhoeddi'r stori hon yn 1929. Ceisiwch ddod o hyd i eiriau yn y darn darllen sy'n cyfateb i'r geiriau yn y tabl.

Cymraeg diweddar	1929	Cymraeg diweddar	1929
menyn	ymenyn	nhw	hwynt
gwneud	gwneuthur	roedd	Yr oedd
Trodd/troiodd	troes	rhoddodd/rhoiodd	rhoes

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau yn y gwerslyfr, ac unrhyw beth arall a fydd wedi codi wrth ddarllen y darn.

Cam 8 – Gwyllo a gwrando 3: Mewn Cymeriad, Kate Roberts

Ceir darn Gwyllo a gwrando ychydig yn wahanol i'r arfer, sef golygfeydd o'r ddrama Mewn Cymeriad am Kate Roberts, wedi'u perfformio gan Carys Gwilym.

Nid oes geirfa ar gyfer y dasg oherwydd y byddai'n rhestr hir! Dylid annog y dysgwyr i fwynhau'r perfformiad, a pheidio â phoeni am ddeall pob gair. Mae'r dasg sy'n seiliedig ar y fideo yn syml iawn.

Ar ôl iddynt wylïo'r fideo, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru, i ddarllen y ffeithiau yn eu gwerslyfrau am Kate Roberts. Mae wyth ffaith yn gywir, a dwy yn anghywir. Rhaid iddynt benderfynu pa rai sy'n anghywir trwy roi **X** neu **✓** yn y blychau. Dyma'r atebion:

Ffeithiau am Kate Roberts	Cywir?
1. Roedd dau o frodyr Kate Roberts wedi gorfod ymuno â'r fyddin.	✓
2. Clwyfwyd Evan, ei brawd, yn y Somme.	✓
3. Un deg naw oedd oedd Dei, ei brawd, pan gafodd ei ladd.	✓
4. Dechreuodd Kate Roberts ysgrifennu ar ôl marwolaeth Dei. Roedd yn rhaid iddi ysgrifennu 'rhag mygu' (to prevent myself from suffocating).	✓
5. Yn Traed Mewn Cyffion, roedd hi'n benderfynol o ddisgrifio effaith "llanastr y rhyfel" ar deulu cyffredin.	✓
6. Cwrddodd hi â Morris T. Williams ar drên.	✓
7. Roedd Morris yn dod o Aberdâr. Nac oedd – roedd yn dod o'r Groeslon yn Arfon.	X
8. Y cyfnod ar ôl marwolaeth Morris oedd cyfnod mwyaf cynhyrchiol Kate Roberts.	✓
9. Cyhoeddwyd Te yn y Grug yn 1960. Naddo – cafodd ei chyhoeddi yn 1959.	X
10. Yn yr un flwyddyn â chyhoeddi Te yn y Grug, colodd Kate Roberts aelod olaf ei theulu.	✓

Ar ôl iddynt gwblhau'r dasg, trafodwch y fideo, e.e.:

Pa fath o gymeriad oedd Kate Roberts yn eu barn nhw?

(Yn y fideo, mae hi'n sôn ei bod yn groendenau ac yn sensitif iawn).

Beth ydyn ni'n ei ddysgu am Morris T. Williams yn y fideo?

(Mae awgrym ei fod mewn perthynas â Prosser Rhys).

Sut mae Kate Roberts yn teimlo wrth siarad ar ddiwedd ei hoes?

(Mae hi'n teimlo'n ddigalon, oherwydd mai dim ond hi sydd ar ôl o deulu Cae'r Gors).

Efallai y bydd y fideo wedi sbarduno sgwrs ar drywydd gwahanol; os felly, gadewch i'r dosbarth sgwrsio'n rhydd.

Cam 9 - Geirfa

Ewch dros eirfa Uned 22, gan ofyn i'r dysgwr ymglyfarwyddo â'r geiriau newydd cyn cychwyn y gwaith ar yr uned.

Adolygu Uned 21, Uwch 1 (yr amodol cryno)

Ceir isod gyfres o ddriliau er mwyn atgyfnerthu ffurfiau'r amodol cryno. Mae'r dril cyntaf hefyd yn adolygu ansoddeiriau a'r trydydd dril yn adolygu'r cymal enwol.

De Cymru

Ydy'ch dillad chi'n wlyb?

Gallen nhw fod yn wlypach.

Ydy'ch cot chi'n wlyb?

Ydy'ch cot chi'n drwm?

Ydy'ch bag chi'n drwm?

Ydy'ch llyfrau chi'n drwm?

Ydy'ch llyfrau chi'n dda?

Ydy'ch tiwtor chi'n dda?

Gallwn i fynd am wythnos.

Trueni na allet ti fynd am bythefnos.

Gallwn i ddod nos yfory.

Gallwn i fenthyg dwy bunt i ti.

Gallwn i fynd â chi hanner ffordd.

Dych chi ddim yn gwastraffu fy amser i.

Hoffwn i ddim meddwl fy mod i.

Dyw eich pethau chi ddim yn y ffordd.

Dyw'r sŵn ddim yn poeni dim arna i.

Dych chi ddim wedi fy rhwystro i.

Gogledd Cymru

Ydy'ch dillad chi'n wlyb?

Mi fedren nhw fod yn wlypach.

Ydy'ch cot chi'n wlyb?

Ydy'ch cot chi'n drwm?

Ydy'ch bag chi'n drwm?

Ydy'ch llyfrau chi'n drwm?

Ydy'ch llyfrau chi'n dda?

Ydy'ch tiwtor chi'n dda?

Mi fedrwn i fynd am wythnos.

Bechod na fedret ti fynd am bythefnos.

Mi fedrwn i ddŵad nos yfory.

Mi fedrwn i fenthyg dwy bunt i ti.

Mi fedrwn i fynd â chi hanner ffordd.

Dach chi ddim yn gwastraffu fy amser i.

Liciwn i ddim meddwl mod i.

Dydy eich pethau chi ddim yn y ffordd.

Dydy'r sŵn ddim yn poeni dim arno i.

Dach chi ddim wedi fy rhwystro i.

Uned 22 – Ofergoelion

Cam 1 – Sgwrsio Cychwynnol

Trafodwch agwedd ar y newyddion.

Cam 2 – Adolygu Uned 21

I adolygu Uned 21 (hwn, hon, hyn ac ati), gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau. Rhaid iddynt lenwi'r bylchau â'r geiriau cywir. Dyma'r atebion.

1. Roedd drych yn arfer bod ar y wal, fan **hyn**. Torrais i'r drych **hwnnw** a chael saith mlynedd o anlwc.
2. Y dyddiau **hyn**, does dim llawer o bobl yn credu mewn ofergoelion.
3. Alla i ddim gwisgo'r siaced **hon/honno**, mae'n anlwcus!
4. Ar y dydd **hwn**, sef dydd Gwener y trydydd ar ddeg, mae llawer o bethau anlwcus yn digwydd i mi bob blwyddyn!
5. Cathod du yn lwcus? Dydw i ddim yn credu **hynny** o gwbl.
6. Mae'r **rhain** yn sanau lwcus – paid â'u rhoi nhw yn y bin!
7. Y gath ddu **hon/honno** yw fy ffrind gorau. Bydd hi bob amser yn dod â lwc i mi.

Cam 3 – Cyflwyno'r thema (Ofergoelion) a'r dyfodol arferiadol

Mae thema'r uned yn cyd-fynd â'r gwaith iaith, sef y dyfodol arferiadol, oherwydd bod trafod arferion a chredoau yn arwain yn naturiol at y patrwm hwnnw.

Mae'n bosib y bydd y rhan fwyaf o'r dosbarth yn credu mai dwli llwyr yw ofergoelion, ond dylai'r thema sbarduno digon o sgwrsio, gan fod pawb, fwy na thebyg, yn adnabod pobl ofergoelus. Bydd esbonio eu gwrthwynebiad i ofergoelion hefyd yn annog dysgwyr i ddefnyddio amrywiaeth o batrymau ieithyddol.

Mae'n bosib hefyd y bydd rhai aelodau o'r dosbarth yn teimlo'n anghyfforddus wrth drafod y thema hon am resymau crefyddol. Dylid trafod cynnwys yr uned yn y wers flaenorol, i'w rhybuddio rhag ofn bod ganddynt wrthwynebiad cryf iddi. Gellid hefyd newid trywydd y sgysiau a chanolbwyntio ar arferion pob dydd yn hytrach nag ofergoelion.

Yn gyntaf, ceir darn i'w ddarllen yn uchel. Gofynnwch i'r dosbarth weithio mewn parau i wneud hyn. Yna, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau a geir yn y gwerslyfrau.

Pan fydd y dosbarth wedi cael digon o gyfle i drafod y cwestiynau, trowch yn ôl at y darn darllen a thrafodwch y defnydd o ferfau amser dyfodol ynddo. A yw'r person yn siarad am y dyfodol? Esboniwch fod berfau amser dyfodol yn cael eu defnyddio'n helaeth ar lafar wrth drafod arferion a bywyd bob dydd. Ceir esboniad ac enghreifftiau yn yr adran Help llaw i helpu'r dysgwyr. Cofiwch bwysleisio nad oes rhaid defnyddio'r dyfodol arferiadol yn y modd hwn, a bod defnyddio'r amser presennol yn gywir hefyd.

I ymarfer y patrwm, gofynnwch i'r dysgwyr wneud y dril sydd yn eu gwerslyfrau gyda phartner, gan newid y geiriau wedi'u tanlinellu wrth wneud y dril am yr eildro.

Dw i'n hoffi pysgota...	ond fydda i ddim yn <u>dal llawer o bysgod</u> .
Rwyf ti'n hoffi coginio...	ond fyddi di byth yn <u>glanhau/llnau ar dy ôl</u> .
Mae Jac yn hoffi rhedeg..	ond fydd e/o byth yn <u>rhedeg rasmus</u> .
Mae Elan yn hoffi canu...	ond fydd hi byth yn <u>canu karaoke</u> .
'Dyn/Dan ni'n hoffi gwersylla...	ond fyddwn ni byth yn <u>gwersylla mewn tywydd gwael</u> .
Dych/Dach chi'n hoffi siopa...	ond fyddwch chi byth yn <u>prynu unrhyw beth defnyddiol</u> .

Wedi hynny, gofynnwch i'r dysgwyr godi ar eu traed a chrwydro o gwmpas y dosbarth i ofyn y cwestiwn yn eu gwerslyfrau i bawb:

"Beth fyddwch chi'n ei wneud yn aml?" Rhaid i bawb ddweud tri pheth, gan ymarfer ffurfiau'r dyfodol wrth ateb. Dylid nodi'r atebion yn y tabl yn eu gwerslyfrau.

Cam 4 – Darllen 1 – Ofergoelion

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Os oedd yr ymarfer darllen yn uchel ar ddechrau'r uned yn fuddiol yn eich barn chi, gellid gofyn i'r dysgwyr ddarllen y darn hwn yn uchel hefyd, oherwydd ei fod yn fyr a'r arddull yn naturiol ac yn sgrysiol.

Yna, ar ôl trafod cynnwys y darn (mewn grwpiau neu fel dosbarth), gofynnwch iddynt gysylltu'r geiriau yn eu gwerslyfrau â'r diffiniadau cywir, sef:

darfod	ddim yn deall pethau
anwybodus	darnau bach iawn, iawn
defod	dod i ben
gronynnau	ddim yn gyfforddus mewn sefyllfa
anniddig	seremoni

Wedi hynny, trowch at y darluniau o ofergoelion yn y gwerslyfrau. Trafodwch yr ofergoelion hynny (mewn parau, grwpiau neu fel dosbarth). Wedyn, gofynnwch iddynt sôn am dair ofergoel arall.

Cam 5 – Gwyllo a gwrando – Fideo ofergoelion

Bydd y dysgwyr yn gwyllo saith o bobl yn siarad am ofergoelion.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwyllo a gwrando. Wrth wyllo am y tro cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr roi cylch o gwmpas yr eirfa yn eu gwerslyfrau. Esboniwch fod mwy nag un person yn dweud 'ystol' yn lle 'ysgol' (i olygu *ladder*) fel sy'n gyffredin yn y gogledd.

Dyma atebion y cwestiynau.

1. Mae **Alun Jones** yn dweud ei fod yn arfer treulio oriau yn chwilio am fath arbennig o feillionen. Pa fath?

meillionen pedair deilen.

2. Mae **Huw Erith** yn sôn am ddau beth sy'n anlwcus i gychod. Beth ydy'r pethau hyn?

1. Newid enw cwch

2. Bod yn berchen ar gwch du.

Ydy'r pethau uchod wedi dod ag anlwc i Huw Erith?

Nac ydyn. Mae Huw Erith wedi newid enw cwch achos ei fod yn Saesneg, ac wedi cael cwch du o'r enw Barti Ddu.

Pa liw oedd y cwch wnaeth droi drosodd?

Gwyn.

3. Dydy **Hafwen Dorkins** ddim yn ofergoelus, ond mae hi'n sôn am ddwy ofergoel. Beth ydyn nhw?

1. Cerdded o dan ysgolion.
2. Cerdded o gwmpas coeden dair gwaith.

4. Mae **Gwenda Parry** ychydig bach yn ofergoelus. Gwrandewch yn astud arni hi, a llenwch y bylchau:

"Wna i ddim cerdded o dan ystol. Mi fydda i'n meddwl, os bydd 'na gath ddu yn croesi'r ffordd o 'mlaen i, mae hynny'n lwcus. Dim rhoi esgidiau ar y bwrdd."

5. Mae **Rhian Morgan** yn sôn am ofergoel rhywun arall. Pwy?

Ofergoel ei mam-gu.

6. Beth oedd "ddim yn **dderbyniol**" yng nghartref **Mari Grug**?

Rhoi esgidiau ar y bwrdd.

7. Gwrandewch yn astud ar Aneirin Karadog, a llenwch y bylchau isod:

"Dw i ddim yn hoffi pasio pobl wrth gerdded lan y stâr. Bydda i'n trio osgoi mynd o dan ysgol. Os oes cath ddu yn dod o 'mlaen i ar y llwybr, bydda i'n teimlo'n lwcus. Os dw i wedi cael llwyddiant yn 'neud rhywbeth gyda rhyw ddilledyn, bydda i'n trio gwisgo'r un dilledyn eto os dw i'n moy'n llwyddo eto."

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau yn y gwर्सlyfr, ac unrhyw beth arall a fydd yn codi wrth wyllo'r fideo.

Cam 6 – Darllen 2

'Carreg â thwll' o'r gyfrol Hen Gof gan T. Llew Jones

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen.

Mae'r darn darllen yn fyr, ond yn cynnwys llawer o eirfa a ffurfiau berfol anodd, felly sicrhewch bod y dysgwyr yn ei ddeall cyn gofyn iddynt wneud y tasgau.

Dyma atebion y tasgau.

1. Mae'r darn yma'n cynnwys dwy ferf amhersonol sy'n gorffen ag -id, sef

cyfrifid

cedwid (fe gedwid)

Beth yw'r **berfenwau**? cyfrif / cyfri cadw

Mae'r terfyniad **-id** yn cael ei ddefnyddio pan fyddwn ni'n sôn am rywbeth oedd yn arfer digwydd yn aml yn y gorffennol. Llenwch y tabl isod â'r ffurfiau cywir.

berfenw	amherffaith	gorffennol	presennol / dyfodol
cyfrif	cyfrifid	cyfrifwyd	cyfrifir
cadw	cedwid	cadwyd	cedwir
canfod	canfyddid	canfuwyd	canfyddir

2. Mae'r gair **llinyn** yn cael ei ddefnyddio mewn llawer o dermau ac ymadroddion Cymraeg, er enghraifft:

llinyn bogail	<i>umbilical chord</i>
rhoi/bwrw llinyn mesur ar rywun/rhywbeth	<i>to appraise, measure up</i> (yn ffigurol hefyd)
llinyn trôns	<i>twpsyn</i> (yn y gogledd)
cael deupen llinyn ynghyd	<i>to make both ends meet</i>
offeryn llinynnol	<i>string instrument</i>

Gyda'ch partner, dewiswch ddau o'r ymadroddion uchod, a gwnewch frawddeg gyda nhw. Dylid trafod pob term ac ymadrodd yn drylwyr cyn gofyn iddynt wneud y dasg hon, a gwirio pob ymateb.

3. Mae **wrth law** yn golygu bod rhywbeth yn gyfleus ac yn agos atoch chi. Gyda'ch partner, meddyliwch am ddau ymadrodd arall sy'n defnyddio **wrth**.

Atebion posib:

wrth gwrs, wrth ymyl, oddi wrth, wrth fy modd.

4. Mae'r darn yn sôn am 'ofni'r gwaethaf'. Ansoddair yn y radd eithaf yw gwaethaf. Llenwch y bylchau yn y tablau hyn.

cysefin	cyfartal	cymharol	y radd eithaf
gwael	cynddrwg â	gwaeth	gwaethaf
da	cystal â	gwell	gorau
mawr	cymaint â	mwyr	mwyaif
bach	cyn lleied â	llai	lleiaf

5. Roedd carreg â thwll yn cael ei defnyddio i amddiffyn anifeiliaid rhag niwed. Mae llawer o ferfenwau eraill yn defnyddio rhag.

Cyfieithwch:

to rescue from	<u>achub rhag</u>
to keep from	<u>cadw rhag</u>
to hide from	<u>cuddio rhag</u>
to escape from	<u>dianc rhag</u>
to shelter from	<u>cysgodi rhag</u>

Beth yw **in case** yn Gymraeg? rhag ofn

6. Edrychwch ar y geiriau 'pan fyddai'n gyfyng arnoch'. Beth dych chi'n feddwl yw ystyr

Mae'n gyfyng arna i o ran arian ar hyn o bryd.

Esboniad posib: does gen i ddim llawer o arian ar hyn o bryd / mae pethau'n dynn yn ariannol ar hyn o bryd / mae arian yn brin ar hyn o bryd / mae'n anodd cael deupen llinyn ynghyd ar hyn o bryd.

Mae'n gyfyng arna i o ran amser ar hyn o bryd.

Does gen i ddim llawer o amser ar hyn o bryd / dw i'n brysur iawn ar hyn o bryd / mae amser yn brin ar hyn o bryd.

Cam 7 – Geirfa

Ewch dros eirfa Uned 23, gan ofyn i'r dysgwr ymgyswrtu â'r geiriau newydd cyn cychwyn y gwaith ar yr uned.

Uned 22, Uwch 1 (byth ac erioed)

Ceir dau ddril ymatebol isod i ymarfer defnyddio byth ac erioed.

Mae e/o'n cynnig prynu brws paent i fi/mi.

Ond fyddwch chi byth yn peintio.

Mae e/o'n cynnig prynu dillad chwaraeon i fi/mi.

Mae e/o'n cynnig prynu cloc larwm i fi/mi.

Mae e/o'n cynnig prynu tocyn awyren i fi/mi.

Mae e/o'n cynnig prynu ffwrn/popti i fi/mi.

Mae e/o'n cynnig prynu llyfr ryseitiau i fi/mi.

Mae e/o'n cynnig prynu camera i fi/mi.

Mae e/o'n cynnig prynu pabell i fi/mi.

Does dim brws paent yn y tŷ 'ma.

Nac oes, achos dwyt ti erioed wedi peintio o'r blaen.

Does dim haearn yn y tŷ 'ma.

Does dim blawd codi yn y tŷ 'ma.

Does dim fâs yn y tŷ 'ma.

Does dim sieri yn y tŷ 'ma.

Uned 23 – Canllaw i'r Tiwtor

Thema'r uned – Enwogion o Fri (Cymry enwog)

Uned adolygu yw hon ac mae'n cynnwys gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i adolygu patrymau iaith sydd wedi cael sylw dros yr unedau blaenorol ac yn ail-ymweld â rhai o'r eitemau geirfa ac idiomau a gododd yn yr unedau hynny. Os oes modd gwneud hynny, trefnwch i berson enwog lleol ddod i ymweld â'r dosbarth canlynol, neu drefnu cyfle arall rywsut i'r dosbarth gwrdd â pherson enwog a'i holi. Efallai y gellir gwneud hynny mewn digwyddiad lleol, neu trwy drefniant ar y cyd rhwng nifer o ddosbarthiadau trwy'ch darparwr. Mae cyfle yn y gwaith cartref i baratoi cwestiynau ar gyfer cyfarfod o'r fath os oes modd trefnu.

Cam 1 – Gwaith llafar cychwynnol

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod storïau yn y newyddion sy'n cynnwys pobl enwog ar hyn o bryd (does dim angen cyfyngu'r gweithgaredd hwn i Gymry). Gellid mynd â lluniau i gynrychioli'r storïau hyn. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Cam 2 – Llenwi bylchau (a, os, bod neu mai/taw)

Rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch i bob pâr fynd trwy'r brawddegau gan lenwi'r bylchau gydag 'a', 'os', 'bod' neu 'mai/taw'. Wedi i'r parau gael cyfle i gwblhau'r ymarfer, ewch dros yr atebion gyda'r dosbarth cyfan, gan drafod ac esbonio yn ôl yr angen.

Dyma'r atebion cywir:

1. Yn ôl yr hen ofergoel, daw lwc i chi os dewch chi o hyd i feillionen pedair deilen.
2. Bydd y pêl-droediwr Gafyn Pêl yn cael gwybod heddiw a yw'r anaf i'w goes wedi gwella digon iddo allu chwarae dros Gymru nos Wener.
3. Maen nhw'n dweud mai/taw Catrin Lloyd fydd yn cael rhan y prif gymeriad yn y pantomeim yn Theatr Llanaber eleni.
4. Roedd Siân yn siŵr bod ei merch fach wedi cael cam gan y beirniad yn yr eisteddfod gan mai/taw hi oedd yn haeddu'r wobwr gyntaf.
5. Wyt ti'n gwybod bod Alisha yn seiclo i'r gwaith bob dydd, boed law neu hindda?
6. Bydda i'n cerdded i'r siop i brynu bara ffres bob dydd os na fydd hi'n bwrw.
7. Hoffwn i wybod a gest ti dy addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.
8. Mae Mair yn gofyn a wnei di ei henwebu hi ar gyfer swydd y cadeirydd.
9. Beth am wahodd Bryn Terfel i ganu yn y cyngerdd? Os daw e, bydd y neuadd dan ei sang.
10. Dw i'n meddwl mai/taw rhaglen nos Sul ydy'r bennod olaf yn y gyfres, ond dw i ddim yn siŵr a fydd cyfres arall eto.

Cam 3 – Adolygu pwyslais

Ceir cyfres o gardiau yn Atodiad 1. Y cyfan mae'n rhaid i barau ei wneud yw trefnu'r cardiau mewn dwy golofn – brawddegau pwysleisiol a brawddegau heb bwyslais. Wrth fynd dros yr atebion, dylid gofyn i bobl ddarllen eu cardiau gan fod cryn dipyn o rifau yn y brawddegau, sy'n gallu bod yn heriol.

Er mwyn ymestyn y gweithgaredd, rhowch sylw i'r pedair brawddeg isod:

I gael 49, rhaid lluosu 7 a 7 - Gofynnwch i bawb feddwl am swm lluosu a byddant yn cerdded o gwmpas yn dweud, "I gael XX,..." Bydd rhaid i'r partner orffen y swm.

Mae adio 100 a 100 yn rhoi 200 - Eto, rhaid meddwl am swm ond un adio y tro hwn. Mae pawb yn crwydro gan ddweud, "Mae adio X a X", ac mae'r partner yn gorffen y swm.

Y farchnad da do ydy'r atyniad twristaidd mwyaf poblogaidd yn y dre - Rhaid i bawb greu brawddeg berthnasol am dre/dinas yn yr ardal a chymharu brawddegau wrth grwydro.

Buddsoddi yn ein pobl ifainc yw'r peth pwysicaf i unrhyw lywodraeth - Eto, rhaid iddynt feddwl beth yw'r peth pwysicaf yn eu barn nhw a chrwydro gan gyfnewid brawddegau.

Cam 4 – Adolygu geirfa (enwau a berfenwau)

Cyfeiriwch at y tabl sydd yn y llyfr cwrs a gofynnwch i barau lenwi'r bylchau yn y tabl gyda'r berfenwau sy'n deillio o'r enwau a roddir neu roi'r enwau ble mae'r berfenwau wedi'u rhoi. Eglurwch fod yr atebion oll yn eiriau sydd wedi codi yn y cwrs cyn hyn!

Dyma'r atebion cywir:

Enw	Berfenw
gwobr	gwobrwy
enwebiad	enwebu
gwir	gwireddu
portread	portreadu
cyflawniad	cyflawni
gwahoddiad	gwahodd
gwastraff	gwastraffu
triniaeth	trin
dialedd	dial
argoel	argoeli

Ewch dros yr atebion cyn gofyn i'r parau fynd ati i lenwi'r bylchau yn y brawddegau sy'n dilyn gyda geiriau o'r tabl. Ewch dros yr atebion gyda'r dosbarth cyfan, gan drafod ac esbonio yn ôl yr angen.

Dyma'r atebion

1. Cafodd Richard Burton ei enwebu am Oscar saith gwaith, ond wnaeth e erioed ennill un o'r tlysau aur.
2. Roedd portread Rhys Ifans o Ebenezer Scrooge yn A Christmas Carol yn fythgofiadwy.
3. Bydd Ceri Tomos yn gwireddu breuddwyd ddydd Sadwrn pan fydd yn chwarae dros Gymru am y tro cyntaf.
4. Mae'r staff yn meddwl mai gwastraff amser fydd cynlluniau y pennaeth newydd i newid yr ysgol.
5. Mae BAFTA Cymru yn falch o estyn gwahoddiad i chi i'w seremoni wobrwyo flynyddol a gynhelir yng Nghanolfan Mileniwm Cymru ar 14 Hydref.
6. Dywedodd y Prif Weinidog fod y Llywodraeth wedi cyflawni llawer dros y ddwy flynedd diwethaf.
7. Mae meddygon teulu wedi croesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru y bydd triniaeth newydd ar gael i gleifion canser.
8. Gyda llawer o chwaraewyr ifanc disglair yn gwneud eu marc, mae'n argoeli'n dda i dîm pêl-droed Cymru am y blynyddoedd nesaf.
9. Does dim pwrpas ceisio dial, er i chi gael eich trin yn annheg.

Cam 5 – Gwyllo a gwrando – enwogion o fri

Mae darn fideo'r uned yn dangos ymatebion nifer o bobl i ddau gwestiwn – “Pwy yw'r Cymro neu Gymraes enwocaf ar hyn o bryd?” a “Pwy yw'r Cymro neu Gymraes enwocaf mewn hanes?”.

1. Dangoswch y fideo i'r dosbarth unwaith ac yna rhannwch y dosbarth yn barau a gofyn iddynt helpu ei gilydd i gofio cymaint â phosib o'r enwau a roddwyd yn yr atebion a'u nodi yn eu llyfrau. Yna, gwiriwch gyda'r dosbarth cyfan bod yr enwau i gyd wedi eu nodi:

Shirley Bassey

Gareth Bale

Huw Edwards

Ioan Gruffydd

Matthew Rhys

Geraint Thomas

Aneurin Bevan

Twm Carnabwth

David Lloyd George

Owain Glyndŵr

Y Brenin Arthur

2. Gofynnwch i bob grŵp ddewis 5 o'r enwogion uchod a thrafod beth maen nhw'n ei wybod amdanynt. Gofynnwch iddynt nodi yn y tabl yn y llyfr cwrs ym mha faes mae pob un o'r pump yn enwog ac ysgrifennu nodiadau (byr) amdanynt – eu cefndir, beth maen nhw wedi'i gyflawni ac ati. Wedi iddynt wneud hynny, gofynnwch i ddysgwyr unigol, yn eu tro, gyflwyno gwahanol rai o blith yr enwogion a enwyd i weddill y dosbarth. Os bydd unrhyw un o'r rhestr heb ei drafod, gallwch chi roi brawddeg neu ddwy o gyflwyniad iddynt.

Cam 6 – Siarad – 100 o Arwyr Cymru

Darllenwch yr wybodaeth gefndir a roddir ynglŷn â rhestr 100 o Arwyr Cymru, yna rhannwch y dosbarth yn grwpiau o 3 neu'n barau a gofyn iddynt drafod yr enwogion oedd yn y 10 uchaf a'u gosod yn y drefn y bydden nhw'n tybio yr oeddent wedi eu gosod yn y rhestr a gyhoeddwyd. Wedi iddynt gael cyfle i wneud hynny, rhowch wybod iddynt beth oedd y drefn (gallwch wneud hynny ar ffurf siart, gan gyfrif i lawr o rif 10 i rif 1!). Dyma'r atebion yn eu trefn:

1. Aneurin Bevan
2. Owain Glyndŵr
3. Tom Jones
4. Gwynfor Evans
5. Richard Burton
6. Gareth Edwards
7. Dylan Thomas
8. David Lloyd George
9. Robert Owen
10. Saunders Lewis

Wedi rhoi'r siart yn ei threfn, cyfeiriwch eto at y testun yn yr uned sy'n sôn am y trafod a'r anghytuno fu ynghylch ffurfio'r rhestr. Gallech ofyn a yw'r dosbarth yn meddwl y byddai'n fwy tebygol y byddai merched yn y deg uchaf mewn rhestr fel hon petai'n cael ei llunio heddiw.

Cyfeiriwch eto at awgrym Lyn Ebenezer ynglŷn â'r tair ffordd bosibl i ystyried arolygon o'r fath ac yna cyflwynwch y cwestiynau trafod a rhannu'r dysgwyr yn grwpiau bach i drafod eu hymatebion i'r cwestiynau hynny. Gwrandewch am gyfraniadau arbennig o ddifyr i'r sgysiau ac wedi i'r grwpiau gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am yr elfennau difyr oedd wedi codi.

Cam 7 – Darllen - ‘Sylw hunllefus’ y wasg

Ewch dros yr eitemau yng ngeirfa'r uned sydd yn codi yn yr erthygl am Rhys Ifans: awydd, llysgennad, clustfeinio, ymdopi, credinol, enbyd, anghyfreithlon, a celwydd noeth. Holwch hefyd a ydynt yn cofio ystyr 'hunllefus' (sydd wedi codi mewn uned flaenorol yn y cwrs) a 'cyfaddef' (a gododd yng nghwrs Uwch 1).

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer Darllen a rhowch y gweithgareddau ar waith.

Cam 8 – Gwaith Cartref

Ewch dros y cwestiynau gwaith cartref. Os oes modd i chi drefnu bod y dosbarth yn cwrdd â pherson enwog yn y dosbarth canlynol neu'n fuan wedyn, rhowch ychydig o wybodaeth gefndir a gofynnwch iddynt chwilio am ragor o wybodaeth amdani/ amdano. Wedyn, dylent baratoi'r cwestiynau yn ail ran y gwaith cartref ar gyfer y person hwnnw a gadael trydedd ran y gwaith cartref tan ar ôl iddynt gwrdd â'r person.

Cam 9 - Geirfa Uned 24

Uned 23, Atodiad 1

I gael 49, rhaid lluosu 7 a 7.
Mae adio 100 a 100 yn rhoi 200.
Cyrhaeddodd yr albwm rif 3 yn y siartiau.
Yn yr ail le gorffennodd pencampwr y llynedd.
Mae 7 amgueddfa yn rhan o Amgueddfa Cymru.
Y Louvre yw'r amgueddfa fwyaf yn y byd.
Mae'r nifer sy'n bresennol yn amrywio rhwng 10 a 15.
Rhwng 15 a 30 sy'n bresennol yn y cyfarfodydd fel arfer.
Bydd y brifysgol yn gofyn am 3 B mewn arholiadau safon uwch ar gyfartaledd.
3 A sydd angen i fynd i'r brifysgol honno.
Basai 3 o ysgolion y sir yn hoffi arloesi trwy ddefnyddio'r cwricwlwm newydd.
12 ysgol gynradd fydd yn cael eu harolygu eleni.
Y farchnad dan do ydy'r atyniad twristaidd mwyaf poblogaidd yn y dref.
Mae miloedd o bobl yn cael eu denu i'r dref i brynu cynnyrch lleol yn y farchnad dan do.
Mae'r cwmni wedi gwneud colled ariannol yn dilyn buddsoddi miliynau mewn adeiladau newydd.
Buddsoddi yn ein pobl ifainc yw'r peth pwysicaf i unrhyw lywodraeth.
Dim ond un fuddugoliaeth arall sydd ei hangen ar y tîm a byddan nhw'n ddiogel am dymor arall.
Fydd dim rhaid i'r tîm ennill gêm olaf y tymor i aros yng nghynghrair Cymru y tymor nesaf.
Diffyg dyfarnwyr oedd un o'r anawsterau mwyaf y tymor diwethaf.
Doedd dim digon o ddyfarnwyr y tymor diwethaf ac roedd rhaid gohirio nifer o gemau.
Nid yng Nghaerdydd bydd y gêm yn cael ei chwarae y tro hwn.
Does dim amheuaeth am ganlyniad y gêm.

Uned 24 – Canllaw i'r Tiwtor

Nid oes gwaith adolygu ar ddechrau'r uned oherwydd mai uned adolygu oedd yr uned flaenorol.

Cam 1 – Sgwrsio Cychwynnol

Defnyddiwch un o'r cardiau dadl i sbarduno siarad cychwynnol.

Cam 2 – Deialog 'mae' ac 'ydy' a thrafod y defnydd o 'mae' ac 'ydy'

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru i ddarllen y ddeialog yn eu gwrslyfrau, sy'n ymarfer y defnydd o 'mae' ac 'ydy'. Sicrhewch eu bod yn dewis y fersiwn fwyaf addas iddynt (de/gogledd).

Ar ôl iddynt gael cyfle i ddarllen y ddwy ran, trafodwch yr enghreifftiau sydd wedi'u tanlinellu yn y darn, gan ofyn i'r dysgwyr feddwl am enghreifftiau tebyg. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr wneud yr ymarferion yn eu gwrslyfrau (mewn paru), gan droi at yr adran Help llaw am arweiniad.

Wrth fynd dros yr Help Llaw, gallech hefyd dynnu sylw at ddefnydd o 'sy':

Bydd sy'n yn dilyn Pwy/Beth/Faint mewn cwestiwn os bydd enw amhendant, ansoddair, berfenw neu arddodiad:

Pwy sy'n athro?

Pwy sy'n gyflym?

Beth sy'n digwydd?

Faint sy ar y bws?

Dyma'r atebion:

1. Ble/Lle mae papurau'r cyfarfod? Maen nhw wedi diflannu.

2. Sut mae dy fam? Cofia fi ati hi.

3. Pwy yw/ydy rheolwr newydd y tîm?

4. Pwy mae'r rheolwr newydd wedi'i ddewis ar gyfer y gêm?

5. Beth mae e'n hoffi ei wneud ar fore Sadwrn?

6. Pam mae e'n cwyno eto?

7. Beth yw/ydy'r ateb i'r cwestiwn?

8. Sut mae injan y car yn gweithio?

9. Beth mae hi'n gobeithio ei wneud ar ôl graddio?

10. Pam maen nhw wedi diffodd y goleuadau?

11. Gofynna iddo fe/fo beth yw/ydy ei hoff liw.

12. Faint yw/ydy cost y llyfr?

13. Pryd mae cyfarfod cyntaf y tymor?

14. Faint mae hi'n ei godi am wersi piano?

Atebion posib ar gyfer y dasg cyfieithu:

1. *Who is the author of this book?*

Pwy yw/ydy awdur y llyfr hwn?

2. *How's the weather today?*

Sut mae'r tywydd heddiw?

3. *Where is the library in this town?*

Ble/Lle mae'r llyfrgell yn y dref hon?

4. *How do these children travel to school?*

Sut mae'r plant hyn yn teithio i'r ysgol?

5. *Why is the bell ringing?*

Pam mae'r gloch yn canu?

Cam 3 – Cwis i ymarfer ‘mae’ mewn cwestiynau sy’n dechrau ag arddodiaid.

I atgyfnerthu patrwm cwestiynau sy’n dechrau ag arddodiaid, gwnewch y cwis syml isod gyda’r dosbarth. Gallant weithio mewn paru neu grwpiau i ateb y cwestiynau. Dylid addasu’r cwestiynau pan fyddant wedi dyddio (gan sicrhau eu bod yn cynnwys **mae**).

1. Am beth mae Alexander Bell yn enwog? (dyfeisio’r ffôn)
2. O ble mae Tom Jones yn dod? (Trefforest, ger Pontypridd)
3. I bwy mae David Walliams yn ysgrifennu? (plant yn bennaf)
4. At bwy yn y papur newydd mae pobl yn ysgrifennu? (y golygydd)
5. Ar beth mae sêr Gogglebox yn edrych? (rhaglenni teledu)
6. Dros bwy mae Gareth Bale yn chwarae? (Cymru a Real Madrid)
7. Pryd mae Gŵyl San Steffan? (Rhagfyr y 26ain)
8. Ar ba raglen mae Huw Edwards fel arfer? (News at 10)
9. Ym mha ddinas mae’r Sagrada Familia? (Barcelona)
10. Ar ba ddiwrnod mae pobl UDA yn bwyta twrci? (Diolchgarwch; y pedwerydd dydd lau ym mis Tachwedd)

Ar ôl gwneud y cwis, rhowch yr atebion i'r dysgwyr a gofynnwch iddynt gofio'r cwestiynau. Yna, rhowch gopi o Atodiad 1 i'r parau / grwpiau, a gofynnwch iddynt feddwl am gwestiynau ar gyfer yr atebion a nodir. Ceir cwestiynau posib isod; enghreifftiau yn unig ydynt oherwydd y gellid gofyn llawer o wahanol gwestiynau i sbarduno rhai atebion.

1. Am beth mae Alexander Fleming yn enwog?

Darganfod penicillin

2. Dros ba wlad mae Ronaldo yn chwarae?

Portiwgal

3. Ym mha ffilm Disney mae'r ddwy chwaer, Anna ac Elsa?

Frozen

4. Pryd mae Calan Gaeaf?

Hydref yr unfed ar ddeg ar hugain

5. O ble mae Michael Sheen yn dod?

Port Talbot

6. At bwy mae plant bach yn ysgrifennu llythyr cyn y Nadolig?

Siôn Corn

7. Am ba ddewin mae J.K. Rowling yn ysgrifennu?

Harry Potter

8. Ym mha wlad mae'r Gaeltacht?

Iwerddon

Cam 4 – Darllen

Faint o siaradwyr Cymraeg sydd yn y byd?

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Darllen. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i ateb y cwestiynau sy'n seiliedig ar y darn.

1. Beth yw'r tri phrif bwynt yn yr erthygl?

Dylai'r dysgwyr nodi tri o'r canlynol:

- Mae map rhyngweithiol ar y we sy'n dangos ble mae siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg dros y byd.
- Mae'r un cwmni hefyd wedi creu map siaradwyr Gaeleg a Gwyddeleg.

- Mae'r map wedi cael ymateb gwych, gyda thros 500 o gofnodion ar ei ddiwrnod cyntaf.
- Nod y map yw cysylltu siaradwyr Cymraeg â'i gilydd.
- Mae llawer o bobl yn dysgu Cymraeg, Gaeleg neu Wyddeleg oherwydd bod yr ieithoedd hynny'n rhan o'u hunaniaeth genedlaethol.

2. Rhyngweithiol yw *interactive*. Gyda'ch partner, ceisiwch gyfieithu'r geiriau hyn. Cofiwch am y treigladd meddal ar ôl rhyng.

to interact	<u>rhyngweithio</u>	international	<u>rhyngwladol</u>
interface	<u>rhyngwyneb</u>	internet	<u>rhyngrwyd</u>

3. Mae'r erthygl yn dweud bod "siaradwyr Cymraeg rhugl i'w canfod ar bum cyfandir." Allwch chi enwi pum cyfandir yn Gymraeg? Trafodwch gyda'ch partner. Dylai'r dysgwyr enwi pump o blith y rhain: Affrica, Asia, Ewrop, Gogledd America, De America, Awstralia, Antarctica.

4. Allwch chi feddwl am eiriau eraill sy'n gysylltiedig â'r ansoddair calonogol? Nodwch nhw yn y blwch isod.

Atebion posib: calon, digalon, calondid, digalondid, calonnog, calonogi.
Gallech hefyd drafod ymadroddion e.e. calon y gwir, tor calon, codi calon.

Ceir llawer o gwestiynau i sbarduno trafodaeth yn yr adran Siaradwch. Gallech hefyd, os oes gennych gyswllt â'r we yn eich dosbarth, edrych ar y wefan a drafodir yn yr erthygl: **<http://braw.media/help-map-the-welsh-language-around-world/>**

Os oes gennych chi neu eich sefydliad gysylltiad â dysgwyr Cymraeg neu siaradwyr Cymraeg mewn gwlad dramor, efallai y byddai modd i chi drefnu sgwrs â nhw trwy Skype neu ddull arall.

Cam 5 – Gwrando

Cofio – John Hardy yn holi Mike Reynolds

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau Gwrando. Mae'n bosib y bydd y darn yn heriol i ddysgwyr o'r gogledd, felly caniatewch ddigon o amser ar gyfer y dasg hon.

Dyma atebion y cwestiynau:

1. Pam penderfynodd Mike Reynolds fynd i Awstralia?

Roedd e wedi blino ar wneud yr un peth bob wythnos (chwarae rygbi yn yr Hendy, chwarae snwcer yn y Bont (Pontarddulais).

2. Oedd Mike Reynolds yn deithiwr profiadol?

Nac oedd, doedd ganddo ddim pasbort hyd yn oed. Roedd wedi bod ar drip i Lundain, ond dyna'r cyfan.

3. Nodwch ddau beth rydyn ni'n ei ddysgu am deulu Mike Reynolds yn y sgwrs yma.

Dylai'r dysgwyr nodi dau o'r canlynol: Bu farw tad Mike Reynolds pan oedd e'n ddwy oed; Mike oedd y nawfed o ddeg o blant; roedden nhw'n deulu tlawd; roedd un o'i frodyr wedi bod yn y fyddin.

4. Sut roedd Mike Reynolds yn teimlo wrth adael gorsaf Abertawe?

Roedd Mike Reynolds yn teimlo'n hiraethus yn barod, ac yn meddwl am ddychwelyd adref.

5. Beth oedd yn digwydd os oeddech chi'n aros llai na dwy flynedd yn Awstralia?

Roedd yn rhaid i chi dalu arian yn ôl i Lywodraeth Awstralia.

6. Sut roedd bywyd ar y llong?

Roedd bywyd yn braf ar y llong ac roedd e'n bwyta llawer o fwyd.

Mae Mike Reynolds yn defnyddio llawer o eiriau ac ymadroddion tafodieithol. Ydych chi'n gwybod beth yw'r geiriau sydd wedi'u tanlinellu mewn Cymraeg safonol? Trafodwch gyda'ch partner.

O'n i'n ware rygbi

chwarae

Dyna beth nethes i

wnes i

Dim ond yn fam oedd yn fyw

fy mam

Ges i fencyd suitcase

benthg

Y costau i hala chi mas 'na

anfon

Es i ma's ar y bad, P&O Liner

cwch / llong

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth ar y cwestiynau yn y gwerslyfr, ac unrhyw beth arall a fydd wedi codi yn y darn.

Cam 6 – Darllen ac ymchwilio

Bydd y dosbarth yn dysgu am gymunedau Cymreig Ohio trwy ddarllen, trafod a rhannu gwybodaeth.

Rhannwch eich dosbarth yn chwe grŵp neu'n chwe phâr, a rhowch un cerdyn ffeithiau Cymru-Ohio i bob grŵp / pâr (Atodiad 2). Os yw eich dosbarth yn fach, bydd rhaid rhoi mwy nag un cerdyn i bob grŵp / pâr.

Er mwyn ateb y cwestiynau yn y gwerslyfrau, rhaid i'r grwpiau gasglu gwybodaeth trwy holi a thrafod gyda grwpiau eraill.

Dyma atebion y cwestiynau:

1. Beth ddigwyddodd yng Nghymru rhwng 1801 ac 1901?

Bu twf mawr yn y boblogaeth, o hanner miliwn yn 1801 i ddwy filiwn yn 1901.

2. Sut roedd crefydd ac iaith landlordiaid yn wahanol i'w tenantiaid?

Roedd y landlordiaid yn eglwyswyr ac yn siarad Saesneg. Roedd y tenantiaid yn gapelwyr ac yn siarad Cymraeg.

3. Pryd sefydlwyd cymuned Gymraeg gyntaf Ohio, ac o ble roedd y sefydlwyr wedi dod?

Sefydlwyd y gymuned Gymraeg gyntaf yn 1795, gan bobl o Lanbryn-mair.

4. Pwy oedd John Jones, Tirbach, a beth wnaeth e?

Perchennog tafarn y Ship ym mhentref Pennant oedd John Jones. Arweiniodd y criw cyntaf o Geredigion i Ohio.

5. Beth yw arwyddocâd y rhif 11,000?

Erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif, roedd dros 11,000 o Gymry wedi ymfudo i Ohio.

6. Ble roedd yr ymfudwyr yn cynnal gwasanaethau crefyddol i ddechrau?

Roedden nhw'n cynnal gwasanaethau crefyddol yn eu cartrefi neu mewn adeiladau fel ysgubordai.

7. Beth ddigwyddodd yn Granville a Newark yn 1842?

Cynhaliwyd cymanfa ganu hir iawn, a barodd am ddeuddeg diwrnod.

8. Mae casgliad mawr o raglenni eisteddfodau yn Amgueddfa Gymreig Oak Hill.

9. Enwch ddau beth mae clybiau a chymdeithasau Cymreig Ohio yn eu gwneud pan maen nhw'n dod at ei gilydd.

Atebion posib: te prynhawn, picnic Cymreig, noson lawen, dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

10. Beth ddigwyddodd yn Aberaeron ac Oak Hill yn 1979?

Plannwyd derwen yn y ddau le i goffáu'r ymfudo o Geredigion i Ohio.

Ar ôl canfod a nodi'r holl atebion, trafodwch y cwestiynau a geir yn y gwerslyfr. Yna, rhannwch y dosbarth yn grwpiau, a rhowch gopi o Atodiad 3 i bob grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y lluniau yn yr atodiad, a dewis y llun sy'n cynrychioli Cymru orau iddyn nhw. Os nad oes unrhyw lun addas yn eu plith yn eu barn nhw, dylent esbonio pam, a disgrifio'r ddelwedd neu'r lleoliad sy'n cyfleu Cymru orau iddyn nhw.

Cam 7 – Gwyllo a gwrando

Ar y cof bach, ceir fideo o'r gantores Siân James yn canu'r gân Hiraeth.

Mae geirfa a rhai esboniadau yn y gwerslyfr, ond peidiwch â threulio gormod o amser yn esbonio'r cyfan. Mwynhau'r perfformiad yw'r nod, a fydd gobeithio yn arwain at sgwrsio rhydd ynglŷn â'r gair 'hiraeth'.

Cam 8 - Adolygu geirfa

Ewch dros eirfa Uned 25, gan ofyn i'r dysgwr ymglyfarwyddo â'r geiriau newydd cyn cychwyn y gwaith ar yr uned.

Atodiad 1

Crëwch gwestiynau ar gyfer yr atebion hyn. Rhaid i'r cwestiynau ddechrau ag arddodiaid.

1.?

Darganfod *penicillin*

2.?

Portiwgal

3.?

Frozen

4.?

Hydref yr unfed ar ddeg ar hugain

5.?

Port Talbot

6.?

Siôn Corn

7.?

Harry Potter

8.?

Iwerddon

Atodiad 2 – Cardiau ffeithiau Cymru-Ohio

Cerdyn 1 – Rhesymau dros ymfudo i Ohio

Geirfa: ymfudo landlordiaid tenantiaid
eglwyswr capelwr cynhaeaf (cynaeafau)

- Buodd cynnydd mawr ym mhoblogaeth Cymru, o hanner miliwn yn 1801 i ddwy filiwn erbyn 1901. Roedd tir yn brin yng nghefn gwlad achos hynny.
- Tenantiaid tlawd oedd llawer o'r bobl a **ymfudodd** i Ohio. Roedd gan **landlordiaid** ddylanwad mawr ar fywydau eu **tenantiaid**. Roedd tai tenantiaid yn wael, a'r rhenti'n uchel. Gallai landlordiaid daflu tenantiaid allan heb rybudd. Doedd dim pleidlais na hawliau gan denantiaid.
- Roedd landlordiaid yn **eglwyswyr** ac yn siarad Saesneg. Roedd y tenantiaid yn **gapelwyr** ac yn siarad Cymraeg. Roedd rhaid i denantiaid dalu treth i Eglwys Loegr o'r enw Y Degwm.
- Yn 1815 ac 1816, cafwyd **cynaeafau** gwael yng Nghymru.

Cerdyn 2 – Dechrau ymfudo

Geirfa: sefydlu

- Yn 1795, aeth pobl o Lanbryn-mair, Sir Drefalwyn, i ardal Cincinnati a **sefydlu**’r Gymuned Gymraeg gyntaf yn Ohio, sef Paddy’s Run.
- Rhwng 1818 ac 1838, aeth dros 3,000 o ymfudwyr o Bennant, Tregaron, Llangeitho, Llangwryfon, Trefilan a Llanddeiniol yng Ngheredigion i Ohio.
- Roedd unigolion dylanwadol yn arwain yr ymfudo. Cafodd y criw cyntaf o Geredigion eu harwain gan John Jones, Tirbach, perchennog Tafarn y Ship ym mhentref Pennant.
- O 1830 ymlaen, dechreuodd pobl ymfudo o ardaloedd diwydiannol i weithio mewn diwydiannau yn Ohio. Erbyn dechrau’r ugeinfed ganrif, roedd dros 11,000 o Gymry wedi ymgartrefu yn Ohio.

Cerdyn 3 – Capeli Cymraeg**Geirfa: ffurfiol****ysgubor(iau)****caban(au)****urddasol**

- Yn fuan ar ôl cyrraedd, dechreuodd y Cymry gynnal gwasanaethau crefyddol **ffurfiol** yn Gymraeg. I ddechrau, roedden nhw'n cynnal gwasanaethau yn eu cartrefi, neu mewn adeiladau mwy e.e. **ysguboriau** a **chabanau** pren. Wrth i'r cynulleidfaoedd dyfu, adeiladwyd capeli **urddasol** ar hyd a lled Ohio.
- Cymraeg oedd iaith y gwasanaethau am flynyddoedd maith, ac mewn rhai capeli, roedden nhw'n uniaith Gymraeg tan ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Cerdyn 4 – Y Gymanfa Ganu**Geirfa: Cymanfa ganu**

- Roedd y **Gymanfa Ganu** flynyddol yn ddigwyddiad pwysig yng nghalendr Cymry America, ac yn tynnu pobl at ei gilydd.
- Cynhaliwyd Cymanfa Ganu gyntaf Ohio yn Cincinnati yn 1833, a daethon nhw'n fwy poblogaidd wrth i fwy o bobl symud yno.
- Yn 1842 cynhaliwyd Cymanfa Ganu hir iawn yn Granville a Newark. Parodd am 12 diwrnod!
- Mae Cymanfaoedd Canu'n boblogaidd o hyd yn Columbus, Venedocia, Gomer, Niles ac ardal Oak Hill.

Cerdyn 5 – Eisteddfodau**Geirfa: talaith**

- Yn Amgueddfa Gymreig Oak Hill, mae casgliad mawr o raglenni eisteddfodau, sy'n dangos pa mor boblogaidd oedd yr ŵyl a pha mor awyddus oedd yr ymfudwyr i ddathlu eu diwylliant mewn gwlad arall.
- Mae'n debyg mai Youngstown oedd lleoliad eisteddfod gyntaf Ohio yn 1860. Ar ôl hynny, dechreuwyd eisteddfodau ar draws y dalaith i gyd.
- Daeth 3,000 o bobl i Eisteddfod Gomer yn 1895.
- Erbyn canol yr ugeinfed ganrif doedd yr eisteddfodau ddim mor boblogaidd, ond cynhelir Eisteddfod Ysgol Jackson bob blwyddyn ers 1924.

Cerdyn 6 – Cysylltiadau heddiw**Geirfa: noson lawen daucanmlwyddiant**

- Mae clybiau a chymdeithasau Cymreig ar draws y dalaith yn cynnal digwyddiadau rheolaidd i ddod â Chymry America at ei gilydd i gael te prynhawn, picnic Cymreig, **noson lawen** neu i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi.
- Yn y 1990au sefydlwyd Canolfan Madog ym Mhrifysgol Rio Grande i godi ymwybyddiaeth o gyfraniad y Cymry i hanes Ohio ac i godi proffil Cymru a'r Gymraeg yn y gymuned.
- Yn 1979, plannwyd derwen yn Aberaeron i gofio am bobl yr ardal a aeth i Ohio. Gwnaethpwyd yr un peth, yr un diwrnod, y tu allan i Amgueddfa Oak Hill yn Ohio.
- Mae gwefan Cymru-Ohio yn cadw cysylltiad rhwng Cymru ac Ohio. Menter ar y cyd rhwng Evan ac Elizabeth Davis o Oak Hill a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yw'r wefan.
- Yn 2018, cynhaliwyd llawer o ddigwyddiadau yn Aberaeron a'r cylch i nodi **daucanmlwyddiant** yr ymfudo o Geredigion i Ohio.

Atodiad 3 – Lluniau sy'n cynrychioli Cymru

























Uned 25 – Canllaw i'r Tiwtor

Y mae'r uned hon yn hollol wahanol am ei bod yn dangos sut y bydd unedau Uwch 3 yn edrych. Canolbwyntir ar gyflwyno elfennau gwahanol Arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch – ond defnyddir y cwestiynau gwahanol sy'n ffurfio'r arholiad i addysgu a sbarduno siarad, yn ogystal â phrofi. Felly, ceir dau gwestiwn o'r prawf Llafar, dau gwestiwn o'r papur Gwybodaeth o laith ac un cwestiwn o'r papur Gwranddo. Ceir cyfle i roi cynnig ar gwestiynau o'r papurau Darllen ac Ysgrifennu yn y Gwaith Cartref. Yn ogystal â'r cwestiynau arholiad, ceir dwy adran arall:

laith Ffurfiol – cyflwyniad fesul pwnc i'r laith Lenyddol er mwyn meithrin dealltwriaeth y dysgwyr.

Cefndir – cyflwyniad i agweddau ar gefndir diwylliannol, ieithyddol neu hanesyddol Cymru ar ffurf clipiau fideo.

Cam 1 – Siarad: Mae bywyd yng nghefn gwlad yn llawer gwell

Storom Eirfa: Byddech yn disgwyl gweld geiriau megis cyfleusterau, adnoddau, ffyrdd, llygredd yn codi.

Grwpiau bach i drafod manteision ac anfanteision byw yn y wlad a'r dref. Dylid cofnodi'r rhain.

Rhannwch y dosbarth yn barau i drafod y datganiad.

Arweiniwch drafodaeth dosbarth gan gyfeirio'n ôl at bwyntiau byddwch chi wedi'u clywed gan y dysgwyr.

Cam 2 – Gwybodaeth o laith: Ailysgrifennu

Rhannwch y dosbarth yn barau i roi cynnig ar y gwaith ailysgrifennu. Dyma'r atebion.

i. Beth ydy dy broblem di?

BOD

Beth/Be sy'n bod arnat ti?

ii. Llyfrau Saesneg sy orau gan John, nid llyfrau Cymraeg.

GWELL

Mae'n well gyda/gan John lyfrau na llyfrau Cymraeg.

iii. Aethon ni i weld sawl gwlad yn ystod y daith. NIFER
Aethon ni i weld nifer o wledydd yn ystod y daith.

iv. Fi ydy perchennog y car mawr. PIAU
Fi sy biau'r car mawr.

v. Beth os dydyn ni ddim yn cael ateb gan y pennaeth? CAWN
 Beth os na chawn ni ateb gan y pennaeth?

vi. Dydy Mair ddim yn hoffi mynd am dro yng nghwmni neb arall. PEN
 Mae Mair yn hoffi mynd am dro ar ei phen ei hun.

vii. Mae Gwyn yn gweithio yn y banc o hyd. DAL
Mae Gwyn yn dal i weithio yn y banc.

viii. 'Dyn ni eisiau mynd i Bwllheli', meddai'r plant. DYWEDODD
Dywedodd y plant eu bod nhw eisiau mynd i Bwllheli.

Yna, ceir cyfres o ymarferion yn y gwrslyfr i ymarfer rhai o'r pwyntiau sy'n codi yn y brawddegau uchod: y patrwm 'Mae'n well gyda fi/gen i', cymalau negyddol, cymalau enwol cadarnhaol. Ceir Help llaw ar ddefnyddio 'dal', a brawddegau i'w cyfieithu yn y Gwaith Cartref. Y patrwm arall allai beri trafferth yw 'piau'. Felly, defnyddiwch wrthrychau sydd o gwmpas yn y dosbarth i ymarfer y cwestiwn a'r ateb:

e.e Codi cot a gofyn 'Pwy sy biau'r got/hon?' Ateb: Fi/X sy biau'r got/honno.

Gellir hepgor un neu fwy o'r ymarferion os na fydd angen eu hymarfer. Cewch chi wybod pa batrymau y bydd angen i'ch dosbarth chi eu hymarfer wrth fynd dros yr atebion yn y dosbarth.

Cam 3 – Gwrando a Deall

Ewch dros yr eirfa a nodir fel geiriau newydd.

Mae'n debyg bydd y rhan fwyaf o'r bobl yn y dosbarth wedi clywed am Richard Burton felly rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i ddweud wrth ei gilydd beth bydden nhw'n disgwyl ei weld mewn fideo am Richard Burton. Dylid cael sesiwn crynhoi.

Chwaraewch y darn ddwywiath er mwyn i'r dysgwyr gael ateb y cwestiynau. Nid oes rhaid ateb cwestiynau mewn brawddegau llawn ond yn aml ar y lefel hon mae angen brawddeg gyfan er mwyn gallu ateb yn gywir.

Ceir dau ymarfer geirfa i orffen:

Geiriau'n deillio o **dydd**: dyddiau, dyddiol, dyddiadur, diwrnod.

Rhai cyfleoliadau ar gyfer **arian**: arian mân, arian gwario, arian papur.

Rhai cyfleoliadau ar gyfer **cysiau**: cysiau preswyl, cysiau llawn amser, cysiau rhan amser, cysiau ar-lein.

Cam 4: Darllen a Siarad

Nod y cwestiwn hwn yn yr arholiad yw profi gallu'r dysgwyr i grynhoi'r prif bwyntiau. Dilynwch y camau canlynol:

- i. Rhowch y teitl i'r dysgwyr a gofynnwch iddynt ddyfalu beth yw'r pwnc.
- ii. Ewch dros yr eirfa newydd a nodir.
- iii. Darllenwch y darn.
- iv. Gofynnwch i grwpiau drafod y pum prif bwynt yn yr erthygl.
- v. Rhannwch y dosbarth yn barau a gofynnwch y cwestiynau a oedd yn rhan o'r arholiad (isod). Hyderir y bydd nifer o'r pwyntiau hyn eisoes wedi codi wrth i'r grwpiau grynhoi'r prif bwyntiau.

1. Beth ydy'r peryglon mae'r erthygl yn sôn amdany'n nhw?

Ateb: Yr anafiadau sy'n digwydd i gefn chwaraewyr rygbi wrth chwarae'r gêm.

2. Beth mae'r erthygl yn ei ddweud am rygbi merched?

Ateb: Yr awgrym fod gêm rygbi merched yn fwy call ac yn fwy diogel, ac y gallai gêm y merched ddysgu gwersi i gêm y dynion.

3. Tua faint o bobl sy'n cael eu hanafu, yn ôl yr erthygl?

Ateb: Y ffaith mai argraff yr awdur sy'n cael ei disgrifio; ei argraff/ei hargraff yw bod nifer yr anafiadau wedi codi, ond does dim ffigurau i gadarnhau hynny.

4. Pa reswm posibl dros hynny mae'r erthygl yn ei gynnig?

Ateb: Mae'n dweud bod yr anafiadau wedi cynyddu achos bod chwaraewyr rygbi yn fwy o faint / yn fwy cyhyrog nag yn y gorffennol, achos eu bod nhw'n treulio llawer o amser yn codi pwysau.

5. Ateb: Beth ydy'r ateb i'r broblem, yn ôl yr erthygl?

Yr awgrym fod angen edrych eto ar reolau'r gêm, yn arbennig yn y sgrym/sgarmes.

vi. Trafod y gosodiadau.

vii. Meddwl am bennawd arall i'r darn.

Cam 5: Gwybodaeth o iaith – dewis y ffurf gywir

Rhannwch y dosbarth yn barau i ddewis y ffurfiau cywir.

Atebion:

- | | |
|---|----|
| 1 | c |
| 2 | ch |
| 3 | a |
| 4 | b |
| 5 | a |
| 6 | a |
| 7 | c |
| 8 | b |

Yna, ceir cyfres o frawddegau i'w cyfieithu i atgyfnerthu'r pwyntiau ieithyddol a gododd yn yr ymarfer:

Y gwahaniaeth rhwng nos a noson

Rhagenw mewnl (i'w wneud)

Lluosog gŵr – gwŷr

Cyfle i wneud rhywbeth

Gradd eithaf yr ansoddair gwlyb

Cam 6: Cymraeg Ffurfiol

Rhaid pwysleisio mai pwrpas yr adran hon yw cyflwyno Cymraeg Ffurfiol i ddysgwyr fel eu bod yn dod yn gyfarwydd â'i deall, yn hytrach na'u bod yn gorfod ei defnyddio.

Cyflwyniad syml i hepgor y rhagenw mewn arddodiaid a geir yma. Ewch dros yr esboniad a rhannwch y dosbarth yn barau i weithio trwy'r ymarfer syml.

Cam 7: Gwyllo

Pwrpas yr adran olaf hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ryw agwedd ar gefndir diwylliannol, hanesyddol, ieithyddol neu lenyddol. Yma, ceir hanes sefydlu S4C. Chwaraewch y darn y tro cyntaf heb unrhyw dasg. Ar ôl gwyllo, gofynnwch i'r dysgwyr nodi y rhan y chwaraeodd y bobl a nodir. Mae'n bosib y byddant am wyllo'r darn fwy nag unwaith i gwblhau'r dasg hon. Yna, rhannwch y dosbarth yn barau i drafod dau beth a ddysgon nhw am ymgyrch sefydlu'r Sianel wrth wyllo'r clip. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Ceir gwaith Siarad i gloi'r uned.

Uned 25, Uwch 1 (mewn/yn)

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i gyfieithu'r brawddegau isod. Awgrymir cyfieithiadau ond wrth gwrs bydd cynigion eraill a fydd hefyd yn gywir.

The party was held in my friend's house.

Cynhaliwyd y parti yn nhŷ fy ffrind.

(Cafodd/Mi Gaeth/Gaeth y parti ei gynnal yn nhŷ fy ffrind.)

You will have to do the work in your own time.

Bydd rhaid i chi wneud y gwaith yn eich amser eich hun.

They are living in hope.

Maen nhw'n byw mewn gobaith.

He'll be with you in a minute or two.

Bydd e gyda ti mewn (ymhen) munud neu ddwy./Mi fydd o efo ti mewn (ymhen) munud neu dda.

She broke her arm in two places.

Torrodd hi ei braich mewn dau le.

They live in the Vale of Glamorgan/Clwyd.

Maen nhw'n byw ym Mro Morgannwg/yn Nyffryn Clwyd.

He is interested in both the jobs.

Mae diddordeb gyda fe yn y ddwy swydd./Mae gynno fo ddiddordeb yn y ddwy swydd.

In some cases, it is better to forget.

Mewn rhai achosion, mae'n well anghofio.

